

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

24/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

21/03/2023

Gwerthusiad o Gymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy: Rhan 1 (gwerthusiad proses a theori newid)

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-610-3

Gwerthusiad o Gymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy: Rhan 1 (gwerthusiad proses a theori newid)

Dr Duncan Holtom (Pobl a Gwaith)

Einir Burrowes (Ymchwil OB3) a

Nia Bryer (Ymchwil OB3)



Adroddiad Ymchwil Llawn: Holton, D; Burrowes, E; Bryer, N; (2023). *Gwerthusiad o Gymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy: Rhan 1 (gwerthusiad proses a theori newid)*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 24/2023.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-gymunedau-am-waith-chymunedau-am-waith-mwy-rhan-1-gwerthusiad-proses-theori-newid>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Joshua Parry

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn:

E-bost: ymchwilycyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o'r tablau.....	2
Rhestr o'r siartiau.....	3
Rhestr o'r ffigyrau.....	4
Geirfa	5
1. Cyflwyniad.....	7
2. Y cyd-destun polisi a chyd-destun y rhaglenni	16
3. Dull a methodoleg y gwerthusiad	22
4. Modelau cyflawni'r rhaglenni	31
5. Effaith ffactorau allanol ac ymatebion y rhaglenni iddynt.....	70
6. Cymhellion y cyfranogwyr, y cyfleoedd sydd ar gael iddynt, eu galluedd a'u hymddygiad.....	96
7. Pa mor effeithiol y cyflawnwyd y rhaglen.....	107
8. Casgliadau	137
9. Argymhellion a gwersi ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd yn y dyfodol.....	148
10. Cyfeiriadau	153
Atodiad A. Offerynnau ymchwil enghreifftiol	157
Atodiad B. Theori Newid Fanwl ar gyfer CaW a CaW+.....	165
Atodiad C. Ffynonellau data y sampl ar gyfer ymchwil ansoddol	166

Rhestr o'r tablau

Tabl 1.1. Cymunedau am Waith: Targedau Blaenoriaeth 1, 2015-2023	9
Tabl 1.2. Cymunedau am Waith: Targedau blaenoriaeth 3, 2015-2023.....	10
Tabl 1.3. Gwybodaeth gyllido ar gyfer Gweithrediadau CaW, 2015-2023.....	10
Tabl 1.4. Cyllid ar gyfer CaW+ 2018/19-2021/22	11
Tabl 3.1. Nodweddion y sampl o ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes	26
Tabl 3.2 Sampl arfaethedig o staff gweithredol a phartneriaid ym mhob ardal a gynhwyswyd yn y gwaith maes	28
Tabl 3.3. Sampl gwirioneddol o staff gweithredol a phartneriaid ym mhob ardal	28
Tabl 7.1. Targedau Cymunedau am Waith a addaswyd ar gyfer 2023	110
Tabl 7.2. Canran y cyfranogwyr CaW â rhwystrau dethol, Chwefror 2022.....	114
Tabl 7.3. Canran y cyfranogwyr CaW â mwy nag un rhwystr*, Chwefror 2022.....	115
Tabl 7.4. Canran y cyfranogwyr CaW a CaW+ a chanddynt rhwystrau dethol, mae data CaW ar gyfer y cyfnod Mai 2015 i Chwefror 2022; mae data CaW+ ar gyfer y cyfnod Ebrill 2020-Mawrth 2022, o gymharu â phoblogaeth Cymru	116
Tabl 7.5. Targedau CaW wedi'u haddasu ar gyfer nifer y cleientiaid sy'n cael swydd	117
Tabl 7.6. Canran cyfranogwyr CaW a chanddynt nodweddion gwahanol a gafodd swyddi, Mai 2015 – Chwe 2022	124
Tabl 7.7. Canran cyfranogwyr CaW+ a chanddynt nodweddion gwahanol a gafodd swyddi Ebrill 2021- Medi 2022	125
Tabl 7.8. Deilliannau i gyfranogwyr CaW ar ôl gadael y rhaglen (Mai 2015 - Chwefror 2022).	127
Tabl C.1 Perfformiad CaW+ yn 2021/22 yn unig, cysylltiadau a deilliannau swyddi a gyflawnwyd erbyn Rhagfyr 2021 fel canran o darged Ebrill 2022 a Dechrau Perfformiad Tîm CaW - Tachwedd 2021, cysylltiadau a deilliannau swyddi a gyflawnwyd fel canran o'r proffil	167
Tabl C.2. Ardaloedd ALI wedi'u rhestru yn ôl effaith COVID 19 (cynnydd mewn diweithdra rhwng 2019 (Ionawr-Rhagfyr) a 2020 (Ionawr-Rhagfyr)).....	169

Rhestr o'r siartiau

Siart 4.1. Nifer cyfranogwyr CaW sy'n economaidd anweithgar* a gwblhaodd brofiad gwaith neu leoliad gwirfoddoli o gymharu â'r targedau (Ebrill 2015 - Rhagfyr 2022).	52
Siart 4.2. Nifer cyfranogwyr CaW sy'n ddi-waith yn yr hirdymor* a gwblhaodd brofiad gwaith neu leoliad gwirfoddoli o gymharu â'r targedau (Ebrill 2015 - Rhagfyr 2022).	53
Siart 7.1. Perfformiad cronol rhaglen CaW yn erbyn targedau ymgysylltu ar gyfer cyfranogwyr Economaidd Anweithgar a'r rhai Di-waith Hirdymor (Blaenoriaeth 1) a Phobl Ifanc sy'n NEET (Blaenoriaeth 3), Mawrth 2019, Mawrth 2020, a Thachwedd 2021	108
Siart 7.2. Perfformiad cronol rhaglen CaW yn erbyn y targedau ymgysylltu, (Mawrth 2019, Mawrth 2020 a Thachwedd 2021) GCC ac DC	109
Siart 7.3. Cyfanswm nifer y cysylltiadau CaW y flwyddyn (Ebrill 2018-Mawrth 2019, Ebrill 2019-Chwefror 2020, ac Ebrill i Fawrth 2021)	109
Siart 7.4. Disgwyliadau Llywodraeth Cymru o CaW* a pherfformiad gwirioneddol y rhaglen: cysylltiadau â chyfranogwyr	111
Siart 7.5. Nifer y cleientiaid a gafodd swyddi drwy CaW rhwng Ebrill 2018-Mawrth 2019, Ebrill 2019-Chwefror 2020 ac Ebrill 2021-Mawrth 2022	118
Siart 7.6. Perfformiad cronol rhaglen CaW yn erbyn y targedau ar gyfer nifer y Cyfranogwyr Economaidd Anweithgar a'r rhai sy'n Ddi-waith yn yr Hirdymor (Blaenoriaeth 1) a Phobl Ifanc sy'n NEET (Blaenoriaeth 3) a gafodd swyddi, Mawrth 2019, Mawrth 2020, a Thachwedd 2021	119
Siart 7.7. Perfformiad CaW yn erbyn y targedau ar gyfer nifer y Cyfranogwyr Economaidd Anweithgar a'r rhai sy'n Ddi-waith yn yr Hirdymor (Blaenoriaeth 1) a Phobl Ifanc sy'n NEET (Blaenoriaeth 3) a gafodd swyddi yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Mawrth 2020 a Thachwedd 2021	120
Siart 7.8. Disgwyliadau Llywodraeth Cymru a pherfformiad gwirioneddol y rhaglen: nifer cleientiaid CaW+ a gafodd swyddi	121

Rhestr o'r ffigyrau

Ffigur 2.1: Cyfraddau diweithdra ILO yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn (%)... 16	16
Ffigur 2.2. Cyfraddau Anweithgarwch Economaidd (ac eithrio myfyrwyr) yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn (%) 17	17
Ffigur 4.1. Theori newid wedi'i symleiddio ar gyfer CaW a CaW+..... 32	32
Ffigur 5.1. Un pwynt mynediad a phwyntiau mynediad lluosog i raglenni cymorth cyflogaeth 88	88
Ffigur 6.1. Model newid ymddygiad COM-B 96	96
Ffigur 7.1. Ffactorau ategol a oedd yn cynorthwyo cleientiaid i symud ymlaen i gyflogaeth 122	122
Ffigur 7.2. Cyfyngiadau allweddol ar symud ymlaen i gyflogaeth..... 123	123

Geirfa

Acronym/Allweddair	Diffiniad
AIF	Y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol
ALI	Awdurdod Lleol
AP	Amcan Penodol
APS	Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
ASD	Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth
CAB	Canolfan Cyngor ar Bopeth
CaW	Cymunedau am Waith
CaW+	Cymunedau am Waith a Mwy
CCA	Corff Cyflawni Arweiniol
CG	Cymunedau yn Gyntaf
CGGC	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
CGS	Cyngor Gwirfoddol Sirol
COM-B	Gallu, Cyfle, Cymhelliant – Ymddygiad
COVID	Clefyd y Coronafeirws
CSCS	Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu
CV	Curriculum Vitae
DBS	Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
DC	Dwyrain Cymru
DLUHC	Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau
DU	Y Deyrnas Unedig
DWP	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
EBS	System Archebu Electronig
ESA	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
ESF	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
ESOL	Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill
GAVO	Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
GCC	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd
GIG	Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
HGV	Cerbyd Nwyddau Trwm
IB	Budd-dal Analluogrwydd
IES	Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth
ILO	Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol

IMAP	Cynllun Gweithredu Pwyslais ar Incwm
IS	Cymhorthdal Incwm
JCP	Canolfan Byd Gwaith
JETS	Cymorth wedi'i Dargeddu i Gael Swydd
JSA	Lwfans Ceisio Gwaith
Môn CF	Cymunedau Ymlaen Môn
N	Nifer
NEET	Y Rhai Nad Ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant
NEPT	Timau Cyflogwyr a Phartneriaethau Cenedlaethol
OBR	Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol
OHID	Y Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau Iechyd
ONS	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
PaCE	Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth
SIA	Awdurdod y Diwydiant Diogelwch
UE	Undeb Ewropeaidd
WEFO	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
YEPF	Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid

1. Cyflwyniad

- 1.1. Ym mis Medi 2022, penododd Llywodraeth Cymru Ymchwil OB3, mewn cydweithrediad â People and Work, IFF Research, Prifysgol Caerdydd a Dateb, i gynnal gwerthusiad o Gymunedau am Waith (CaW) a Chymunedau am Waith a Mwy (CfW+).
- 1.2. Nod cyffredinol y rhaglenni yw cynyddu cyflogadwyedd (a chyflogaeth) ymysg oedolion sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth, a lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Disgrifir y ddarpariaeth, y cyllid a'r targedau ar gyfer y ddwy raglen yn fanylach isod.

Cymunedau am Waith

- 1.3. Ymyrraeth marchnad lafur a noddir gan Lywodraeth Cymru ac a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yw CaW. Fe'i sefydlwyd yn 2015 ac mae'n canolbwyntio ar gynyddu cyflogadwyedd a chyflogaeth ymysg y rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur. Wedi'i gynllunio a'i reoli gan Lywodraeth Cymru a'i ddarparu mewn cydweithrediad â Chanolfan Byd Gwaith (JCP) yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), awdurdodau lleol (ALLau) a'r trydydd sector (sy'n gweithredu fel Cyrff Cyflawni Arweiniol (CCA))¹, nod y gwasanaeth yw ategu yn hytrach na dyblygu darpariaeth bresennol DWP.
- 1.4. Mae'r rhaglen yn gweithio gyda phartneriaid, yn fwyaf nodedig JCP, ac mae atgyfeiriadau'n destun proses frysbenneu er mwyn canfod cymhwystra'r chyfranogwyr ac asesu lefel y cymorth sydd ei angen arnynt, fel y gellir neilltuo chyfranogwyr i:
 - Gynghorwyr Cyflogaeth Cymunedol, sef cynghorwyr cyflogaeth profiadol sydd ar secondiad o DWP i weithio gyda'r rhai yr aseswyd bod angen y lleiaf o gymorth arnynt; a
 - Mentoriaid Ieuenctid ac Oedolion sydd ar secondiad o awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector i weithio gyda chyfranogwyr yr aseswyd bod angen 12 mis o gymorth arnynt cyn y byddant yn barod i gael swydd, sef cymorth dwysach na'r hyn a ddarperir gan gynghorwyr.
- 1.5. Mae cynghorwyr a mentoriaid yn anelu at gwrdd â chyfranogwyr yn rheolaidd, gan feithrin perthynas â nhw, ennyn eu hymddiriedaeth a darparu cymorth mentora dwys

¹ CCA, a sefydlwyd yn wreiddiol i gyflawni'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, sy'n gyfrifol am ddarparu CaW a CaW+ ym mhob ALI.

a chyngor cyflogaeth arbenigol. Maent hefyd yn hwyluso mynediad i hyfforddiant, lleoliadau gwaith a/neu gyfleoedd gwirfoddoli a chyfeirio pobl at wasanaethau cymorth, i helpu i gryfhau hunanhyder a chymhelliant y cyfranogwyr a'u helpu i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth (fel chwilio am swydd mewn ffordd aneffeithiol, lefel isel o sgiliau galwedigaethol a/neu sgiliau meddal neu ddim sgiliau o'r fath o gwbl). Yn ogystal â hynny, yn 2019, cyflwynwyd y gallu i ddarparu hyd at dri mis o gymorth yn y gwaith i'r rhai a gefnogir drwy CaW yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt i gynnwys eu cyflogaeth ar ôl iddynt ddechrau gweithio.

Targed a grwpiau targed

1.6. Mae CaW yn darparu cymorth cyflogaeth mewn 52 o ardaloedd a oedd gynt yn glystyrau Cymunedau yn Gyntaf (CG)² ledled Cymru, sy'n cynrychioli'r cymunedau â'r amddifadedd mwyaf (fel y'u diffinnir gan Fyngai Amddifadedd Lluosog Cymru)³. Mae'n canolbwyntio ar dri grŵp gwahanol o gyfranogwyr:

- pobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor sy'n 25 oed a throsodd, sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth⁴;
- pobl economaidd anweithgar 25 oed a throsodd sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth⁵; a
- pobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET).⁶

Rhaglenni Gweithredol ESF yng Nghymru

Darperir cyllid ESF yng Nghymru drwy ddwy Raglen Weithredol: Rhaglen ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCC) 2014-2020 a Rhaglen ESF Dwyrain Cymru (DC) 2014-2020. Mae'r ddwy Raglen Weithredol yn seiliedig ar Flaenoriaethau sy'n disgrifio nod lefel uchel y Rhaglen Weithredol. Mae CFW yn datrys dau o'r blaenoriaethau hyn:

- Blaenoriaeth 1 (B1): Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy; a

² Ceir manylion yn [StatsCymru: Mapiau clwstwr](#)

³ MALIC yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach ac mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o wahanol fathau o amddifadedd, megis incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg a mynediad i wasanaethau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru LLYW.CYMRU](#) Roedd yr ardaloedd CG yn seiliedig ar MALIC 2011.

⁴ Mae hyn yn mynd i'r afael â Blaenoriaeth 1 ESF ac Amcanion Penodol 1.1. ac 1.2 yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn y drefn honno.

⁵ Mae hyn yn mynd i'r afael â Blaenoriaeth 1 ESF ac Amcanion Penodol 1.1. ac 1.2 yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn y drefn honno.

⁶ Mae hyn yn mynd i'r afael â Blaenoriaeth 3 ESF ac Amcan Penodol 3.3. yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

- Blaenoriaeth 3 (B3): Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc.

Mae gan bob un o'r Blaenoriaethau hyn gyfres o Amcanion Penodol (AP) sy'n amlinellu'r angen economaidd-gymdeithasol a'r canlyniadau penodol i'w cyflawni drwy fuddsoddiad ESF. Mae CaW yn mynd i'r afael ag:

- Amcan Penodol 1.1. o Flaenoriaeth 1 ar gyfer DC ac Amcan Penodol 1.2 o Flaenoriaeth 1, ar gyfer GCC: Cynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n economaidd anweithgar ac sy'n ddi-waith yn yr hirdymor sy'n 25 oed a throsodd sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth; a
- Amcan Penodol 3.1. o Flaenoriaeth 1 ar gyfer DC a GCC: Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant

- 1.7. Mae tablau 1.1. ac 1.2. yn amlinellu'r targedau ar gyfer pob grŵp ym mhob un o'r pedwar gweithrediad a ariannwyd gan ESF. Yn 2019, cafodd y rhaglen CaW ei hymestyn tan fis Mawrth 2023 ac addaswyd rhai o'r targedau i adlewyrchu'n well berfformiad y rhaglen ers 2015. Yn 2022, estynnwyd y rhaglen eto gyda'r cyfnod cyflawni'n parhau tan fis Mawrth 2023 cyn i'r rhaglen ddod i ben ym mis Hydref 2023.

Tabl 1.1. Cymunedau am Waith: Targedau Blaenoriaeth 1, 2015-2023

	GCC	DC	Cyfanswm
Cysylltiadau – Economaidd Anweithgar	20,312	6,771	27,083
Cysylltiadau – Di-waith Hirdymor	10,464	3,488	13,952
Swyddi a Gafwyd – Economaidd Anweithgar	4,655	1,444	6,099
Swyddi a Gafwyd – Di-waith Hirdymor	2,767	939	3,706
Chwilio am Swyddi - Economaidd Anweithgar	1,672	437	2,109
Cymhwyster neu Ardystiad sy'n Berthnasol i Waith - Economaidd Anweithgar	3,414	1,163	4,577
Cymhwyster neu Ardystiad sy'n Berthnasol i Waith - Di-waith Hirdymor	2,459	679	3,138
Cwblhau profiad gwaith neu leoliad gwirfoddoli - Economaidd Anweithgar	1,006	361	1,367
Cwblhau profiad gwaith neu leoliad gwirfoddoli - Di-waith Hirdymor	874	260	1,134

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Tabl 1.2. Cymunedau am Waith: Targedau blaenoriaeth 3, 2015-2023

	GCC	DC	Cyfanswm
Pobl NEET 16-24 oed wedi cofrestru – Gwrywod	6,293	1,809	8,102
Pobl NEET 16-24 oed wedi cofrestru – Benywod	4,656	1,130	5,786
Pobl NEET 16-24 oed yn ennill cymwysterau ar ôl gadael	880	271	1,151
Pobl NEET 16-24 oed yn cael addysg neu hyfforddiant ar ôl gadael	540	246	786
Pobl NEET 16-24 oed yn cael swydd ar ôl gadael	5,292	1,359	6,651

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Cyllid ESF

- 1.8. Ariennir CaW ar y cyd gan ES drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), Llywodraeth Cymru a DWP. Mae'r cyllid ar gyfer pob gweithrediad CaW ar gyfer y cyfnod 2015-2023 wedi'i nodi yn Nhabl 1.3. isod.

Tabl 1.3. Gwybodaeth gyllido ar gyfer Gweithrediadau CaW, 2015-2023

Gweithrediad	Cyfanswm cyllid ESF (£)	Cyfanswm Cost y Gweithrediad (£)
AP 1.2 GCC	35,608,586	60,566,651
AP 3.1. GCC	17,647,624	24,925,997
AP 1.1 DC	8,591,985	18,558,088
AP 3.1 DC	4,291,153	7,567,147
Cyfanswm	66,139,348	111,617,883

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 1.9. Fel rhaglenni ESF, rhaid i'r pedwar gweithrediad fynd i'r afael â themâu trawsbynciol drwy integreiddio Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd⁷, a Datblygu Cynaliadwy, yn ogystal â gweithredu i Drechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.
- 1.10. Yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, mae rhaglenni presennol ESF Cymru i fod i ddod i ben yn 2023 (ac mae CaW i fod i ddod i ben yr adeg honno). Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynlluniau ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y

⁷ Y diffiniad o Brif Ffrydio Rhywedd a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yw 'integreiddio cydraddoldeb yn systematig ym mhob system a strwythur, pob polisi, proses a gweithdrefn, ac yn niwylant sefydliad (Rees, 1998). Mae'n ymwneud ag integreiddio safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi, cynllunio, gweithredu, monitro a gwerthuso polisiau, mesurau rheoleiddio a rhaglenni gwario, gyda'r bwriad o hyrwyddo cydraddoldeb a brwydro yn erbyn gwahaniaethau.' ([Llywodraeth Cymru, 2020c](#), tud. 7).

DU, y bwriedir iddi ddisodli cronfeydd yr UE⁸, gydag ymyriadau wedi'u cynllunio a'u darparu gan ALLau, ac mae'n nodi 'pobl a sgiliau' fel un o dair blaenoriaeth fuddsoddi'r cronfeydd ([DLUCH, 2022](#)).

Cymunedau am Waith a Mwy

- 1.11. Yn 2017, cyhoeddwyd y byddai'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf (CG) yn dod i ben, ac yn 2018 cyflwynwyd CaW+ er mwyn llenwi'r bwlch y byddai CG yn ei adael o ran y seilwaith (megis cymorth ar gyfer rheoli, adeiladau ac ymgysylltu â'r gymuned yr oedd CaW yn dibynnu arno) ac ymestyn cymorth i'r rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer CaW na rhaglenni ESF rhanbarthol eraill ac sy'n byw mewn tlodi neu mewn perygl o ddiodef tlodi. Roedd disgwyliadau cychwynnol y rhaglen (a amlinellir uchod) yn gymedrol, ond mae'r rhaglen wedi ehangu ac mae bellach yn debyg o ran maint i CaW.

Cyllid ar gyfer CaW+

- 1.12. Amlinellir cyllid blynyddol CaW+ yn Nhabl 1.4. Fel y dengys y tabl, ym mis Gorffennaf 2020, fel rhan o Ymrwymiad COVID-19 Llywodraeth Cymru i Gyflogadwyedd a Sgiliau, dyrannwyd cyfanswm o tua £3 miliwn o gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol drwy'r rhaglen CaW+, y tu allan i'r Grant Plant a Chymunedau⁹, yn benodol ar gyfer gweithgaredd CaW+ yn ystod 2020/21. Cafodd hyn ei gynyddu i £6 miliwn yn 2021/22. Er i gyllid Ymrwymiad COVID-19 ddod i ben yn 2021/22, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £8 miliwn i CaW+ drwy ei Gwarant i Bobl Ifanc am 3 blynedd o 2022/23 i 2024/25.

Tabl 1.4. Cyllid ar gyfer CaW+ 2018/19-2021/22

Blwyddyn	Cyllid ar gyfer CaW+	Cynnydd (%) o gymharu â'r llinell sylfaen (2018/19)
2018-19	£11,587,805	0
2019-20	£11,587,805	0
2020-21	£14,330,693	24
2021-22	£17,473,771	51

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

⁸ Gweler e.e. [Llywodraeth Cymru, 2022a](#) am drafodaeth ar y goblygiadau ariannol.

⁹ Nod y Grant Plant a Chymunedau yw mynd i'r afael ag anghenion y plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed a rhoi mwy o hyblygrwydd i ALLau o ran sut y maent yn ymateb drwy ystod o fecanweithiau ymyrraeth gynnar, atal a chymorth. Mae'n dod â saith rhaglen ynghyd: Gofal Plant a Chwarae; Cymunedau am Waith a Mwy; Teuluoedd yn Gyntaf; Dechrau'n Deg; y Gronfa Waddol; Cronfa Dydd Gŵyl Dewi a Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc.

1.13. Darparwyd cyllid i sefydlu CaW+ i ALLau drwy'r Grant Plant a Chymunedau. Mae ALLau yn cyflwyno cynlluniau cyflawni blynyddol ar gyfer y Grant Plant a Chymunedau, gan gynnwys cynllun ar wahân ar gyfer CaW+. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys targedau arfaethedig ac yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Er i gyllid (drwy'r Grant Plant a Chymunedau) ddechrau ym mis Ebrill 2018, roedd yr amser a gymerodd ALLau i recriwtio staff yn golygu na ddaeth CaW+ yn gwbl weithredol tan fis Tachwedd 2018.

Model cyflawni CaW+ a'r gwaith targedu

1.14. Mae model cyflawni CaW+ yn efelychu rhaglen CaW yn fras, ond gyda rhai gwahaniaethau megis:

- staffio: mae gan CaW+ Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr a Swyddogion Ymgysylltu â Chyfranogwyr (yn wahanol i CaW) sy'n cefnogi'r ddwy raglen, ond dim staff DWP ar secondiad (cynghorwyr) a dim staff brysbennu penodedig (mae staff brysbennu CaW yn darparu'r swyddogaeth hon ar gyfer y ddwy raglen). Hefyd, yn wahanol i CaW, nid yw Mentoriaid CaW+ wedi'u cyfyngu i weithio gyda phobl ifanc neu oedolion dros 25 oed¹⁰;
- hyfforddiant: comisiynir hyfforddiant CaW+ yn lleol tra bod CaW yn mabwysiadu model hyfforddiant a brynir yn ganolog; a
- cwmpas a chymhwystra: mae CaW+ yn rhaglen Cymru gyfan, sy'n cynnwys y tair ardal awdurdod lleol nad ydynt yn dod o dan CaW – Ceredigion, Sir Fynwy a Phowys (nad oedd ganddynt ardaloedd CG yng ngham olaf y rhaglen honno) – ac yn wahanol i CaW nid oes unrhyw gyfyngiadau ar gymhwystra yn seiliedig ar godau post pobl. At hynny, nid yw'r rhaglen CaW+ wedi'i chyfyngu i bobl ifanc NEET a'r rhai sy'n 25 oed a hŷn sy'n ddi-waith yn yr hirdymor neu'n economaidd anweithgar. Yn hytrach, gall weithio gyda'r rhai sydd mewn tlodi neu y bernir eu bod mewn perygl o ddiodeff tlodi, gan gynnwys, er enghraifft, y rhai ar gontractau dim oriau a'r rhai nad ydynt wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir (h.y. y rhai nad ydynt yn 'ddi-waith yn yr hirdymor'), ond sy'n wynebu rhwystrau i gyflogaeth.

1.15. Trafodir y nodweddion cyffredin a'r gwahaniaethau rhwng y ddwy raglen yn adran pedwar.

¹⁰ Mae Mentoriaid CaW wedi'u cyfyngu i weithio gydag oedolion neu bobl ifanc sy'n NEET oherwydd y ffrydiau cyllido ar wahân ar gyfer gwaith gyda phobl ifanc ac oedolion 25 oed a hŷn.

- 1.16. Yn wahanol i CaW, nid oes gan CaW+ dargedau sydd wedi'u pennu'n ganolog. Yn lle hynny, roedd disgwyliad y byddai pob tîm cyflawni CaW+ yn sicrhau bod o leiaf 30 o gleientiaid yn cael swyddi bob blwyddyn. Gan fod 55 o dimau cyflawni, mae hyn yn golygu bod disgwyliad y bydd o leiaf 1,650 o gleientiaid yn cael swyddi bob blwyddyn. Tybiwyd, o ystyried cymhareb ar gyfer tua 3-4 o gysylltiadau ar gyfer pob swydd a gafwyd, y byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i dimau gysylltu â thua 4,950-6,600 o unigolion y flwyddyn i gyd. Fodd bynnag, nid yw'r disgwyliad hwn (ar gyfer nifer y cleientiaid a gafodd swyddi drwy'r timau cyflawni) yn caniatáu ar gyfer ehangu'r rhaglen, a amlinellir isod, a byddai'n rhesymol tybio, wrth i'r rhaglen ehangu, y byddai'r disgwyliadau o ran cysylltiadau a nifer y cleientiaid sy'n cael swyddi hefyd yn codi (er nad yw hyn wedi digwydd eto).
- 1.17. Yn ogystal â hynny, mae ALLau yn nodi eu targedau eu hunain ar gyfer nifer y cysylltiadau a nifer y cleientiaid sy'n cael swyddi yn eu cynlluniau cyflawni blynyddol sy'n cael eu hasesu gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn aml yn uwch na disgwyliad Llywodraeth Cymru o 30 o swyddi a gafwyd y flwyddyn fesul tîm CaW+, ac weithiau maent yn dargedau uchelgeisiol, y bwriedir iddynt herio ardaloedd, ond efallai nad ydynt yn gyraeddadwy. Felly, mae perfformiad CaW+ yn cael ei farnu yn erbyn disgwyliadau Llywodraeth Cymru yn hytrach na'r targedau a osodwyd gan ALLau. Gellir cymharu hyn yn fras â'r dull a ddefnyddiwyd i werthuso perfformiad CaW sydd hefyd yn seiliedig ar dargedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer timau CaW.¹¹ Yn ogystal â hynny, fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gau'r bwlch cyflogadwyedd i bobl anabl, cytunwyd y dylai 20 y cant o ddeilliannau cyflogaeth CaW+ gael eu cyflawni gan bobl anabl. Fodd bynnag, cafodd y targed hwn ei atal yn ystod y pandemig COVID-19 ac nid yw wedi cael ei adfer.

Gwerthuso Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy

- 1.18. Comisiynwyd gwerthusiad cychwynnol o CaW yn 2016. Roedd hwn yn canolbwyntio ar theori newid y rhaglen; gwerthusiad o sut y cafodd y rhaglen ei sefydlu a'i gweithredu; ac asesiad o effeithiolrwydd cyffredinol y rhaglen. Cwblhawyd y gwerthusiad yn 2018 ([Llywodraeth Cymru, 2018](#)).

¹¹ Wrth osod targedau, rhagdybiodd Llywodraeth Cymru gymhareb o 6 chyswllt ar gyfer pob swydd a gafwyd gan gleientiaid, ac y byddai pob mentor (y bwriadwyd iddo weithio gyda'r rhai y mae angen lefel uchel o gymorth arnynt) yn sicrhau bod 12 o'u cleientiaid y flwyddyn yn cael swyddi a phob cynghorydd (y bwriedir iddo weithio gyda'r rhai sydd angen lefel gymedrol o gymorth) yn sicrhau bod 25 o'u cleientiaid y flwyddyn yn cael swyddi.

1.19. Nod y gwerthusiad dilynol hwn o CaW a CaW+ yw:

- adolygu newidiadau i'r modd y caiff gweithrediadau CaW eu cyflawni ers y gwerthusiad o gamau blaenorol CaW o 2015-2018 ac adolygu'r modd y caiff CaW+ ei gyflawni ers ei sefydlu yn 2018;
- asesu i ba raddau y mae nodau'r rhaglen a'r gweithrediad wedi'u cyflawni a'r targedau wedi'u cyrraedd ar gyfer oes y rhaglenni ers 2015 a 2018 yn y drefn honno;
- darparu tystiolaeth o ddeilliannau'r rhaglenni i unigolion a'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio.
- cynnal gwerthusiad effaith gwrthffeithiol o'r rhaglenni, gan ddarparu tystiolaeth o'r effaith ar gyfranogwyr o gymharu â grŵp gwrthffeithiol.

1.20. Mae'r gwerthusiad yn cynnwys tri cham:

- Cam 1: Diweddariad i'r gwerthusiad proses blaenorol [o CaW] a'r theori newid [i gwmpasu CaW a CaW+] ac adolygiad o gynnydd yn erbyn y targedau, sef ffocws yr adroddiad hwn;
- Cam 2: Gwerthusiad o Ddeilliannau ac Effaith erbyn 2023
- Cam 3: Diweddariad i'r Gwerthusiad o Ddeilliannau ac Effaith erbyn 2023.

1.21. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gam cyntaf y gwerthusiad. Fel yr amlinellwyd yn y fanyleb ar gyfer yr astudiaeth hon, amcanion y cam hwn yw:

- adolygu pa mor effeithiol y cyflawnwyd gweithrediadau CaW a rhaglen CaW+ ac ystyried sut y mae darpariaeth CaW wedi newid ers i'r camau blaenorol gael eu gwerthuso. Dylai hyn ystyried effaith Llywodraeth Cymru a datblygiadau polisi ehangach yn ogystal â ffactorau allanol sydd wedi effeithio ar ddarpariaeth rhaglenni, gan gynnwys COVID-19, ymadael â'r UE, newidiadau i raglenni cyllido'r UE a chyflwyno Credyd Cynhwysol o fis Ebrill 2017;
- diweddarau'r theori newid ar gyfer rhaglen CaW i ystyried y newidiadau y cyfeirir atynt uchod. Dylai'r gwerthusiad hefyd ystyried a yw'r theori newid ar gyfer CaW+ yr un fath â'r theori newid ar gyfer CaW ynteu a oes gwahaniaethau sylweddol;
- adolygu sut y mae elfennau newydd o'r rhaglen CaW, megis yr 'elfen cymorth yn y gwaith' yn cael eu cyflawni a sut y maent yn cyfrannu at gyflawni nodau ac amcanion y rhaglen;

- adolygu i ba raddau y mae'r modelau cyflawni yn diwallu anghenion grwpiau penodol; yn cefnogi cyrraedd targedau themâu trawsbynciol ac yn cyfrannu at amcanion cydraddoldeb ehangach Llywodraeth Cymru
- adolygu sut y mae gweithrediadau CaW wedi integreiddio a chyflawni gweithgaredd sy'n ymwneud â'r themâu trawsbynciol;
- adolygu sut y mae'r rhaglenni wedi nodi anghenion ieithyddol y cyfranogwyr ac felly sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei chynnig yn newis iaith y cyfranogwyr (Cymraeg neu Saesneg);
- adolygu i ba raddau y mae'r rhaglenni'n ystyried sgiliau, anghenion a dyheadau'r cyfranogwyr yn y Gymraeg, a sut y mae'r ystyriaethau hyn yn dylanwadu ar y ffordd y cyflawnir y rhaglenni;
- adolygu a yw'r rhesymeg dros dargedu grwpiau a daearyddiaethau penodol yn briodol, gyda'r nod penodol o hysbysu rhaglenni cyflogadwyedd cymunedol yn y dyfodol;
- darparu diweddariad ar gynnydd yn erbyn targedau'r rhaglenni.

Yr adroddiad hwn

1.22. Yn dilyn yr adran ragarweiniol hon, mae gweddill yr adroddiad wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- mae adran dau yn ystyried y cyd-destun polisi a chyd-destun y rhaglenni;
- mae adran tri yn amlinellu dull gweithredu a methodoleg y gwerthusiad;
- mae adran pedwar yn trafod y theori newid a sut y cyflawnwyd CaW a CaW+;
- mae adran pump yn ystyried effaith ffactorau allanol ar y rhaglenni;
- mae adran chwech yn gwerthuso pa mor effeithiol y cyflawnwyd y rhaglenni (perfformiad y rhaglenni);
- mae adran saith yn trafod cymhellion y cyfranogwyr, y cyfleoedd sydd ar gael iddynt, eu galluoedd a'u hymddygiad;
- mae adran wyth yn amlinellu'r casgliadau; ac
- mae adran naw yn amlinellu argymhellion y gwerthusiad.

2. Y cyd-destun polisi a chyd-destun y rhaglenni


Cyflwyniad

- 2.1. Mae'r adran hon yn amlinellu'r cyd-destun polisi ar gyfer rhaglenni CaW a CaW+, gan gynnwys trosolwg o'r farchnad lafur yng Nghymru ac effaith diweithdra ac anweithgarwch economaidd.

Y farchnad lafur yng Nghymru

- 2.2. Fel y dengys Ffigurau 2.1. a 2.2., lansiodd CaW yn 2015 mewn cyfnod pan oedd y farchnad lafur yn adfer yn raddol o effeithiau'r dirwasgiad a ddilynodd argyfwng bancio 2008. Parhaodd y cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd i ostwng, er bod hynny ar gyfradd arafach, tan y pandemig COVID-19 yn 2020.


Ffigur 2.1: Cyfraddau diweithdra ILO¹² yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn (%)



Ffynhonnell: [StatsCymru](https://www.stats.gov.wales/)

12 Mae'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) yn diffinio pobl fel pobl ddi-waith os ydynt heb swydd, wedi bod wrthi'n chwilio am waith yn ystod y pedair wythnos diwethaf ac ar gael i ddechrau gweithio yn ystod y pythefnos nesaf neu yn ddi-waith, wedi dod o hyd i swydd ac yn aros i ddechrau arni yn ystod y pythefnos nesaf. Mae cyfradd ddiweithdra'r ILO yn fesur o bobl ddi-waith fel canran o'r boblogaeth economaidd weithgar ([ONS, 2022](https://www.ons.gov.uk/)).

Ffigur 2.2. Cyfraddau Anweithgarwch Economaidd (ac eithrio myfyrwyr) yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn (%)



Ffynhonnell: [Stats Cymru](#)

- 2.3. Er i gyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd godi yn dilyn y pandemig COVID-19, cafodd yr effaith ar gyflogaeth ei lleddfu gan fesurau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, yn anad dim y Cynllun Cadw Swyddi 'ffyrlo', grantiau busnes a chymorth ar ffurf benthyciadau busnes ([Brewer a Tasseva, 2021](#); [ONS, 2020](#)). Felly, roedd yr effeithiau'n llai na'r hyn a ragwelwyd.
- 2.4. Gwelwyd adferiad yn ystod 2021, gyda'r gyfradd gyflogaeth yn cynyddu a'r gyfradd anweithgarwch economaidd yn gostwng ([Ystadegau ar gyfer Cymru, 2021a](#)) a chynnydd yn y galw am weithwyr ([Economics Observatory, 2021](#)). Wrth edrych ymlaen, mae'r disgwyliadau cychwynnol ar gyfer adferiad parhaus wedi pylu. Er bod lefelau diweithdra'n parhau i fod yn isel, mae cyfraddau anweithgarwch economaidd yn codi, ac mae'r argyfwng costau byw yn 2022 wedi arwain at adolygu'r rhagolygon, gyda Banc Lloegr yn rhagweld y bydd y Deyrnas Unedig mewn cyfnod o ddirwasgiad o bedwerydd chwarter y flwyddyn hon ymlaen (ym mis Awst 2022) ([Banc Lloegr, 2022](#)). Byddai'r holl ffactorau hyn yn awgrymu angen parhaus a chynyddol am gymorth cyflogadwyedd, yn enwedig ar gyfer y grwpiau mwyaf agored i niwed a drafodir uchod.

Amgylchedd polisi

2.5. O ystyried y costau economaidd, cymdeithasol ac iechyd sy'n gysylltiedig â diweithdra, un egwyddor gadarn sy'n sail i bolisi economaidd a chyflogaeth Llywodraeth Cymru yw bod 'gwaith yn dda o beth i unigolion' ac i gymdeithas yn ehangach ([Llywodraeth Cymru 2018b](#)). Er enghraifft:

- amlygodd y **Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi** 2012 gysylltiadau rhwng diweithdra neu anweithgarwch economaidd¹³ a thlodi a chyfeiriodd at y 'costau enfawr' i gymdeithas yn fwy cyffredinol o ran 'llai o gynhyrchiant economaidd, llai o gydlyniant cymdeithasol a mwy o bwysau ar wasanaethau cyhoeddus fel gwasanaethau plant a gofal iechyd' (Llywodraeth Cymru, 2012, tud. 1);
- mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** 2015, gyda'i ffocws ar 'ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir [gan economi Cymru] drwy gael gafael ar waith addas' a hyrwyddo 'cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau' ([Llywodraeth Cymru, 2015b](#), tud. 7)
- nododd **Cynllun Cyflogadwyedd** 2018 hefyd fod 'tystiolaeth glir y gall bod mewn gwaith da hybu iechyd a lles', gan ychwanegu bod yr arian y mae pobl yn ei ennill yn 'cyfrannu at eu hannibyniaeth a'u gallu i reoli eu bywydau eu hunain' ([Llywodraeth Cymru 2018b, tud. 9](#))
- 2022 **Cynllun ar gyfer Cyflogadwyedd a Sgiliau**, a fydd yn 'blaenoriaethu a chyfuno cymorth cyflogadwyedd cenedlaethol dan arweiniad Llywodraeth Cymru i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Targedu'r rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur, y rhai sydd i mewn ac allan o waith sydd â chyflyrau iechyd hirdymor, i ddod o hyd i waith a chamu ymlaen mewn cyflogaeth.' ([Llywodraeth Cymru. 2022](#), tud. 12).

2.6. Mae'r meddylfryd hwn hefyd wedi dylanwadu ar y ffordd y mae rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) wedi'u strwythuro yng Nghymru. Fel yr amlinellir yn

¹³ Ystyrir bod pobl yn ddi-waith os ydynt wrthi'n chwilio am waith ac yn gallu gweithio, tra yr ystyrir bod y rhai nad oes ganddynt swydd ac nad ydynt wedi bod yn chwilio am waith o fewn y 4 wythnos diwethaf a/neu nad ydynt yn gallu dechrau gweithio o fewn y 2 wythnos nesaf, yn economaidd anweithgar.

adran 1, nod Echel Blaenoriaeth 1 Rhaglenni ESF 2014-20 ar gyfer Dwyrain Cymru (DC) a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCC) yw 'trechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy' ac yn fwy penodol 'cynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n economaidd anweithgar ac sy'n ddi-waith yn yr hirdymor sy'n 25 oed a throsodd sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth'. Nod echel blaenoriaeth 3 o Raglenni ESF yw cefnogi 'cyflogaeth pobl ifanc' a 'lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET)' ([Llywodraeth Cymru 2014a](#); [2014b](#)).

- 2.7. Rhoddwyd pwyslais cryf hefyd ar bwysigrwydd gwaith i drechu tlodi ym mholisiau lles y DU dros y degawd diwethaf. Yn fwyaf arwyddocaol, bwriadwyd i'r **Credyd Cynhwysol**¹⁴ hwyluso'r broses o bontio i gyflogaeth ac annog a galluogi pobl i gynnal a chynyddu eu henillion ar ôl iddynt gael gwaith, gan leihau'r risg o fyw mewn tlodi ac effeithiau tlodi.
- 2.8. Mae ymyriadau cyflogaeth/cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyd-fynd â rhaglenni ledled y DU fel Rhaglen Waith ac lechyd 'taliad yn ôl canlyniadau' DWP. Bu cynnydd amlwg ym maint ymyriadau DWP yn sgil y pandemig COVID-19 megis dyblu nifer yr anogwyr gwaith; cyflwyno gwasanaeth newydd Cymorth i Gael Swydd; a lansio cynlluniau newydd megis **Ailgychwyn**¹⁵ a **KickStart**¹⁶, er enghraifft. Fodd bynnag, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (Tachwedd 2022) roedd cryn ansicrwydd ynghylch y ddarpariaeth yn y dyfodol, gan i Kickstart gau i ymgeiswyr newydd ym mis Rhagfyr 2021, ac o ystyried y cynnydd llai na'r disgwyl mewn diweithdra (yn dilyn y pandemig COVID-19), roedd y nifer a fanteisiodd ar y rhaglen Ailgychwyn yn llai na'r disgwyl a chredir y bydd y rhaglen yn debygol o ddod i ben yn 2024.
- 2.9. Rhoddwyd pwyslais cynyddol dros amser ar ansawdd a 'chynaliadwyedd' gwaith er mwyn lleihau tlodi mewn gwaith a'r 'syndrom drws troi' y mae pobl â hanes gwael o weithio yn dueddol o ddiodef ohono. Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd yn

¹⁴ Mae'n disodli chwe budd-dal: cymhorthdal incwm; lwfans ceisio gwaith; lwfans cyflogaeth a chymorth; budd-dal tai; credyd treth plant; a chredyd treth gwaith.

¹⁵ Roedd y rhaglen yn canolbwyntio i ddechrau ar y rhai a oedd wedi bod yn ddi-waith am o leiaf 12 mis ac yn cael budd-daliadau, ond cafodd y meini prawf cymhwysra eu llacio'n ddiweddarach, gan wneud y rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am o leiaf naw mis yn gymwys i gael cymorth. Caiff ei darparu yng Nghymru gan Serco, o dan gontract fframwaith tair blynedd gyda DWP.

¹⁶ Darparodd y cynllun gyllid i gyflogwyr greu swyddi cyflogedig tymor byr (6 mis) ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed sy'n hawlio Credyd Cynhwysol.

nodi 'er gwaethaf gwelliant sylweddol mewn cyfranogiad mewn cyflogaeth ac yn y farchnad lafur, mae pryderon yn parhau ynghylch ansawdd y gwaith' ac mewn ymateb i hynny mae'n anelu at 'sicrhau bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, eu clywed a'u cynrychioli'n deg, eu bod yn ddiogel ac y gallant gamu ymlaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol lle mae hawliau'n cael eu parchu.' ([Llywodraeth Cymru 2022](#), tud. 32).

- 2.10. Roedd Cynllun Cyflogadwyedd 2018 Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd dau ddimensiwn allweddol i gefnogi cyflogadwyedd: sgiliau, profiad, cymhelliant, hyder, dawn a dyhead yr unigolion eu hunain; a strwythurau cymdeithasol i gefnogi pobl i gymryd swydd a'i chynnal, gan gynnwys 'darparu cymorth cyflogadwyedd wedi'i deilwra i'r unigolyn' ([Llywodraeth Cymru, 2018b](#), tud. 20). Yn y cyd-destun hwn, ers i CaW gael ei lansio gyntaf, mae'n werth nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i 'ddiwygio'r cymorth sydd ar gael i bobl sy'n barod i weithio' ([Llywodraeth Cymru, 2017a](#), tud. 9) ac i 'symleiddio'r cymorth a gaiff ei gynnig i'r bobl hynny sy'n chwilio am swydd' (ibid., tud. 31). Mae hyn wedi cynnwys creu **Cymru'n Gweithio, Twf Swyddi Cymru+, a ReAct+**. Yn yr un modd, nod Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau 2022 yw mynd i'r afael ag 'anfantais yn y farchnad lafur', 'drwy uno rhaglenni cyflogadwyedd a arweinir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu model gweithredu sengl newydd o 2023 ymlaen a fydd yn cynnwys ReAct+, Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol a Thwf Swyddi Cymru+.' ([Llywodraeth Cymru, 2022](#), tud. 34).
- 2.11. Er gwaethaf symleiddio'r porth i wasanaethau, mae'r darlun yn gynhenid gymhleth, yn enwedig mewn perthynas â phobl ifanc. Mae'r rhaniad rhwng cyfrifoldebau datganoledig (addysg a sgiliau) Llywodraeth Cymru a chyfrifoldebau annatganoledig (polisi o fudd-dal i waith) Llywodraeth y DU yn golygu bod y cymorth a ddarperir yn amrywio'n sylweddol ar gyfer y rhai hyd at 17 oed a'r rhai 18-25 oed. At hynny, mae polisi yn y maes hwn yn datblygu'n gyflym, gyda'r **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid** (YEPF) yn cael ei adnewyddu ar hyn o bryd, y **Warrant i Bobl Ifanc**¹⁷ yn cael ei lansio gan

¹⁷ Bydd y Warrant yn cynnig cymorth i bobl ifanc gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig.

Llywodraeth Cymru a **Rhaglen Kickstart DWP**¹⁸ yn cael ei lansio i bobl ifanc sy'n cael Credyd Cynhwysol (ac, felly, y rhai sy'n 18 oed a throsodd).

- 2.12. Yn y dirwedd gymhleth hon, un o nodweddion allweddol ac arloesol rhaglen CaW fu cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, DWP, ALIau ac eraill. Canfu Adroddiad Gwerthuso Proses ac Allbwn CaW a gyhoeddwyd yn 2017 fod y rhaglen yn 'torri tir newydd o ran ei fod yn cwmpasu adrannau o'r llywodraeth sydd wedi eu datganoli a rhai sydd heb eu datganoli, ac mae'n tynnu ynghyd amryw o sefydliadau mewn ffyrdd ac ar raddfa na welwyd o'r blaen' ([Llywodraeth Cymru 2017c](#), tud. 109). Yn yr un modd, er nad yw'n bartner ffurfiol, mae timau CaW+ wedi gweithio'n agos gyda'r DWP a swyddfeydd lleol JCP yn ogystal â CaW. Yn hyn o beth, mae CaW a CaW+ yn ymgorffori'r gofyniad a nodir yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** (2015) y dylai cyrff cyhoeddus 'weithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd... [i] atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson' ([Llywodraeth Cymru, 2015b](#)).

¹⁸ Er bod y cynllun Kickstart wedi cau i geisiadau ym mis Rhagfyr 2021

3. Dull a methodoleg y gwerthusiad

Cyflwyniad

3.1. Mabwysiadwyd dull gwerthuso sy'n seiliedig ar theori ar gyfer cam cyntaf y gwerthusiad hwn o CaW a CaW+, a chafodd theori newid y rhaglenni ei phrofi a'i mireinio drwy ddefnyddio data a gynhyrchwyd drwy ddull cymysg gan gynnwys:

- adolygiad desg o lenyddiaeth a dogfennau;
- dadansoddiad o ddata'r rhaglen; ac
- ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid.

3.2. Trafodir y dull gweithredu hwn a phob un o'r dulliau hyn yn fanylach isod.

Adolygu theori newid y rhaglenni

3.3. Cynhaliwyd gweithdy gyda chwech uwch swyddog o Lywodraeth Cymru (gan gynnwys staff DWP a oedd ar secondiad i Lywodraeth Cymru) a chyfweliad ag un rheolwr CaW a/neu CaW+ o DWP i adolygu'r theori newid a ddatblygwyd ar gyfer CaW yn 2017 ([Llywodraeth Cymru, 2017](#)) ac i ystyried:

- a oedd angen ei newid neu ei diweddarau yng ngoleuni newidiadau i'r dull o gyflawni'r rhaglen a/neu'r cyd-destun ehangach; ac
- a oedd angen theori newid ar wahân ar gyfer CaW+.

3.4. Fel yr amlinellir yn adran pedwar, o ganlyniad i'r gweithdy a'r cyfweliad, adolygwyd elfennau o'r theori newid a ddatblygwyd ar gyfer CaW yn 2017, i adlewyrchu:

- newidiadau yn y cyd-destun, megis y pandemig COVID-19, a'r ffaith bod rhaglenni fel CG wedi dod i ben; a
- newidiadau yn y model cyflawni, megis cyflwyno cymorth yn y gwaith a chamau i ddarparu mwy o gymorth ar-lein.

3.5. Defnyddiwyd y theori newid hon i ddisgrifio sut y disgwyliwyd i'r rhaglenni weithio'n ymarferol, gan gynnwys:

- y cyd-destun a'r materion yr oedd CaW a CaW+ yn ceisio mynd i'r afael â nhw;

- y newid yr oeddent yn anelu at ei wneud (gan gynnwys y gwahanol grwpiau y disgwylir iddynt elwa) – h.y. y deilliannau arfaethedig;
- y gadwyn achosol o ddigwyddiadau y disgwylir iddynt arwain at newid (gan gynnwys y ffyrdd y disgwylir i'r rhaglenni newid cymhellion, galluoedd a/neu'r cyfleoedd sydd ar gael i gyfranogwyr ac, yn y pen draw, eu hymddygiad);
- yr amodau disgwylidig sydd eu hangen er mwyn i'r ymyrraeth lwyddo ([Michie, et al, 2011](#); [Westhorp, 2014](#)).

- 3.6. Yn ogystal â hynny, fel yr amlinellir yn adran pedwar, datblygwyd fersiwn symlach o'r theori newid, yn canolbwyntio ar fodel cymorth CaW a CaW+, er mwyn gallu ystyried y ffordd y cyflawnwyd pob elfen o'r gadwyn achosol a'u heffeithiolrwydd.
- 3.7. Nid oedd penderfyniad clir yn y gweithdy ynghylch a oedd angen theorïau newid ar wahân ar gyfer CaW a CaW+. Teimlwyd y gallai fod yn fanteisiol cael un model er mwyn cael trosolwg cyfannol, ond pwysleisiwyd y byddai angen i'r gwerthusiad hefyd nodi'r gwahaniaethau rhwng y rhaglenni. Trafodir y cwestiwn hwn ymhellach yn adrannau pedwar ac wyth.
- 3.8. Yna defnyddiwyd ymchwil ansoddol a dadansoddiad o ddata rhaglenni meintiol yn bennaf, a drafodir isod, i brofi'r theori newid, a galluogi unrhyw agweddau lle roedd yr ymarfer yn wahanol i'r hyn y disgwyliwyd ei weld a'i ystyried.

Adolygiad desg o lenyddiaeth a dogfennau

- 3.9. Roedd yr adolygiad desg o lenyddiaeth a dogfennau yn canolbwyntio ar:
- yr achosion busnes ar gyfer gweithrediadau CaW, ac estyniadau arfaethedig, a dogfennau ategol megis y Grant Plant a Chymunedau a chanllawiau ymgeisio ar gyfer CaW+;
 - dogfennau polisi allweddol Llywodraeth Cymru a drafodir yn adran dau; ac
 - ymchwil ac ystadegau diweddar ar gyflogaeth ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru, sydd hefyd yn cael eu trafod yn adran dau.

Dadansoddiad o ddata'r rhaglenni

- 3.10. Rhannwyd fersiwn dienw o set ddata CaW â'r tîm gwerthuso a defnyddiwyd hyn i nodi nodweddion y cyfranogwyr (e.e. o ran eu hethnigrwydd a'u rhywedd); y rhwystrau a nodwyd gan gyfranogwyr; y deilliannau ar gyfer gwahanol grwpiau o gyfranogwyr; a pherfformiad pedwar gweithrediad CaW (gweler adran chwech).
- 3.11. Rhannwyd data gwybodaeth reoli CaW a CaW+ hefyd ac fe'u defnyddiwyd i asesu perfformiad yn erbyn targedau dros amser (gweler adran chwech), gan gynnwys perfformiad cyn, yn ystod ac ar ôl y cyfnodau clo sy'n gysylltiedig â'r pandemig COVID-19.
- 3.12. Yn y cyd-destun hwn, mae'n werth nodi, er bod set ddata cyfranogwyr CaW yn adnodd cyfoethog, mae'r posibilrwydd o'i dadansoddi a'i defnyddio'n effeithiol yn cael ei lesteirio gan y ffaith ei bod yn cael ei chadw mewn taenlen Microsoft Excel yn hytrach na chronfa ddata rheoli cleientiaid fwy soffistigedig. Bwriedir cynnal dadansoddiad pellach o setiau data cyfranogwyr CaW+ a gedwir gan ALLau yng ngham nesaf y gwerthusiad.

Ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid

- 3.13. Cafodd offer ymchwil gan gynnwys amserlenni cyfweliadau, taflenni gwybodaeth a hysbysiadau preifatrwydd ar gyfer yr ymchwil ansoddol eu drafftio a'u rhannu gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cael sylwadau. Roedd y cwestiynau'n seiliedig ar fapio cwestiynau ymchwil yn erbyn y meysydd y disgwyliwyd i wahanol grwpiau o randdeiliaid, megis uwch reolwyr CaW a CaW+; staff gweithredol (fel rheolwyr cyflawni, cynghorwyr, mentoriaid a swyddogion brysbennu); a phartneriaid, fod â gwybodaeth amdanynt. Ceir copïau yn Atodiad A.
- 3.14. Cynhaliwyd dau gam ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid. Roedd y cyntaf yn cynnwys cyfres o gyfweliadau cwmpasu gyda sampl bwriadus o uwch reolwyr o raglenni CaW a CaW+ (n=6) a chanddynt drosolwg o'r rhaglenni. Roedd yr ail yn canolbwyntio ar gyfweliadau â staff gweithredol a phartneriaid sy'n ymwneud â chyflawni'r rhaglenni mewn sampl o wyth ardal CaW a CaW+ (n=64).
- 3.15. Fel y dengys Tabl 3.1, cafodd yr wyth ardal CaW a/neu CaW+¹⁹ eu samplu ar sail pedwar maen prawf:

¹⁹ Nid oes gan un o'r wyth ardal, sef Ceredigion, dîm CaW.

- perfformiad yr ardal, o ran cysylltiadau a deilliannau (gan gynnwys cymysgedd o ardaloedd sy'n perfformio'n dda ac ardaloedd sy'n tanberfformio);
- cryfder cyflogaeth leol, gan gynnwys ardaloedd lle y cynyddodd diweithdra'n sydyn yn ystod y pandemig COVID-19, megis Casnewydd (a allai, er enghraifft, fod wedi cynorthwyo gyda'r cysylltiadau, ond sydd hefyd wedi llesteirio'r gwaith o gyflawni deilliannau cyflogaeth);
- daearyddiaeth, gan gynnwys cymysgedd o ardaloedd gwledig, trefol a'r cymoedd, ac ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith, o bob un o'r pedwar rhanbarth (yn seiliedig ar bedair ardal y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol²⁰);
- integreiddio gwasanaethau cymorth cyflogaeth yn lleol, gan gynnwys ardaloedd megis Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd y dywedir bod yr integreiddio'n gryf, ac ardaloedd fel Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen, lle y dywedir bod yr integreiddio'n wannach²¹.

²⁰ Er mwyn cefnogi buddsoddiad yr UE, sefydlwyd pedwar tîm rhanbarthol yn cwmpasu Gogledd-orllewin Cymru (Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam), Canolbarth Cymru (Ceredigion a Phowys), De-orllewin Cymru (Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe) a De-ddwyrain Cymru (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Caerffili, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg).

²¹ Daeth y wybodaeth hon o'r cyfweiliadau cwmpasu (ac fe'i hadroddwyd gan reolwyr y rhaglen).

Tabl 3.1. Nodweddion y sampl o ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes

Ardal	Rhanbarth	Cymeriad	Effaith COVID-19 ²²	Perfformiad CaW ²³	Perfformiad CaW+ yn 2020/21 ²⁴	Integreiddio gwasanaethau cyflogaeth
Sir y Fflint	Y gogledd	Gwledig/trefol	Effaith fawr	Gwan	Cymedrol	Ddim yn hysbys
Ynys Môn	Y gogledd	Gwledig/trefol, >60% yn gallu siarad Cymraeg ²⁵	Effaith fawr	Cryf	Cryf	Ddim yn hysbys
Casnewydd	Y de-ddwyrain	Trefol	Effaith gymedrol	Gwan	Cymysg ²⁶	Sylweddol
Caerffili	Y de-ddwyrain	Y cymoedd	Effaith gymedrol	Gwan	Gwan	Ddim yn Hysbys
Caerdydd	Y de-ddwyrain	Trefol	Effaith gymedrol	Cymysg ²⁷	Cryf	Sylweddol
Torfaen	Y de-ddwyrain	Y cymoedd	Effaith gymedrol	Cryf	Cymysg ²⁸	Gwannach

²² Effaith COVID-19 ar lefelau diweithdra, y newid rhwng 2019 a 2020. Nodwch y cafeatau yn yr atodiad.

²³ Perfformiad mewn perthynas â chysylltiadau a deilliannau, o gymharu â'r proffil neu'r targed.

²⁴ Perfformiad mewn perthynas â chysylltiadau a deilliannau, o gymharu â'r proffil neu'r targed.

²⁵ Yn seiliedig ar ganran yr oedolion (16+) sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg (ffynhonnell: [Stats Cymru](#)).

²⁶ Gwan neu wannach o ran cysylltiadau, cymedrol neu gryf mewn perthynas â deilliannau swyddi.

²⁷ Gwan neu wannach o ran cysylltiadau, cymedrol neu gryf mewn perthynas â deilliannau swyddi.

²⁸ Gwan neu wannach o ran cysylltiadau, cymedrol neu gryf mewn perthynas â deilliannau swyddi.

Sir Gaerfyrddin	Y gorllewin	Gwledig/trefol, 40% yn gallu siarad Cymraeg ²⁹	Effaith gymedrol	Cryf	Cymysg ³⁰	Ddim yn hysbys
Ceredigion	Gorllewin a Chanolbarth Cymru	Gwledig/trefol, tua 50% yn gallu siarad Cymraeg ³¹	Effaith gymedrol	Ddim ar gael	Cryf	Ddim yn hysbys

²⁹ Yn seiliedig ar ganran yr oedolion (16+) sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg (ffynhonnell: [Stats Cymru](#)).

³⁰ Cryf o ran cysylltiadau, ond gwan neu wannach o ran deilliannau swyddi.

³¹ Yn seiliedig ar ganran yr oedolion (16+) sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg (ffynhonnell: [Stats Cymru](#)).

3.16. Mae Tabl 3.2. yn nodi'r cyfweiliadau a gynlluniwyd ym mhob ardal. Fel y dengys Tabl 3.3. yn ymarferol, roedd nifer y staff rheng flaen weithiau ychydig yn uwch na'r disgwyl, ond nid oedd bob amser yn bosibl canfod partner a oedd yn fodlon cael ei gyfsweld, ac yn achos Ceredigion, dim ond y rheolwr yr oedd modd ei gyfsweld.

Tabl 3.2 Sampl arfaethedig o staff gweithredol a phartneriaid ym mhob ardal a gynhwyswyd yn y gwaith maes

Rhaglen	CaW+	CaW
Staff gweithredol	Rheolwr ALI; a thrafodaeth gyda grŵp bach o staff rheng flaen (n=2-3)	Rheolwr ALI ³² Rheolwr rhanbarthol DWP; a thrafodaeth gyda grŵp bach o staff rheng flaen (n=2-3).
Arall	Partner sy'n gwybod am CaW a/neu CaW+ ac sy'n atgyfeirio cleientiaid atynt (e.e. Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio).	

Tabl 3.3. Sampl gwirioneddol o staff gweithredol a phartneriaid ym mhob ardal

Ardal	Rheolwyr (DWP, CCA)	Staff rheng flaen (CaW a CaW+)	Partneriaid
Ynys Môn	3	8	1
Sir Gaerfyrddin	3	4	1
Caerffili	2	4	
Ceredigion	1		
Caerdydd	1	6	3
Sir y Fflint	2	5	
Casnewydd	3	7	
Torfaen	2	5	2
Cyfanswm	16*	39	7

* Roedd un rheolwr yn cwmpasu wy ardal a dim ond unwaith y caiff ei gyfrif yn y cyfanswm.

3.17. Yn ogystal â hynny, wnath model Gyngor Gwirfoddol Sirol³³ (CGS)/DWP (fel sy'n wir ym Mlaenau Gwent) cael ei ymchwilio. Cynhaliwyd cyfweiliad gyda rheolwr o DWP a dau reolwr o Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO), y CGS ym Mlaenau Gwent sy'n darparu CaW a CaW+.

³² Mewn rhai achosion roedd y Rheolwr ALI yn gwasanaethu CaW a CaW+ ac yn Ynys Môn, awgrymwyd y byddai'n fwy priodol siarad â rheolwr o Môn CF yn hytrach na Chyngor Sir Ynys Môn.

³³ Mae CGS yn gweithredu ym mhob ALI yng Nghymru ac yn darparu cyngor a gwybodaeth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol ar bethau fel gwirfoddoli a chyllid, er enghraifft.

Cryfderau a gwendidau

- 3.18. Galluogodd y data meintiol cyfoethog ac ansoddol helaeth a gasglwyd ac a ddadansoddwyd i'r theori newid ar gyfer CaW a CaW+ gael ei phrofi. Fe wnaeth hefyd alluogi:
- i effaith newidiadau yn y cyd-destun, yn fwyaf nodedig y pandemig COVID-19 (a'r effeithiau dilynol ar y rhaglen a'r cyfranogwyr) gael ei hystyried (gweler adran pump);
 - i'r dull o gyflawni'r rhaglenni a'r mecanweithiau arfaethedig ar gyfer creu newid, gael eu gwerthuso (gweler adran pedwar);
 - nodi i ba raddau y cafodd deilliannau, gan gynnwys deilliannau ar gyfer gwahanol grwpiau, eu cyflawni neu beidio³⁴ a'r rhesymau am hyn (gweler adran saith).
- 3.19. Fodd bynnag, mae'r archwiliad o'r mecanweithiau ar gyfer creu newid yn seiliedig yn bennaf ar dystiolaeth gan y rhai sy'n ymwneud â darparu cymorth, megis rheolwyr cyflawni CaW a CaW+, cynghorwyr a/neu fentoriaid, ac ar hyn o bryd, nid oes gwaith ymchwil sylfaenol gyda chyfranogwyr wedi'i wneud eto. Felly, mae'r canfyddiadau sy'n gysylltiedig â chyfranogwyr yn seiliedig ar arsylwadau a myfyrdodau staff yn hytrach na chyfweliadau gyda'r cyfranogwyr. Mae hyn yn cynyddu'r risg nad yw'r gwerthusiad o fecanweithiau yn nodi'n llawn sut, er enghraifft, y mae cyfranogwyr yn cael cymorth a'u cymhellion, eu galluoedd, a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.
- 3.20. Yn ogystal, nid oedd yn bosibl archwilio agweddau ar fodel cyflawni CaW+, yn fwyaf nodedig rolau'r Swyddog Ymgysylltu â Chyfranogwyr a'r Swyddog Cyswllt Cyflogwyr, mor fanwl ag y gobeithiwyd, ac felly mae angen rhagor o ymchwil sy'n canolbwyntio ar y ddwy rôl hyn yng ngham nesaf y gwerthusiad.
- 3.21. Mewn ymateb i'r bylchau hyn, bydd cam nesaf y gwerthusiad yn cynnwys cyfweliadau â Swyddogion Ymgysylltu â Chyfranogwyr a Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr a chyfranogwyr yn yr un ardaloedd ag a gynhwyswyd yn y don gyntaf o waith maes.
- 3.22. At hynny, ar y cam hwn, roedd y gwerthusiad yn canolbwyntio'n bennaf ar werthuso prosesau a nodi'r hyn y gellid ei ddysgu o sut y cafodd CaW a CaW+ eu dylunio a'u cyflawni, yn hytrach na'u heffaith (y gwahaniaeth a wnaethant) neu asesu eu gwerth am

³⁴ Darparodd y dadansoddiad o ddata meintiol ddealltwriaeth dda o berfformiad prosiectau ar lefel rhaglen drosfwaol a lefel weithredol, gan gynnwys perfformiad (o ran cysylltiadau a deilliannau) mewn perthynas â gwahanol grwpiau o ddiddordeb i'r gwerthusiad megis cyfranogwyr anabl a chyfranogwyr o grwpiau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

arian ([Trysorlys EM, 2020](#)), a bydd camau nesaf y gwerthusiad yn canolbwyntio ar yr agweddau hyn.

4. Modelau cyflawni'r rhaglenni


Cyflwyniad

- 4.1. Mae'r adran hon yn ystyried elfennau allweddol o fodel rhaglenni CaW a CaW+, a amlinellir yn y theori newid, megis:
- rhaglenni cymunedol a rhaglenni sydd â'u gwreiddiau yn y gymuned;
 - y broses ar gyfer ymgysylltu â chyfranogwyr, gan gynnwys atgyfeiriadau, recriwtio, a brysbennu a'r rôl a chwaraeir gan swyddogion ymgysylltu â chyfranogwyr CaW+;
 - y cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gynigir gan gynghorwyr a/neu fentoriaid CaW a CaW+;
 - mynediad i hyfforddiant, lleoliadau gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli;
 - cymorth ariannol;
 - y cynnig o gymorth mewn gwaith;
 - y rôl a chwaraeir gan swyddogion cyswllt cyflogwyr CaW+;
 - y rôl a chwaraeir gan bartneriaethau, gan gynnwys partneriaeth CaW rhwng Llywodraeth Cymru a DWP a'r berthynas rhwng CaW a CaW+.
- 4.2. Mae'r adran hon hefyd yn ystyried trefniadau llywodraethu a rheolau'r rhaglenni yn ogystal â'r ffordd y cânt eu rheoli, er mwyn asesu modelau CaW a CaW+ (gan gynnwys yr hyn sy'n gyffredin a'r gwahaniaethau rhyngddynt) a'r modd y cânt eu darparu. Ystyrir effaith ffactorau allanol, megis y pandemig COVID-19 ar gyflawni'r rhaglenni a'u hymatebion, yn yr adran nesaf (pump).

Theori newid y rhaglenni

- 4.3. Cyflwynir theori newid symlach ar gyfer CaW a CaW+ yn Ffigur 4.1. Mae'n canolbwyntio ar y mecanweithiau allweddol - y ffyrdd y disgwylir i newid gael ei greu, yn hytrach na manylion pob rhan neu elfen o'r rhaglen, megis rolau staff gwahanol. Cyflwynir theori newid fanwl, sy'n canolbwyntio ar y gwahanol elfennau, ac yn amlygu gwahaniaethau yn y modelau CaW a CaW+, yn yr atodiad. Oherwydd bod CaW+ wedi'i fodelu ar CaW, trafodir elfennau o'r model CaW yn gyntaf ac yna trafodir model CaW+, gan gynnwys unrhyw wahaniaethau rhyngddo â model CaW.

Ffigur 4.1. Theori newid wedi'i symleiddio ar gyfer CaW a CaW+



* Yr hyn y gall CaW/CaW+ ei wneud a'r hyn y mae angen i'r cleient ei wneud

Rhaglen gymunedol a rhaglen sydd â'i gwreiddiau yn y gymuned

- 4.4. Fel yr amlinellir yn achos busnes CaW, rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai staff CaW yn cael eu lleoli mewn safleoedd cymunedol megis safleoedd Cymunedau yn Gyntaf neu Ganolfannau Plant Integredig er mwyn helpu i feithrin partneriaethau gwaith cryf gyda grwpiau mynediad lleol megis Cymunedau yn Gyntaf a gwasanaethau cymorth tai a theuluoedd ALLau (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a, tud. 29, 31). Fel yr amlinellir yn adran un, yn 2017 cyhoeddwyd y byddai Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben a datblygwyd CaW+ yn wreiddiol i helpu i gynnal y seilwaith cymunedol sydd ei angen i ategu CaW.
- 4.5. Cyfeiriodd y rhai a gyfwelwyd (yn ystod y gwaith maes) yn gyson at bwysigrwydd presenoldeb CaW a CaW+ mewn cymunedau, ac fel y dywedodd un aelod o staff rheng flaen, roeddent yn 'hanfodol'. Yn ôl y rhai a gyfwelwyd, roedd bod yn agos at (neu mewn) cymunedau yn cynyddu hygyrchedd, ac 'amlygrwydd' ac mewn rhai ardaloedd dywedwyd bod staff rheng flaen CaW wedi bod yn eu rolau ers amser maith ac yn adnabyddus yn eu cymunedau, a bod cyn gleientiaid neu staff ysgol (yn achos pobl ifanc) yn atgyfeirio pobl atynt yn achlysurol. Yn ogystal â hynny, mewn un ardal yn benodol, dywedwyd bod enw da, proffil y CCA a'r ymddiriedaeth ynddo yn bwysig er mwyn cefnogi ymgysylltiad. Dywedwyd hefyd bod lleoli'r gwasanaethau mewn adeiladau cymunedol megis canolfannau ALI yn creu cyfleoedd i 'gael sgwrs gyda phobl', fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd. Creodd hyn gyfleoedd i ymgysylltu â chyfranogwyr posibl, ac fel y trafodir isod, mewn rhai ardaloedd roedd hon yn ffynhonnell atgyfeiriadau bwysig.
- 4.6. Dywedodd staff rheng flaen hefyd fod gweithredu o adeiladau cymunedol yn helpu i greu awyrgylch mwy anffurfiol a chroesawgar nag a gynigiwyd gan swyddfeydd JCP. Er enghraifft, fel y dywedodd aelod o staff rheng flaen, mae'r hyb y mae'n gweithio ohono yn teimlo'n fwy 'anffurfiol' nag adeiladau JCP: nid yw cynghorwyr yn gwisgo mor ffurfiol pan fyddant yn gweithio yn y ganolfan; maen nhw'n eistedd ochr yn ochr â chleientiaid, yn aml wrth gyfrifiadur, yn hytrach nag eistedd yr ochr arall i'r ddesg; mae caffi ar y safle; ac mae digwyddiadau cymunedol fel canu carolau yn digwydd yn yr hyb. Mae hyn yn creu awyrgylch mwy hamddenol ac yn lleihau ofn cleientiaid y byddant yn cael eu cosbi neu y bydd eu budd-daliadau'n cael eu cwtogi. Yn yr un modd mewn ardal arall, disgrifiodd staff rheng flaen sut y 'mae'n well gan bobl gael eu gweld y tu allan i JCP ... mae mynd i JCP yn codi ofn arnyn nhw... mae hyd yn oed pobl ifanc yn ei weld fel rhywle ble y byddan nhw'n cael pryd o dafod neu eu

holi'n dwll ... mae paned o goffi a a dipyn o dynnu coes mewn amgylchedd cyfforddus yn well'.

4.7. Nododd y rheolwyr a staff rheng flaen a gyfwelwyd, er bod presenoldeb mewn cymunedau yn bwysig, nid oedd yn ddigon ynddo'i hun i ymgysylltu â darpar gyfranogwyr. Cyfeiriwyd at:

- yr amser y mae'n ei gymryd i feithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd o fewn cymunedau ac fel y disgrifiodd un o'r rhai a gyfwelwyd, roedd hyn yn anodd am flwyddyn neu ddwy gyntaf y rhaglen CaW ond dros amser mae'n teimlo bod y rhaglen wedi meithrin enw da. Roedd adeiladu ar gysylltiadau a pherthnasoedd presennol yn werthfawr felly;
- y ffaith y gallai trosiant staff, cau adeiladau cymunedol yn ystod cyfnodau clo neu symud i adeiladau newydd, dorri cysylltiadau, yn enwedig gyda chymunedau dros dro a lleihau amlygrwydd a phroffil timau CaW mewn cymunedau; a
- y ffaith bod y pandemig wedi rhoi cyfle i rai timau adolygu pa leoliadau cymunedol oedd yn ffynhonnell atgyfeiriadau ffrwythlon (y byddai'r tîm yn parhau i'w defnyddio) a pha rai nad oeddent cystal.

4.8. Roedd integreiddio CaW a CaW+ â gwasanaethau cymorth eraill hefyd yn cael ei ystyried yn bwysig. Dywedwyd bod cysylltiadau cryf rhwng CaW a CaW+ a darpariaeth ALI, yn enwedig lle roedd timau wedi'u cydleoli mewn hybiau ALI. Roedd un ardal yn cynnig model gwahanol, ond cyfatebol, lle roedd CaW a CaW+ wedi'u cydleoli gydag amrywiaeth o wasanaethau'n cael eu cynnig gan sefydliad yn y sector gwirfoddol. Serch hynny, roedd hefyd yn amlwg, er y gallai cydleoli helpu i gryfhau cysylltiadau â gwasanaethau eraill, nid oedd o reidrwydd yn gwneud hynny, a gwelwyd sawl enghraifft lle, fel y trafodir isod, y cafwyd ymdeimlad o hollt rhwng staff DWP a staff ALI neu CGS.

Cysylltiadau: atgyfeiriadau, recriwtio a brysbennu

4.9. Nododd achos busnes CaW y byddai gweithrediad CaW yn ymgysylltu â chyfranogwyr drwy nifer o lwybrau a gweithgareddau, llawer ohonynt wedi'u hysgogi gan weithgarwch a gwybodaeth leol a'r cyswllt strategol â JCP. Aiff ymlaen i nodi nifer o raglenni eraill a arweinir gan Lywodraeth Cymru y disgwylir iddynt helpu i

ymgysylltu â chyfranogwyr gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf, Cefnogi Pobl³⁵, Gofal Sylfaenol ac Ymgysylltu ag Ysgolion a Rhieni (Llywodraeth Cymru dim dyddiad. a, tud. 13).

- 4.10. Yn ymarferol, roedd JCP yn ffynhonnell allweddol o atgyfeiriadau ar gyfer CaW a CaW+, ac ystyriwyd bod partneriaeth y rhaglenni â JCP yn gryfder allweddol. Fel yr amlinellir isod, yn wyneb gwaith allgymorth cyfyngedig, cynyddodd cyfran yr atgyfeiriadau gan JCP yn ystod y pandemig COVID-19, a dywedwyd yn gyson (yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes) y byddai'r rhaglen wedi wynebu anawsterau heb y bartneriaeth hon.
- 4.11. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio na ddechreuodd dibyniaeth y rhaglenni ar JCP gyda'r pandemig. Fel yr amlinellir yn adran pump, mae'r ddibyniaeth ar JCP fel ffynhonnell atgyfeiriadau wedi lleihau rhywfaint wrth i gyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol gael eu llacio (sy'n golygu bod y rhaglenni wedi cael atgyfeiriadau o ffynhonnell/ffynonellau eraill) a hefyd wrth i raglenni newydd DWP, fel Ailgychwyn, ddechrau 'cystadlu' â CaW a CaW+ am atgyfeiriadau gan JCP (a thrwy hynny leihau nifer yr atgyfeiriadau gan JCP i CaW a CaW+). Adeg y gwaith maes yng ngwanwyn 2022, dywedodd timau CaW a CaW+ mewn ardaloedd a gynhwyswyd yn y sampl, fod atgyfeiriadau gan JCP yn cyfrif am rhwng hanner a mwy na thri chwarter eu cyfranogwyr.³⁶ O ganlyniad, roedd timau CaW a CaW+ yn aml yn teimlo'n orddibynol ar JCP ac yn awyddus i amrywio'r sianelau atgyfeirio.
- 4.12. Y llwybrau allweddol eraill ar gyfer recriwtio oedd:
- recriwtio'n uniongyrchol drwy'r cyfryngau cymdeithasol, a gynyddodd o ran defnydd a phwysigrwydd yn ystod y pandemig (gweler yr enghraifft o ymarfer), hunanatgyfeiriadau, argymhellion ar lafar, hysbysebu, gan gynnwys ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol (gweler yr enghraifft o ymarfer), taflenni, hysbysebion blaen siopau, digwyddiadau³⁷, gweithgaredd a gefnogir yn aml gan Swyddogion Ymgysylltu â Chyfranogwyr CaW+, y trafodir eu rôl isod; a

³⁵ Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhoi'r cymorth sydd ei angen ar bobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain, hosteli, tai gwarchod neu dai arbenigol eraill.

³⁶ Adroddwyd bod y ganran amcangyfrifedig isaf o atgyfeiriadau gan JCP yn 50-60% ym Mlaenau Gwent a'r uchaf yn 70-90% yn Sir Gaerfyrddin.

³⁷ Er enghraifft, dywedodd staff mewn un ardal eu bod wedi cynnal llawer o ddigwyddiadau 'troed yn y drws' e.e. yn y sectorau gofal neu adeiladu a gall hyn helpu i gynhyrchu cleientiaid sydd â diddordeb mewn dod o hyd i waith yn y meysydd penodol hynny.

- atgyfeiriadau o raglenni eraill fel Cymru'n Gweithio, a phartneriaid fel canolfannau a gwasanaethau'r ALI, Gyrfa Cymru (sy'n rhedeg Cymru'n Gweithio), y gwasanaeth ieuenctid (ar gyfer pobl ifanc) a'r Gwasanaeth Prawf.

4.13. Mewn perthynas â recriwtio uniongyrchol, nododd y rhai a gyfwelwyd mewn sawl ardal fod pobl ifanc NEET yn fwy tebygol o ymateb i ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol a bod pobl 25 oed a hŷn yn fwy tebygol o ymateb i ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn eu cymunedau.

Enghraifft o ymarfer: Recriwtio drwy'r cyfryngau cymdeithasol

Mewn un ardal dywedodd timau CaW a CaW+ fod y cyfnod clo wedi golygu bod eu gwaith marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol 'ar lefel cwbl wahanol' (yn eu geiriau nhw). Disgrifiwyd sut yr oeddent wedi datblygu tîm marchnata mewnol a oedd yn cyfarfod bob dydd lau am 60 i 90 munud i hyrwyddo eu hunain ar y cyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio Facebook, Instagram, Linked-In a Twitter. Yn ogystal â rhoi cyhoeddusrwydd i'w cynnig disgrifiodd y tîm sut y gwnaethant hefyd greu fideos ohonyn nhw eu hunain er mwyn i bobl allu rhoi enwau i wyneb.

Teimlai'r tîm mai Facebook oedd y platfform mwyaf llwyddiannus ac ar Facebook, roedd pobl a fyddai'n ei chael hi'n anodd ffonio i wneud apwyntiad yn gallu 'gwneud un tap a byddwn ni'n eu ffonio'n ôl'. Serch hynny, roeddent hefyd yn cydnabod yr hyn a gollwyd, megis y gallu i 'ddarllen' iaith y corff ac emosiynau'r cyfranogwyr yn fwy effeithiol, pan fyddant yn cyfarfod â chleientiaid wyneb yn wyneb.

4.14. Mewn perthynas â recriwtio drwy atgyfeiriadau gan bartneriaid, roedd peth siom yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes nad oedd partneriaid (ac eithrio JCP) yn ffynonellau mwy ffrwythlon. Er enghraifft, mewn un ardal, dadleuwyd y dylai darparwyr hyfforddiant fod yn atgyfeirio pobl sy'n cwblhau neu'n rhoi'r gorau i gyrsiau ac nad oeddent wedi cael swyddi, ond nad oedd hyn yn digwydd. Rhagwelwyd hefyd yn yr achos busnes y bydd staff CaW yn gweithio'n agos gyda meddygfeydd lleol ac ymarferwyr iechyd cymunedol i gefnogi cleifion i nodi cyfleoedd cyflogaeth amgen fel ffordd o gynnig buddion sy'n gysylltiedig ag iechyd (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad,

a, tud. 6) ond ychydig o dystiolaeth oedd bod timau CaW neu CaW+ yn derbyn nifer fawr o atgyfeiriadau o'r ffynonellau hyn yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes³⁸. Yn wir, ni wnaeth dros hanner yr ardaloedd nodi meddygon teulu fel ffynhonnell atgyfeiriadau.

- 4.15. Fe wnaeth staff rheng flaen CaW yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes hefyd wahaniaethau rhwng ymgysylltiad pobl ifanc a'r rhai 25 oed a hŷn, gan amlygu sut yr effeithiodd gwahaniaethau ym meini prawf cymhwysedd CaW ar gysylltiadau ar gyfer y ddau grŵp (yn wahanol i CaW+ sydd â meini prawf cymhwysra mwy hyblyg). Yn gyffredinol, ystyriwyd ei bod yn haws ymgysylltu â'r cyntaf (pobl ifanc); er enghraifft, fel yr eglurodd un rheolwr, 'nid oes rhaid i'r rhai dan 25 oed fod wedi bod yn hawlio am dros flwyddyn'. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, fel y dywedodd staff mewn un ardal, ystyriwyd bod y rhai dros 25 oed yn wynebu mwy o rwystrau a oedd yn ei gwneud yn anos ymgysylltu â nhw ac yn golygu bod eu symud ymlaen i gyflogaeth yn aml yn broses tymor hwy.

Ymgysylltu â'r rhai sydd â rhwystrau mwy cymhleth

- 4.16. Ystyriwyd bod natur wirfoddol y rhaglenni CaW a CaW+, a'r amser yr oeddent yn ei ganiatáu i gefnogi pobl, yn hanfodol i ymgysylltu â'r rhai â rhwystrau cymhleth a'u cefnogi. Fel yr eglurodd un o'r rhai a gyfwelwyd, 'dydyn ni ddim yn gwthio neb i wneud dim nad ydyn nhw am ei wneud, mae llai o bwysau... mae'n gyfle i siarad ac i ddadansoddi'r problemau. Mae gennym yr amser i fod yn amyneddgar a thrafod pethau ar gyflymder sy'n addas i'r unigolyn'. Yn anochel, roedd hyn yn aml yn golygu bod angen mwy o gymorth ac amser ar y rhai a chanddynt fwy o rwystrau.
- 4.17. Fodd bynnag, nodwyd hefyd, wrth i rwystrau ddod yn fwy cymhleth ei bod, yn gyffredinol yn mynd yn anos ymgysylltu â'r person hwnnw, ac fel y dengys yr enghraifft o ymarfer, dywedodd staff rheng flaen fod y rhaglen yn cael trafferth i ymgysylltu â rhai grwpiau. Er enghraifft, dywedodd cynghorydd Gyrfa Cymru yn y Gogledd y gallai'r rhai sydd ymhellach o'r farchnad fod â rhwystrau ychwanegol fel

³⁸ Mewn un ardal, cyn y pandemig adroddwyd bod gan un o'r Cynghorwyr ddesg mewn meddygfa a chafodd ei alw i mewn i siarad â chleifion a oedd yn awyddus i weithio, ochr yn ochr â'r meddyg (yn ei hanfod, math o bresgripsiynu cymdeithasol). Roedd cyfanswm o wyth unigolyn wedi'u recriwtio i CaW fel hyn ac roedd dau o'r rhain wedi mynd ymlaen i ddod o hyd i swyddi. Fodd bynnag, cafodd y trefniant hwn ei atal yn dilyn y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf. Roedd yn ymddangos bod ail ardal wedi gwneud rhywfaint o waith allgymorth gyda meddygfeydd, ond roedd hyn yn weddol anffurfiol, a daeth hynny hefyd i ben yn dilyn y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf. Nododd trydedd ardal ei bod wedi cael atgyfeiriadau gan y Tîm Iechyd Meddwl, a meddygon teulu (ymhlith rhestr hir o bartneriaid), ond roedd yn glir bod y rhan fwyaf o atgyfeiriadau wedi dod o du JCP neu'n hunanatgyfeiriadau

iechyd meddwl a chymhelliant, ac o ganlyniad gall fod yn anodd weithiau eu cael i gydnabod bod angen help arnynt neu i gytuno i gael help gan sefydliad arall. O ystyried yr heriau wrth fynd ati'n rhagweithiol i nodi cyfranogwyr posibl â rhwystrau cymhleth, dywedodd rhai ardaloedd eu bod yn dibynnu ar JCP i helpu i'w hadnabod a'u hatgyfeirio neu eu cyflwyno i'r rhaglen.

Enghraifft o ymarfer: anawsterau o ran â chyfranogwyr ag anghenion cymhleth a chefnogi'r cyfranogwyr hynny

Er gwaethaf llwyddiant y rhaglenni o ran ymgysylltu â phobl â rhwystrau i gyflogaeth, nododd y rhai a gyfwelwyd o'r ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes rai grwpiau yr oeddent yn teimlo nad oedd y rhaglen yn gallu ymgysylltu â nhw a'u cefnogi'n effeithiol. Er enghraifft, mewn un ardal:

- dywedodd un o gynghorwyr Gyrfa Cymru fod llawer o bobl niwroamrywiol, megis pobl ifanc awtistig yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith. Fodd bynnag, fel y dywedodd, mae eu helpu nhw 'ymhell y tu hwnt i gylch gwaith y rhaglenni', ac 'ychydig iawn o gymorth sydd ar gael iddyn nhw'. Yn yr un modd, nododd unigolyn arall a gyfwelwyd yn yr ardal fod ganddo bobl ifanc ag anabledau dysgu ond: 'nid oes gennyf brofiad o anabledau dysgu ac rwy'n ei chael hi'n anodd gwybod beth y gallaf ei gynnig';
- nododd staff rheng flaen fod ei bod 'hefyd yn anodd ymgysylltu â'r rhai sy'n gadael gofal ... maen nhw'n cael llawer o gymorth, mae cymorth yn dod allan o'u clustiau ond yn ôl yr hyn y maen nhw'n ei ddweud wrthym, nid dyna'r cymorth sydd ei angen arnyn nhw'; a
- nododd staff rheng flaen y gallai cyfranogwyr heb sgiliau hanfodol gael eu dal mewn sefyllfa amhosibl lle nad oedd ganddynt y sgiliau angenrheidiol i fanteisio ar hyfforddiant, ond bod angen iddynt gael hyfforddiant i wella eu sgiliau. Nodwyd yn benodol bod y rhai ag anghenion ychwanegol yn wynebu problemau penodol o ran manteisio ar hyfforddiant. Gallai sgiliau Saesneg gwan hefyd ei gwneud yn anodd i rai cyfranogwyr, megis ffoaduriaid, fanteisio ar hyfforddiant (gweler e.e. [Llywodraeth Cymru, 2020e](#)).

Swyddogion Ymgysylltu â Chyfranogwyr CfW+

- 4.18. Rhagwelwyd y byddai Swyddogion Ymgysylltu â Chyfranogwyr yn gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol lleol ac unigolion i godi proffil ac ymwybyddiaeth o'r rhaglen, gan greu cyfleoedd i nodi chyfranogwyr newydd, ymgysylltu â nhw a'u cofrestru ar y rhaglen. (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, g):
- 4.19. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn ei chael hi'n anodd nodi gwerth gwaith Swyddogion Ymgysylltu â Chyfranogwyr CaW+ ac mewn rhai ardaloedd ni cyfeiriwyd atynt o gwbl. Mewn un ardal sydd wedi'i gynnwys yn y gwaith maes nid oes unrhyw Swyddog Ymgysylltu. Serch hynny, fel y dengys yr enghraifft o ymarfer, mewn rhai ardaloedd eraill yr ymwelwyd â nhw, fe'u hystyriwyd yn bwysig.

Enghraifft o ymarfer: Swyddog Ymgysylltu â Chyfranogwyr

Mewn un ardal yr ymwelwyd â hi, dywedwyd bod Swyddog Ymgysylltu â Chyfranogwyr CaW+ yn gyfrifol am ysgogi tuag un rhan o bump o'r cysylltiadau ar draws y rhaglen CaW+, ond llai ar draws CaW.

Dywedwyd bod y Swyddog Ymgysylltu wedi chwarae rhan allweddol o ran helpu i drefnu deunyddiau marchnata a deunyddiau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a oedd yn hollbwysig yn ystod y pandemig, o ystyried nad oedd modd cynnal unrhyw ddigwyddiadau wyneb yn wyneb a dywedodd y tîm fod ganddo ymgyrch gref ar y cyfryngau cymdeithasol ar draws y sir.

Adeg y gwaith maes (yng ngwanwyn 2022), roedd y Swyddog Ymgysylltu wedi dechrau trefnu digwyddiadau wyneb yn wyneb yn ddiweddar, ac roedd hyn yn cynnwys Ffair Swyddi ddiweddar, er enghraifft, a arweiniodd at 86 o ffurflenni atgyfeirio at fentrau cyflogadwyedd ledled y sir. Mae'r Swyddog Ymgysylltu hefyd wedi estyn allan i lyfrgelloedd, banciau bwyd, canolfannau brechu COVID-19 a lleoliadau prifysgol gyda llenyddiaeth farchnata.

Brysbennu

- 4.20. Roedd swydd y Gweithiwr (neu swyddog) Brysbennu yn un o ddatblygiadau arloesol allweddol y rhaglen CaW. Yn achos busnes CaW rhagwelwyd:

Bydd y Gweithiwr Brysbennu yn cefnogi cynghorwyr a mentoriaid CaW i ganfod cymhwystra cyfranogwr, casglu tystiolaeth briodol am gymhwystra a rheoli atgyfeiriadau am hyfforddiant i'r darparwr gwasanaeth a reolir. Bydd gweithwyr

brysbennu hefyd yn chwarae rhan hanfodol mewn rheoli achosion ar draws CaW a rhwydweithiau partneriaeth lleol, gan sicrhau bod yr unigolyn yn cael y lefel briodol o wasanaeth a chymorth sydd ar gael a bod gwasanaethau cymorth wedi'u halinio, a bod dyblygu'n cael ei leihau. (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a., tud. 35):

- 4.21. Yn ymarferol, roedd y gwaith maes yn awgrymu bod rôl Gweithwyr Brysbennu yn canolbwyntio'n bennaf ar sefydlu cymhwysra a dyrannu cyfranogwyr i gynghorwyr neu fentoriaid, i sicrhau eu bod yn cael y lefel briodol o wasanaeth a chymorth.
- 4.22. Roedd dipyn o wahaniaeth barn ynghylch effeithiolrwydd y rôl. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod rôl y Gweithiwr Brysbennu yn ddefnyddiol o ran sefydlu cymhwysra darpar gyfranogwyr ar gyfer y rhaglenni. Yn ogystal â hynny, mewn rhai ardaloedd, gwelwyd ei fod yn effeithiol o ran paru cyfranogwyr â'r rhaglen a'r person cywir a sicrhau tryloywder a thegwch wrth ddyrannu cleientiaid. Roedd hyn i'w weld yn fwyaf amlwg lle roedd un pwynt mynediad i wasanaethau cyflogaeth yn yr ALI (a drafodir isod) a mwy o ymddiriedaeth rhwng y CCA a DWP. Fodd bynnag, mewn ardaloedd ble roedd llai o ymddiriedaeth rhwng y CCA a DWP, ble roedd y galw am wasanaethau cymorth yn llai na'r capasiti, a ble roedd mwy o gystadleuaeth o fewn CaW rhwng cynghorwyr a mentoriaid ar gyfer cyfranogwyr³⁹, roedd rhai o'r staff yn ystyried bod y rôl yn llai llwyddiannus o ran dyrannu cleientiaid. Roedd yn ymddangos mai ffactorau allanol a oedd wrth wraidd hyn, fel diffyg ymddiriedaeth a gwahaniaethau diwylliannol rhwng DWP a'r CCA, yn hytrach na phroblemau cynhenid gyda rôl y swyddog brysbennu.

Enghraifft o ymarfer: brysbennu a mynediad at gymorth cyflogadwyedd

Mewn un ardal mae un broses frysennu wedi'i sefydlu ar gyfer ystod o wahanol raglenni cymorth cyflogadwyedd cenedlaethol a rhanbarthol gan gynnwys CaW, CaW+, PaCE, Cymru'n Gweithio, a Gweithffyrdd+. ⁴⁰ Ar y panel brysbennu, a elwir yn grŵp Cymorth Cyflogadwyedd Sir Gaerfyrddin⁴¹, mae cynrychiolwyr o'r holl bartneriaid allweddol ac mae'n adolygu'r holl atgyfeiriadau newydd yn wythnosol.

³⁹ Mesurwyd perfformiad timau, yn hytrach nag unigolion, ond roedd unigolion o hyd a oedd yn amddiffyn eu cyfranogwyr yn chwyrn yn hytrach na brysbennu'n briodol.

⁴⁰ Rhaglen ranbarthol a ariennir gan ESF yng Ngorllewin Cymru yw Gweithffyrdd+ sy'n gweithio gydag oedolion di-waith drwy ddarparu cymorth i ddod o hyd i waith, hyfforddiant, profiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli.

⁴¹ Mae'r broses frysennu yn un agwedd ar waith grŵp Cymorth Cyflogadwyedd Sir Gaerfyrddin – mae hefyd yn cydweithio i drefnu digwyddiadau ar y cyd megis ffeiriau swyddi er mwyn recriwtio cleientiaid newydd o bob rhan o'r sir.

Ariennir y swyddog brysbennu drwy CaW ond mae'n gweithredu ar draws yr holl fentrau cyflogaeth.

Dywedwyd bod y broses frysbennu hon yn gweithio'n dda oherwydd bod llawer o ymddiriedaeth rhwngartneriaid ac mae llif yr atgyfeiriadau i'r panel brysbennu fel arfer yn iach (ac eithrio yn ystod y pandemig pan leihaodd y niferoedd). Dywedwyd hefyd bod ganartneriaid ddealltwriaeth dda iawn o'r hyn y mae'r naill a'r llall yn ei ddarparu ac mae hyn yn bwysig yn yr hyn a ddisgrifiwyd fel ecosystem eithaf cymhleth o wasanaethau cymorth cyflogaeth, lle mae llawer o'r dyraniadau a wneir yn seiliedig ar gymhwysra.

Dywedodd y rhai a gyfwelwyd mai un o brif gryfderau'r dull gweithredu oedd y 'gallwn fynd i'r ganolfan waith a gwerthu cymorth cyflogaeth ... rydym yn osgoi drysu asiantaethau partner a chwsmeriaid' gan nad oes angen iddynt boeni am y gwahaniaethau rhwng amrywiol raglenni. Gallant atgyfeirio at y gwasanaeth brysbennu gan wybod y bydd y panel yn datrys y materion yn ymwneud â chymhwysra.

O gymharu ag ardaloedd eraill, roedd y cyfranwyr o'r farn bod gan yr ardal fodel da iawn - roedd rhai wedi gweithio mewn ardal arall yn flaenorol ac wedi canfod bod y model yn llawer mwy cystadleuol gyda gwahanol fentrau'n ymladd dros atgyfeiriadau ac yn amddiffyn eu cronfa o gleientiaid.

4.23. At hynny, hyd yn oed mewn ardaloedd lle y teimlwyd bod y broses frysbennu'n gweithio'n dda, codwyd pryderon gan staff rheng flaen yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes:

- oherwydd bod y swyddogion brysbennu yn cael eu cyflogi gan ALLau neu CGS, yn hytrach na DWP, ni allent gael mynediad at gronfeydd data DWP (a oedd yn eu hatal rhag chwilio am fanylion cleientiaid a hefyd i gribo'r gronfa ddata am gleientiaid posibl); a
- roedd y broses frysbennu yn ychwanegu haen arall o fiwrocratiaeth, er enghraifft, pan wnaeth anogwr gwaith atgyfeiriad uniongyrchol at gynghorydd CaW, a oedd wedyn yn gorfod trosglwyddo'r atgyfeiriad i'r swyddog brysbennu, a allai wedyn ei ddyrannu'n ôl i'r cynghorydd. Er nad yw hyn yn

ofynnol yn y canllawiau,⁴² dywedodd staff rheng flaen fod hyn yn arfer cyffredin yn eu hardal, ac y gallai hyn arafu'r broses ymgysylltu a hefyd gynyddu'r risg o golli darpar gleient (er enghraifft, fel yr eglurodd aelod o staff rheng flaen, 'roedd yn llais arall' yr oedd yn rhaid argyhoeddi cleientiaid ei fod yn ddilys).

Cymorth gan gynghorwyr a mentoriaid

4.24. Yn dilyn brysbennu, mae cynghorwyr a/neu fentoriaid yn mynd ar drywydd cleientiaid ac yn cynnal asesiad manylach, i nodi dyheadau a nodau'r cyfranogwyr, eu profiadau, eu galluoedd a'u rhwystrau posibl, a phenderfynu faint o gymorth sy'n briodol a pha fath o gymorth.

4.25. Roedd yr ethos hyblyg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei ystyried yn un o brif gryfderau'r rhaglenni gan bawb a gyfwelwyd. Mae'n golygu y gall cynghorwyr a/neu fentoriaid:

- gymryd yr amser sydd ei angen i adeiladu perthynas ac ymddiriedaeth⁴³ a all annog pobl i ddatgelu rhwystrau sensitif, fel cofnod troseddol;
- penderfynu pa gymorth sy'n briodol (er enghraifft, fel y dywedodd aelod rheng flaen o'r staff: 'mae pob cleient yn wahanol, ac mae pob cleient yn ymateb yn wahanol i ddulliau gwahanol'); a
- nid oes rhaid iddynt wneud i bobl ruthro i dderbyn gwaith anaddas neu anghynaliadwy.

4.26. Fel y dengys yr enghraifft o ymarfer isod, mae cymorth gan gynghorwyr a mentoriaid yn greiddiol i'r rhaglenni. Roedd hyn yn cynnwys:

- cymorth ymarferol i gryfhau galluoedd pobl, gan gynnwys:

⁴² Mae Achos Busnes CaW yn nodi nad yw'r broses frysennu wedi'i chyfyngu i'r gweithwyr brysbennu a chaiff ei chyflawni gan bob aelod o staff ar y cyswllt cyntaf â chyfranogwyr i benderfynu ar y ffordd orau o roi cymorth i'r unigolyn.' (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a., tud. 34-35): Nododd y gwaith maes y bydd cynghorwyr neu fentoriaid yn derbyn atgyfeiriadau uniongyrchol mewn rhai ardaloedd, lle y gwelir ei bod yn fuddiol gwneud hynny. Er enghraifft, pan fydd Anogwr Gwaith yn gwneud atgyfeiriad uniongyrchol at gynghorydd. Fodd bynnag, mewn ardaloedd eraill yr ymwelwyd â nhw, dywedodd y cynghorwyr eu bod yn dal i atgyfeirio'r achosion at y swyddog brysbennu hyd yn oed pan fydd hyn yn digwydd a'u bod yn gwybod y bydd y cleientiaid yn cael eu hatgyfeirio'n ôl atynt mewn pryd.

⁴³ Fel y dywedodd un o reolwyr DWP 'Mae'r amser sydd ar gael i siarad â phobl yn bwysig iawn. Eistedd gyda rhywun am awr a dod i'w hadnabod a dod i wybod am eu cefndir. 'Rydych chi'n dod i wybod sut mae eu meddwl nhw'n gweithio a beth sy'n eu dal yn ôl'. Roedd amynedd hefyd yn cael ei ystyried yn bwysig a dywedodd staff mewn un ardal yr ymwelwyd â hi bod cynghorwyr a mentoriaid yn rhoi 'ail gyfle' i gleientiaid nad ydynt yn cadw eu hapwyntiadau, sy'n meithrin ymddiriedaeth ac yn rhoi'r amser sydd ei angen ar bobl i newid.

- gweithgareddau megis chwilio am swyddi, cofrestru ar safleoedd swyddi, e-bostio swyddi gwag a chyfeirio pobl at ffeiriau swyddi a digwyddiadau, i wella mynediad cyfranogwyr i gyfleoedd cyflogaeth a'u gwybodaeth amdanynt ac i gryfhau'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i chwilio am swyddi'n effeithiol;
 - gweithgareddau fel llunio CV, cymorth gyda cheisiadau am swyddi, sgiliau cyfweliad a ffug gyfweliadau, i gryfhau'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfranogwyr i wneud ceisiadau effeithiol am swyddi;
 - cyfleoedd hyfforddiant, lleoliadau gwaith a/neu wirfoddoli, i feithrin sgiliau a phrofiad, cryfhau eu CV ac o bosibl ennill ardystiadau neu gymwysterau sy'n gysylltiedig â gwaith;
 - atgyfeirio pobl at bartneriaid fel Cyngor ar Bopeth (CAB) a gwasanaethau ALL i helpu i fynd i'r afael â'r heriau ym mywydau pobl a fyddai fel arall yn eu llesteirio rhag ymgeisio am a/neu gynnal swydd, megis anawsterau ariannol, problemau tai a/neu gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol;
 - cymorth ariannol drwy'r gronfa rwystrau neu Gronfa Cymorth Hyblyg DWP; a
- cymorth emosiynol, i ysgogi a grymuso cyfranogwyr. Er enghraifft, fel y dywedodd un aelod o staff, 'Yn aml mae'n ymwneud â dal llaw rhywun, dweud wrthyn nhw y bydden nhw'n gallu gwneud y swydd hon yn dda, gan godi eu hyder. Nid oes angen llawer o help ar rai, ond nid felly eraill. Rhoi hwb i'w hyder, gwneud iddyn nhw gredu ynddyn nhw eu hunain, mae'n ymwneud â'r camau bach, ni ddylai'r daith fyth ddod i ben.'

Enghraifft o ymarfer: taith cyfranogwr CaW+

Disgrifiodd aelod o dîm CaW+ mewn un ardal yr ymwelwyd â hi sut y bu i JCP gyfeirio Chris (nid ei enw iawn), at y swyddog brysbennu, a wiriodd a oedd yn gymwys ar gyfer y rhaglen ac a gynhaliodd asesiad cychwynnol, ac yna ei aseinio i Steve (nid ei enw iawn), mentor CaW+. Cysylltodd Steve â Chris a chael sgwrs anffurfiol hir i ddod i'w adnabod yn well. I ddechrau, dywedodd Chris ei fod eisiau adnewyddu ei drwydded wagen fforch godi, ond wrth i Steve ddod i adnabod Chris yn well, daeth i'r amlwg bod Chris yn arfer bod yn gaeth i gyffuriau a'i fod wedi cael ei wahardd rhag gyrru, ac roedd yn teimlo bod gweithio yn ystod y dydd yn anodd

gan mai dim ond newydd gael gwarchodaeth dros ei blentyn yr oedd. Daeth i'r amlwg hefyd fod Chris yn byw uwchben siop a bod pryderon am gyflwr ei dŷ.

Rhoddodd Steve help i Chris ddod o hyd i fflat newydd gyda chymorth tîm yn yr awdurdod lleol sy'n darparu cymorth holistaidd ar gyfer materion fel tlodi bwyd, dyledion neu ôl-ddyledion rhent, ynysigrwydd neu unigrwydd.

Â'i fywyd cartref yn fwy sefydlog, roedd Chris yn barod i ddechrau chwilio am waith, ac fe drefnodd Steve gyfarfod i ddatblygu ei CV. Cafodd hyn ei wneud dros y ffôn, a disgrifiodd Steve iddo ddweud wrth Chris, 'siarda di, fe deipia i', i sicrhau bod y CV yn seiliedig ar ei eiriau ei hun, yn ogystal bodloni disgwyliadau cyflogwyr.

Trefnodd Steve hefyd ffug gyfweiliad ac atgoffodd Chris o'r pethau y dylai - ac na ddylai eu dweud. Nawr bod Chris yn barod, fe ddechreuon nhw ymgeisio am swyddi a pharhaodd Steve i weithio gyda Chris nes iddo ddod o hyd i swydd newydd.

4.27. Nodwyd yn gyson gan y rhai a gyfwelwyd bod natur wirfoddol y berthynas rhwng y cyfranogwyr â chynghorwyr CaW a mentoriaid CaW a CaW+ yn bwysig. Dywedwyd ei fod yn golygu bod y cyfranogwyr yn fwy tebygol o fod â chymhelliant i ddod o hyd i waith ac fe'i cymharwyd â rhaglenni gorfodol lle y gallai cyfranogwyr fod yn gwneud dim ond 'mynd drwy'r broses' fel y dywedodd un aelod o staff rheng flaen mewn un ardal. Roedd hyn, ynghyd â'r ffaith bod y rhaglenni wedi'u lleoli yn y gymuned, wedi helpu i wahaniaethu CaW a CaW+ oddi wrth JCP (er gwaetha'r ffaith bod CaW yn cael ei darparu gan gynghorwyr DWP). Bu hyn o gymorth gyda gwaith ymgysylltu cychwynnol y rhaglenni, gyda chyfranogwyr yn cymryd 'perchnogaeth o'u dyfodol' fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd.

4.28. Serch hynny, cydnabu'r rhai a gyfwelwyd y gallai fod rhywfaint o'r hyn y gellid ei ddisgrifio'n 'amodoldeb meddal' gan DWP/JCP i ymgysylltu â'r rhaglenni. Er enghraifft, dywedodd staff rheng flaen yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes:

- i ddechrau nid oedd yr holl gyfranogwyr a atgyfeiriwyd gan JCP yn ymwybodol nac yn llawn ddeall bod cymryd rhan yn CaW neu CaW+ yn wirfoddol, ac y gellid defnyddio cyfranogiad yn CaW neu CaW+ i gyflawni ymrwymadau hawlwr i fod wrthi'n chwilio am waith;

- yn ystod y pandemig, pan gafodd ymrwymiadau'n ymwneud â gwaith JCP eu hatal dros dro, lleihaodd y cysylltiadau â'r rhaglen (er nad dyma'r unig ffactor), mater a drafodir ymhellach yn adran pump, wrth ystyried effaith y pandemig ar y rhaglen;
- os na all cynghorwyr CaW/CaW+ gael gafael ar gleientiaid gallant ofyn i anogwyr gwaith fynd ar eu holau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am eu statws.

4.29. Fel y trafodir yn adran pump, gallai'r amodoldeb meddal hwn helpu'r rhaglenni i estyn allan at y rhai na fyddent wedi ymgysylltu â nhw fel arall. Fodd bynnag, gallai hefyd olygu bod y rhaglenni wedi gwastraffu adnoddau yn ceisio gweithio gyda phobl nad oedd ganddynt fawr o ddiddordeb mewn ymgysylltu â'r rhaglenni na fawr o gymhelliant i wneud hynny.

Sgiliau a gwybodaeth y staff

4.30. Mae sgiliau cymdeithasol ac emosiynol a gwybodaeth cynghorwyr CaW a mentoriaid CaW a CaW+ yn hanfodol. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd datblygu perthynas o ymddiriedaeth, sy'n galluogi cynghorwyr a mentoriaid i gefnogi a, lle y bo'n briodol, herio cyfranogwyr, a nodi, fel y dywedodd un unigolyn a gyfwelwyd, y rhwystrau 'gwirioneddol' i gyflogaeth, mewn ffordd na ellir ei gyflawni'n aml yn JCP. Awgryma'r gwaith maes, er bod llawer o gynghorwyr a/neu fentoriaid wedi dod â sgiliau a phrofiad o rolau blaenorol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i raglenni cyflogadwyedd eraill a'r DWP, eu bod hefyd wedi dysgu yn y swydd. Nodwyd hefyd nad oes llwybr gyfa neu gymwysterau penodedig ar gyfer cynghorwyr neu fentoriaid, yn wahanol i waith ieuenctid a gwaith cymdeithasol er enghraifft, sy'n weithwyr proffesiynol lefel gradd. Er y gall staff fel cynghorwyr gael eu hyfforddi gan DWP (gweler yr enghraifft o ymarfer) neu ddilyn cyrsiau cyngor ac arweiniad Lefel 4.

Enghraifft o ymarfer: Hyfforddiant i staff DWP

Disgrifiodd rheolwr CaW sut y mae staff DWP yn cael eu hyfforddi am chwe wythnos cyn iddynt ddechrau fel Anogwr Gwaith DWP. Mae'r hyfforddiant hwn yn cwmpasu meysydd fel budd-daliadau lles, llunio CV ac edrych ar yr hyn y gall pobl ei wneud, yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud. Yn ogystal â hynny, mae staff DWP:

- yn gyffredinol wedi cwblhau cymhwyster City & Guilds Lefel 4 mewn Rheoli Darparu Gwasanaethau i Gwsmeriaid (Darpariaeth Weithredol);
- wedi cwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth, hyfforddiant Hyderus o ran Anabledd, Mynediad i Waith, hyfforddiant Hygyrchedd a nifer o gyrsiau eraill ac mae'n ofynnol iddynt ymgymryd â hyfforddiant blynyddol rheolaidd yn amrywio o Weithio ar eich Pen eich Hun i Ddiogelu Data;
- yn gallu manteisio ar sesiynau mewnol arbenigol sy'n cwmpasu, er enghraifft, cefnogi cyn-droseddwyr a'r rhai sy'n anabl; a
- yn cael sesiynau gyda Thimau Cyflogwyr a Phartneriaethau Cenedlaethol (NEPT) sy'n ymdrin ag ystod o bynciau cyflogaeth.

4.31. Er ei fod yn hanfodol, nododd y gwaith maes bod sgiliau ac ymrwymiad gwahanol staff yn amrywio (ond nid yw hynny'n syndod). Fel y dywedodd un rheolwr: mae rhai aelodau o staff yn 'ymroi o ddifrif' tra bod 'eraill yn gwneud y mymryn lleiaf posibl'. O ystyried maint bach y timau, disgrifiwyd effaith tanberfformio, absenoldeb staff a/neu broblemau recriwtio staff fel 'aruthrol' mewn un ardal. Er na chodwyd hyn fel problem amlwg yn yr ardaloedd eraill a gynhwyswyd yn y gwaith maes, mae'n debygol y byddai maint bach y timau yn dwysáu effaith problemau hyd yn oed gyda nifer fach o staff rheng flaen ar gyflawni'r rhaglen.

Hyfforddiant

4.32. Mae achos busnes CaW yn nodi'r cysylltiad rhwng diweithdra a lefel isel o gymwysterau neu ddim cymwysterau o gwbl ac mae'n rhagweld y bydd gan y cyfranogwyr, at ei gilydd, sgiliau ar lefel mynediad yn bennaf, neu ddim sgiliau o gwbl.⁴⁴ (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a., tud. 8): Fel yr amlinellir yn adran chwech:

- nid oes gan 22 y cant o gyfranogwyr CaW a 15 y cant o gyfranogwyr CaW+ unrhyw gymwysterau; a

⁴⁴ Yn yr un modd, mae'r achos busnes yn nodi y bydd CaW yn ymgysylltu â phobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn y 13 o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn DC [Dwyrain Cymru] sydd â sgiliau lefel mynediad yn bennaf' (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, tud. 3).

- nid oes gan 84 y cant gyfranogwyr CaW a thua 65 y cant o gyfranogwyr CaW+ unrhyw gymwysterau sy'n uwch na lefel dau.⁴⁵

4.33. Serch hynny, mae'n bwysig nodi nad oes gan bob cyfranogwr lefel isel o sgiliau, ac er enghraifft, roedd gan dros 750 (o dan 3%) o gyfranogwyr CaW gymwysterau lefel 6 neu uwch (cyfwerth â gradd) a bod anghenion hyfforddi rhai cyfranogwyr yn ymwneud â sgiliau a/neu ardystiad sydd ei angen ar gyfer galwedigaeth benodol (adeiladu neu ddiogelwch fel arfer), yn hytrach na diffyg sgiliau mwy cyffredinol.

4.34. Dywedodd staff yn yr ardaloedd yr ymwelwyd â nhw fod hyfforddiant yn arf ar gyfer ymgysylltu – fel y dywedodd un unigolyn a gyfwelwyd, mae'r cynnig o hyfforddiant yn 'bwynt gwerthu ar gyfer unrhyw raglen gyflogadwyedd' – yn ogystal ag ymyriad pwysig i helpu cyfranogwyr i gyflawni deilliannau cyflogaeth. Fodd bynnag, fel y dywedodd staff rheng flaen mewn un ardal, roedd cael cyfranogwyr i gymryd rhan mewn hyfforddiant yn aml yn 'her', ond ar ôl iddynt ddechrau'r hyfforddiant credwyd ei fod yn helpu cyfranogwyr i wireddu eu dyheadau. Roedd yr hyfforddiant yr oedd y cyfranogwyr yn manteisio arno yn ardaloedd y gwaith maes yn cynnwys:

- cyrsiau am ddim, fel y rhai a ariennir gan DWP, cymdeithasau tai, y sector gwirfoddol⁴⁶ neu awdurdodau lleol⁴⁷, gan gynnwys cyrsiau am ddim a ddarperir gan golegau lleol⁴⁸ neu Addysg Oedolion Cymru;
- hyfforddiant a ddarperir gan ACT⁴⁹ (ar gyfer CaW) neu wedi'i gomisiynu gan dimau cyflawni CaW+; ac
- yn llai aml, hyfforddiant y telir amdano gan y Gronfa Rwystrau, (fel mesur tymor byr yn ystod y pandemig COVID-19), Cronfa Cymorth Hyblyg DWP, Cyfrifon Dysgu Personol neu raglen arall, fel ReAct.

Modelau hyfforddiant a brynir o gymharu â hyfforddiant ar y farchnad

⁴⁵ Mae gwahaniaethau yn y ffordd y mae CaW a CaW+ yn casglu ac yn cofnodi data yn golygu nad yw'n bosibl cynnwys ffigur manwl gywir ar gyfer CaW+, oherwydd bod rhai cymwysterau'n cael eu cofnodi o dan gategori "arall". Credir y bydd y rhan fwyaf yn gymwysterau islaw Lefel 2, megis cymwysterau Sgiliau Allweddol, ond gall hefyd gynnwys cymwysterau nad ydynt yn cydweddu'n hawdd â chategoriâu'r Fframwaith Credydau a Chymwysterau, megis cymwysterau o wledydd eraill, a all fod yn gymwysterau cyfwerth â chymwysterau uwch na lefel 2.

⁴⁶ Er enghraifft, mae Môn CF yn cynnig hyfforddiant mewmol sylfaenol – iechyd a diogelwch, diogelwch tân, cymorth cyntaf, cymorth cyntaf iechyd meddwl, SIA a chysiau adeiladu.

⁴⁷ Er enghraifft, disgrifiodd un ardal dîm addysg oedolion sy'n cynnig ystod o gyrsiau galwedigaethol byr fel: hylendid bwyd a chodi a chario, tra bod academiâu gofal ac adeiladu yn cynnig hyfforddiant, lleoliadau a chyfleoedd gwaith sy'n benodol i'r sector.

⁴⁸ Er enghraifft, mae un tîm yn atgyfeirio pobl at gwrs 'Rhoi Sglein ar Eich Sgiliau' Coleg Menai sy'n adeiladu sgil a hyder

⁴⁹ ACT yw'r enw masnachu ar gyfer Associated Community Training Limited.

- 4.35. Mae rhaglen CaW yn cynnwys model hyfforddiant a brynir a ddarperir gan ACT, y gellir manteisio arno dim ond os nad oes dewis arall am ddim.⁵⁰ Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mae CaW+ yn defnyddio model marchnad, lle mae gan bob ardal gyllideb ar gyfer hyfforddiant.
- 4.36. Cafwyd nifer fach o sylwadau cadarnhaol am y model hyfforddiant a brynir. Er enghraifft, esboniodd un mentor CaW+, a oedd wedi symud i rôl mentor CaW yn ddiweddar, fod 'catalog ACT yn wych ac yn werthfawr. Mae'r cyrsiau pwrpasol hyn ar-lein neu wyneb yn wyneb yn wych. Maen nhw'n cynnig opsiynau newydd i bobl.' Dywedodd staff rheng flaen hefyd mewn un ardal, er bod DWP yn gallu talu am hyfforddiant, gall y broses o wneud cais i'r Gronfa Cymorth Hyblyg fod yn astrus a bod archebu hyfforddiant 'y telir amdano' drwy'r EBS [System Archebu Electronig] yn llawer haws. Yn yr un modd, dywedodd rheolwyr strategol eu bod yn teimlo bod gweithredu'r EBS ar gyfer hyfforddiant 'wedi newid pethau'n sylweddol ac er gwell'. Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i ba mor gyflym y gellir archebu cyrsiau ac i amlygrwydd yr hyn sydd ar gael, ble, a phryd. Mae'r EBS hefyd wedi 'safoni', 'ffurfioli' a 'chyflymu' y ffordd y mae'r darparwr dysgu yn cyfathrebu gyda chyfranogwyr, gan gynnwys, er enghraifft, anfon gwahoddiadau i hyfforddiant a dangos tystiolaeth o gymwysterau a enillwyd, gan nad oes angen i ACT anfon tystysgrifau papur at unigolion mwyach.
- 4.37. Fodd bynnag, dywedodd nifer o staff rheng flaen fod rhwystredigaeth gyda'r broses o fanteisio ar hyfforddiant ACT, bod cyfyngiadau ar yr hyn y mae'n ei gynnig a bod ganddo fonopoli dros hyfforddiant CaW⁵¹. Roedd hyn yn cynnwys:
- rhwystredigaeth gyda'r gofyniad bod yn rhaid i gynghorwyr neu fentoriaid ddarparu tystiolaeth eu bod wedi chwilio am hyfforddiant am ddim ac wedi cael eu gwrthod cyn iddynt allu cofrestru cyfranogwyr ar gyrsiau ACT;
 - rhwystredigaeth gyda'r hyn a ystyriwyd yn broses orfiwrocraidd i drefnu i gyfranogwyr gael hyfforddiant. Dywedwyd bod hyn yn cymryd amser, ac fel y dywedodd aelod o staff rheng flaen, y 'gair allweddol yw brys, pan fydd cyfle, mae'n rhaid i chi fynd amdani';

⁵⁰ Yr unig eithriad i'r gofyniad hwn yw pan fydd cyfranogwr yn cael cynnig swydd pendant yn amodol ar ennill cymwysterau/ardystiadau penodol. Mewn achosion o'r fath, gall cynghorwyr atgyfeirio cleientiaid at ACT ar unwaith.

⁵¹ Dywedwyd na allai staff 'brynu' darpariaeth nad yw ACT yn gallu ei darparu.

- problemau gyda chyrsgiau ddim yn cael eu cynnal, neu'n cael eu canslo pe na bai ACT yn gallu cael y niferoedd gofynnol, a dywedwyd y gallai hynny danseilio perthynas staff â chyfranogwyr; er enghraifft, fel y disgrifiodd un unigolyn a gyfwelwyd, byddai'n dweud wrth gleient 'rhaid i ti ymddiried ynof fi', ond er eu bod nhw wedi gwneud eu gwaith a threfnu lle iddynt ar gwrs, gallai ACT eu 'siomi' o hyd;
- yr hyfforddiant cyfyngedig a gynigiwyd gan ACT (cyn y pandemig) mewn rhai ardaloedd, a oedd yn golygu bod yn rhaid i gyfranogwyr deithio, a oedd, fel yr amlinellir yn adran pump, yn achosi problemau pan oedd pobl yn wynebu rhwystrau'n ymwneud a'u hamgylchiadau i gael mynediad at hyfforddiant (neu gyflogaeth) megis diffyg trafndiaeth⁵² a/neu gyfrifoldebau gofalu;
- pryderon am ansawdd a dibynadwyedd yr hyfforddiant; rhoddwyd enghreifftiau o gyrsgiau nad oeddent yn bodloni disgwyliadau (gan nad oeddent yn gwneud pobl yn gymwys ar gyfer y swydd⁵³); gwahaniaethau yn ansawdd y cyrsiau a ddarparwyd gan wahanol hyfforddwyr; a methiannau i addasu i anghenion y cyfranogwr (gweler yr enghraifft o ymarfer isod)
- pryderon ynghylch yr hyn y teimlwyd eu bod yn ofynion mynediad rhy gaeth, ar gyfer rhaglen wedi'u hanelu at y rheini â lefel isel o sgiliau neu ddim sgiliau o gwbl. Dywedwyd bod yn rhaid i gyfranogwyr CaW fod â lefel benodol o lythrennedd cyn cofrestru ar gwrs. Er y derbyniwyd yn gyffredinol bod yn rhaid i gyfranogwyr feddu ar y sgiliau sydd eu hangen i gwblhau cyrsiau, dywedodd rhai aelodau o staff rheng flaen a rheolwyr ei bod yn wahaniaethol gofyn i bobl feddu ar gymhwyster lefel 2 mewn Saesneg gan nad oedd gan lawer o'u cyfranogwyr y lefel honno o lythrennedd. Cyfeiriwyd yn arbennig hefyd at bobl ar brawf fel grŵp a oedd yn dioddef anfantais yn sgil y polisi hwn.

⁵² Fel y nodir yn achosion Busnes CaW, bydd CaW yn canolbwyntio ar y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan gynnwys cymunedau dinasoedd a chymoedd. O fewn y cymunedau hyn mae amrywiaeth enfawr o ran mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, sy'n rhwystro'r gallu i fynychu cyfleoedd hyfforddiant neu gyflogaeth.' Ac felly 'hyfforddiant sgiliau arfaethedig yn cael ei ddarparu yn eu cymuned' (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, c, tud. 30)

⁵³ Er enghraifft, dywedwyd nad oedd cwrs cynorthwydd addysgu a chwrs hyfforddwr campfa yn rhoi'r cymwysterau gofynnol i bobl, er gwaethaf sicrwydd gan ACT eu bod yn gwneud hynny.

Enghraifft o ymarfer: pwysigrwydd cefnogi dysgwyr

Gan fod CaW a CaW+ yn gweithio gyda phobl sydd â 'rhwystrau eithaf cymhleth', fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd, mae'n bwysig bod darparwyr hyfforddiant yn deall eu hanghenion ac yn addasu eu darpariaeth mewn ymateb i hynny. Y broblem fel y dywedodd un o'r rhai a gafodd gyfweiliad am CaW (sy'n dibynnu ar yr hyfforddiant a ddarperir gan ACT) oedd 'nad yw'r hyfforddwyr yn gyfarwydd iawn â sut i weithio gyda'n cyfranogwyr ni' a'u hanghenion; nid ydynt yn ymwybodol o'u hanghenion ychwanegol ac nid ydynt yn mabwysiadu dull wedi'i deilwra. Pe baem yn defnyddio darparwyr lleol gallem siarad â'u darparwyr yn uniongyrchol a gallem esbonio'r anghenion a byddai'n wahanol'. Yn yr un modd, mewn ardal arall, dywedwyd, yn wahanol i staff CaW+, nad oedd staff CaW yn gallu trafod anghenion cyfranogwyr gyda hyfforddwyr er mwyn cael ymateb wedi'i deilwra. Rhoddwyd enghraifft o ddyn ag anawsterau dysgu yr oedd angen cymorth arno i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ar-lein, a dywedwyd bod staff CaW wedi anfon e-bost at yr hyfforddwr i'w hysbysu. Fodd bynnag, dywedwyd nad oedd y dyn wedi cael cymorth. Eglurwyd bod y cyfarwyddiadau ymuno wedi'u hanfon mewn e-bost, er i aelod o staff CaW ddweud wrth ACT na allai ddarllen ac y byddai angen cymorth arno dros y ffôn er mwyn ymuno, a'i fod wedi eistedd wrth ei gyfrifiadur heb wybod sut i gael mynediad i'r hyfforddiant ac wedi cysylltu â staff CaW wedyn yn gynddeiriog oherwydd nad oedd yr hyfforddiant wedi dechrau ar ei gyfrifiadur. Dywedodd staff CaW, 'unwaith y byddan nhw gyda'r hyfforddwr, dydyn ni ddim yn rhan o'r cylch cyfathrebu mwyach. Mae'r cyfan yn digwydd rhwng yr hyfforddwr a'r dysgwr.' Dywedwyd hefyd eu bod wedi derbyn gohebiaeth ysgrifenedig yn eu ceryddu am geisio cyfathrebu â hyfforddwyr ynghylch anghenion dysgu'r cyfranogwyr.

4.38. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, roedd yr hyblygrwydd o fewn CaW+ i brynu hyfforddiant o'r farchnad agored yn cael ei ystyried yn fantais fawr a chyfeiriodd nifer fawr at y ffaith:

- ei bod yn haws (ac yn llai biwrocraidd) trefnu hyfforddiant a oedd yn cael ei ystyried yn bwysig i gael cleientiaid ar gyrsiau'n gyflymach, i gynnal momentwm (tra bod y cyfranogwyr yn llawn cymhelliant) ac oherwydd bod yr

hyfforddiant yn tueddu i gael ei gynnig yn lleol, roedd hyn yn ei gwneud yn haws i gleientiaid fynychu (gan gynyddu'r nifer sy'n manteisio arno);

- ei bod weithiau'n rhatach defnyddio darparwyr lleol (er bod cymhariaeth systematig o gostau caffael CaW a modelau'n seiliedig ar y farchnad a ddefnyddiwyd gan CaW+ y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn);
- y gallai staff CaW+ feithrin perthynas â darparwyr hyfforddiant lleol, a allai ei gwneud yn haws i gael pobl ar gyrsiau'n gyflymach, i lenwi bylchau ar gyrsiau sy'n cael eu cynnal, i ddod o hyd i hyfforddiant ar lefel sy'n addas i'r cyfranogwr ac i drafod anghenion cyfranogwyr unigol gyda darparwyr, megis anghenion ieithyddol, a sut y gellir darparu ar gyfer y rhain ar y cwrs hyfforddi a chael diweddariadau ar gynnydd cyfranogwyr.

Lleoliadau gwaith a gwirfoddoli

- 4.39. Rhagwelwyd yn achos busnes CaW, y byddai darparu mynediad at brofiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli yn gamau allweddol a gâi eu defnyddio i gefnogi cyfranogwyr, gan eu helpu i feithrin sgiliau a phrofiad gwerthfawr⁵⁴, gwella eu CV ac o bosibl wneud cysylltiadau â chyflogwyr, a hefyd i ddangos eu hymrwymiad i'r rhaglen (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a). Fel yr amlinellir yn adran 5, roedd cwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle gwirfoddoli hefyd yn ddeiliant allweddol i oedolion 25 oed a throsodd.
- 4.40. Fel yr amlinellir yn Siartiau 4.1. ac 4.2, yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ill dau, roedd nifer y cyfranogwyr CaW a gwblhaodd brofiad gwaith neu leoliad gwirfoddoli yn llawer llai na'r disgwyl. Roedd y pandemig COVID-19 yn ffactor, gan fod cyn lleied o leoliadau gwaith neu gyfleoedd gwirfoddoli ar gael yn ystod y cyfnod clo, a dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod llawer llai o ddiddordeb ymhlith y cyfranogwyr mewn manteisio ar y cyfleoedd hynny. Fodd bynnag, lleihaodd y niferoedd, yn enwedig nifer y cyfranogwyr economaidd anweithgar, yn y cyfnod cyn y pandemig (2018-2019 a 2019-2020), ac maent wedi aros yn isel iawn ers hynny, gan awgrymu bod ffactorau eraill hefyd wedi cyfrannu at hyn. Ymddengys fod hyn yn rhannol oherwydd bod llawer o gyfranogwyr wedi mynd yn syth i mewn i waith, yn hytrach na chwblhau lleoliadau gwirfoddoli neu leoliadau gwaith yn gyntaf. Fodd bynnag, mae'n ymddangos hefyd bod y galw gan y rhai a fyddai wedi elwa wedi bod

⁵⁴ Nododd y rhai a gyfwelwyd fod hyn yn cynnwys profiad o fyd gwaith ac o reoli (a goresgyn) rhwystrau posibl i weithio, megis gofal plant neu drafnidiaeth.


yn is na'r disgwyl. Serch hynny, fel y dengys yr enghraifft o ymarfer isod, ystyriwyd bod rhai mathau o leoliadau gwaith yn werthfawr.

Enghraifft o ymarfer: Rhaglen Camu i Waith y GIG

Mewn un ardal, roedd staff CaW+ yn awyddus i dynnu sylw at raglen Camu i Waith y GIG y mae'r Bwrdd Datblygu Lleol yn cyfeirio pobl ati. Fel y disgrifiwyd, 'mae wedi bod yn dda iawn i gyfranogwyr CaW+ allu cael hyfforddiant, profiad gwaith a chyflogaeth ym manc y GIG, mae wedi bod yn werthfawr iawn i lawer o gyfranogwyr.'

Yn ogystal â chynnig profiad gwaith, mae'r rhaglen yn gwarantu cyfweiliad i bobl sy'n cwblhau hyfforddiant.


Siart 4.1. Nifer cyfranogwyr CaW sy'n economaidd anweithgar* a gwblhaodd brofiad gwaith neu leoliad gwirfoddoli o gymharu â'r targedau (Ebrill 2015 - Rhagfyr 2022).



*Ni osodwyd unrhyw dargedau ar gyfer cyfranogwyr B3

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Siart 4.2. Nifer cyfranogwyr CaW sy'n ddi-waith yn yr hirdymor* a gwblhaodd brofiad gwaith neu leoliad gwirfoddoli o gymharu â'r targedau (Ebrill 2015 - Rhagfyr 2022).



*Ni osodwyd unrhyw dargedau ar gyfer cyfranogwyr B3

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Cymorth ariannol

4.41. I'r rhan fwyaf o gyfranogwyr CaW a CaW+ mae arian yn brin ac maent yn cael anhawster i dalu costau sy'n gysylltiedig â gwaith cyn iddynt gael eu pecyn cyflog cyntaf. Pwrpas y Gronfa Rwystrau yw galluogi cyfranogwyr i oresgyn y rhwystr olaf i gyflogaeth megis talu costau teithio, gofal plant neu ddillad neu gyfarpar addas, lle nad oes modd i ffynonellau eraill dalu am hyn, megis Cronfa Cymorth Hyblyg DWP. Fodd bynnag, disgrifiwyd y broses o gael mynediad at Gronfa Rwystrau CaW yn gyson fel un fiwrocraidd⁵⁵ a braidd yn anhyblyg ac, o'r herwydd yn brofiad rhwystredig sy'n cymryd llawer o amser. O ganlyniad i hynny, mewn un ardal, esboniodd unigolyn a gyfwelwyd fod Cronfa Rwystrau CaW wedi bod yn 'anodd ei gwario, ac yn aml roedd tanwariant.' Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, dywedodd y rhai a gyfwelwyd ei bod yn haws ac yn gyflymach cael mynediad i gronfa rwystrau CaW+, sydd â phroses ymgeisio symlach.

4.42. Er gwaethaf y broses fiwrocraidd (yn achos CaW), disgrifiwyd Cronfeydd Rhwystrau'r rhaglenni hefyd fel yr unig gronfeydd a allai dalu am gostau megis

⁵⁵ Er enghraifft, fel y disgrifiwyd gan staff rheng flaen mewn un ardal, mae'r broses ymgeisio am y Gronfa Rwystrau yn feichus ac roeddent yn teimlo y dylid ymddiried mewn cynghorwyr a mentoriaid i wneud penderfyniadau am gyllid ar gyfer eitemau bach fel pâr o esgidiau. Nodwyd bod yn rhaid i ymgynghorwyr a mentoriaid wneud yr un faint o waith i gyflwyno achos dros gael £15 i'w gwario ar bâr o esgidiau ar gyfer cyfweliad ag y gwnânt ar gyfer £800 am feic i gyrraedd y gwaith.

gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)⁵⁶ neu ofal plant⁵⁷ ac felly fe'u hystyriwyd yn bwysig o ran:

- ymgysylltu â chyfranogwyr - fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd, 'mae'r Gronfa Rwystrau yn rhywbeth y gellir ei gwerthu i ddarparu gyfranogwyr', ac roedd hefyd yn annog atgyfeiriadau i'r rhaglenni gan anogwyr gwaith, lle nad oedd JCP yn gallu talu costau penodol; a
- eu helpu i gael gwaith - fel y dywedodd un unigolyn a gyfwelwyd mae 'mynd i'r afael â rhwystr ariannol anorchfygol' yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr ac fe'i hystyriwyd yn bwysig i helpu cleientiaid i 'symud ymlaen' fel y dywedodd un arall. Roedd enghreifftiau'n cynnwys: talu am ddillad, cyfarpar, cyfarpar diogelu personol (PPE) ac, yn llai cyffredin, cymwysterau neu drwyddedau sy'n ymwneud â gwaith⁵⁸.

Cymorth yn y gwaith

4.43. I ddechrau, roedd CaW yn canolbwyntio ar sicrhau bod cleientiaid yn cael gwaith neu le mewn addysg neu hyfforddiant cyn iddynt adael y rhaglen. Fodd bynnag, ym mis Gorffennaf 2019 ychwanegwyd elfen cymorth yn y gwaith at CaW⁵⁹ a phan gafodd ei sefydlu, roedd gan CaW+ gylch gwaith ehangach, a oedd yn cynnwys, er enghraifft, cefnogi'r rhai mewn gwaith, ond sy'n dal mewn perygl o fyw mewn tlodi.⁶⁰ Fel y dengys yr enghraifft o ymarfer (isod), mae cymorth yn y gwaith yn cynnwys cymorth ariannol, ymarferol ac emosiynol.

⁵⁶ Dywedodd staff rheng flaen fod JCP wedi newid ei pholisi yn ddiweddar ac y gall bellach dalu am wiriadau gan y DBS a gallai hyn fod wedi cyfrannu at rai o'r gostyngiadau mewn atgyfeiriadau a welwyd yn ddiweddar.

⁵⁷ Nid yw JCP yn talu costau gofal plant hirdymor, a dywedwyd bod y gronfa rwystrau yn amhrisiadwy, er enghraifft drwy helpu i ariannu gofal plant ar gyfer cyrsiau coleg 15 wythnos, lle yr adroddwyd bod y coleg yn gyffredinol yn ariannu 90% a'r Gronfa Rwystrau yn ariannu 10%.

⁵⁸ Roedd enghreifftiau a roddwyd gan y rhai a gyfwelwyd yn cynnwys: £275 ar gyfer cymhwyster achubwr bywyd pan ganfuwyd swydd a hefyd cyd-ariannu gyda DWP, lle y talodd y JCP £500 am drwydded taci CfW+ yn talu £180 am gost hyfforddiant, archwiliad meddygol a'r prawf gwybodaeth.

⁵⁹ Fel yr amlinellir yn Atodiad y Cynllun Busnes Ailwerthuso, agorwyd y gronfa rwystrau i: roi rhagor o gymorth i gyfranogwyr a gafodd gymorth i gael gwaith, sydd ar ôl dechrau gweithio yn nodi bod angen cymorth ariannol ychwanegol arnynt. Bydd y cymorth ariannol ychwanegol hwn ar gael am gyfnod penodol o hyd at 3 mis ar ôl dechrau gweithio. e.e. costau gofal plant nas rhagwelwyd, costau teithio ac ati. (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a, tud. 2):

⁶⁰ Rhoddwyd enghreifftiau lle mae cyfranogwr yn cael gwaith ac yn cael cymorth parhaus, megis cymorth gyda gofal plant neu deithio nes eu bod yn derbyn eu pecyn cyflog cyntaf, ond nid yw hyn yn cael ei gofnodi mewn unrhyw ffordd y mae modd adrodd arno. Yn gyffredinol, mae CaW+ yn dilyn canllawiau CaW, sef na ddylai cymorth yn y gwaith barhau am fwy na thri mis, ond mae'r rhaglen yn cadw'r hyblygrwydd i barhau i ddarparu cymorth pan gyflwynir sail resymegol y gellir ei chyfiawnhau.

Enghraifft o ymarfer: cymorth yn y gwaith

Mewn un ardal, esboniodd y rhai a gyfwelwyd fod cymorth yn y gwaith, yn eu barn nhw, wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i bobl ifanc sydd yn aml 'angen mwy o help ar ôl iddynt gael gwaith ... o leiaf tan iddyn nhw gael eu pecyn cyflog cyntaf'. Fodd bynnag, gall mathau eraill o gyngor a chymorth fod yn werthfawr hefyd, a disgrifiodd un unigolyn a gyfwelwyd sut yr oedd wedi rhoi cyngor i gyfranogwr ar sut i ail-negodi ei horiau oherwydd ei bod yn cael anhawster i ymdopi â gweithio'n llawn amser. Mae'r cymorth ar gael i bawb, a dywedodd y rhai a gyfwelwyd eu bod yn tueddu i 'gadw mewn cysylltiad llac' â chleientiaid pan fyddant yn symud ymlaen i waith, drwy, er enghraifft, 'anfon neges destun atynt yn gofyn sut mae pethau'n mynd'. Nodwyd hefyd fod dim ond 'gwybod ein bod ni'n dal yno yn gallu helpu'.

Dywedodd un o'r rhai a gafodd ei gyfweld hefyd 'nid oedd y tîm yn sylweddoli o'r blaen i ba raddau yr oedd pobl mewn gwaith yn ei chael hi'n anodd ... mae pobl yn fwy parod i siarad am hyn nawr ar ôl y pandemig' a bod y gallu i ddarparu cymorth yn y gwaith wedi gwneud gwahaniaeth 'enfawr'. Er eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, dywedodd y rhai a gyfwelwyd hefyd fod y rhan fwyaf o bobl sy'n symud ymlaen i waith 'yn diflannu er eu bod yn gwybod y gallan nhw ddod yn ôl os oes angen'.

- 4.44. Yn yr un modd, adroddwyd bod cael mynediad i gronfa rwystrau CaW i dalu am gymorth mewn gwaith braidd yn fiwrocataidd a dywedwyd bod y nifer a oedd yn manteisio arni yn isel, ond ei bod yn werthfawr pan gaiff ei defnyddio. Yn fwyaf cyffredin, rhoddwyd enghreifftiau o sut y gallai'r Gronfa Rwystrau helpu i hwyluso'r broses o drosglwyddo i gyflogaeth, tra bod pobl yn aros am eu pecyn cyflog cyntaf, megis talu am betrol i deithio i'r gwaith, neu am ofal plant. Yn ogystal â hynny, mewn un ardal dywedwyd y gallai cymorth ariannol gael ei ategu gan gymorth gan CAB ar gyllidebu.
- 4.45. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, dywedwyd bod mathau eraill o gymorth yn y gwaith, megis cyngor ymarferol ac emosiynol, yn cael eu cynnig mewn ffordd weddol anffurfiol ac adweithiol. Er enghraifft, fel yr eglurodd staff rheng flaen mewn un ardal, 'efallai y bydd person ifanc yn dweud 'maen nhw'n disgwyl i mi fynd i'r gwaith am 7:00 o'r gloch y bore' ac rydym yn dweud wrtho bod hynny'n weddol normal'. Yn yr un

modd, mewn ardal arall, fel y dywedodd un aelod o staff rheng flaen: 'rwyf bob amser yn dweud wrth fy nghwsmeriaid fy mod i yno iddyn nhw. Rydym yn gallu darparu cymorth cyffyrddiad ysgafn ... diweddarau eu CV, darparu rhywfaint o help heb wneud y gwaith papur ... dw i ddim yn eu cofrestru'n ffurfiol'. Roedd y dull hwn yn gwrthgyferbynnu â rhaglenni fel Gweithffyrdd+ yr adroddwyd eu bod yn cynnal adolygiadau ffurfiol i nodi unrhyw anghenion cymorth yn y gwaith dri a chwe mis ar ôl i rywun ddechrau gweithio.

- 4.46. Yn ogystal â hynny, fel y dywedodd un o'r sefydliadau partner a gyfwelwyd, roedd wedi sylwi ar dwf yn nifer y bobl sy'n gweithio sydd eisiau uwchsgilio er mwyn newid gyrfa a disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd mewn un ardal sut yr oeddent yn atgyfeirio pobl at brosiect ESF rhanbarthol, Sgiliau yn y Gwaith (yn cynnwys Caerdydd, Sir Fynwy a Chasnewydd) a allai gefnogi uwchsgilio, ac mewn ardal arall dywedwyd y byddai cyfranogwyr yr oedd angen mwy o gymorth hirdymor arnynt yn cael eu hatgyfeirio i Raglen Cymorth yn y Gwaith CF Môn.
- 4.47. Yn wahanol i CaW, mae meini prawf cymhwysra mwy hyblyg CaW+ yn golygu y gall weithio gyda'r rhai a chanddynt swyddi, ond sy'n parhau i fod mewn perygl o ddiodef tlodi, fel y rhai ar gontractau dim oriau. Cofnodwyd bod bron i un o bob deg o gyfranogwyr CaW+ (8.6 y cant) yn gyflogedig pan oeddent yn ymuno â'r rhaglen sy'n awgrymu bod hon yn nodwedd bwysig o'r rhaglen.

Swyddogion Cyswllt â Chyflogwyr

- 4.48. Fel yr amlinellir yng nghanllawiau ymgeisio CaW+, bydd disgwyl i Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr/Lleoliad Gwaith ddatblygu perthnasoedd gwaith effeithiol a pharhaus gyda microfusnesau, masnachwyr unigol a chyflogwyr eraill i sicrhau hyfforddiant seiliedig ar waith priodol a chyfleoedd cyflogadwyedd i gyfranogwyr. (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, g).
- 4.49. Roedd effaith cyflwyno Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr yn aml yn anodd ei nodi. Dywedodd nifer o ardaloedd fod ganddynt 'dîm cyswllt â chyflogwyr' (neu rywbeth tebyg) ar waith cyn CaW+, a defnyddiwyd adnoddau CaW+ i wella hyn. Roedd hyn yn ei gwneud yn anoddach i'r rhai a gyfwelwyd nodi'r effaith. Er gwaethaf hyn, mewn sawl ardal, canmolwyd Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr yn benodol. Er enghraifft:
- mewn un ardal, disgrifiodd un o'r rhai a gyfwelwyd sut roedd eu Swyddog Cyswllt Cyflogwyr wedi 'cyflwyno cyfoeth o swyddi i gyfranogwyr';

- mewn ardal arall, disgrifiwyd bod y Swyddog Cyswllt yn cydgysylltu â chwmnïau yr oedd angen cyflogi gweithluoedd arnynt ar gyfer datblygiadau newydd (e.e. ar ôl datblygu safle newydd) a chynnal ymgyrchoedd cyflogaeth ar gyfer y rolau newydd a oedd yn cael eu creu. Dywedwyd hefyd yn y sir hon y gallai'r Swyddog Cyswllt Cyflogwyr mewn rhai achosion hefyd nodi anghenion hyfforddi cyflogwyr, ac yna helpu i'w diwallu, megis ardystiad hylendid bwyd yn y maes gweithgynhyrchu (bwyd);
- mewn trydedd ardal, disgrifiwyd cyfrifoldebau'r Swyddog Cyswllt Cyflogwyr fel datblygu 'rhaglenni llwybrau', cyrsiau hyfforddi a helpu i drefnu digwyddiadau megis ffeiriau swyddi, gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd gan gynghorwyr a mentoriaid yn ogystal â phartneriaid megis JCP a Gyrfa Cymru. Dywedwyd eu bod hefyd yn rhannu gwybodaeth am gyfleoedd megis ymgyrchoedd recriwtio gan gyflogwyr penodol gyda thimau CaW a PaCE;
- mewn pedwaredd ardal, er mai 'cyfrifoldeb [mentoriaid a chynghorwyr] i raddau helaeth iawn oedd rhwydweithio gyda chyflogwyr lleol ... cysylltu â nhw ar ran cleientiaid' cyn sefydlu'r Tîm Cyswllt, fel y dywedodd y staff, roedd y Tîm Cyswllt yn golygu bod gan gynghorwyr a mentoriaid bellach fwy o amser i ganolbwyntio ar gyfranogwyr' (yn hytrach na gorfod gwneud cymaint o waith cysylltu â chyflogwyr eu hunain).⁶¹

4.50. Nodwyd bod y gwaith a wneir gan Swyddogion Cyswllt CaW+ yn 'gorgyffwrdd' â gwaith Cynghorwyr Cyflogwyr DWP, ond yn wahanol i Gynghorwyr Cyflogwyr, mae Swyddogion Cyswllt 'allan yn y gymuned nid mewn canolfannau gwaith', fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd. Dywedwyd bod gwaith partneriaeth rhwng Cynghorwyr Cyflogwyr a Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr wedi cryfhau mewn sawl ardal, lle yr adroddwyd bod y Swyddogion Cyswllt wedi cydweithio â Chynghorwyr Cyflogwyr JCP i rannu gwybodaeth am y swyddi gwag sydd ar gael a sicrhau nad oedd Cynghorwyr Cyflogwyr JCP a Swyddogion Cyswllt CfW+ ill dau yn cysylltu â chyflogwyr.⁶²

⁶¹ Serch hynny, mewn un ardal, adroddwyd hefyd er gwaetha'r Tîm Cyswllt Cyflogwyr, o bryd i'w gilydd, mae cynghorwyr a mentoriaid yn dal i siarad yn uniongyrchol â chyflogwyr, gan eirioli ar ran eu cleientiaid. Er enghraifft, disgrifiodd mentor iddo siarad â chyflogwr am gynnig oriau gwaith hyblyg er mwyn eu helpu i recriwtio pobl â chyfrifoldebau gofal plant i lenwi rolau.

⁶² Mewn un ardal, dywedwyd bod Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr yn gweithio gyda chydweithwyr DWP (staff cyswllt cyflogwyr) yn ogystal â Gofalwyr Cymru, ond nid ydynt, fodd bynnag, yn mynd allan i ymweld â chyflogwyr, gan ddibynnu yn lle hynny ar wybodaeth a dderbyniwyd gan JCP a Gyrfa Cymru.

Y Bartneriaeth CaW rhwng DWP a Llywodraeth Cymru

- 4.51. Mae'r bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, DWP ac ALLau neu CGS yn un o ddatblygiadau arloesol allweddol CaW. Canfu'r gwaith maes fod y bartneriaeth rhwng DWP a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chynnwys staff DWP yn y gwaith o reoli a chyflawni, wedi helpu i sicrhau perthnasoedd a chysylltiadau gwaith da rhwng CaW, CaW+ a JCP ar lefel weithredol. Roedd hyn yn bwysig wrth sefydlu sianel atgyfeirio ddibynadwy a fu, fel y mae adran pump yn ei amlinellu, yn arbennig o bwysig wrth helpu i gynnal y rhaglenni yn ystod y pandemig COVID-19.
- 4.52. Serch hynny, fel yr amlinellir yn yr adran nesaf, ni allai'r gwaith partneriaeth hwn ar lefel weithredol fynd i'r afael yn hawdd â gwahaniaethau strategol, lle, er enghraifft, yr ystyriwyd bod rhaglenni DWP fel Ailgychwyn yn cystadlu am yr un gronfa o bobl â CaW a CaW+. Ar ben hynny, mewn un ardal dywedwyd ei bod wedi bod yn anoddach na'r disgwyl cael gafael ar ddesgiau yn swyddfeydd JCP ar ôl y pandemig, oherwydd bod cynghorwyr wedi colli cysylltiad â staff mewn Canolfannau Gwaith (yn bennaf oherwydd trosiant mawr yn DWP) a theimlwyd nad oedd staff presennol yn deall yn llawn werth cynghorwyr CaW. Mae hyn yn awgrymu efallai nad yw cynnwys DWP ynddo'i hun yn amod digonol i sicrhau cydweithrediad effeithiol, a bod ffactorau fel cryfder perthnasoedd lleol rhwng staff DWP a CaW a CaW+, hefyd yn ffactorau pwysig.
- 4.53. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod gan staff DWP ac ALI/CGS sgiliau a oedd yn ategu ei gilydd. Er enghraifft, fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd: 'DWP.... yw'r arbenigwyr ar gyflogadwyedd ...rydym yn rhoi [helpu] pobl i gael gwaith. Dyna rydyn ni'n ei wneud.' Fe wnaethant hefyd bwysleisio manteision ymarferol cydweithio: 'mae cael staff wedi'u lleoli yn DWP yn bwysig – oherwydd nhw yw'r bobl sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth am systemau DWP a'r system budd-daliadau. Mae ganddyn nhw lawer o fynediad i'r system a gallant gyrraedd cydweithwyr sy'n gwybod pethau na fyddai unrhyw un arall yn eu gwybod'. Yn y cyd-destun hwn, dadleuodd un unigolyn a gyfwelwyd fod ymwneud cynghorwyr DWP â CaW yn allweddol i agor y drws i ganolfannau gwaith - 'ni fyddai hyn ar gael yn y CCA hyn oni bai am gynghorwyr'. Ar y llaw arall, ystyriwyd bod gan staff ALLau/CGS gysylltiadau cymunedol pwysig, er enghraifft roedd mentoriaid wedi gweithio mewn cymunedau ers blynyddoedd lawer, a/neu wedi cael profiad o weithio gyda phobl ifanc (yn achos llawer o fentoriaid ieuencid). Yn fwy cyffredinol, dywedwyd bod cynnwys yr ALI mewn ardaloedd, neu yn achos Ynys Môn, Môn CF, yn helpu i gryfhau cysylltiadau â rhaglenni cymorth

cyflogadwyedd eraill. Trafodir y gwaith o gydlynu gwahanol raglenni cymorth cyflogadwyedd ymhellach yn adran 5.

- 4.54. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes, adroddwyd bod perthynas waith effeithiol rhwng DWP (cyngorwyr a rheolwyr) a staff ALI neu CGS (mentoriaid, swyddogion brysbennu a rheolwyr). Er enghraifft, mewn dwy ardal a gynhwyswyd yn y gwaith maes, mae staff CaW a CaW+ yn gweithio gyda'i gilydd o'r un hyb ac adroddwyd eu bod yn gweithio'n agos fel un tîm. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod gweithredu fel hyn wedi cymryd pedair i bum mlynedd i'w gyflawni (fel y dywedodd un rheolwr i ddechrau 'roeddem yn gwbl wahanol', 'ond rydym wedi cyfarfod yn y canol'). Yn y ddwy ardal, roedd cydleoeli a'r berthynas rhwng DWP a rheolwyr CCA yn cael eu hystyried yn bwysig.
- 4.55. Fodd bynnag, mewn tair ardal a gynhwyswyd yn y gwaith maes, roedd mwy o ymdeimlad o hollt rhwng staff DWP a staff yr ALI neu'r CGS, ac mewn dwy o'r ardaloedd hyn, adroddwyd bod y berthynas rhwng y ddau dan dipyn o straen. Roedd hyn yn adlewyrchu gwahaniaethau diwylliannol a sefydliadol a hefyd mewn rhai achosion yr hyn a oedd yn ymddangos yn ffactorau dynol. O ganlyniad, er bod strwythurau a phrosesau ar waith i gefnogi cydweithio, megis un blwch post ar gyfer brysbennu a rhannu swyddfeydd, tynnodd y rhai a gyfwelwyd sylw at wahaniaethau rhwng y ddau dîm. Er enghraifft, dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd fod DWP yn rhan o wasanaeth sifil – a'i bod yn gweithio'n wahanol iawn i'r CCA. Er enghraifft, fel y dywedodd unigolyn arall a gafodd gyfweliad, teimlwyd bod DWP yn 'canolbwyntio'n ormodol ar dargedau', yn hytrach na phobl, a oedd mewn perygl o wthio pobl i waith anghynaliadwy, a dywedwyd nad oedd llawer o 'rapport' rhwng y ddau dîm.
- 4.56. Roedd effaith y berthynas hon, a oedd yn berthynas dan straen, y tu hwnt i'r effaith ar sut yr oedd y staff yn teimlo, yn fwy anodd ei dirnad. Roedd enghreifftiau penodol o staff DWP mewn un ardal nad oeddent yn ymwybodol o'r cynllun gliniaduron Chromebook CaW+ – ac felly nid oeddent yn elwa ohono. I'r gwrthwyneb, gallai olygu nad oedd staff awdurdodau lleol neu staff y sector gwirfoddol wedi elwa ar fynediad staff DWP i gronfeydd data DWP.⁶³ Gallai hefyd fod wedi golygu nad oedd cyfranogwyr o reidrwydd wedi'u dyrannu i'r mentor neu'r cyngorydd sydd yn y

⁶³ Mewn un ardal, dywedwyd bod gan gyngorwyr fynediad i gronfa ddata Credyd Cynhwysol DWP. Roedd staff DWP o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i swyddogion brysbennu a mentoriaid gael yr un fynediad ond roeddent yn cydnabod nad yw strwythur CaW yn caniatáu i hyn ddigwydd. Er bod rheolwr cyflawni DWP yn gweithredu fel sianel i ddata DWP ar gyfer mentoriaid, mae'n rhaid iddynt ofyn iddo gael gafael ar wybodaeth ar eu rhan.

sefyllfa orau i'w cefnogi. Mewn un ardal, dywedwyd hefyd bod gwahaniaethau mewn dehongliadau o'r canllawiau rhwng DWP a'r ALI yn golygu y byddai un tîm yn ariannu ymyriad drwy'r Gronfa Rwystrau y byddai ei swyddogion cyfatebol yn ei wrthod. Roedd hyn yn golygu y gallai cyfranogwyr dderbyn gwasanaeth gwahanol gan yr un rhaglen.

- 4.57. At hynny, hyd yn oed mewn ardaloedd lle roedd timau'n gweithio'n dda gyda'i gilydd, dadleuodd nifer o'r rhai a gyfwelwyd, fel y dywedodd un rheolwr, ei fod yn 'rhy anniben gyda Llywodraeth Cymru, DWP a'r CCA'. Nid oedd yn syndod felly i un rheolwr awgrymu y 'dylai un sefydliad ddarparu'r rhaglenni hyn gydag un rheolwr' a fyddai'n golygu secondio 'staff i DWP neu i'r gwrthwyneb'.

Partneriaid a phartneriaethau

- 4.58. Fel y mae'r achos busnes gwreiddiol yn ei nodi, mae CaW yn cydnabod pwysigrwydd dull gweithredu cydgysylltiedig, yn enwedig mewn perthynas â chymorth i bobl ifanc sy'n NEET ac:

Fel isafswm, bydd timau CaW yn cynnal cyfarfodydd llwyth achosion misol rheolaidd lle bydd Cyngorwyr Cyflogaeth Cymunedol, Mentoriaid a gweithwyr arweiniol o sefydliadau eraill (Gweithwyr Arweiniol Awdurdodau Lleol, Gyrfa Cymru, Esgyn, Cymunedau yn Gyntaf, yn gweithredu drwy'r Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol ac yn dibynnu ar angen, timau Iechyd Meddwl a thimau camddefnyddio sylweddau) yn trafod strategaethau ymgysylltu, y ddarpariaeth sydd ar gael (gan nodi'r cymorth sydd ar gael a bylchau yn y ddarpariaeth), arferion da, llwythi achosion ac atgyfeiriadau posibl (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, c, tud. 18).

- 4.59. Er bod partneriaid wedi newid, wrth i raglenni fel Esgyn a Cymunedau yn Gyntaf ddod i ben, dywedwyd bod partneriaethau yn hollbwysig. Mae partneriaid yn cynnwys y rhai a oedd yn rhan o'r sianel atgyfeirio, yn fwyaf nodedig JCP, ac i raddau llai, hybiau a gwasanaethau ALI, cymdeithasau tai yn ogystal â cholegau a darparwyr hyfforddiant ac i raddau llai fyth, gwasanaethau iechyd a chymorth fel y CAB, rhaglenni cymorth cyflogaeth eraill fel PaCE, neu lle roedd cyfranogwyr wedi dechrau cyflogaeth, rhaglenni fel Sgiliau yn y Gwaith a oedd yn cefnogi dilyniant. Roedd un rheolwr strategol yn ystyried bod y partneriaethau hyn yn 'hynod o lwyddiannus'. Fel y disgrifiodd, ni all tîm cyflawni CaW/CfW+ 'fod yn feistr ar bopeth' ond maent yn

gwybod at bwy i gyfeirio pobl, at bwy i droi am gymorth arbenigol ac yn trefnu hynny ar gyfer cyfranogwyr.

Enghraifft o ymarfer: partneriaethau

Disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd yr hyn yr oeddent yn ei weld fel perthynas unigryw GAVO â Mind. Dywedwyd bod cydleoli wedi helpu'r berthynas i ddatblygu gan fod un o'u timau cyflawni wedi'i leoli mewn adeilad trosglwyddo asedau sy'n eiddo i Mind. Drwy fod yn yr un adeilad, tyfodd y berthynas i'r pwynt lle roedd CaW+ yn comisiynu gwasanaeth (sy'n talu am aelod o staff Mind) i weithio gyda chyfranogwyr CaW/CaW+ sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl lefel isel. Yn ôl y rhai a gyfwelwyd, mae'n gweithio'n 'dda iawn' ac yn rhyddhau amser staff CaW/CaW+ i ganolbwyntio ar rwystrau eraill cyfranogwyr i gyflogaeth.

Ers hynny, dywedodd y rhai a gyfwelwyd eu bod wedi gwneud rhywbeth tebyg gyda'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth (CAB), gan iddynt nodi bod llawer o gyfranogwyr CaW a CaW+ yn aros am gyngor gan CAB. Disgrifiwyd sut yr oeddent wedi defnyddio eu perthynas â Mind fel model ac wedi comisiynu rhywun yn CAB i weithio i'w cyfranogwyr, fel y gallent gael mynediad at gyngor heb orfod aros. Bydd staff CAB y telir amdanynt gan CaW+ yn helpu cyfranogwyr CaW a CaW+ gyda gwiriadau budd-daliadau, treth gyngor neu faterion yn ymwneud â dyledion. Disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd sut y mae mynd i'r afael â'r materion hyn yn lleihau straen ar gyfranogwyr ac yn ei gwneud yn haws iddynt ganolbwyntio ar chwilio am waith (gan gynyddu eu gallu a'u cymhelliant i chwilio am waith). Mae hyn wedi cael ei groesawu'n frwd gan y mentoriaid a dywedir ei fod yn helpu i leihau'r pwysau arnynt.

- 4.60. Serch hynny, nodwyd gwendid neu ddiffygion yn y cymorth a gynigir gan bartneriaid hefyd. Er enghraifft, mewn un ardal adroddwyd am anawsterau o ran cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl oherwydd rhestrau aros hir, hyd yn oed ar gyfer y rhai mewn argyfwng. Dywedwyd bod hyn yn rhoi straen emosiynol ar staff CaW/CaW+ sy'n gorfod cynnig y cymorth hwnnw. Mae hyn yn adlewyrchu problemau ehangach o ran cael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl, o ystyried y galw cynyddol, yn rhannol o ganlyniad i'r pandemig, a'r tarfu ar wasanaethau yn ystod y pandemig, a greodd ôl-groniad o achosion (gweler e.e. [Senedd, 2022](#)).

Y berthynas rhwng CaW a CaW+

4.61. Fel yr amlinellir yn adran un, sefydlwyd CaW+ i ddechrau i lenwi bwlch a adawyd gan y rhaglen CG, a hefyd i ymestyn cymorth i'r rhai nad oeddent yn gymwys ar gyfer CaW. Mewn un ardal, disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd sut, er enghraifft, mae'r swyddfeydd a'r man allgymorth ar gyfer yr holl waith y mae mentoriaid CaW yn ei wneud yn cael ei ddarparu drwy CaW+. Yn ogystal â hynny, fel yr amlinellir uchod, gall Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr a Swyddogion Ymgysylltu â Chyfranogwyr a ariennir drwy CaW+ gefnogi CaW yn ogystal â CaW+, drwy, er enghraifft, rannu gwybodaeth am gyfleoedd gwaith sy'n dod i'r amlwg ar draws cyflogwyr gyda holl aelodau'r tîm.

Y nodweddion cyffredin a'r gwahaniaethau yn y cymorth a gynigir gan CaW a CaW+

4.62. Adroddwyd yn gyson bod darpariaeth CaW a CaW+ yn debyg, ac fel y dywedodd rheolwr mewn un ardal, roeddent yn 'brosiectau brawd a chwaer' ac fel y dywedodd un arall, mae'r ddau brosiect yn 'cysylltu' ac yn 'ategu ei gilydd' yn dda. O ganlyniad, dywedwyd bod ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau a gwendidau ei gilydd a bod y broses frysbenneu yn caniatáu i staff gytuno ar bwy fydd yn darparu cymorth i ba gleientiaid.

4.63. Yn anad dim, yn wahanol i rai rhaglenni cymorth cyflogaeth eraill (a drafodir isod) roedd CaW+ yn cael ei gweld mewn goleuni cadarnhaol gan staff CaW gan ei bod yn ategu'r ddarpariaeth yn hytrach na'i dyblygu neu gystadlu am gleientiaid⁶⁴. Er enghraifft, fel yr eglurodd un aelod o staff, mae CaW+ yn 'rhoi rhywle i ni atgyfeirio pobl y gallem fod wedi gorfod eu troi ymaith o'r blaen'. Roedd hyn yn cynnwys:

- y rhai (gan gynnwys cyn-gyfranogwyr CaW) a oedd wedi cael swydd ond wedi methu â'i chadw;
- cyn gleientiaid Kickstart yr oedd eu lleoliadau wedi dod i ben heb iddynt gael cynnig swydd (er y byddai rhai o'r rhai a oedd yn dal i fod o dan 25 oed wedi bod yn gymwys ar gyfer CaW pe baent yn 'NEET');
- y rhai ar gontractau dim oriau, a

⁶⁴ Roedd y prif gafeat yn ymwneud â'r rhai a oedd wedi bod yn ddi-waith am fwy na deuddeg mis. Yn Sir Gaerfyrddin, cydnabuwyd y dylai cleientiaid CaW+ gael eu hatgyfeirio i CaW pan fyddant yn dod yn gymwys (h.y. wedi bod yn ddi-waith ers dros 12 mis). Nodwyd mai mantais gwneud hynny oedd bod gan gynghorwyr/mentoriaid CaW fwy o amser i'w dreulio gyda'r cleientiaid na chynghorwyr CaW+. Fodd bynnag, dywedwyd nad oedd hyn bob amser yn digwydd gan fod y cleient wedi sefydlu perthynas gyda chynghorydd CaW+.

- y rhai heb gartref sefydlog.

4.64. Fel y nodir uchod, roedd bron i un o bob deg o gyfranogwyr CaW+ (8.6 y cant) wedi eu cyflogi pan oeddent yn ymgysylltu â'r rhaglen, ac fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd:

'Mae gallu gweithio gyda phobl ar gontractau dim oriau neu'r rhai sy'n cael eu tangyflogi wedi bod yn allweddol i CaW+. Dyma grŵp o unigolion sydd wedi cael eu hanwybyddu yn draddodiadol. Mae'n gynnig allweddol – ac maen nhw'n [CfW+] cael llawer o bobl o'r garfan honno. Mae'r cymorth yn y gwaith hefyd yn elfen ddeniadol o'r cynnig.'

4.65. Serch hynny, er gwaethaf yr elfennau cyffredin o ran dyluniad a dull gweithredu'r rhaglenni, adroddwyd bod y ffaith bod CaW+ yn fwy hyblyg ac ymatebol (fel yr amlinellir uchod) yn golygu y gallai cyfranogwyr CaW+ weithiau gael mynediad at hyfforddiant a/neu gymorth ariannol yn gyflymach, a bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n agosach at eu cartrefi, na'u cymheiriaid yn CaW. Nodwyd bod hyn yn arbennig o wir ar gyfer hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CCSC) neu ardystiad Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA), lle y dywedwyd bod yn rhaid i gleientiaid CaW aros yn llawer hwy am y cyfleoedd hyfforddi hyn o gymharu â chyfranogwyr CaW+. Fodd bynnag, dywedwyd hefyd, mewn rhai achosion, ei bod yn bosibl i CaW+ ymestyn y cynnig i gleientiaid CaW, er enghraifft, os oedd lleoedd gwag ar gyrsiau hyfforddi.

4.66. Yn ogystal â bod o fudd i gyfranogwyr a oedd yn anghymwys ar gyfer CaW, dywedwyd bod sefydlu CaW+ wedi'i gwneud yn haws i dimau CaW a CaW+ gyfleu eu cynnig cymorth cyflogadwyedd i gleientiaid a sefydliadau partner, gan fod y gwasanaeth bellach ar gael ar draws y sir gyfan ac nid oedd bellach yn bwysig i sefydliadau partner ddeall y meini prawf llym a osodwyd ar gyfer CaW wrth atgyfeirio cleientiaid. Fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd, 'nid yw partneriaid yn trafferthu' gyda meini prawf megis codau post a hyd yr amser yr oedd pobl wedi bod yn hawlio budd-daliadau. Dywedwyd bod hyn yn ei dro wedi helpu i hybu enw da CaW gyda sefydliadau partner.

Modelau cyllido CaW a CaW+

4.67. Fel yr amlinellir yn adran un, mae CaW wedi cael ei gyllido ar sail cylch wyth mlynedd, tra bod CaW+ wedi cael ei gyllido o flwyddyn i flwyddyn drwy'r Grant Plant a Chymunedau ac Ymrwymiad COVID / y Warrant i Bobl Ifanc. Roedd rheolwyr

strategol yn ystyried mai cryfder CaW oedd y cyfnod cyllido tymor hwy a oedd yn caniatáu gwell i sefydliadau a'r rhaglen gynllunio'n well. Mae hefyd yn sicrhau diogelwch a sefydlogrwydd i'r staff. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, ystyriwyd mai cryfder model cyllido CaW+ oedd y ffaith ei fod yn darparu mwy o hyblygrwydd, sydd, fel yr amlinellir uchod yn golygu bod modd cynnig cymorth cyflymach a mwy hyblyg.

- 4.68. Y brif broblem a adroddwyd gyda chyllid blynyddol oedd 'nad yw'n wych ar gyfer cadw staff' ac mae 'hefyd yn ei gwneud hi'n anodd cynllunio darpariaeth gydag ansicrwydd yn gwmwl uwch eich pan drwy'r amser' fel y dywedodd dau o'r rhai a gyfwelwyd. Yn wahanol i staff CaW, dywedwyd bod staff CaW+ wedi gorfod gweithio ar gontractau cyflogaeth blynyddol ac mae rhai ALLau wedi rhyddhau hysbysiadau diswyddo bob mis Rhagfyr oherwydd hyn. Fodd bynnag, dywedodd rheolwyr yn y timau CaW a CaW+ a gynhwyswyd yn y gwaith maes eu bod yn teimlo bod staff wedi dod i ddeall natur y cyllid ac er ei fod yn creu ansicrwydd, maent yn cymryd y bydd y cyllid yn parhau, ac yn ymarferol nid ydynt wedi cael unrhyw drosiant sylweddol o ran staff ar draws CaW+. O ran y dyfodol, felly, croesawyd y newid i fodel cyllido yn seiliedig ar un flwyddyn lawn gyda dwy flynedd ddangosol i ddilyn, gydag amodau penodol, a theimlwyd y byddai'n creu gwell amodau cyflogaeth i staff CaW+.

Cyllid ar gyfer CaW a CaW+ yn y dyfodol

- 4.69. Penderfynwyd ymestyn darpariaeth CaW tan fis Mawrth 2023. Disgrifiodd un o'r rhai a gyfwelwyd strategaeth ymadael arfaethedig, sy'n golygu rhoi'r gorau i ymgysylltu â chyfranogwyr rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023, er mwyn cwblhau cyrsiau hyfforddi ac erbyn mis Mawrth 2023, gall staff CaW drosglwyddo unrhyw gyfranogwyr sy'n weddill i wasanaethau cyflogadwyedd eraill, gan gynnwys CaW+, gan ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl am y cleientiaid hynny.
- 4.70. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd bod y posibilrwydd y byddai CaW yn dirwyn i ben wedi achosi rhywfaint o bryder ymhlith staff rheng flaen. Fel y dywedodd un: 'mae pobl [staff] yn mynd yn aflonydd ac yn symud ymlaen' a dywedodd un ardal a gynhwyswyd yn y gwaith maes bod staff eisoes yn cael eu colli. Roedd rhai yn teimlo felly mai dyma'r her fwyaf yr oedd y rhaglen yn ei hwynebu nawr, gan ei bod yn bygwth darparu cymorth a hefyd cofnodi data a phrosesu hawliadau (fel rhaglen ESF). Awgrymwyd y gallai hyn effeithio'n fwy ar CGS, oherwydd pan ddaw eu cyllid i ben, yna daw swyddi'r staff i ben - ni ellir eu cyfuno na'u hanfon i weithio yn rhywle arall yn y sefydliad, fel y gallai ALLau neu DWP ei wneud.

Trefniadau llywodraethu a rheolau'r rhaglen

- 4.71. Fel un o brosiectau ESF, adroddwyd bod meini prawf cymhwysra ac felly mynediad i CaW yn llawer llymach na CaW+. Yn benodol, tynnwyd sylw at y gofynion adrodd helaeth. Er enghraifft, disgrifiodd un rheolwr strategol sut y disgwylir i 60 o feysydd data gael eu cwblhau ar gyfer pob cleient. Fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd, mae llenwi ffurflenni ESF yn 'gwastraffu cymaint o amser' a gallai gythruddo neu rwystro darpar gyfranogwyr (gan gynyddu'r risg o ymddieithrio). Roedd rhwystredigaeth eang hefyd ynghylch y broses o ddangos tystiolaeth o ddeilliannau CaW, a ddisgrifiwyd fel un anodd sy'n cymryd llawer o amser - fel y dywedodd un mentor 'nid yw pobl bob amser eisiau cysylltu'n ôl'. Dywedwyd bod hyn yn golygu nad oedd modd dangos tystiolaeth o rai deilliannau ac felly ni ellid eu hawlio.
- 4.72. Roedd rheolwyr gweithredol yn cydnabod mai'r teimlad cyffredinol oedd y gall rhaglenni ESF fod yn anodd eu rheoli a'u bod yn orfiwrocraidaidd.. Roeddent yn teimlo bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio ei gwneud mor syml â phosibl a dywedwyd hefyd fod mwy o hyblygrwydd bellach ar draws y Gronfa Rwystrau a'r gronfa farchnata, a bod hyn o ganlyniad i lobio o fewn Lywodraeth Cymru er mwyn newid y rheolau. Ar y llaw arall, mae angen data dibynadwy ar y prosiectau a ariennir gan ESF (e.e., CaW) i fesur effaith ymyriadau yn effeithiol ac mae hyn yn ffordd o ddangos gwerth y cyllid. Yn yr un modd, mae angen rheolau i sicrhau defnydd priodol ac effeithlon o arian cyhoeddus ac i gasglu data monitro cadarn (sy'n bwysig er mwyn sicrhau bod data dibynadwy ar gael i fesur cost ac effeithiolrwydd ymyriadau yn effeithiol). Felly, mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng yr amser a'r gost o gydymffurfio â rheolau a gofynion monitro, ac effeithiau negyddol rheolau rhy llac a/neu wendid wrth gasglu data.
- 4.73. Er mwyn taro'r hyn y teimlent fyddai'n well cydbwysedd, cyflwynwyd nifer o gynigion eraill ar gyfer symleiddio gwaith papur a phrosesau CaW gan staff rheng flaen, gan gynnwys:
- symleiddio'r broses ar gyfer pennu cymhwysra;
 - lleihau'r manylion sydd eu hangen ym mhortffolios y cyfranogwyr;
 - dileu'r rheol 'rhoi cynnig ar bob ffynhonnell ariannu arall yn gyntaf', oherwydd dywedwyd bod y swm o waith papur sy'n gysylltiedig â sicrhau cyllid o dan brosesau y Gronfa Cymorth Hyblyg neu Gaffael Gwerth Isel DWP yn atal pobl rhag gwneud cais; a

- codi'r uchafswm y gallai staff CaW ei wario yn ôl eu disgrisiwn (h.y. heb fod angen gwneud cais ffurfiol i'r Gronfa Rwystrau).

- 4.74. Oherwydd bod llawer o'r rheolau a'r prosesau hyn wedi'u rhoi ar waith yn bennaf i fodloni gofynion yr ESF, nododd uwch reolwyr CaW fod lle i symleiddio prosesau ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd yn y dyfodol ar ôl ESF.
- 4.75. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, dywedwyd bod cymryd rhan yn CaW+ yn llawer symlach; fel yr eglurodd un o'r rhai a gyfwelwyd, dim ond prawf o gyfeiriad neu Atodiad 12 gan JCP yr oedd angen ei gasglu. Fel yr eglurodd un o'r rhai a gyfwelwyd, maent yn derbyn yr hyn y mae cyfranogwyr yn ei ddweud wrthynt fel ffaith:
- 'Os bydd cyfranogwr yn dweud rhywbeth wrthym, fel ei fod ar gontract dim oriau yna nid ydym yn tybio ei fod yn dweud celwydd, rydym yn cymryd yn ganiataol mai dyma'r gwir. Bydd y mentor yn holi ychydig, ond y byddwn yn ei gefnogi. Dydyn ni ddim eisiau dechrau gorfod gwirio pethau felly. Os oes angen help ar bobl, gallant ei gael.'
- 4.76. At hynny, fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd, mae'r ffaith bod CaW+ yn fwy anffurfiol a hyblyg yn 'caniatáu i bobl fod yn fwy agored'. Yn yr un modd, fel yr amlinellir uchod, ar ôl dechrau ymgysylltu, teimlwyd bod manteisio ar hyfforddiant a chymorth ariannol a dangos tystiolaeth o'r deilliannau yn llawer symlach a chyflymach gyda CaW+⁶⁵.
- 4.77. Cafwyd trafodaeth hefyd mewn rhai ardaloedd am yr hyn a oedd weithiau'n cael ei ystyried yn wahaniaeth anhyblyg rhwng rolau cynghorwyr CaW a mentoriaid, y teimlwyd yn gyffredinol ei fod yn ddiangen (ond a bennwyd gan gyllid ESF ar wahân ar gyfer Blaenoriaethau 1 a 3). Roedd cydnabyddiaeth y gallai anghenion grwpiau gwahanol amrywio, felly roedd galluogi staff i ddatblygu profiad ac arbenigedd wrth weithio gyda grwpiau gwahanol yn ddymunol, ond roedd rhwystredigaeth pan oedd y gwahaniaeth rhwng rolau yn atal timau rhag rheoli eu llwyth achosion yn well neu baru cleientiaid â'r aelod o'r tîm y barnwyd y gallai eu cefnogi orau. Er enghraifft, fel y dywedodd un rheolwr, 'nid oes un ateb sy'n addas i bawb'. Dywedodd fod gwahaniaethau mawr yn y poblogaethau a niferoedd y codau post cymwys ym mhob ardal - ond mae gan bob ardal CaW yr un faint o staff a thargedau, ac ni allant

⁶⁵ Er enghraifft, dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd na all CaW hawlio deilliant swydd nes bod y gwaith papur (ffurflen hunanddatganiad) wedi'i lofnodi gan y cleient, ac os yw'n bosibl, bod tystiolaeth arall megis slip cyflog yn cael ei ddarparu, tra bod CaW+ yn gallu hawlio deilliant swydd yn seiliedig ar e-bost neu slip cyflog gan gyflogwr yn cadarnhau eu bod wedi cael swydd.

aiddyrannu staff yn hawdd (ac er enghraifft, newid mentoriaid oedolion yn fentoriaid pobl ifanc, neu symud mentoriaid i ardaloedd eraill).

Y dull o reoli'r rhaglen

- 4.78. Dywedwyd bod perthynas dda rhwng y CCA â Llywodraeth Cymru, a bod ganddynt berthynas waith gref, gynhyrchiol a gonest gyda rheolwyr strategol, a bod cwestiynau'n cael eu hateb yn brydlon. Dathlwyd llwyddiant canfyddedig ymateb y rhaglenni i'r pandemig COVID-19 a chaiff hyn ei drafod ymhellach yn adran pump, ac ni chrybwyllwyd unrhyw bryderon difrifol o ran sut y rheolwyd y rhaglenni gan y timau canolog, ac eithrio rhwystredigaeth gyda'r canllawiau, fel y trafodir isod. Canmolwyd rheolaeth leol gan staff CCA neu DWP yn gyffredinol er bod arlliw o rwystredigaeth ynghylch gwendidau mewn rhai ardaloedd.

Model rheoli CaW+

- 4.79. Roedd CaW+ hefyd yn gallu 'neidio ar gwt' trefniadau rheoli CaW a oedd, ynghyd ag absenoldeb gofynion adrodd ESF, yn golygu bod y rhaglen yn cael ei gweithredu gan dîm rheoli llawer llai a mwy darbodus na CaW. Bu hyn o gymorth i leihau costau, ond roedd y ffaith bod tîm Llywodraeth Cymru yn fach (tri o bobl) yn anochel yn cyfyngu ar ei gallu. Roedd tîm CaW+ dan bwysau yn ystod y pandemig, er enghraifft, bu'n rhaid i'r tîm dreulio llawer o amser yn ymateb i geisiadau a phryderon ynghylch allgáu digidol, a arweiniodd at gyflwyno'r cynllun gliniaduron Chromebook a drafodir yn adran pump (gweler paragraffau 5.29 -5.31). Roedd capasiti cyfyngedig hefyd yn golygu na allai rheolwyr strategol roi cymaint o gymorth i ardaloedd sy'n tanberfformio na'u herio i'r un graddau ag y gallai staff CaW. Yn yr un modd, roedd cyllideb reoli lai CaW+ yn golygu, er bod tîm y rhaglen ganolog yn gallu sefydlu rhwydwaith ar gyfer Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr, y nodwyd ei fod yn ddefnyddiol, ni allent gyllido na chefnogi rhwydwaith cyfatebol ar gyfer Swyddogion Ymgysylltu â Chyfranogwyr.

Canllawiau'r rhaglen

- 4.80. Dywedodd y rhan fwyaf o ardaloedd fod canllawiau CaW wedi gwella ers iddynt gael eu cyhoeddi gyntaf yn 2015, ond roedd beirniadaeth eang o ganllawiau cynnar y rhaglen. Er gwaethaf y gwelliannau, roedd rhwystredigaeth o hyd fel yr hyn a ddisgrifiwyd uchod, ynghylch yr hyn a ystyriwyd yn feini prawf cymhwystra rhy gaeth, yn enwedig o gymharu â CaW+.
- 4.81. Yn wahanol i CaW, nid oes gan CaW+ ganllawiau gweithredol penodol. Cyhoeddwyd canllawiau yn 2017, i gefnogi CCA i baratoi ceisiadau ac i sefydlu CaW+. Fodd bynnag, ni chyhoeddwyd rhagor o ganllawiau gweithredol, ac yn lle hynny cynghorwyd y CCA i ddilyn egwyddorion canllawiau CaW, ond i anwybyddu'r hyn sy'n ymwneud yn benodol ag ESF. O ganlyniad i hynny, mewn un ardal, dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd a oedd yn gymharol newydd i'w swydd ei fod wedi synnu pan ddechreuodd yn y rôl, oherwydd 'Maen nhw [tîm CaW+ Llywodraeth Cymru] yn dweud wrthym o hyd i gyfeirio at y canllawiau ond does dim canllawiau i'w cael. Dydw i ddim yn gweld y canllawiau – maen nhw'n ein cyfeirio ni at ganllawiau CaW – ond dydyn ni ddim yn rhedeg CaW!' Er y teimlwyd yn gyffredinol (gan staff a rheolwyr CaW+) bod canllawiau CaW yn ddefnyddiol, dywedodd rheolwyr CaW+ mewn sawl ardal arall eu bod wedi dysgu llawer o'r hyn y gallent ac na allent ei wneud wrth fynd yn eu blaenau. Er enghraifft, ystyriwyd bod cyfarfodydd chwarterol Cymru gyfan ag aelodau eraill o staff yn ddefnyddiol ar gyfer rhannu syniadau, a dywedodd rheolwyr CaW+ eu bod wedi gofyn cwestiynau i dîm CaW+ Llywodraeth Cymru, pan oedd materion newydd yn codi.

Monitro a gwerthuso

- 4.82. Dywedodd nifer o'r rhai a gyfwelwyd fod natur gynhwysfawr gwybodaeth reoli CaW yn werthfawr o ran helpu i ddeall perfformiad y rhaglen ar draws ardaloedd daearyddol gwahanol a grwpiau gwahanol o gyfranogwyr, er enghraifft. Serch hynny, amlygwyd rhai gwelliannau posibl o ran y ffordd y cyflwynir y data. Er enghraifft, gall maint y data a gyflwynir yn y pecynnau gwybodaeth reoli ei gwneud yn anodd gweld y darlun mawr a'r pethau pwysig, mae'n canolbwyntio ar ddeilliannau swyddi yn unig (ac nid deilliannau eraill fel mynediad i addysg neu hyfforddiant). O ran adrodd, teimlai sawl un y dylid cael cydbwysedd rhwng casglu digon o ddata i ddeall perfformiad y rhaglen a'r gwaith papur a'r amser sy'n gysylltiedig â chasglu data (fel yr amlinellir uchod, teimlwyd bod gormod o ofynion ar staff rheng flaen i gasglu data). At hynny, er bod gwybodaeth reoli fanwl ar gael am CaW, mae'r data y daw hwn

ohono yn cael ei storio ar daenlen Excel sydd bellach â 62 o golofnau. Ystyriwyd i newid i system rheoli cleientiaid, ond mae ffactorau megis cost a chymhlethdod wedi gweithio yn erbyn hynny.

- 4.83. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, er bod CaW+ wedi seilio ei brosesau ar CaW, gan nad yw'n gorfod dilyn yr un rheolau ESF, mae angen casglu llai o ddata, ac nid yw'n ofynnol i ALLau rannu'r holl ddata y maent yn eu casglu â Llywodraeth Cymru. Mae'r gofynion adrodd ysgafnach ar gyfer CaW+ yn golygu bod cred bod data gwybodaeth reoli CaW+ yn 'fwy sylfaenol', o gymharu â phechyn gwybodaeth reoli mwy cynhwysfawr CaW (fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd) ac er enghraifft, nid yw'n bosibl archwilio deilliannau ar gyfer rhai grwpiau, megis y rhai sy'n ddi-waith yn yr hirdymor neu'r rhai o aelwydydd di-waith. Nid yw'n bosibl ymchwilio i'r croestoriad rhwng gwahanol nodweddion ac, er enghraifft, sut y mae deilliannau i bobl anabl o grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cymharu â phobl anabl o grwpiau gwyn Prydeinig/Cymreig.

5. Effaith ffactorau allanol ac ymatebion y rhaglenni iddynt

Cyflwyniad

- 5.1. Mae'r adran hon yn ystyried sut y mae ffactorau allanol wedi effeithio ar gyflawni'r rhaglenni, megis y pandemig COVID-19, ymadael â'r UE, rhaglenni cymorth cyflogadwyedd eraill a newidiadau i fudd-daliadau lles (megis cyflwyno'r Credyd Cynhwysol) a'r ffordd yr ymatebodd y rhaglenni i hynny. Mae hefyd yn ystyried lle CaW a CaW+ yn y darlun strategol a gweithredol cymhleth lle ceir nifer o wahanol rhaglenni cyflogadwyedd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Y pandemig COVID-19

- 5.2. Cyfeiriodd y rhai a gyfwelwyd at y pandemig COVID-19 yn gyson fel y sioc fwyaf a brofodd y rhaglenni, gan orfodi'r rhaglenni a phartneriaid i newid eu harferion yn ogystal â newid galluoedd cyfranogwyr (a darpar gyfranogwyr), y cyfleoedd sydd ar gael iddynt, eu cymhelliant ac felly eu hymddygiad.
- 5.3. Nododd y rheolwyr strategol a gyfwelwyd yn gyson bod CaW a CaW+, at ei gilydd, wedi addasu'n dda yn ystod y pandemig COVID-19 (ac roedd y rhaglenni felly'n wydn), ond roedd heriau anochel a oedd yn anodd eu goresgyn a bu'n rhaid i'r rhaglenni drawsnewid eu model cyflawni yn ystod y pandemig.

Effaith y pandemig COVID-19 ar waith cynghorwyr, mentoriaid a swyddogion brysbennu gyda chleientiaid

- 5.4. Amharodd y pandemig ar y gweithlu, yn enwedig yn y camau cynnar. Mewn llawer o ardaloedd, cafodd cynghorwyr DWP ac, mewn rhai achosion, mentoriaid ALI neu CGS, eu hadleoli am gyfnod byr yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Er enghraifft:
- cafodd cynghorwyr DWP eu hadleoli i'r ganolfan waith i weithio ar hawliadau Credyd Cynhwysol am sawl mis, ond dywedwyd mewn un ardal bod adleoli wedi'u helpu mewn gwirionedd oherwydd bod ganddynt fynediad llawn i'r system Credyd Cynhwysol (nad oedd ganddynt yn y ganolfan o'r blaen) a'u bod wedi datblygu gwell dealltwriaeth o'r Credyd Cynhwysol a sut i ddefnyddio'r system;
 - cafodd nifer llai o staff ALI neu CGS eu tynnu oddi ar y rhaglen, er enghraifft, roedd rhai yn dosbarthu parseli bwyd tra bod eraill yn cyflenwi ar ran staff absennol mewn gwasanaethau hanfodol.

- 5.5. Teimlwyd bod staff wedi gweithio'n galed drwy'r hyn a ddisgrifiwyd gan un o'r rhai a gyfwelwyd yn amgylchiadau 'anodd iawn', gan ddangos hyblygrwydd drwy newid y ffordd yr oeddent yn gweithio yn gyflym. Dywedodd un arall fod timau CaW+ wedi bod yn hynod wydn yn ystod cyfnod a oedd yn heriol i bawb, gydag, er enghraifft, pobl yn gweithio gartref, yn gofalu am blant a/neu'n gwarchod eu plant rhag covid - a theimlwyd balchder bod y gwasanaeth wedi parhau drwy gydol y pandemig.
- 5.6. Roedd y pandemig hefyd wedi tarfu ar fodel cyflawni'r rhaglenni, a oedd, fel yr amlinellir yn adran pedwar, yn rhaglen gymunedol, a oedd yn aml yn cael ei darparu wyneb yn wyneb ac yn achos CaW, ar bapur yn bennaf.⁶⁶ Mewn ymateb i hynny, fel y disgrifiodd un o'r rhai a gyfwelwyd, roedd yn rhaid cyflwyno tystiolaeth a gwneud cysylltiadau mewn gwahanol ffyrdd, gan barchu egwyddorion craidd y rhaglen ac, yn achos CaW, cydymffurfio â rheolau ESF. Er enghraifft:
- brysbennu, a oedd, fel y dengys yr enghraifft o ymarfer, yn cael ei wneud wyneb yn wyneb i ddechrau ond a gafodd i newid i ddarpariaeth dros y ffôn neu ar-lein;
 - cymorth gan gynghorwyr a mentoriaid, a oedd bob amser wedi cynnwys elfen o wasanaeth dros y ffôn neu ar-lein, wedi symud yn gyfan gwbl i fodel cyflawni o bell (gan ddefnyddio'r rhyngrwyd, fel MS Teams neu e-bost, a'r ffôn, megis negeseuon testun a galwadau ffôn); a
 - darparu hyfforddiant ar-lein (trafodir hyn isod).

Enghraifft o ymarfer: Symud y gwasanaeth brysbennu i ddarpariaeth ar-lein

Mewn un ardal dywedwyd y cynhaliwyd trafodaeth gychwynnol dros y ffôn cyn y pandemig, ac y byddai'r swyddog brysbennu wedyn yn cwrdd â chleientiaid wyneb yn wyneb i gwblhau'r gwaith papur gyda nhw. Yn dilyn y gorchymyn i aros gartref ddiwedd 2021, symudodd y broses brysbennu i wasanaeth dros y ffôn, a ategwyd gan ohebiaeth drwy e-bost a negeseuon testun.

Dywedodd y tîm fod y broses frysennu yn gweithio'n llawer cyflymach dros y ffôn, oherwydd ei fod yn golygu nad oedd angen i'r swyddog brysbennu deithio ar draws y sir a'i fod yn gallu siarad â mwy o gleientiaid bob dydd nag y gallai o'r blaen.

Dywedodd y swyddog brysbennu nad oedd rhai cleientiaid yn hapus i ymgysylltu dros y ffôn, o leiaf i ddechrau oherwydd bod arnynt ofn cael eu twyllo. Fodd

⁶⁶ Er enghraifft, dywedwyd bod angen darparu'r holl ddogfennau ar gyfer cyllid yr UE (ar gyfer CaW) ar ffurf copi caled a phan ddaeth y pandemig, roedd yn anodd iawn cael gafael arnynt.

bynag, mewn achosion o'r fath, dywedwyd eu bod yn gyffredinol yn hapus i gymryd rhan yn y broses ar ôl derbyn e-bost gan y swyddog brysbennu. Nodwyd hefyd ei bod yn ddefnyddiol bod anogwyr gwaith JCP sy'n gwneud yr atgyfeiriad yn dweud wrth gleientiaid y byddai'r swyddog brysbennu yn cysylltu â nhw, fel eu bod yn gwybod i ddisgwyl yr alwad.

Dywedodd y swyddog brysbennu fod pobl, ar y cyfan, yr un mor agored dros y ffôn ag yr oeddent wyneb yn wyneb. Dywedodd fod pobl yn ymddangos yn awyddus i siarad â rhywun yn ystod y cyfnodau clo yn arbennig ac wedi datgelu mwy nag y byddai hi wedi'i ddisgwyl dros y ffôn.

Fodd bynnag, roedd y broses o symud cyfarfodydd brysbennu staff i gyfarfodydd ar-lein yn fwy problematig. Disgrifiodd staff rheng flaen sut i ddechrau, roedd y tîm yn ei chael hi'n anodd brysbennu o bell oherwydd nad oedd y dechnoleg yn ei lle ac oherwydd nad oedd gan fentoriaid a chynghorwyr unigol y sgiliau i ddefnyddio meddalwedd fideo-gynadledda – fel y dywedodd un, 'roedd TG yn hunllef ar y dechrau... rydym yn dod i arfer ag ef'. Fodd bynnag, dros amser, cynyddodd hyder a sgiliau pobl a gwelwyd gwelliant mewn profiadau, a dywedwyd bod y cyfarfodydd wythnosol yn helpu i gynnal momentwm, yn cadw'r tîm gyda'i gilydd ac yn eu helpu i gefnogi ei gilydd yn ystod cyfnod heriol iawn.

- 5.7. Yn anochel, roedd y newid i ffyrdd newydd o weithio o bell, a amlinellir yn yr enghraifft o ymarfer isod, yn anodd. Dywedodd rhai ardaloedd eu bod, yng nghamau cynnar y pandemig, wedi gwrthio Llywodraeth Cymru i ganiatáu iddynt wneud mwy yn electronig. Mewn ymateb i hynny, un o'r newidiadau mawr a wnaed gan Lywodraeth Cymru oedd caniatáu i dimau ddefnyddio dull cymeradwyo drwy e-bost, yn egluro'r hyn y cytunwyd arno.

Enghraifft o ymarfer: Newid i weithio o bell

O ystyried y gorchymyn i aros gartref, caewyd lleoliadau cymunedol a swyddfeydd JCP, ac roedd cynghorwyr a mentoriaid yn gweithio gartref, gan ddarparu gwasanaeth i gleientiaid yn bennaf dros y ffôn, ynghyd â thrwy negeseuon testun ac e-bost. Er enghraifft, mewn un ardal:

- cwblhawyd ffurflenni cofrestru gan staff CaW yn ddigidol ac yna eu hanfon at gyfranogwyr drwy e-bost a bu'n rhaid iddynt gadarnhau eu hymgysylltiad

drwy lenwi e-bost profforma i ddweud 'Rwy'n cytuno' yn hytrach na llofnodi'r ffurflen;

- gwnaed peth defnydd hefyd o negeseuon testun, gan gynnwys derbyn lluniau fel tystiolaeth o hunaniaeth cleientiaid; a
- defnyddiodd y cynghorwyr e-bost i roi gwybod i gleientiaid am swyddi gwag ac i'w helpu i ddatblygu a mireinio CV/ceisiadau am swyddi, a hynny ar ôl siarad â nhw dros y ffôn yn gyntaf.

Dywedwyd bod polisi DWP yn atal cynghorwyr rhag defnyddio cyfryngau fel WhatsApp, Facebook ac MS Teams gyda chleientiaid (er bod platfformau fel MS Teams yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfathrebu o fewn timau). Er bod gan staff ALI neu CGS fwy o hyblygrwydd i ddefnyddio platfformau fel MS Teams, gallai llythrennedd digidol gwan, tloedi data a/neu ddiffyg mynediad i ddyfeisiau gyfyngu ar allu cyfranogwyr i ddefnyddio'r platfformau hyn.

Costau a manteision gweithio o bell

- 5.8. Roedd barn gyffredinol ymhlith y staff a gyfwelwyd bod cysylltiadau cychwynnol yn fwy anodd ar-lein neu dros y ffôn. Er enghraifft, mewn un ardal, disgrifiodd un o'r rhai a gyfwelwyd sut y 'mae gwerthu dros y ffôn yn wahanol ac yn anoddach na gwerthu [y rhaglen] wyneb yn wyneb'.
- 5.9. Roedd y newid i ddarparu gwasanaeth brysbennu dros y ffôn yn cael ei ystyried yn gadarnhaol ar y cyfan, ond dywedwyd gan staff mewn un ardal fod rhai pobl yn ei chael hi'n haws rhannu pethau dros y ffôn, tra bod eraill yn ei chael hi'n anoddach. Mewn un ardal, cododd partner bryderon y gallai'r asesiad cychwynnol felly fod yn rhy arwynebol.
- 5.10. Gallai cefnogi cleientiaid o bell hefyd fod yn heriol. Er enghraifft, dywedwyd:
- y gallai fod yn anodd iawn cael gafael ar gleientiaid CaW a CaW+ dros y ffôn, drwy neges destun neu e-bost. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, pan fo angen iddynt alw i mewn i swyddfa JCP yn rheolaidd dywedwyd ei bod yn llawer haws i gynghorwyr DWP CaW drefnu cyfarfod â nhw ar ôl eu sesiwn gyda'r Anogwr Gwaith neu iddynt alw i mewn i'r hyb ALI cyfagos;

- roedd cefnogi cyfranogwyr ag anghenion mwy cymhleth hefyd yn cael ei ystyried yn heriol a theimlwyd bod gwir angen i gynghorwyr neu fentoriaid weld y cyfranogwyr hyn wyneb yn wyneb; a
- gallai llythrennedd digidol gwan, tlodi data a/neu ddiffyg dyfeisiau gyfyngu ar ddefnydd cyfranogwyr o blatfformau. Er enghraifft, fel yr esboniodd un o'r rhai a gyfwelwyd 'nid oedd rhai [cyfranogwyr] yn gallu troi cyfrifiadur ymlaen heb sôn am ddefnyddio un' a 'gallai hyd yn oed [anfon] sgrin lun [i sefydlu eu cymhwysedd drwy ffôn clyfar] fod yn broblem'.

5.11. O ganlyniad, dywedwyd bod angen llawer o waith i gefnogi'r cyfranogwyr - ac esbonio iddynt sut i ddefnyddio e-byst a gwefannau, gan nad oeddent yn gyfarwydd â'r dull hwn. Er bod rhai wedi addasu, ac fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd, 'mae'r byd wedi newid iddyn nhw nawr', roedd eraill yn parhau i gael anhawster mawr.

5.12. Dywedwyd hefyd bod cynghorwyr a/neu fentoriaid yn aml yn ei chael hi'n anodd meithrin perthnasoedd mor effeithiol pan nad oeddent bellach yn gweithio wyneb yn wyneb ac na allent gael yr un ddealltwriaeth o sefyllfaoedd cleientiaid wrth weithio o bell. Er enghraifft, fel yr eglurodd un o'r rhai a gyfwelwyd, nid oes modd 'gweld sut maen nhw [cyfranogwyr] yn cyflwyno eu hunain ... iaith eu corff' ac ni allant ddweud 'a ydyn nhw'n aroglu o ganabis ... neu a yw eu hylendid personol yn wael';

5.13. Serch hynny, dywedodd staff rheng flaen hefyd ar draws y safleoedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes ei bod yn well gan rai cyfranogwyr gael cymorth dros y ffôn (gan gynnwys drwy negeseuon e-bost a negeseuon testun). Gallai'r rhain gynnwys cyfranogwyr sydd:

- yn swil ac yn nerfus;
- na allant yrru a/neu sydd â chyfrifoldebau gofalu ac sy'n cael trafferth teithio i apwyntiadau;
- a oedd â gofynion cymharol syml, ond bywydau prysur, ac a oedd yn fwy tebygol o godi'r ffôn na mynychu apwyntiadau wyneb yn wyneb; a/neu
- a oedd, fel y dywedodd un aelod o staff rheng flaen, 'yn ddigidol weithgar' a 'ddim yn meindio peidio ein gweld ni'.

5.14. Yn gyffredinol, fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd, roedd yn well gan bobl ifanc, a oedd yn fwy tebygol o fod yn 'frodorion digidol' na'r rhai dros 25 oed, 'y galwadau

ffôn, yr e-byst neu'r WhatsApps' na chyfarfodydd wyneb yn wyneb. O ganlyniad, dywedodd staff mewn un ardal eu bod wedi cael 'mwy o bobl yn manteisio [ar gymorth] na phan oeddem yn gweithio wyneb yn wyneb'. Fodd bynnag, dywedwyd hefyd eu bod wedi colli rhai cyfranogwyr 25 oed a hŷn wrth weithio ar-lein a/neu dros y ffôn yn ystod y pandemig. Ar ben hynny, mewn ardaloedd eraill, dywedodd staff rheng flaen fod pobl ifanc yn gyndyn iawn i siarad ar y ffôn, er eu bod yn fodlon gyda negeseuon testun, a'u bod yn cael trafferth cadw cysylltiad â phobl ifanc yn ystod y pandemig. Dywedodd un arall a gyfwelwyd fod pobl ifanc yn gyffredinol yn hapusach i anwybyddu galwadau ffôn o gymharu â'r rhai 25 oed a hŷn. Roedd y darlun yn anghyson serch hynny, ac er enghraifft mewn ardal arall, dywedodd staff fod newid i ddarparu gwasanaeth dros y ffôn wedi gwneud cadw cysylltiad â chleientiaid yn haws oherwydd 'mae pobl yn fwy tebygol o godi'r ffôn yn hytrach na gwneud yr ymdrech i ddod allan i gwrdd â chi'. Yn wir, nododd un cynghorydd fod unigolion na fyddai hi wedi disgwyl iddo ateb ei galwadau cyn y pandemig yn gwneud hynny o'i wirfodd yn ystod y cyfnodau clo.

Effaith y pandemig ar atgyfeiriadau a llwythi gwaith

- 5.15. Fel yr amlinellir yn adran chwech, ar draws yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes, lleihaodd nifer y cysylltiadau newydd yn sylweddol yn ystod y pandemig oherwydd:
- roedd llai o atgyfeiriadau o du JCP, a hynny oherwydd bod llai o gymhelliant gan gyfranogwyr, oherwydd, er enghraifft, bod nifer y swyddi gwag wedi lleihau'n sylweddol, roedd pobl yn ofni dal COVID-19 a/neu bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu ychwanegol ar ôl i'r ysgolion gau, ac oherwydd bod cynghorwyr DWP yn fwy tebygol o gael atgyfeiriadau gan anogwyr gwaith pan fyddant yn bresennol yn swyddfeydd JCP;
 - daeth gwaith allgymorth i ben mewn hybiau ALI, ysgolion, meddygfeydd teulu a 'chorneli stryd' ac yn ystod cyfnod y pandemig, roedd y rhaglenni'n dibynnu ar bobl yn cysylltu â nhw er mwyn recriwtio'n uniongyrchol;
 - cwtogwyd y cymorth a gynigiwyd gan y rhaglenni gan fod y cyfnodau clo yn atal unrhyw gysylltiad wyneb yn wyneb â chleientiaid a chymerodd amser i aildefnu'r hyfforddiant ar-lein (trafodir hyn ymhellach isod).
- 5.16. Cymysg oedd effaith y pandemig ar lwythi achosion cynghorwyr a mentoriaid. Yn gyffredinol, lleihaodd nifer yr atgyfeiriadau newydd yn sydyn, ond gan mai ychydig o

gyfranogwyr a oedd yn symud i mewn i waith, arhosodd y llwythi achosion yn weddol sefydlog, ond nodwyd eithriadau i hyn. Yn ogystal â hynny, wrth symud eu cymorth i ddarpariaeth o bell, disgrifiodd rhai ardaloedd hefyd eu bod wedi cwtogi ar y cymorth yr oeddent yn ei gynnig i gyfranogwyr; fel y dywedodd un o gynghorwyr CaW DWP yn ystod camau cynnar y pandemig, roedd y gefnogaeth yn 'fwy tebyg i gadw mewn cysylltiad... gwirio eu bod nhw'n iawn', a bu hynny o gymorth i fentoriaid a chynghorwyr reoli eu llwyth achosion wrth iddynt addasu i ffyrdd newydd o weithio a ffordd newydd o fyw.

Ailagor

- 5.17. Wrth i'r cyfyngiadau lacio, aildechreuodd cysylltiadau wyneb-yn-wyneb a chynyddwyd y cymorth i gyfranogwyr. Er bod staff yn aml yn awyddus i aildechrau gweithio wyneb-yn-wyneb, gallai dychwelyd i hynny fod yn anodd yn aml, a dywedodd staff rheng flaen, er enghraifft, eu bod wedi 'ymlâdd' ar ôl y cwpl o ddiwrnodau cyntaf yn y swyddfa, gan nad oeddent wedi gweld na siarad â chymaint o bobl mewn un diwrnod ers amser maith.
- 5.18. Roedd penderfyniadau ynghylch pryd a ble y gallai cynghorwyr a mentoriaid weithio yn aml allan o reolaeth timau ac yn dibynnu ar y polisiau a fabwysiadwyd gan DWP a'r CCA (h.y. ALI neu CGS). Dywedwyd bod DWP yn gyffredinol yn fwy parod i gymryd risg ac felly braidd yn arafach yn gyffredinol nag ALLau neu CGS, wrth aildechrau gweithio wyneb yn wyneb, ond roedd amrywiaeth sylweddol ar draws yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes.
- 5.19. Cymerodd amser i adfer y cysylltiadau, hyd yn oed wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Dywedwyd:
- bod darpar gleientiaid yn bryderus ynghylch cyfarfod â mentoriaid/cynghorwyr wyneb yn wyneb. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos pobl â 'phryderon iechyd' fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd;
 - bod y gwasanaeth yn llai agored, hygyrch a deniadol yn sgil yr angen i barchu rheolau cadw pellter cymdeithasol a gwisgo masgiau. Dywedwyd bod cyflwyno sgriniau gwydr yn ychwanegu rhwystr arall a oedd yn tanseilio awyrgylch a arferai fod yn groesawgar;
 - y bu'n rhaid i ddigwyddiadau fel ffeiriau swyddi, a arferai fod yn ddigwyddiadau mynediad agored, newid i fodolau gyda slotiau amser wedi'u

harchebu ymlaen llaw ar-lein, gan greu rhwystrau newydd i'r rhai nad oeddent yn ddigidol hyddysg⁶⁷; a

- bod yr angen i gynnal asesiadau risg lluosog cyn y gellid defnyddio manau ffisegol yn ychwanegu at y fiwrocratiaeth ac yn ei gwneud yn anoddach i gwrdd â chyfranogwyr wyneb yn wyneb gan ei gwneud yn broses fwy llafurus.

5.20. Dywedodd nifer o ardaloedd eu bod wedi ailasesu sut y maent yn gweithio yn y gymuned. Yn hytrach na dim ond dychwelyd i ddefnyddio'r un lleoliadau, nad oeddent yn arwain at lawer o atgyfeiriadau weithiau, mae awydd i ymchwilio i opsiynau eraill, megis fan deithiol mewn ardaloedd gwledig.

5.21. Y consensws ymhlith staff rheng flaen a rheolwyr yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes oedd bod dull gweithredu hyblyg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cyfuno cyswllt wyneb yn wyneb ac ar-lein neu dros y ffôn, yn briodol. Fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd, 'roeddem yn anelu at wneud yr hyn a oedd hawsaf i'r cyfranogwyr.' Yn yr un modd, roedd rhai o'r unigolion a gyfwelwyd yn glir nad oedd y dull gweithredu yn gwbl seiliedig ar ddewisiadau cyfranogwyr yn unig, o ystyried yr anawsterau (a amlinellir uchod) a gawsant wrth gefnogi rhai cleientiaid yn effeithiol ar-lein neu oddi ar-lein yn unig.

Effaith COVID-19 ar hyfforddiant

5.22. Nodwyd dwy effaith benodol ar hyfforddiant: ar ddarpariaeth ac ar allu pobl i gael mynediad i hyfforddiant ar-lein (trafodir hyn isod ac yn nes ymlaen yn adran pump (paragraffau 5.26-5.36). I ddechrau, fel y dywedodd staff mewn un ardal, cafodd y cyfnod clo cyntaf effaith 'ofnadwy' ar y rhaglen oherwydd bod 'popeth wedi gorfod cau' ac 'roedd cyfnod hir pan nad oedd dim ar gael'. Dywedwyd ei bod yn arbennig o rwystredig na allai cyfranogwyr ymgymryd â phethau fel hyfforddiant SIA a Diogelwch Personol ar y Trac (PTS) ar adeg pan oedd swyddi ar gael a oedd yn galw am y cymwysterau/ardystiadau hynny. Fodd bynnag, mewn un ardal, nodwyd hefyd bod cyfranogwyr yn ymddangos fel pe baent yn deall bod yn rhaid iddynt aros am hyfforddiant ac, er y dywedwyd bod hyfforddiant yn 'fachyn' pwysig i CaW a CaW+, nid oedd y cyfranwyr yn meddwl bod absenoldeb hyfforddiant yn effeithio rhyw lawer ar lefelau ymgysylltu ar adeg pan oedd cyfyngiadau'r pandemig yn creu cymaint o ansicrwydd.

⁶⁷ Rhoddwyd enghraifft mewn un ardal o ffair swyddi a oedd wedi denu dros 1000 o bobl cyn y pandemig, a gafodd 80 o fynychwyr pan gafodd ei chynnal am y tro cyntaf ar ôl y pandemig.

- 5.23. Disgrifiodd sawl ardal sut yr oedd rhai darparwyr lleol wedi gallu newid i ddarparu hyfforddiant ar-lein yn gyflymach nag ACT (gan roi mantais i CaW+). Serch hynny, nodwyd yn gyson hefyd (gan y rhai a gyfwelwyd ar draws yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes) bod yr hyfforddiant ar-lein a gynigiwyd gan ACT wedi cynyddu dros amser. Canmolwyd hyblygrwydd ACT a'i barodwydd i addasu a chyfeiriwyd at enghreifftiau o arloesi a hyblygrwydd. Er enghraifft, mewn un ardal, dywedwyd bod ACT yn cynnig cwrs ar 'gyrlio blew amrannau' wedi'i anelu at y rhai a oedd yn ystyried gweithio gartref ac mewn ardal arall, cafodd ACT ganmoliaeth benodol am ddatblygu pecyn hyfforddi CSCS ar-lein.
- 5.24. Hyd yn oed pan ddaeth yn bosibl cynnal hyfforddiant wyneb-yn-wyneb unwaith eto (yn 2021), roedd cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol yn golygu mai dim ond hanner y nifer arferol o gyfranogwyr y gellid eu cynnwys mewn ystafelloedd dosbarth. Fel y dywedodd staff mewn un ardal, roedd hyn yn effeithio ar gyrsiau fel hyfforddiant CSCS ble yr oedd lleoedd yn cael eu llenwi'n gyflym, i ymdrin â'r galw a oedd wedi cronni ac i ddiwallu'r galw cynyddol am weithwyr adeiladu. Adroddwyd hefyd am 'ôl-groniadau ofnadwy' ar gyfer cyrsiau a oedd o reidrwydd yn cynnwys elfen o hyfforddiant personol fel ardystiad Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA), sy'n cynnwys cyswllt corfforol yn ystod 'hyfforddiant ataliaeth'. Fodd bynnag, erbyn i'r gwaith maes gael ei wneud yng ngwanwyn 2022, dywedwyd bod pethau wedi dod i drefn ac nad oedd problemau bellach gydag ôl-groniadau.
- 5.25. Yn ogystal â newid y ddarpariaeth a'r ffordd yr oedd modd i gyfranogwyr gael gafael ar hyfforddiant, newidiodd y pandemig hefyd farn rhai aelodau o staff am ddiben yr hyfforddiant. Er enghraifft, teimlai un o'r rhai a gyfwelwyd y dylid ond darparu hyfforddiant pan fo cyfle cyflogaeth penodol ar gael sy'n addas i'r cyfranogwr a phan fo angen yr hyfforddiant i'w alluogi i fanteisio ar y cyfle hwnnw. Dywedwyd hefyd y bu llawer mwy o ffocws ar leihau'r nifer 'nad oeddent yn troi i fyny neu'n canslo' (lle nad oedd cyfranogwyr yn mynychu hyfforddiant) cyn y pandemig. Mewn ymateb i hynny, anogwyd y staff i 'herio cyfranogwyr' i sicrhau eu bod o ddifrif pan oeddent yn cofrestru ar gyfer hyfforddiant. Fodd bynnag, yn ystod y pandemig, dywedodd rheolwyr a staff rheng flaen ill dau fod y dull hyfforddi wedi newid rhywfaint a bod hyfforddiant ar-lein wedi dod yn ffordd o gadw diddordeb cyfranogwyr a'u hysgogi, hyd yn oed os nad oedd disgwyl iddo arwain at gael gwaith yn gyflym o reidrwydd.

Costau a manteision newid i ddarparu hyfforddiant ar-lein

5.26. Dywedwyd bod manteision ac anfanteision i gyflwyno hyfforddiant ar-lein. Er enghraifft:

- dywedodd rhai o'r unigolion a gyfwelwyd fod y newid i ddarpariaeth ar-lein yn cynyddu mynediad. Gallai helpu i leihau rhwystrau'n ymwneud ag amgylchiadau megis cyfrifoldebau gofalu neu anawsterau teithio (gan y gallai cyfranogwyr ddysgu gartref). Gallai hefyd ehangu opsiynau, oherwydd pe bai cwrs (ar-lein) yng Nghaerdydd dyweder ac un lle gwag arno, yna gallai rhywun o Ynys Môn ymuno. Fel yr eglurodd un unigolyn a gyfwelwyd, roedd yn rhoi mynediad i gyrsiau nad oedd pobl wedi meddwl amdanynt o'r blaen o bosibl: 'gallem annog pobl gan ddweud 'beth am roi cynnig arni tra byddwch i ffwrdd o'r gwaith';
- nododd y staff fod rhywfaint o ddarpariaeth hunan-ddysgu, megis cyrsiau byr mewn meysydd fel iechyd a diogelwch, hylendid bwyd, yn addas iawn ar gyfer darpariaeth ar-lein⁶⁸;
- dywedodd y staff eu bod yn teimlo bod rhai pobl ifanc yn fwy hyderus yn ymgymryd â hyfforddiant ar-lein;
- nododd staff mewn un ardal fod cyfranogwyr a oedd wedi dilyn cyrsiau sgiliau hanfodol drwy CaW, i wella eu llythrennedd digidol, ac a oedd 'wedi cyrraedd pwynt lle roeddent yn gwneud cynnydd' ac yn gallu 'parhau' â'u teithiau dysgu ar-lein, wedi elwa gan ei fod yn helpu i atgyfnerthu a chryfhau eu sgiliau digidol; a
- dywedodd staff mewn un ardal y gellid defnyddio cyrsiau ar-lein fel prawf o ba mor ymroddedig oedd y cyfranogwyr, a phe byddent yn cwblhau cwrs byr, roedd hynny'n arwydd y gallent gwblhau cwrs hwy, drutach.

5.27. Serch hynny, dywedwyd hefyd:

- bod rhai cyfranogwyr a fyddai wedi mynychu hyfforddiant personol ond a oedd yn ei chael yn anos meithrin cymhelliant i gwblhau hyfforddiant gartref a/neu a oedd yn llawn cymhelliant oherwydd eu bod yn mwynhau'r ochr gymdeithasol o ddod at ei gilydd ar gyfer cyrsiau hyfforddi;

⁶⁸ Er enghraifft, canmolwyd un ALI am gynnig cyrsiau byr sy'n arwain at ardystiadau sylfaenol (e.e. mewn cymorth cyntaf, hylendid bwyd etc) ar-lein: dywedwyd bod hyn wedi bod yn ddefnyddiol wrth lenwi CVs cleientiaid i 'greu'r argraff eu bod wedi bod yn gwneud rhywbeth'. Soniodd staff rheng flaen hefyd am gyflawni'r ardystiadau cyflym hyn er mwyn helpu i roi hwb i hyder y cyfranogwyr.

- bod y cyfraddau absenoldeb a gadael ar gyrsiau ar-lein yn uwch – gydag un ardal yn dweud y byddai'n disgwyl i gymaint â hanner y cyfranogwyr beidio â mynychu hyfforddiant wyneb yn wyneb, ond roedd y cyfraddau absenoldeb ar gyfer cyrsiau ar-lein yn uwch fyth;
- yn ogystal â helpu i ysgogi cleientiaid, roedd dimensiwn cymdeithasol y ddarpariaeth yn rhan bwysig o ddatblygiad llawer o gyfranogwyr sy'n oedolion, ac y gallai, er enghraifft, eu helpu i oresgyn problemau'n ymwneud â gorbryder drwy fod mewn amgylchedd newydd, a datblygu eu sgiliau cyfathrebu drwy gymysgu ag eraill;
- bod rhai grwpiau'n cael trafferth cael mynediad at hyfforddiant ar-lein oherwydd eu bod 'wedi'u hallgáu'n ddigidol' ac angen rhywfaint o help wyneb yn wyneb i 'hyd yn oed droi dyfais ymlaen' a mewngofnodi i gwrs hyfforddi⁶⁹ a/neu nid oedd ganddynt y dyfeisiau TG angenrheidiol i ymgymryd â hyfforddiant ar-lein. Fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd, ceisiodd llawer ddilyn cyrsiau ar eu ffonau, ond nid oedd hyn yn gydnaws â hyfforddiant ystyrlon; a
- nid oedd pob cwrs ar-lein wedi'i achredu i'r lefel yr oedd ei hangen ar bobl ar gyfer rolau gwaith penodol.

5.28. At ei gilydd, roedd y rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod y pandemig wedi helpu i 'chwyldroi' y ffordd y caiff hyfforddiant ei ddarparu. Teimlwyd bod maint ac ansawdd yr hyfforddiant ar-lein wedi gwella ac o ystyried manteision posibl darpariaeth ar-lein (a amlinellir uchod), mae achos dros gynnig gweithgaredd dysgu ar-lein yn ogystal ag wyneb yn wyneb.

Mynd i'r afael ag allgáu digidol / gliniaduron Chromebook

5.29. Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig, mewn ymateb i geisiadau yn gofyn a ellid defnyddio'r Gronfa Rwystrau i ariannu gliniaduron, defnyddiwyd peth o'r arian ychwanegol a ddyrannwyd i CaW+ er mwyn ymateb i'r pandemig COVID-19 i gomisiynu Cymunedau Digidol Cymru i ddarparu Cynllun benthyca gliniaduron Chromebook i gleientiaid CaW a CaW+. Mewn sawl ardal, roedd hyn yn ategu benthyca cyfarpar ALL a phrynu gliniaduron wedi'u hadnewyddu ar gyfer cleientiaid, gan ddefnyddio cyllid JCP, pan oedd angen dyfeisiau ar unigolion am gyfnodau hwy.

⁶⁹ Nodwyd mai rhan allweddol o swydd mentor/cynghorydd yw eistedd gyda phobl wrth iddynt fynd i'r afael â thechnoleg a helpu i ddatblygu eu sgiliau fel rhan o'r broses.

5.30. Lle roedd y cynllun yn gweithio'n dda, fel y dengys yr enghraifft o ymarfer isod, dywedwyd bod cleientiaid wedi defnyddio'r gliniaduron Chromebook i ddilyn cyrsiau ac i baratoi CV. Dywedwyd bod rhai cyfranogwyr hefyd wedi eu defnyddio i chwilio am waith. Mewn un ardal, dywedwyd, er nad yw eu defnydd o reidrwydd wedi trosi'n gyfleoedd cyflogaeth, roedd y cynnig o liniaduron Chromebook yn arf ychwanegol i dimau CaW/CfW+ ei ddefnyddio, ac mae'n debyg ei fod wedi helpu i ddadlau'r achos dros atgyfeirio rhai cleientiaid at y gwasanaeth yn ystod y cyfnodau clo. Serch hynny, adroddwyd bod y nifer a fanteisiodd ar hyn yn amrywio'n sylweddol, o niferoedd 'da iawn' i 'ddim yn wych' ar draws yr wyth ardal a gynhwyswyd yn y gwaith maes.

Enghraifft o ymarfer: Effaith cynllun Chromebook CaW+

Mewn un ardal, dywedwyd bod nifer sylweddol iawn yn manteisio ar y gliniaduron Chromebook a bod y cynllun wedi bod yn 'ardderchog'. Fel y disgrifiodd un rheolwr, mae'r CCA a DWP wedi defnyddio'r cynllun cymaint â phosibl ac 'nid ydynt byth yn clywed dim byd drwg amdano'. Eglurwyd y byddai'r asesiadau brysbennu yn ystod y cyfyngiadau symud yn holi cyfranogwyr am eu cyfleusterau TG, er mwyn i gynghorwyr a mentoriaid wybod a oedd hyn yn rhwystr posibl o'r dechrau a sicrhau bod y rhai sydd eu hangen yn cael mynediad at TG drwy liniaduron Chromebook.

Disgrifiodd y rheolwr sut yr oedd y cynllun wedi helpu i gadw cyfranogwyr yn brysur yn ystod y cyfnodau clo. Er enghraifft, roedd y CCA wedi trefnu cyrsiau ar-lein ac wedi gosod y pecyn CSCS ar yr holl ddyfeisiau Chromebook ac fe wnaeth sawl person ddilyn y cwrs hwnnw yn ystod y cyfnod clo.

Er i'r rheolwr nodi bod rhestrau aros ar gyfer y dyfeisiau Chromebook a'i bod yn waith caled cadw golwg arnynt i gyd a'u 'glanhau' cyn iddynt gael eu benthyca eto, teimlwyd bod y cynllun wedi bod o gymorth mawr yn ystod y cyfnod clo. Esboniwyd hefyd, yn wahanol i gynllun Chromebook CaW+, y teimlwyd ei fod yn hygyrch iawn, roedd DWP yn ymddangos yn gyndyn o ddefnyddio'r Gronfa Cymorth Hyblyg i dalu am gyfrifiaduron llechen, a oedd yn rhwystredig i staff CaW/CfW+.

Mewn ardal arall, disgrifiodd un rheolwr, er ei fod yn teimlo bod y nifer sy'n defnyddio dyfeisiau Chromebook yn fach⁷⁰, pan fanteisiwyd arnynt, roedd yr

⁷⁰ Fodd bynnag, roedd staff rheng flaen yn Ynys Môn yn fwy cadarnhaol ac yn dweud bod 'defnydd cyson ohonynt'.

effaith yn sylweddol. Er enghraifft, fel y dywedwyd, 'nid oedd gan un person liniadur gartref, ac ni fyddai wedi bod yn bosibl iddo gael y swydd pe na baem wedi rhoi'r Chromebook iddo i wneud y cyfweiliad ar-lein. Fe gafodd y swydd.'

- 5.31. Adroddwyd am broblemau yn sgil oedi wrth dderbyn Chromebooks (oherwydd y galw byd-eang yn gysylltiedig â'r pandemig), y broses o'u 'hailgylchu' i gleientiaid newydd (fel eu glanhau) a sgiliau digidol gwan ymhlith rhai cleientiaid. Er enghraifft, dywedodd staff rheng flaen mewn un ardal ei bod yn anodd cefnogi cyfranogwyr ar-lein, 'gan fod yn rhaid i [ymgyngorwyr neu fentoriaid] fod yno i'w helpu i'w droi ymlaen'. Felly, hyd yn oed fel mewn ardal arall ble roedd gliniaduron Chromebook yn cael eu benthyca, dywedwyd nad oedd yr unigolion yn aml yn eu defnyddio, neu y byddent yn cael problemau'n mewngofnodi. Ar ben hynny, er gwaethaf yr hyfforddiant a gynigiwyd gan Cymunedau Digidol Cymru a nodi hyrwyddwyr digidol ym mhob tîm, cydnabu rhai o staff CaW hefyd nad oedd ganddynt hwy eu hunain fawr o brofiad o ddefnyddio dyfeisiau Chromebook (sy'n debygol o fod wedi cyfyngu ar eu gallu i annog a chefnogi cyfranogwyr i'w defnyddio). Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw reswm clir pam bod y niferoedd yn amrywio i'r fath raddau ar draws ardaloedd (gan nad oedd y problemau hyn yn unigryw i ardaloedd â defnydd isel).

Enghraifft o ymarfer: goresgyn heriau'n gysylltiedig â chynllun Chromebook CaW+

Mewn un ardal roedd yn ymddangos ei bod wedi cymryd peth amser i benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio dyfeisiau Chromebook, ond ar ôl i'r swyddogion brysbennu 'roi pecynnau at ei gilydd mewn bagiau neis' yn cynnwys pennau ysgrifennu, papur, Chromebook a nodyn ar sut i'w ddefnyddio a chymorth gan fentoriaid, cynyddodd defnydd cleientiaid o liniaduron Chromebook. Dywedodd y tîm fod y nifer a oedd yn manteisio ar y cynllun yn amrywio ond ar gyfartaledd byddai tua 10 dyfais ar fenthyg ar unrhyw un adeg. Roedd y cyfnodau benthyca yn amrywio o ychydig ddyddiau i dair neu bedair wythnos. Caniatwyd i gyfranogwyr ddal eu gafael yn y Chromebook ar ôl ymgymryd â chwrs byr er mwyn cefnogi eu gweithgareddau chwilio am swydd a hefyd i'w galluogi i wneud mwy o e-ddysgu pe baent yn dewis gwneud hynny. Cynyddodd y defnydd dros amser, wrth i fwy o hyfforddiant ar-lein ddod ar gael. Yn wir, nodwyd bod y cynllun Chromebook yn gweithio'n dda ers Nadolig 2021, yn rhannol oherwydd bod pobl yn gwybod bod

angen iddynt 'gychwyn arni a symud ymlaen', ar ôl y pandemig. Fel y dywedodd un rheolwr, mae'r dyfeisiau Chromebook 'wedi bod yn adnodd ychwanegol gwych'.

Gwaddol y pandemig COVID-19

5.32. Er gwaethaf y caledi a'r anawsterau enfawr, mewn rhai ffyrdd roedd y rhai a gyfwelwyd yn teimlo bod y pandemig COVID-19 wedi gadael gwaddol cadarnhaol. Roedd hyn yn cynnwys:

- ehangu rhaglen CaW+;
- symud i gynnis hyfforddiant ar-lein neu hyfforddiant cyfunol (a drafodir uchod);
- datblygu model cymorth mwy effeithlon, cymysg, a oedd, fel y nodwyd uchod, yn gweddu i rai cleientiaid ac yn golygu bod llai o amser yn cael ei 'wastraffu' yn teithio i gyfarfod ac/neu'n aros am gleientiaid, na fyddai bob amser yn dod i'r cyfarfod;
- brysbennu dros y ffôn a oedd, yn ôl y staff, yn golygu bod modd ymdrin â chyfranogwyr yn gyflymach ac y gallent weld cynghorydd neu fentor yn gyflymach nag y byddent wedi'i wneud o'r blaen;
- gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r gagendor digidol, sy'n gysylltiedig â sgiliau digidol gwan, diffyg mynediad at ddata a/neu ddyfeisiau, a'u heffeithiau ar gyfranogwyr; effeithiau a ddatgelwyd ac a ddwysawyd gan y pandemig, ond sy'n parhau i fod yn gynyddol bwysig wrth i waith a chymdeithas symud fwyfwy ar-lein;
- y cyfle i fyfyrion ar yr hyn a fu'n llwyddiannus a'r hyn na weithiodd cystal. Er enghraifft, mewn un ardal, dywedodd rheolwr ALL ei fod yn y gorffennol wedi 'ceisio bod yn bopeth i bawb ond nawr rydym yn sylweddoli ei fod yn fwy effeithiol os gallwn gyfeirio pobl yn fwy effeithiol'. Er enghraifft, esboniwyd sut yr oeddent bellach yn cyfeirio pobl at y tîm Creu Cymunedau Cryf, a 'gallen nhw wneud y gwaith llesiant hwnnw yn hytrach na ni'.

Effaith ffactorau allanol eraill ac ymatebion y rhaglenni

5.33. Roedd ffactorau allanol eraill a effeithiodd ar y rhaglenni yn cynnwys:

- diwygiadau lles, a effeithiodd yn bennaf ar gymhelliant y chyfranogwyr ac, mewn rhai achosion, ar eu galluoedd (mater a drafodir ymhellach yn adran chwech);

- ymadawriad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, a effeithiodd ar y farchnad lafur, yn ogystal â'r ffaith y byddai cyllid Ewropeaidd yn dod i ben yn 2023, a fydd â goblygiadau i raglen CaW (o ystyried ei dibyniaeth ar arian cyfatebol ESF), fel y trafodir yn adran pedwar; a
- rhaglenni cymorth cyflogaeth eraill gan gynnwys y rhai a ddatblygwyd mewn ymateb i'r pandemig, megis Ailgychwyn, a drafodir yn yr isadran nesaf.

Diwygiadau Lles

- 5.34. Roedd yr achos busnes (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a) yn rhagweld y byddai diwygiadau lles yn cael effaith negyddol, gyda'r potensial i gynyddu tlodi i'r rhai ar incwm isel ac sydd bellaf o'r farchnad lafur a grwpiau â nodweddion gwarchoddedig megis menywod, pobl anabl a grwpiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig. (t. 5, *ibid.*) Rhagwelwyd y byddai'r effeithiau mwyaf ar Gyfoedd De Cymru, sy'n cynnwys rhannau o Gymru lle ceir niferoedd mawr o hawlwr budd-daliadau o oedran gweithio, ac felly'n debygol o gael eu heffeithio'n arbennig o wael gan doriadau mewn budd-daliadau lles ([Llywodraeth Cymru, 2019a](#)).
- 5.35. Holwyd y rhai a gyfwelwyd am effaith diwygiadau lles, ac yn arbennig y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol (UC). Dywedodd rheolwyr strategol fod cyflwyno'r Credyd Cynhwysol, sy'n cynnwys budd-daliadau mewn gwaith, wedi arwain i ddechrau at rywfaint o ddrwsych ynghylch pwy oedd yn gymwys i gael cymorth CaW/CaW+ a sut y dylid dangos tystiolaeth o gymhwystra. Mewn ymateb i hynny, diwygiwyd ffurflen atgyfeirio CaW/CaW+ i'w gwneud yn haws i anogwyr gwaith JCP ddeall y meini prawf cymhwystra ac mae pethau wedi dod yn gliriach dros amser. Fodd bynnag, drwy hwyluso ac annog y broses o bontio i waith (drwy gynyddu cymhellion ariannol i weithio), bu cyflwyno'r Credyd Cynhwysol hefyd o gymorth i'r rhaglenni. Dywedwyd hefyd bod cyflwyno'r Credyd Cynhwysol o 2015 ymlaen wedi arwain at gynnydd yn nifer yr unigolion economaidd anweithgar a atgyfeiriwyd gan JCP (er bod y niferoedd a atgyfeiriwyd wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y pandemig, wrth i anogwyr gwaith ganolbwyntio ar y di-waith). Felly, yn gyffredinol, roedd cyflwyno'r Credyd Cynhwysol bellach yn cael ei ystyried yn rhywbeth 'cadarnhaol' o safbwynt CaW/CaW+ (fel y dywedodd un rheolwr strategol).
- 5.36. Cymysg oedd effaith y Credyd Cynhwysol yn ôl staff rheng flaen. Dywedodd rhai ei fod wedi cael effaith gadarnhaol gymedrol; er enghraifft, dywedwyd bod cyfrifiadau 'gwell eich byd' wedi helpu i ddangos effaith y Credyd Cynhwysol ar y niferoedd sy'n

symud ymlaen i waith, a chan nad oedd pobl ifanc 16 neu 17 oed yn gyffredinol yn gymwys i hawlio'r Credyd Cynhwysol, dywedwyd ei fod yn rhoi mwy o gymhelliant ynddynt chwilio am waith.⁷¹ Fodd bynnag, mewn sawl ardal arall, dywedodd staff rheng flaen nad oedd cyflwyno'r Credyd Cynhwysol wedi cael fawr ddim effaith, os o gwbl, neu ei bod yn anodd asesu'r effaith.

- 5.37. Mewn un ardal, adroddwyd bod tynnu'r codiad o £20 yr wythnos mewn Credyd Cynhwysol yn ôl yn 2021 (mesur a gyflwynwyd mewn ymateb i'r bandemig COVID-19) wedi cyfrannu at y tldodi ariannol a'r 'argyfwng' yr oedd rhai cyfranogwyr yn ei wynebu o ganlyniad i hynny. Teimlwyd bod hyn yn cael ei waethygu gan y pum wythnos o aros am y taliad cyntaf a diwygiadau lles eraill megis yr hyn a elwir yn 'dreth ystafell wely' a'r cap ar fudd-daliadau. Dywedwyd y gallai'r pwysau ariannol hwn helpu i ysgogi rhai cyfranogwyr i ddod o hyd i waith, ond roedd yr anawsterau wrth ymdopi ar incwm isel hefyd yn dreth ar gapasiti meddyliol y cyfranogwyr⁷², gan leihau eu gallu i chwilio'n effeithiol am waith (ac felly greu rhwystr arall i ddod o hyd i waith).

Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd

- 5.38. Holwyd y rhai a gyfwelwyd am effaith ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Soniodd rhai ardaloedd yng Ngogledd Cymru am effeithiau gweddol fach ar y farchnad lafur, o ganlyniad i ddinasyddion yr UE yn gadael yr ardal, gan gyfrannu at swyddi gwag a/neu gyflog uwch mewn rhai sectorau. Yn ogystal, mewn un ardal, dywedwyd bod creu Safleoedd Rheoli Ffiniau Mewndirol⁷³, hefyd yn creu cyfleoedd gwaith newydd. Fodd bynnag, roedd pryderon hefyd am effaith negyddol tymor hwy. Mewn llawer o ardaloedd, teimlwyd nad oedd fawr o effaith, os o gwbl, neu ei bod yn anodd asesu'r effaith.
- 5.39. Mae'n anodd modelu effaith ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ar lefel macro, ond mae'n werth nodi bod Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) y DU yn rhagdybio

⁷¹ Gall pobl ifanc 16 neu 17 oed hawlio Credyd Cynhwysol os oes ganddynt gyflwr iechyd neu anabledd a bod ganddynt dystiolaeth feddygol o hynny, megis nodyn ffitrwydd; os ydynt yn gofalu am berson ag anabledd difrifol; os ydynt yn gyfrifol am blentyn; yn byw gyda phartner, yn gyfrifol am blentyn a bod eu partner yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol; os ydynt yn feichiog ac yn disgwyl eu babi yn yr 11 wythnos nesaf; os ydynt wedi cael babi yn y 15 wythnos diwethaf; neu os nad oes ganddynt gymorth rhiant, er enghraifft nid ydynt yn byw gyda'u rhieni ac nid ydynt o dan ofal awdurdod lleol. (<https://www.gov.uk/universal-credit/eligibility>).

⁷² Mae'r cysyniad yn deillio o waith Shafir a Mullainathan (2013), a dynnodd sylw at y pwysau sy'n dod law yn llaw â thlodi ar egni a chapasiti meddyliol pobl, gan nodi bod prinder yn golygu bod y tlawd yn fwy tebygol o wneud camgymeriadau a phenderfyniadau gwael na'r rhai â lefelau uwch o incwm.

⁷³ Mae'r safleoedd rheoli yn safleoedd lle mae gwiriadau tollau a ffiniau'n cael eu cynnal, megis archwilio nwyddau fel anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sy'n dod i Gymru drwy Borthladd Caergybi o'r tu allan i'r DU.

effaith gyffredinol negyddol ar dwf economaidd a chyflogaeth ([OBR, 2022](#)). Gallai hyn gynyddu'r galw am raglenni cymorth cyflogadwyedd, ond hefyd ei gwneud yn anoddach i raglenni cymorth cyflogadwyedd gyflawni deilliannau swyddi.

Cydweddiad strategol â rhaglenni cymorth cyflogaeth eraill

- 5.40. Mae CaW a CaW+ yn rhan o ecosystem gymhleth o raglenni cymorth cyflogaeth, ac fel yr eglurodd un rheolwr strategol, y nod yw cysylltu â rhaglenni eraill, ac 'nad oes angen i gleientiaid weld y gwifrau oddi tanynt...ond dylai fod rhywun a all eu cefnogi bob amser'. Yn eu barn nhw 'pe bai pob un [o'r rhaglenni cymorth cyflogaeth] yn aros o fewn eu meini prawf, mae'n gweithio'. Fel yr amlinellir isod, tynnodd y rhai a gyfwelwyd sylw at raglenni yr oeddent yn teimlo eu bod yn gwneud hyn ac yn ategu arlwy CaW a CaW+, megis Kickstart⁷⁴ a Cymorth Wedi'i Dargedu i Gael Swydd (JETS)⁷⁵, tra bod rhai fel Ailgychwyn⁷⁶ a phrosiectau'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol yn gorgyffwrdd â CaW a CaW+, gan greu cystadleuaeth.
- 5.41. Yn gyffredinol, ystyriwyd mai'r rhaglenni a oedd yn ategu CaW a CaW+ ar lefel strategol oedd y rhai a oedd yn canolbwyntio ar grwpiau gwahanol a/neu a oedd yn cynnig mathau gwahanol o gymorth, a oedd yn golygu eu bod:
- yn gweithio gyda grwpiau o gyfranogwyr gwahanol i CaW a CaW+, megis rhaglenni fel PaCE sy'n canolbwyntio ar y rhai y mae gofal plant yn brif rwystr i gyflogaeth;
 - yn gweithio gyda chyfranogwyr ar adegau gwahanol - neu gamau gwahanol yn nheithiau cyflogadwyedd cyfranogwyr - i CaW a CaW+, megis cymorth cyn ymgysylltu, a gynigir gan raglenni fel Ysbrydoli i Weithio neu gymorth i gamu ymlaen mewn cyflogaeth, a gynigir gan raglen fel Sgiliau yn y Gwaith; neu
 - yn gweithio gyda chyfranogwyr ar yr un pryd â CaW a CaW+, lle roedd cyfranogwyr yn gymwys i gael cymorth gan fwy nag un rhaglen, fel Cymru'n Gweithio, nad oedd yn cael ei hariannu gan ESF.
- 5.42. Mae meini prawf cymhwystra caeth y rhaglen CaW wedi'u cynllunio i sicrhau nad yw'n dyblygu darpariaeth arall, ac yn yr un modd mae'r rhan fwyaf o raglenni cyflogaeth rhanbarthol a ariennir gan ESF yn canolbwyntio ar ardaloedd nad ydynt yn


⁷⁴ Gellir cyfrif lleoliad gwaith ar Kickstart fel deilliant swydd CaW.

⁷⁵ Mae JETS yn cynnig cymorth cyffyrddiad ysgafn i helpu pobl sydd wedi bod yn ddi-waith ac yn derbyn budd-daliadau am o leiaf 13 wythnos i ddod o hyd i waith.

⁷⁶ Mae Ailgychwyn yn cynnig cymorth gwell, wedi'i deilwra am hyd at 12 mis i hawlwr Credyd Cynhwysol sydd wedi bod yn ddi-waith ers 12-18 mis

cael eu cwmpasu gan CaW (h.y. ardaloedd nad oeddent yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf). Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, oherwydd bod gan CaW+ feini prawf cymhwystra llacach na CaW, mae mwy o risg o bosibl y bydd yn gorgyffwrdd â rhaglenni cymorth cyflogaeth eraill (neu'n dyblygu'r ddarpariaeth a gynigir ganddynt). Mae CaW+ yn anelu at beidio â gweithio gyda phobl sy'n gymwys ar gyfer rhaglenni cenedlaethol neu ranbarthol ESF, a dywedwyd bod y model yn gweithio'n dda mewn ALIau lle mae'r holl raglenni cymorth cyflogaeth 'yn yr un lle yn yr ALI', felly 'nid oes cweryla amhriodol' fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd. Dangosir hyn gan yr enghraifft o ymarfer isod. Fodd bynnag, nodwyd y gall fod yn fwy anodd mewn ardaloedd lle mae gwahanol raglenni cymorth cyflogaeth mewn gwahanol adrannau ALIau. Dangosir y ddau ddull gwahanol hyn yn Ffigur 5.1.

Ffigur 5.1. Un pwynt mynediad a phwyntiau mynediad lluosog i raglenni cymorth cyflogaeth



Enghraifft o ymarfer: Un Pwynt Mynediad i wasanaethau cymorth cyflogaeth

Disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd mewn un ardal fod tîm y porth yn darparu un pwynt mynediad (neu 'borth') i amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael drwy Wasanaeth I Mewn i Waith yr ALI. Mae hyn yn cynnwys proses sgrinio a gynlluniwyd i gasglu tri darn allweddol o wybodaeth sy'n galluogi cleientiaid i gael eu hatgyfeirio at y math mwyaf priodol o gymorth: dyddiad geni, cod post a'r budd-daliadau a gânt.

Mae unigolion sy'n manteisio ar Wasanaeth i Mewn i Waith yr ALI yn cael eu sgrinio ymlaen llaw gan dîm y porth ac yna'n cael eu hatgyfeirio at yr ystod fwyaf priodol o brosiectau/gwasanaethau, sy'n cael eu 'lletya' gan y Gwasanaeth i Mewn i Waith. Mae'r rhaglenni a gwmpesir gan y broses sgrinio hon yn cynnwys rhaglenni cenedlaethol, megis CaW, CaW+, PaCE a rhaglenni rhanbarthol fel Ysbrydoli i Weithio; Sgiliau yn y Gwaith a Siwrne i Waith.

Mae proses frysbennu CaW/CaW+ yn rhan o broses sgrinio ehangach y porth, ac os caiff CaW neu CaW+ ei nodi fel y gwasanaeth mwyaf priodol yn y cam sgrinio cychwynnol, mae gweithwyr brysbennu CaW yn cynnal asesiad manylach o anghenion gyda chleientiaid cyn eu dyrannu i fentoriaid neu gynghorwyr.

Mae Gwasanaeth i Mewn i Waith yr ALI wedi bod yn ffynhonnell bwysig o atgyfeiriadau ar gyfer CaW a CaW+ a dywedir bod atgyfeiriadau wedi dechrau cynyddu eto yn ddiweddar, ar ôl y pandemig.

Rhaglenni DWP: Ailgychwyn, Kickstart a JETS

- 5.43. Fel yr amlinellir yn adran pedwar (paragraffau 4.51-4.57), mae'r bartneriaeth rhwng DWP a Llywodraeth Cymru a chynnwys staff DWP yn y gwaith o reoli a chyflawni rhaglen CaW, wedi helpu i sicrhau perthnasoedd a chysylltiadau gwaith da rhwng CaW, CaW+ a JCP ar lefel weithredol. Serch hynny, fel y mae profiad Ailgychwyn a Kickstart (y ddwy raglen DWP a sefydlwyd fel rhan o'r ymateb i'r pandemig COVID-19) yn ei ddangos, roedd y ffaith bod yr hyn a gynigiwyd gan CaW a CaW+ yn ategu'r hyn a gynigiwyd gan JCP yn hanfodol i lwyddiant y bartneriaeth hon.⁷⁷
- 5.44. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes yn gyson eu bod yn teimlo bod Ailgychwyn a Kickstart wedi'u datblygu gan DWP heb ymgynghori'n ddigonol â rhaglenni presennol yng Nghymru, megis Caw a CaW+, a heb roi ystyriaeth ddigonol iddynt. Er enghraifft, fel y disgrifiwyd gan staff yng Nghaerdydd, roedd rhaglenni fel CaW yn 'bysgodyn bach mewn pwll mawr' ac nid oeddent yn dod i sylw llunwyr polisïau DWP – 'fe wnaethon nhw daflu arian ato heb gael unrhyw sgwrs am yr hyn a oedd yn digwydd eisoes yma yng Nghymru ... ble oedd [y] dull o feddwl yn gydgyssylltiedig'?
- 5.45. Fel yr eglurodd rheolwr strategol CaW, pan gyhoeddwyd rhaglenni newydd DWP, megis Kickstart ac Ailgychwyn, rhoddwyd trefniadau ar waith iddynt weithio ochr yn ochr â CaW (a CaW+).⁷⁸ Yn yr un modd, fel yr eglurwyd, cafwyd 'trafodaethau da gyda DWP Cymru ac roedd staff lleol DWP yn gefnogol iawn, gan ddweud os yw rhywun yn rhan o gynllun gweithredu CaW neu CaW+, ni ddylid ei atgyfeirio at Ailgychwyn'. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod rheolwyr staff DWP yn JCP yn dweud

⁷⁷ Gall CaW a CaW+ weithio gyda (a chefnogi) cleientiaid presennol JCP a chynnig mwy o amser a chymorth iddynt nag y gall anogwyr gwaith JCP.

⁷⁸ Yn yr un modd, mae'r Ailwerthusiad o CaW yn nodi bod DWP wedi rhoi sicrwydd bod y rhaglen Kickstart yn rhaglen ar gyfer unigolion sy'n agosach at y farchnad lafur ac nad oes angen cymorth dwys CaW arnynt. (Ailwerthusiad CaW - Atodiad Cynllun Busnes GCC B3).

wrth eu timau bod yn rhaid iddynt anfon pobl at y cynllun Ailgychwyn. Fel y dywedodd un o reolwyr DWP, teimlwyd bod hyn yn groes i'r egwyddor o atgyfeirio pobl at y rhaglen a oedd yn gweddu orau i'r unigolyn.⁷⁹

- 5.46. O ganlyniad, dywedodd nifer fawr o staff mewn ardal arall, ei fod yn 'amharu'n sylweddol' ar lwybr atgyfeirio JCP, yn enwedig o ran oedolion 25 oed a hŷn (Blaenoriaeth 1) gan fod y ddwy raglen yn eu hanfod yn anelu at wasanaethu'r un cwsmeriaid. Fel y dywedodd staff mewn un ardal, er bod gan y cynghorwyr 'berthynas dda' gydag anogwyr gwaith yn [y ganolfan gwaith leol], pan ddechreuodd Ailgychwyn, 'gostyngodd yr atgyfeiriadau gan JCP yn sylweddol oherwydd ei bod yn orfodol i unigolion gymryd rhan yn Ailgychwyn ac roedd anogwyr gwaith JCP yn eu hatgyfeirio at Ailgychwyn yn hytrach na CaW fel mater o drefn.⁸⁰ Dywedodd staff fod hyn wedi gwaethygu pan gafodd y meini prawf cymhwysra ar gyfer Ailgychwyn eu gwanhau, gan ehangu'r rhaglen i bobl a fu'n ddi-waith am naw mis yn hytrach na 12-18 mis.
- 5.47. Yn ogystal â'r rhwystredigaeth bod anogwyr gwaith wedi cael cyfarwyddyd i atgyfeirio cyfranogwyr posibl at Ailgychwyn yn hytrach na CaW neu CaW+, roedd rhwystredigaeth pan symudodd JCP gyfranogwyr presennol CaW neu CaW+ i'r rhaglen Ailgychwyn. Fel yr esboniodd un rheolwr strategol, os bydd rhywun ar CaW neu CaW+ yn cael ei atgyfeirio i Ailgychwyn, mae staff yn ceisio ymchwilio i'r rheswm dros hynny ac yn gofyn i DWP ei atgyfeirio yn ôl. Fodd bynnag, gall hyn fod yn anodd ac fel y dengys yr enghraifft o ymarfer, mae CaW a CaW+ yn ceisio atal hyn rhag digwydd drwy sicrhau bod anogwyr gwaith yn ymwybodol bod rhywun yn ymgysylltu â CaW neu CaW+, drwy roi nodiadau ar eu cofnod Credyd Cynhwysol.

Enghraifft o ymarfer: CaW ac Ailgychwyn

Dywedodd rheolwr mewn un ardal, er mwyn mynd i'r afael â'r tensiynau rhwng CaW, CaW+ ac Ailgychwyn, fod cytundebau lleol bellach ar waith gyda JCP – a lle mae cofnod cyfranogwr yn dangos ei fod yn gweithio gyda CaW, y cytundeb yw y bydd anogwr gwaith yn cysylltu â chynghorwyr CaW neu fentoriaid CaW/CaW+ sy'n gweithio gyda'r unigolyn hwnnw cyn ei atgyfeirio at Ailgychwyn. Dywedwyd bod hyn yn golygu bod 'o leiaf sgwrs yn digwydd a chyfle i ni amddiffyn ein hachos'. Nodwyd y bydd cynghorwyr CaW neu fentoriaid

CaW/CaW+ wedi buddsoddi amser ac arian i gefnogi'r unigolyn hwnnw a theimlwyd ei bod ond yn 'deg' y gallent barhau i'w cefnogi a gobeithio hawlio deilliant o ganlyniad i hynny. Roedd yna hefyd:

- ymdeimlad cryf bod CaW a CaW+ yn fwy effeithiol nag Ailgychwyn, a ddisgrifiwyd fel cynllun a oedd yn canolbwyntio'n ormodol ar dargedau, yn wahanol i'r dull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn a ddefnyddiwyd gan CaW a CaW+; a
- teimlad ymhlith staff DWP yn arbennig, bod eu gwaith i CaW yn cael ei danseilio gan benderfyniadau a wnaed gan staff eraill DWP, a oedd, fel y dywedodd un rheolwr mewn ardal arall, 'yn eithaf niweidiol i forâl. Mae'n brifo mwy gan ei fod yn gyflogwr i ni, ac mai ein cydweithwyr sy'n gwneud hyn i ni.'

Ar nodyn mwy cadarnhaol, fel yr eglurodd y rheolwr, roedd gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth bellach o'r problemau ac o ganlyniad i'r cytundeb gyda JCP, ychydig o gyfranogwyr y maent yn eu colli i Ailgychwyn erbyn hyn.

- 5.48. Fodd bynnag, dywedodd staff mewn un ardal fod sgysiau gydag anogwyr gwaith JCP ynghylch peidio ag atgyfeirio cyfranogwyr CaW neu CaW+ at y cynllun Ailgychwyn wedi bod yn ofer i raddau helaeth a theimlwyd bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn llugoer o ran amddiffyn penderfyniad tîm CaW a CaW+ i herio penderfyniadau i atgyfeirio ei gleientiaid i Ailgychwyn. Heriwyd hyn gan swyddogion Llywodraeth Cymru fodd bynnag, gan nodi, fel y disgrifir uchod (paragraff 5.44), eu bod yn gweithio gyda DWP i fynd i'r afael â'r materion hyn.
- 5.49. Yn fwy cadarnhaol, gan edrych i'r dyfodol, rhagwelwyd y bydd cleientiaid Ailgychwyn sy'n methu â dod o hyd i waith yn dechrau cael eu hatgyfeirio at CaW o tua mis Mehefin 2022 ymlaen, pan ddaw eu cyfnod 12 mis ar y cynllun Ailgychwyn i ben. Er y disgwyliwyd y byddai ganddynt fwy na thebyg rwystrau cymhleth ac o bosibl rwystrau â gwreiddiau dwfn, sy'n golygu eu bod yn debygol o fod yn 'anodd', fel y dywedodd staff rheng flaen, dyma'r math o gyfranogwyr y cynlluniwyd CaW i weithio â nhw.
- 5.50. Dywedodd rheolwyr strategol hefyd fod CaW+ wedi bod yn treialu cynllun ym Mlaenau Gwent, Sir y Fflint a Gwynedd, lle y gellir atgyfeirio pobl sy'n cael eu diswyddo ac ar raglen React at CaW+ i gael cymorth mentora ychwanegol. Dywedwyd bod hyn yn haws i CaW+ gan nad oes angen i'r rhaglen hawlio deilliannau swyddi yn yr un ffordd ag y mae CaW yn ei wneud. Fodd bynnag, nodwyd

bod llawer llai o swyddi na'r disgwyl wedi'u colli (o ganlyniad i'r pandemig ac effaith ymatebion polisi fel cyflwyno'r cynllun ffyrlo yn ystod cyfnodau clo cenedlaethol), sy'n golygu nad ydynt wedi cael y niferoedd i brofi'r model hwn yn iawn ac maent yn ystyried ehangu'r peilot i ardaloedd eraill.

- 5.51. Yn wahanol i Ailgychwyn, fel y dengys yr enghraifft o ymarfer isod, ystyrir yn gyffredinol bod Kickstart, sy'n darparu cyllid i greu swyddi newydd ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed sy'n cael Credyd Cynhwysol sydd mewn perygl o ddioddef diweithdra hirdymor, yn rhywbeth sy'n ategu CaW a CaW+, gan y gallai pobl ifanc sy'n NEET fod yn gymwys ar gyfer Kickstart yn ogystal â CaW neu CaW+. Yn wir, fel yr eglurodd un o'r rhai a gyfwelwyd, teimlwyd bod Kickstart yn ei gefnogi i ymgysylltu â phobl dan 25 oed. Serch hynny, mewn un ardal, dywedwyd bod llawer o ddryswch ar y dechrau, er i'r tîm nodi'n ddiweddarach y potensial i CaW a CaW+ ddarparu hyfforddiant a chysiau ar-lein i bobl ifanc sydd am gael lleoliadau drwy Kickstart. Fodd bynnag, fel yr eglurodd y staff, 'roedd swyddi'n araf yn dod drwodd', a oedd yn gwneud pethau'n anodd i'r tîm (ac i'r bobl ifanc) gan 'nad oedd unman iddyn nhw fynd' ar ôl iddynt gwblhau'r hyfforddiant.

Enghraifft o ymarfer: Kickstart a CaW

Mewn un ardal, dywedwyd bod cynghorwyr a mentoriaid wedi cyfrannu at helpu pobl ifanc NEET i ddatblygu CV a'u paratoi ar gyfer cyfweiliadau swydd. Eglurwyd eu bod yn ceisio trawsnewid CV cleientiaid o fewn 24 awr 'gyda chymorth gan gydweithwyr o Wasanaeth i Mewn i Waith yr ALI', sy'n cynnal clybiau swyddi galw heibio yn hybiau'r ALI ond, yn wahanol i gynghorwyr a/neu fentoriaid CaW a CaW+, sy'n gwneud hynny heb lwyth achosion na mynediad at gymorth ariannol (fel yr hyn a gynigir drwy'r Gronfa Rwystrau neu Gronfa Cymorth Hyblyg DWP). Eglurwyd bod sefydliadau fel TK Maxx a JD Sports, yn ogystal â rhai cyflogwyr llai, yn ymwneud â Kickstart. Eglurwyd hefyd bod atgyfeiriadau gan anogwyr gwaith am gymorth i baratoi pobl ifanc NEET am gyfweiliadau ar gyfer lleoliadau gyda'r cyflogwyr hyn, wedi bod yn fuddiol i gynghorwyr a/neu fentoriaid. Dywedwyd bod CaW a CaW+ mewn sefyllfa dda i helpu'r bobl ifanc hyn oherwydd:

- roedd anogwyr gwaith JCP yn boddi mewn gwaith ac nid oedd ganddynt amser i ddelio â'r holl gleientiaid a oedd â diddordeb yn Kickstart;

- roedd angen mwy o amser ar rai cleientiaid nag yr oedd anogwyr gwaith yn gallu ei roi iddynt;
- roedd CaW/CaW+ yn gallu darparu'r hyfforddiant yr oedd ei angen ar unigolion i gael lleoliadau penodol.

5.52. Yn achlysurol, cyfeiriodd y rhai a gyfwelwyd at raglen JETS DWP, sef rhaglen gyflogaeth cyffyrddiad ysgafn ar gyfer oedolion di-waith sydd wedi bod yn hawlio'r Credyd Cynhwysol neu'r JSA Newydd am o leiaf 13 wythnos, ond nid oedd unrhyw deimlad cadarn bod y rhaglen wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i CaW/CfW+. Mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y rhaglen wedi'i thargedu at y rhai sydd angen cymorth ar ffurf 'cyffyrddiad ysgafn' yn unig.

Rhaglenni a phrosiectau cymorth cyflogaeth Llywodraeth Cymru a rhanbarthol

5.53. Fel y nodir uchod, ceir clytwaith cymhleth o wahanol raglenni cymorth cyflogaeth cenedlaethol a rhanbarthol a noddir gan Lywodraeth Cymru, ALLau a'r sector gwirfoddol, yn aml gyda chymorth ESF. Mewn perthynas â rhaglenni Llywodraeth Cymru, ystyriwyd bod CaW a CaW+ a PaCE yn rhaglenni a oedd yn ategu ei gilydd ac oedd yn canolbwyntio ar gefnogi grwpiau gwahanol (gyda PaCE yn canolbwyntio ar y rhai yr oedd cyfrifoldebau gofal plant yn brif rwystr iddynt weithio). Fodd bynnag, roedd y cysylltiadau â Cymru'n Gweithio, sy'n anelu at ddarparu un pwynt cyswllt cenedlaethol ar gyfer cymorth cyflogaeth, yn llai datblygedig, yn rhannol gan ei bod yn rhaglen gymharol newydd (a lanswyd ym mis Mai 2019). Er enghraifft, fel yr eglurodd staff mewn un ardal, nid oes ganddynt gysylltiadau da â Cymru'n Gweithio / Gyrfa Cymru (sy'n darparu Cymru'n Gweithio) ar hyn o bryd ac mae angen rhoi sylw i hynny.

Enghraifft o ymarfer – gwaith rhyngasiantaethol

Disgrifiodd staff rheng bod traddodiad o waith rhyngasiantaethol cryf mewn un ardal. Mae un broses frysbenneu ar gyfer CaW, CaW+ a PaCE, a dywedir bod cysylltiadau gwaith cryf rhwng y tri thîm. At hynny, sefydlwyd 'grŵp llywio swyddi a sgiliau' (JSTE) sawl blwyddyn yn ôl ac mae Cymru'n Gweithio a DWP yn aelodau o hwnnw, ochr yn ochr â chynrychiolwyr CaW/CfW+ a PaCE.

Mae aelodaeth JSTE wedi aros yn weddol gyson ers nifer o flynyddoedd, sy'n golygu bod yr aelodau yn adnabod ei gilydd yn dda ac yn gyfarwydd â rhannu

gwybodaeth. Fel y dywedodd un rheolwr, mae'r partneriaid 'yn cyfathrebu'n gyson ac mae'n gweithio'n dda iawn'. Yn wir, nodwyd bod cleientiaid weithiau'n ceisio 'chwarae [asiantaethau] yn erbyn ei gilydd', ond bod y berthynas rhwng partneriaid wedi'i datblygu'n ddigon da i alluogi staff i 'godi'r ffôn i drafod anghenion cleientiaid'. Cydnabyddir hefyd bod gan sefydliadau unigol gryfderau a'u bod mewn sefyllfa well i weithio gyda mathau penodol o gleientiaid: er enghraifft, mae DWP yn gweithio gyda ffoaduriaid o Affganistan.

5.54. Mae llawer o'r rhaglenni cyflogadwyedd rhanbarthol yn cael eu rheoli gan ALLau, sydd hefyd yn rheoli CaW a CaW+. Ystyrir bod rhai o'r prosiectau rhanbarthol hyn yn rhaglenni sy'n ategu ei gilydd a oedd yn atgyfeirio pobl at CaW a CaW+ neu bod CaW a CaW+ yn atgyfeirio pobl at y prosiectau hynny. Maent yn cynnwys prosiectau sy'n canolbwyntio ar:

- gefnogi'r camau cyntaf tuag at ail-ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, megis Ysbrydoli i Weithio yng nghanol De Cymru; neu
- gefnogi dilyniant ar ôl i bobl gael gwaith fel Sgiliau yn y Gwaith⁸¹ yn Neddwyrain Cymru.

5.55. Ochr yn ochr â'r rhaglenni hyn a reolir gan awdurdodau lleol, mae Cronfa Cynhwysiant Gweithredol (AIF) Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn cynorthwyo 'sefydliadau i gefnogi pobl sydd wedi neu sy'n dal i brofi heriau dwys i'w helpu i symud tuag at waith, neu i roi profiad gwaith iddynt ac, i'r rhai sy'n barod, help i gyflogaeth tymor hwy.' ([CGCC, 2021](#)). Mae prosiectau AIF yn eistedd ochr yn ochr â darpariaeth a noddir gan Lywodraeth Cymru a'r ALL a dywedodd rheolwyr a staff rheng flaen yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes yn gyson eu bod yn dyblygu darpariaeth CaW a CaW+ neu gystadlu â'r ddarpariaeth honno, ond mewn rhai achosion, dywedwyd bod prosiectau a ariannwyd gan yr AIF hefyd yn darparu cyfle i CaW neu CaW+ atgyfeirio unigolion, lle y bo'n briodol. Yn ogystal â hynny, lleisiwyd pryderon gan y rhai a gyfwelwyd y bydd llu o brosiectau presennol neu arfaethedig y Gronfa Adnewyddu Cymunedol hefyd yn cael eu cyflawni'n lleol ac nad oedd eglurder ynghylch pwy y gallant weithio â nhw; fel y dywedodd un rheolwr, 'mae'n ymddangos eu bod yn gallu gwneud unrhyw beth gydag unrhyw un' a

⁸¹ Nod Sgiliau yn y Gwaith yw helpu cyfranogwyr mewn gwaith i feithrin sgiliau cyffredinol, trosglwyddadwy o lefel mynediad 1 i lefel 2, er mwyn gwella symudedd y gweithlu a chefnogi cyflogaeth gynaliadwy.

dywedwyd eisoes ei fod yn gwneud pethau ychydig yn anoddach i CaW, CaW+ a'r JCP hefyd. Ystyrir effaith bosibl hyn o ran creu clytwaith blêr o ddarpariaeth leol ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd yn y dyfodol, yn y casgliadau.

Y ffactorau sy'n cyfrannu at gydweddiad strategol da ar lefel weithredol

5.56. Yn ogystal â chydweddiad strategol da, yn yr ystyr bod rhaglenni'n canolbwyntio ar wahanol grwpiau a/neu'n cynnig cymorth gwahanol i CaW a CaW+, roedd y gwaith maes yn awgrymu bod cydlynu a rheoli rhaglenni cyflogaeth yn bwysig a bod cael un pwynt mynediad at raglenni cymorth cyflogaeth (gweler uchod) o gymorth. Mewn rhai ardaloedd, dywedwyd bod cydleoli'r holl raglenni mentrau cyflogaeth yn gweithio'n dda ac er enghraifft, mewn un ardal, mae staff yn ymgymryd â hyfforddiant ar y cyd ac yn rhannu adnoddau a gwybodaeth.

5.57. Fodd bynnag, roedd hefyd yn ymddangos bod y cydbwysedd rhwng y galw am gymorth cyflogaeth a chapasiti rhaglenni yn bwysig. Er enghraifft, mewn un ardal, lle y teimlwyd bod galw mawr am gymorth cyflogaeth, roedd llai o ymdeimlad o gystadleuaeth rhwng darparwyr, yn wahanol i ardaloedd eraill lle roedd tueddiad i 'gadw cleientiaid', fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd. Mewn ardal arall, croesawyd yr ystod o gymorth a gynigiwyd: fel yr esboniodd un o'r rhai a gyfwelwyd:

'Mae'n amlwg na fu erioed cymaint o help i'r rhai sy'n chwilio am waith: [Cyfrifon Dysgu Personol] CDP ar gyfer hyfforddiant; ReAct ar gyfer y rhai sydd wedi colli eu swyddi⁸²; CaW/CfW+ yn cynnig cyrsiau byr; DWP gyda JETS, Ailgychwyn [a] Kickstart. Remploy gyda'i gynllun ei hun. Mae'n bwysig edrych i weld pa rai yw'r [cynlluniau] gorau a mwyaf priodol i'n cwsmeriaid.'

5.58. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, roedd rhwystredigaeth mewn ardaloedd eraill ynghylch nifer y rhaglenni a oedd i bob pwrpas yn cystadlu am yr un cleientiaid, yn enwedig mewn ardaloedd lle roedd y cyfraddau ymgysylltu yn is na'r targed. Er enghraifft, mewn un ardal adroddwyd bod cymaint o raglenni nes eu bod, fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd: 'i gyd yn ymladd am yr un cleientiaid, roedd naw rhaglen gymorth wahanol i'r ganolfan waith atgyfeirio pobl atynt ac maen nhw i gyd yn targedu'r un bobl'.


⁸² Mae ReAct yn cefnogi'r rhai sydd wedi colli eu swyddi neu sydd wedi bod yn ddi-waith dros y 12 mis diwethaf, neu sydd wedi cael rhybudd y byddant yn colli eu swyddi, ac mae'n cynnig Cymorth Recriwtio a Hyfforddi a hefyd grantiau ar gyfer hyfforddiant a chymorth.

6. Cymhellion y cyfranogwyr, y cyfleoedd sydd ar gael iddynt, eu galluoedd a'u hymddygiad

Cyflwyniad

- 6.1. Mae'r adran hon yn ystyried y data a adroddwyd gan reolwyr a staff rheng flaen yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes am y ffordd y mae cyfranogwyr CaW a CaW+ yn meddwl a'u hymddygiad.
- 6.2. Defnyddiwyd model COM-B (Michie, et al, 2011) i helpu i archwilio a deall ymddygiad cyfranogwyr yn well, megis dewis ymgysylltu â'r prosiect neu gymryd rhan mewn gweithgaredd chwilio am swydd a hyfforddiant. Fel y dengys Ffigur 6.1., mae fframwaith COM-B yn rhoi dealltwriaeth o ymddygiad (**B**ehaviours) fel canlyniad rhyngweithio rhwng:
- galluoedd pobl (**C**apabilities) (fel eu hiechyd a'u sgiliau);
 - mynediad i gyfleoedd (**O**pportunities) (fel addysg a hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth); a
 - ysgogiadau (**M**otivations).

Ffigur 6.1. Model newid ymddygiad COM-B



Ffynhonnell: [Michie, et al, 2011](#)

- 6.3. Nid yw galluoedd pobl, y cyfleoedd sydd ar gael iddynt, eu cymhellion a'u hymddygiad pobl yn sefydlog ac maent yn rhyngweithio mewn ffordd ddeinamig. Er enghraifft, mae cred pobl mai cyfleoedd cyfyngedig sydd ganddynt a/neu na allant gyflawni ymddygiad penodol (fel chwilio am swydd) yn tanseilio cymhelliant. Gall hyn olygu nad ydynt yn manteisio ar gyfleoedd, megis cyfleoedd addysg neu hyfforddiant,

a allai hybu eu galluoedd, gwella eu cymhelliant, a chyflwyno cyfleoedd newydd iddynt (e.e. mynediad i swyddi sy'n gofyn am sgiliau neu gymwysterau penodol).

Cymhellion cyfranogwyr

- 6.4. Dywedodd cynghorwyr, mentoriaid a rheolwyr CaW a CaW+ mai fel rhaglenni wirfoddol, y prif gymhelliant i gyfranogwyr oedd dod o hyd i waith. Fel y dywedodd un a'r rhai a gyfwelwyd:
- 'Mae pobl yn dod yma oherwydd eu bod eisiau newid eu bywydau, efallai na fyddant yn gwybod sut i wneud hynny, efallai nad ydynt yn glir pa newid yr hoffent ei wneud, efallai na fyddant yn credu y gallant ei wneud, ond yn gyffredinol mae gan bobl gymhelliant i newid eu hamgylchiadau'.
- 6.5. Er mwyn helpu pobl i wireddu eu dyhead o ddod o hyd i waith, ystyriwyd bod yr hyfforddiant a'r cymorth wedi'i ariannu a gynigir gan y rhaglen yn arbennig o bwysig o ran cymell cyfranogwyr i ymuno â CaW neu CaW+. Yn yr un modd, roedd hyfforddiant sy'n gysylltiedig ag ardystiad sy'n ofynnol ar gyfer rolau penodol, megis CSCS neu gardiau SIA, lle roedd galw mawr gan gyflogwyr, hefyd yn cael ei weld fel 'bachyn' allweddol. Dywedwyd bod niferoedd llai o gyfranogwyr eisiau cymorth gyda pharu swyddi neu i chwilio am swydd. Dywedodd y staff hefyd fod rhannu gwybodaeth ar dafod leferydd ac enw da y rhaglenni, er enghraifft, lle roedd rhywun wedi clywed am rywun a gafodd gymorth gan y rhaglenni, neu'n gwybod amdanynt, yn bwysig o ran cymell pobl i ddewis CaW neu CaW+.
- 6.6. Roedd natur wirfoddol y rhaglenni a'r ffaith eu bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn hefyd yn cael eu hystyried yn bwysig i gynnal cymhelliant cyfranogwyr a'u hymgysylltiad parhaus. Fel y dywedodd un aelod o staff, mae natur wirfoddol y rhaglenni yn helpu gan fod cleientiaid yn teimlo ei bod yn mynd i'w cefnogi, ac nid eu 'gorfodi' i wneud pethau. Nodwyd hefyd y gallai cymhelliant pobl fynd a dod ac fel y disgrifiwyd gan staff mewn un ardal, bydd rhai yn ymgysylltu i ddechrau ar yr hyn sy'n 'ddiwrnod da' iddynt, pan fyddant yn fodlon 'chwilio am gymorth', ond efallai y bydd eu hapwyntiad nesaf yn cyd-daro â 'diwrnod gwael' ac 'ni fyddant yn trafferthu dod'.
- 6.7. Serch hynny, fel y nodwyd yn adrannau tri a phedwar, ymgysylltodd lleiafrif o gyfranogwyr i ddechrau o ganlyniad i'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel amodoldeb meddal neu orfodaeth gan JCP. Fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd 'os ydyn nhw [JCP] yn rhoi pwysau ar garfan neu'n gwthio carfan, rydyn ni'n gwybod'. Eglurwyd y gallai anogwr gwaith atgyfeirio pobl nad oedd ganddynt gymhelliant, gan fod angen iddynt

wneud rhywbeth yn y ffrwd chwilio am swydd ddwys, fel eu bod yn chwilio am ddarpariaeth a allai helpu i gyflawni ymrwymiad yr hawlydd. Y broblem, fel yr eglurwyd ganddynt, oedd y 'gallem helpu, ond ni fyddant [y cyfranogwyr posibl a atgyfeiriwyd gan anogwyr gwaith yn y modd hwn] yn ateb y ffôn'. Fel yr eglurwyd ganddynt, mae'n debyg mai'r rhai sy'n cael eu hatgyfeirio gan anogwyr gwaith oedd y 'rhai sy'n ymgysylltu leiaf' oherwydd er bod CaW a CaW+ yn rhaglenni gwirfoddol, 'maent yn teimlo y dylent gymryd rhan rhag ofn iddynt gael eu cosbi gan JCP'. Yn wir, mewn un ardal, adroddwyd er bod rhai cyfranogwyr a atgyfeiriwyd gan anogwyr gwaith, yn meddwl i ddechrau bod y rhaglen yn orfodol⁸³, cafodd rhai o'r rhain eu hargyhoeddi wedyn gan arlwy'r rhaglenni, a newidiodd eu cymhelliant, wrth iddynt gydnabod y potensial i'r rhaglenni eu helpu i newid eu bywydau er gwell. Fodd bynnag, nid oedd eraill wedi'u hargyhoeddi, ac roeddent, fel y dywedodd un mentor mewn ardal arall, yn gwneud beth oedd raid neu'n rhoi'r gorau iddi ar ôl darganfod bod y rhaglen yn wirfoddol⁸⁴.

6.8. Roedd catalyddion eraill ar gyfer ymgysylltu â'r rhaglenni yn cynnwys:

- rhieni a oedd wedi eu hysgogi i wella bywydau eu plant drwy gynyddu incwm y cartref. Dywedodd staff rheng flaen fod hyn yn arbennig o amlwg ym mis Medi wrth i'r plant ddychwelyd i'r ysgol ac wrth i rieni ddechrau meddwl sut y byddent yn talu am anrhegion Nadolig⁸⁵;
- y pandemig, a oedd yn golygu bod rhai cyfranogwyr wedi colli eu swyddi a/neu wedi ailasesu'r hyn yr oeddent am ei wneud, a thrafodir hyn ymhellach isod;
- effaith toriadau mewn taliadau lles a'r argyfwng costau byw. Er enghraifft, fel y disgrifiwyd gan staff rheng flaen mewn un ardal: 'rwyf wedi gweld y rhai ym mlaenoriaeth tri [pobl ifanc] lle mae'r rhieni wedi dweud wrth y bobl iau bod angen iddyn nhw gael swydd' er mwyn cyfrannu at gyllideb y cartref. Dywedwyd hefyd bod mwy o oedolion 25 oed yn cael eu hatgyfeirio o'r gwasanaeth cynhwysiant ariannol ar gyfer pobl sy'n delio ag argyfwng ariannol.

Lefelau gwahanol o gymhelliant ymysg pobl ifanc NEET a'r rhai 25 oed a throsodd

⁸³ Dywedwyd hefyd bod pobl ifanc NEET yn llai tebygol o wrthod atgyfeiriad i CaW neu CaW+ a awgrymwyd gan Anogwr Gwaith, gan nad oedd ganddynt (y bobl ifanc) brofiad o'r 'system' cymorth cyflogadwyedd a'r hyder i ddweud 'na'.

⁸⁴ Er enghraifft, fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd, maent yn cael nifer fach o bobl y mae'n eu disgrifio fel 'casglwyr trwyddedau', a ddisgrifiwyd fel pobl sy'n gwybod 'sut i chwarae'r system, yn gwneud beth sydd raid er mwyn cael llonydd gan y Ganolfan Byd Gwaith'.

⁸⁵ Nododd gwerthusiad PaCE (Llywodraeth Cymru, i ddod) gymhellion tebyg.

6.9. Yn gyffredinol, dywedwyd bod gan bobl ifanc NEET fwy o gymhelliant na'r rhai 25 oed a hŷn. Fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd, 'mae pobl ifanc yn fodlon ac yn barod i weithio, ac yn aml dyma'r tro cyntaf iddyn nhw fynd drwy'r broses hon.' Roedd hefyd yn wir bod staff mewn un ardal wedi adrodd bod pobl ifanc NEET yn fwy 'uchelgeisiol', ond bod cyfranogwyr hŷn yn aml yn fwy 'lluddedig' ac 'yn amharod i newid'. Ar ben hynny, fel yr amlinellir yn adran pedwar, esboniwyd, yn eu profiad hwy, y 'bydd cyfranogwyr hŷn yn wynebu mwy o rwystrau - a'r profiadau negyddol sy'n cronni o fywyd a gwaith,' yn enwedig gan eu bod wedi gorfod bod yn ddi-waith am o leiaf 12+ mis, neu'n gorfod bod yn economaidd anweithgar, er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth gan CaW. Nodwyd hefyd y gallai'r rhai sydd wedi bod yn ddi-waith yn yr hirdymor ac a atgyfeiriwyd yn flaenorol at raglenni eraill, megis y Rhaglen Iechyd, heb lwyddiant, wynebu'r rhwystrau mwyaf cymhleth ac mai nhw sydd â'r diffyg cymhelliant mwyaf. Mewn ymateb i hynny, fel y disgrifiwyd gan staff mewn un ardal, rhan o swydd cynghorydd a/neu fentor yw argyhoeddi cyfranogwyr, yn enwedig cyfranogwyr hŷn, bod 'gwaith yn beth da', drwy, er enghraifft, gyfrifiadau 'gwell eich byd'.

Effaith y pandemig

6.10. Fel yr amlinellir yn adran pump, adroddwyd yn gyson gan staff rheng flaen a rheolwyr yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes fod y pandemig wedi pylu cymhelliant y cyfranogwyr. Er enghraifft, fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd mewn un ardal, i ddechrau 'roedd pobl mewn sioc' ac 'nid oedd gan rai pobl unrhyw gymhelliant yn ystod y pandemig. Roedd y rhai ym mlaenoriaeth 3 [pobl ifanc] yn ei weld fel rhywbeth i'w ddathlu, gan ddweud 'does dim rhaid i ni wneud dim nawr am fisoedd a fydd neb yn ein gwthio ni' ac ychydig iawn o gysylltiadau a gafwyd. Yn yr un modd, mewn ardal arall dywedwyd 'nid oedd DWP ar agor, doedd dim rhaid i bobl ddangos eu bod yn gwneud y chwiliadau am swyddi neu'n gwneud ceisiadau am swyddi'. Mae hyn yn dangos i ba raddau y gall rhywfaint o 'anogaeth' neu amodoldeb meddal gan JCP fod yn sail i ymgysylltiad gwirfoddol cyfranogwyr â'r rhaglen. Fel yr amlinellir isod, roedd rhwystrau newydd, megis cyfrifoldebau gofalu tra bod ysgolion ar gau, hefyd wedi lladd cymhelliant rhai cyfranogwyr.

6.11. Wrth i'r cyfyngiadau lacio, dywedwyd ei bod yn cymryd amser i ail-ymgysylltu ac ailysgogi cyfranogwyr. Er enghraifft, dywedodd y rhai a gyfwelwyd eu bod yn teimlo bod rhai o gyfranogwyr CaW (yn fwy felly na chyfranogwyr CaW+) wedi colli eu

'hetheg gwaith', tra bod eraill yn dal yn 'wylidwrus' neu'n ofni dal COVID-19. O ganlyniad, teimlwyd bod rhai cyfranogwyr wedi cymryd ambell gam yn ôl.

- 6.12. Serch hynny, dywedwyd hefyd bod rhai cleientiaid a 'aeth o'r golwg' yn ystod cyfnod y pandemig, yn ail-ymgysylltu pan oedd y gwaith maes yn cael ei gynnal yng ngwanwyn 2022. Dywedwyd hefyd bod colli swyddi ac incwm yn ystod y pandemig wedi ysgogi rhai cleientiaid i ymgysylltu â'r rhaglen. Er enghraifft, mewn un ardal, nodwyd bod busnes cwmnïau tacsï traddodiadol wedi cael ei erydu gan Uber hyd yn oed cyn y pandemig a gwaethygyd y sefyllfa hon gan gyfnodau clo COVID-19. Dywedwyd bod gyrwyr tacsï yn dod i chwilio am gymorth i ddod o hyd i swyddi eraill, mewn llawer o achosion fel gyrwyr HGV, yn rhannol o ganlyniad i'r sylw yn y cyfryngau a roddwyd i'r prinder yn y sector hwnnw.
- 6.13. Ar ben hynny, wrth i'r cyfyngiadau lacio, nodwyd bod y pandemig wedi bod yn drobwynt i rai cyfranogwyr, oherwydd er enghraifft, fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd:

"Maen nhw wedi cael amser i feddwl yn ystod y pandemig, efallai fod eu hamgylchiadau wedi newid, mae llawer wedi gadael y sector lletygarwch neu eisiau newid gyrfa ar ôl cael eu rhoi ar ffyrlo. Y cyfan sydd ei angen arnynt yw cymorth i sylweddoli'r hyn y gallant ei gyflawni."

- 6.14. Mewn un ardal, nodwyd hefyd bod nifer y cysylltiadau wedi cynyddu wrth i'r cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol lacio, wrth i'r codiad mewn Credyd Cynhwysol ddod i ben, ac wrth i'r pwysau a roddwyd ar gyfranogwyr gan anogwyr gwaith gynyddu wrth i ymrwymïadau hawlwr gael eu hadfer.

Y cyfleoedd sydd ar gael

- 6.15. Fel yr amlinellir yn adran pedwar, roedd y rhaglen yn darparu mynediad i hyfforddiant, a allai gryfhau galluoedd pobl a hefyd eu cymhelliant (e.e. drwy gryfhau eu hunangred yn eu gallu i ddod o hyd i waith) a gallai wella gwybodaeth pobl am gyfleoedd gwaith (e.e. drwy gymorth i chwilio am swydd) ac mewn rhai achosion, eu cysylltu'n uniongyrchol â chyfleoedd gwaith (e.e. drwy waith Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr).
- 6.16. Er y gallai'r rhaglenni wella dealltwriaeth o gyfleoedd cyflogaeth, ac mewn rhai achosion gysylltu pobl yn uniongyrchol â'r cyfleoedd hynny, roedd y cyfleoedd cyflogaeth a oedd ar gael yn dal i ddibynnu ar gryfder – neu wendid – marchnadoedd llafur lleol ar yr adeg yr ymgwymerwyd â'n gwaith maes.

Effaith y pandemig

- 6.17. Crebachodd y cyfleoedd cyflogaeth yn sydyn yn ystod y pandemig, yn enwedig yn ystod y cyfnod cynnar, a gwelwyd y gostyngiad mwyaf erioed yn nifer y swyddi gweigion rhwng Ebrill a Mehefin 2021 ([Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 2022a](#)). Gwnaeth hyn y broses o symud ymlaen i gyflogaeth yn anos a thanseiliodd gymhelliant y cyfranogwyr (gan ychwanegu at y rhwystr). Serch hynny, creodd y pandemig hefyd gyfleoedd newydd, (megis gweithwyr tracio ac olrhain); swyddi yr oedd y galw amdanynt wedi cynyddu yn ystod y pandemig, fel swyddogion diogelwch mewn archfarchnadoedd; a hefyd gyfleoedd newydd i weithio gartref i rai (a allai helpu i leihau rhwystrau'n ymwneud ag amgylchiadau pobl megis cyfrifoldebau gofal plant, a fyddai fel arall yn cyfyngu ar y gallu i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth).
- 6.18. Roedd yr adferiad cryf mewn cyflogaeth wrth i'r cyfyngiadau lacio, yn golygu yng ngwanwyn 2022, pan gynhaliwyd y gwaith maes, mai'r farn gyffredinol ymhlith ymgynghorwyr, mentoriaid a rheolwyr oedd, fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd, 'mae yna waith ar gael ar hyn o bryd'. Fodd bynnag, nodwyd y gallai hyn yn aml olygu bod angen i gyfranogwyr:
- deithio i ganol dinasoedd, parciau busnes neu ganolfannau siopa ar gyrion trefi, gan olygu problemau gyda thrafnidiaeth gyhoeddus, megis cost, natur annibynadwy a/neu ddiffyg cysylltiadau ar yr adegau a/neu yn y lleoedd yr oedd pobl yn byw ynddynt, â'r amseroedd a'r lleoedd lle yr oedd swyddi ar gael; a/neu
 - ildio eu dyheadau. Er enghraifft, fel y dywedodd un asiantaeth bartner a gyfwelwyd mewn un ardal:

'Mae'n anodd ar adeg pan fo digon o waith, ond efallai nad dyna'r math o waith y mae pobl ei eisiau. Mae digon o gyfleoedd ym maes lletygarwch, ond nid pawb sydd eisiau gweithio yn y diwydiant hwnnw'.
- 6.19. Mae hyn yn codi cwestiynau am ansawdd y gwaith yr oedd pobl yn symud ymlaen iddo. Er enghraifft, nododd y rhai a gyfwelwyd fod galw mawr am weithwyr gofal yn ystod y pandemig, ond roedd y cyflogau a gynigiwyd yn wael felly byddai llawer o gyfranogwyr wedi bod ar eu colled mewn gwaith pe baent wedi cymryd swyddi gofal, erbyn iddynt dalu costau fel gofal plant a theithio.
- 6.20. Dywedodd staff rheng flaen hefyd fod cyflogau isel wedi effeithio ar gymhelliant y cyfranogwyr, ac er enghraifft, mewn un ardal, dywedwyd bod pobl ifanc ac oedolion

yn ofni symud ymlaen i waith oherwydd eu bod yn ofni peryglu eu sefydlogrwydd ariannol, hyd yn oed os oedd eu hincwm yn isel iawn tra roeddent yn ddi-waith. Mewn rhai achosion, teimlai cynghorwyr a mentoriaid fod sail dda i ofnau'r unigolion hyn ac na fyddai symud ymlaen i waith yn cael fawr ddim effaith neu hyd yn oed yn gwaethygu tlodi ariannol, gan danseilio un o nodau allweddol y rhaglenni.

Galluoedd

- 6.21. Bwriedir i CaW weithio gyda'r rhai sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth ac adlewyrchir hyn yn yr hyn a ddisgrifiwyd fel galluoedd cyfyngedig y rhan fwyaf o gyfranogwyr. Er enghraifft, fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd, [nid ydym yn gweld y rhai sydd eisiau gweithio] ac sy'n 'gymwys a galluog' ac yn gallu dod o hyd i waith yn annibynnol ac fel y dywedodd un arall, 'mae'r rhai sy'n gallu cael gwaith eu hunain yw gwneud hynny' ac:
- 'Yn y bôn, rydym yn edrych ar y rhai nad ydynt yn gallu dod o hyd i waith ar eu pen eu hunain. Bydd angen sgiliau penodol ar rai megis chwilio am swydd, llenwi ffurflen gais, ysgrifennu CV, paratoi am gyfweiliad. Bydd angen cymwysterau penodol ar eraill os nad oes ganddynt rai, yn aml mae'r rheini'n gyrsiau galwedigaethol tymor byr. Bydd angen gwybodaeth am eu hopsiynau ar eraill. Bydd angen i eraill ddatblygu eu hyder a'u hunan-gred ... Bydd angen cymorth ar rai gyda rhwystrau ychwanegol megis dyledion, iechyd meddwl, problemau gyda thai.'
- 6.22. Roedd hyn yn golygu nad oedd ffactorau ysgogol, megis toriadau mewn taliadau lles, wedi bod yn ddigon ar eu pen eu hunain i symud pobl ymlaen i waith.
- 6.23. Fodd bynnag, mewn un ardal, dywedwyd bod y pandemig wedi arwain at newid yn natur y bobl sy'n ymgysylltu â CaW a CaW+. Roedd sawl un wedi colli swyddi o ganlyniad i'r pandemig ac wedi cysylltu er mwyn cael cymorth i ddod o hyd i waith arall. Roedd yr unigolion hyn (hyd at 24 oed yn bennaf) 'ychydig yn fwy parod am waith', fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd.
- 6.24. Roedd timau CaW yn hyderus eu bod yn effeithiol wrth ymgysylltu â chyfranogwyr a chanddynt rwystrau cymhleth i gyflogaeth, yn fwyaf nodedig pobl ag anawsterau iechyd meddwl fel gorbryder ac iselder a oedd yn cyfyngu ar eu galluoedd, ac yn

tanseilio eu cymhelliant, ac y teimlwyd eu bod yn dod yn fwy cyffredin.⁸⁶ Mewn un ardal, amcangyfrifwyd bod gan hyd at 60 y cant o lwythi achosion mentoriaid CaW ryw fath o broblemau iechyd meddwl, ond dywedwyd efallai na fydd hyn yn amlwg ar y cychwyn a dim ond wrth i ymddiriedaeth gael ei meithrin rhwng y cleient a'r cynghorydd/mentor y byddai hyn yn dod i'r amlwg.

6.25. Dywedwyd mai'r cyfyngiadau allweddol eraill ar alluoedd pobl oedd;

- sgiliau hanfodol gwan, fel sgiliau llythrennedd, rhifedd a/neu TGCh; a
- sgiliau chwilio am swydd gwan a/neu ddealltwriaeth wael o gyfleoedd a disgwyliadau marchnad lafur leol.

6.26. Yn gyffredinol, roedd staff rheng flaen yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes yn teimlo bod pobl ifanc yn fwy abl na phobl 25 oed a hŷn. Er enghraifft, fel y disgrifiwyd gan staff mewn un ardal, roedd pobl ifanc NEET 'yn fwy tebygol o fod yn rhan o system neu newydd adael system', gyda phrofiad diweddar o wirfoddoli, er enghraifft, fel Kickstart neu goleg, hyd yn oed os nad oedd ganddynt brofiad o gyflogaeth barhaol. Ar y llaw arall, roedd gan y rhai 25 oed a throsodd, a oedd yn economaidd anweithgar neu a oedd wedi bod yn ddi-waith am fwy na 12 mis pan oeddent yn ymuno â'r rhaglen, yn aml brofiad llawer llai diweddar o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, o gymharu â phobl iau. Roedd hyn yn golygu bod eu galluoedd, megis sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, a/neu sgiliau galwedigaethol/cysylltiedig â gwaith, yn aml wedi dirywio dros amser. Wrth gwrs, roedd yna eithriadau i'r darlun cyffredinol hwn. Rhoddwyd enghreifftiau o bobl ifanc NEET mewn un ardal, a oedd yn bell iawn o'r farchnad lafur ac yr oedd angen cymorth dwys hirdymor arnynt.

6.27. Teimlwyd bod gan rai cyfranogwyr alluoedd arbennig o gyfyngedig o ystyried cymhlethdod eu rhwystrau i gyflogaeth. Roedd y rhain yn cynnwys y rhai sy'n cael eu dal yn ôl oherwydd:

- eu bod yn camddefnyddio cyffuriau neu alcohol;
- anabledau, iechyd corfforol a/neu feddyliol gwael, ond yr aseswyd eu bod yn ffit i weithio gan JCP;

⁸⁶ Nid yw data ar hyn yn cael eu casglu yn y gronfa ddata o gyfranogwyr, ond, er enghraifft, gallai anawsterau iechyd meddwl difrifol gael eu cofnodi fel anabled neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio (os yw'n cael effaith sylweddol, andwyol a hirdymor ar allu unigolion i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd).

- bywydau 'anodd' neu 'anhrefnus', o ganlyniad i, er enghraifft, trais domestig, iselder ôl-enedigol, anabledd, a'r rhai a oedd yn wynebu 'problemau dwfn';
- rhwystrau'n ymwneud ag amgylchiadau pobl megis cyfrifoldebau gofalu am blant ifanc; a/neu
- y rhai sydd â chofnodion troseddol, a allai gyfyngu ar y rolau y gallent ymgeisio amdanynt a/neu gyfyngu ar nifer y gweithwyr sy'n fodlon eu cyflogi.

Effaith y pandemig

6.28. Cyfeiriodd y rhai a gyfwelwyd yn gyson at y ffaith bod y pandemig wedi effeithio ar allu llawer o bobl i ymgysylltu â'r rhaglenni (er eu bod yn effeithiau nad oeddent yn neilltuol i gyfranogwyr CaW/CfW+). Er enghraifft, fel yr amlinellir yn adran pump, gwaethygodd y pandemig effaith anlythrennedd digidol, tloidi data a/neu fynediad cyfyngedig i ddyfeisiau; cynyddodd rhwystrau'n ymwneud ag amgylchiadau pobl, megis cyfrifoldebau gofalu i rai (er bod hyn weithiau'n cael ei wrthbwysu gan gamau i ddarparu hyfforddiant a chymorth o bell); ac ychwanegodd pwysau'r pandemig at faich meddyliol pobl, gan gyfyngu ar eu gallu meddyliol (a lleihau eu gallu i chwilio am swyddi a gwneud cais amdanynt yn effeithiol). Er enghraifft, fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd mewn un ardal pan siaradodd mentoriaid â phobl ar y ffôn:

'roedd yn ymwneud â 'phethau bob dydd nid swyddi ... roedd yn ymwneud yn fwy â sut roedden nhw'n teimlo ... nid a oedd ganddyn nhw swydd neu a oedden nhw'n ymgymryd â hyfforddiant ... roedden nhw [mentoriaid] yn poeni mwy am atgyfeirio pobl at y banc bwyd'.

6.29. Tynnwyd sylw at enghreifftiau mwy aciwt hefyd, er enghraifft, dywedodd staff mewn un ardal fod y pandemig wedi arwain at lefelau uwch o dor priodas a thrais domestig, a oedd yn golygu nad oedd cleientiaid mewn sefyllfa i feddwl am chwilio am waith.

6.30. I rai, fe wnaeth yr anawsterau hyn ac anawsterau eraill gyfrannu at gynyddu eu hofn, gorbryder ac anawsterau iechyd meddwl o ganlyniad i'r pandemig ([OHID, 2022](#)). Disgrifiodd cynghorwyr sut yr oeddent yn ffonio cleientiaid yn ystod y pandemig i wirio eu bod yn iawn a bod unigolion yn 'crïo' oherwydd eu bod yn ofnus ac yn unig. Dywedwyd nad oedd yr unigolion hyn mewn sefyllfa i feddwl am waith mewn gwirionedd.

6.31. Fodd bynnag, disgrifiwyd darlun cymysg o waddol y pandemig. Dywedodd rhai ardaloedd fod problemau'n parhau, a bod gan y cyfranogwyr anawsterau mwy cymhleth nag yr oedd ganddynt cyn y pandemig. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn,

mewn ardaloedd eraill dywedwyd bod y problemau sydd gan bobl nawr yn debyg iawn i'r rhai a oedd ganddynt cyn y pandemig, megis anawsterau o ran cael gafael ar ofal plant, trafndiaeth, a/neu hyfforddiant.

Ymddygiad a deilliannau

6.32. Disgrifiodd cynghorwyr a mentoriaid newidiadau mewn ymddygiad yn gysylltiedig â chymryd rhan yn y rhaglen, megis:

- mynd ati'n fwy gweithredol ac effeithiol i chwilio am swydd, gan ofyn am apwyntiadau'n amlach a bod apwyntiadau wedi dod yn fwy cynhyrchiol a chyfranogwyr yn talu mwy o sylw ac yn canolbwyntio mwy, wrth i'w cymhelliant a'u galluoedd, gan gynnwys eu hunan-gred, gryfhau;
- gwell prydlondeb a dibynadwyedd (fel cadw apwyntiadau), cynyddu eu gallu i ddod o hyd i waith a'i gadw'n llwyddiannus;
- unigolion yn dod yn fwy agored ac yn datgelu pethau nad ydynt wedi siarad amdanynt o'r blaen, oherwydd eu bod yn ymddiried mewn cynghorwyr neu fentoriaid a'u bod yn fwy hyderus yn datgelu a thrafod materion sensitif. Dywedwyd y gallai hyn wella'r cyngor a'r gefnogaeth (gan gynnwys y cyfleoedd sydd ar gael) y gallai cynghorwyr neu fentoriaid eu cynnig.

6.33. Disgrifiodd cynghorwyr a mentoriaid hefyd sut y gall dod o hyd i waith 'newid bywydau pobl'. Er enghraifft, mewn un ardal disgrifiwyd sefyllfa lle y:

'Daeth un wraig atom ar ôl i'w phlant gael eu cymryd oddi arni [eu rhoi mewn gofal]. Drwy weithio gyda ni, cafodd swydd, mae ar fin cael dyrchafiad nawr, mae'n cymryd rhan yn y rhaglen yrru^[87] ac mae bellach yn cael cysylltiad â'i phlant dan oruchwyliaeth...Mae effaith [hyn] y tu hwnt i incwm; mae hi wedi ennyn parch y teulu ac mae ganddi berthynas well gyda'i theulu'.

'Roedd dyn arall wedi cwblhau rhaglen adsefydlu ar ôl ymgais i gyflawni hunanladdiad, ac aeth ymlaen i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli a dilynodd sawl cwrs gyda ni. Roedd ganddo reswm newydd i aros yn sobr... ac mae bellach yn rhan o raglen Camu i Waith y GIG. Cafodd bwl arall o yfed, ond mae yn ôl ar y trywydd iawn. Bydd y rhwystrau yno bob amser.'

6.34. Yn yr un modd, fel y dywedodd staff mewn ardal arall, roedd tlodi mewn gwaith yn 'dod yn broblem gynyddol' ac yn lleihau effeithiau cadarnhaol y rhaglen. Disgrifiwyd

⁸⁷ Mae'r CCA yn cynnig cymorth i helpu pobl i basio eu prawf gyrru drwy eu [Prosiect gyrru](#).

sut y mae llawer o bobl, hyd yn oed mewn 'swyddi da', yn ei chael hi'n anodd talu biliau'r teulu nawr.

- 6.35. Yn olaf, nodwyd hefyd nad oedd deilliannau cadarnhaol yn gyfyngedig i gael gwaith neu le mewn addysg neu hyfforddiant, gyda'r rhai a gyfwelwyd yn disgrifio yn hytrach na dechrau gweithio, y gallai cymryd rhan yn y rhaglenni arwain at leihau ynysu cymdeithasol neu fynd yn ôl i'r gymuned fel gwirfoddolwr, er enghraifft. Roeddent yn dathlu'r ffaith bod gan y rhaglen 'gynnig mwy cyflawn' na rhai rhaglenni cymorth cyflogaeth eraill.

7. Pa mor effeithiol y cyflawnwyd y rhaglen


Cyflwyniad

- 7.1. Mae'r adran hon yn adolygu pa mor effeithiol y cyflawnwyd gweithrediadau CaW a rhaglen CaW+ drwy asesu'r cynnydd yn erbyn targedau mewn perthynas â
- chysylltiadau;
 - deilliannau swyddi; ac
 - yn achos CaW, deilliannau eraill, megis lleoliadau gwaith.
- 7.2. Mae hefyd yn ystyried i ba raddau yr oedd cysylltiadau rhwng newidiadau mewn perfformiad a'r pandemig COVID-19. Yna mae'n:
- asesu'r gweithgaredd i fynd i'r afael â Themâu Trawsbynciol CaW a chyfraniad y ddwy raglen at amcanion cydraddoldeb ehangach Llywodraeth Cymru a'r cynnig Cymraeg; ac
 - ystyried cyllid, gwariant ac effeithlonrwydd y rhaglenni.

Perfformiad CaW: cysylltiadau

- 7.3. Yn y cyfnod rhwng mis Mai 2015 a mis Chwefror 2022, ymgysylltodd CaW â dros 34,000 o bobl. Fel y dengys Siart 7.1., mae perfformiad rhaglen CaW yn erbyn targedau ymgysylltu ar gyfer Blaenoriaeth 3 (B3) wedi bod yn llawer cryfach na'r disgwyl, ac roedd yn 127 y cant o'r proffil ym mis Tachwedd 2021 o gymharu â pherfformiad ychydig yn fwy siomedig ar draws Blaenoriaeth 1 (B1) lle roedd y cysylltiadau â chyfranogwyr economaidd anweithgar yn 47 y cant a chysylltiadau â chyfranogwyr di-waith hirdymor yn 81 y cant o'r proffil ym mis Tachwedd 2021.


Siart 7.1. Perfformiad cronol rhaglen CaW yn erbyn targedau ymgysylltu ar gyfer cyfranogwyr Economaidd Anweithgar a'r rhai Di-waith Hirdymor (Blaenoriaeth 1) a Phobl Ifanc sy'n NEET (Blaenoriaeth 3), Mawrth 2019, Mawrth 2020, a Thachwedd 2021



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

7.4. Dengys Siart 7.2. fod y patrymau o ran perfformiad hyd at fis Mawrth 2019, Mawrth 2020 a Thachwedd 2021 yn debyg yn Nwyrain Cymru (DC) a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCC).


Siart 7.2. Perfformiad cronol rhaglen CaW yn erbyn y targedau ymgysylltu, (Mawrth 2019, Mawrth 2020 a Thachwedd 2021) GCC ac DC



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

7.5. Fel y dengys Siart 7.3., mae'r gostyngiad mewn cysylltiadau CaW B1, a neu i raddau llai, cysylltiadau B3, yn gysylltiedig â'r pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud o fis Mawrth 2020 ymlaen.

Siart 7.3. Cyfanswm nifer y cysylltiadau CaW y flwyddyn (Ebrill 2018-Mawrth 2019, Ebrill 2019-Chwefror 2020, ac Ebrill i Fawrth 2021)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

7.6. Fel y dengys Tabl 7.1., mewn ymateb i'r perfformiad siomedig hyd yn oed cyn y pandemig, cafodd y targedau ymgysylltu ar gyfer B1 eu haddasu yn 2019, gyda'r targedau ar gyfer cysylltiadau cyfranogwyr Economaidd Anweithgar a'r Di-waith Hirdymor yn cael eu cwtdogi. Gwrthbwywyd hyn yn rhannol gan gynnydd yn y targed ar gyfer ymgysylltu â nifer y bobl ifanc NEET (B3).

Tabl 7.1. Targedau Cymunedau am Waith a addaswyd ar gyfer 2023

Grŵp	Targed Gwreiddiol	Targed wedi'i adolygu (addasu)	% y newid
Economaidd Anweithgar DC	6,771	3,119	-54
Economaidd Anweithgar GCC	20,312	10,383	-49
Di-waith Hirdymor DC	3,488	2,656	-24
Di-waith Hirdymor GCC	10,464	7,982	-24
B3 DC	2,565	2,939	115
B3 GCC	7,693	10,949	142
Cyfanswm	51,293	38,028	-26

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru


Perfformiad CaW+: cysylltiadau

7.7. Yn y cyfnod rhwng Ebrill 2018 a diwedd Chwefror 2022, roedd CaW+ wedi ymgysylltu â 30,304 o bobl. Fel y dengys Siart 7.4., roedd perfformiad CaW+ yn 2018/19 a 2019/20 yn gryf, a rhagorwyd ar ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran cysylltiadau a deilliannau swyddi.⁸⁸ Mae perfformiad cryf y rhaglen wedi'i gynnal hyd yn oed yn wyneb yr heriau yn sgil ehangu'r rhaglen (a drafodir ym mharagraffau 1.12 a 7.52) ac effaith y pandemig COVID-19 ar gyfranogwyr posibl a chyfredol a hefyd y ffordd y cyflawnwyd y rhaglen (a drafodir ym mharagraffau 5.2-5.28). Felly, er bod nifer y cysylltiadau wedi lleihau rhywfaint yn dilyn y pandemig COVID-19 a'r cyfnod

⁸⁸ Fel yr amlinellir ym mharagraff 1.16, yn wahanol i CaW, nid oes gan CaW+ dargedau sydd wedi'u pennu'n ganolog. Yn lle hynny, roedd disgwyliad ar ran Llywodraeth Cymru y byddai pob un o'r 55 tîm yn CaW+ yn sicrhau bod o leiaf 30 o gleientiaid yn cael swyddi bob blwyddyn. Er mwyn caniatáu ar gyfer ehangu'r rhaglen yn 2020/21 a 2021/22, mae'r disgwyliadau wedi codi yn unol â'r cynnydd mewn cyllid (cynnydd o 24% yn 2020/21 a chynnydd o 51% yn y cyllid yn 2021/22) o gymharu â lefelau 2018/19 a 2019/20, gweler paragraff 1.12). Hwn oedd y cynnydd ar gyfer y rhaglen gyfan. Fodd bynnag, dylid nodi y gall y cynnydd yng nghyllid pob awdurdod lleol fod yn wahanol i hyn, oherwydd symudodd y rhaglen i fformiwla dyrannu wahanol yn seiliedig ar bobl sydd wedi'u hamddifadu o waith.

clo o fis Mawrth 2020 ymlaen, sy'n golygu nad oedd y prosiect bellach yn rhagori ar y disgwyliadau, yn sgil yr heriau a wynebodd, gan gyfateb i ddisgwyliadau uwch timau CaW+ yn 2020/21 a 2021/22, roedd yn gyflawniad sylweddol.

Siart 7.4. Disgwyliadau Llywodraeth Cymru o CaW* a pherfformiad gwirioneddol y rhaglen: cysylltiadau â chyfranogwyr



*Mae hyn yn gosod y disgwyliadau ar gyfer ymgysylltu fel hanner ffordd rhwng disgwyliadau is ac uwch Llywodraeth Cymru o 4,950-6,600 o gysylltiadau y flwyddyn, ac yn eu cynyddu yn unol â'r cynnydd mewn cyllid yn 2020/21 a 2021/22.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 7.8. Wrth ddehongli perfformiad, fel y dengys Siart 7.4, cynyddodd cysylltiadau CaW+ a hefyd (fel yr amlinellir isod) ddeilliannau swyddi yn ystod y pandemig, ond nid yw'n glir i ba raddau yr oedd hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yng nghapasiti CaW+ (yn dilyn cael mwy o gyllid) ac i ba raddau yr oedd hyn yn adlewyrchu cynnydd yn yr angen am gymorth cyflogaeth. Mae archwilio'r cwestiwn hwn ymhellach yn debygol o fod yn drywydd ymholi ffrwythlon ar gyfer y gwerthusiad.

Ffactorau allweddol a effeithiodd ar gysylltiadau

- 7.9. Nododd y rhai a gyfwelwyd dri ffactor cyffredinol a ddylanwadodd ar nifer y cysylltiadau:
- maint a phroffil y boblogaeth leol (ac felly maint y 'gronfa' o gyfranogwyr posibl);

- cryfder y berthynas â phartneriaid, yn fwyaf nodedig JCP, a chystadleuaeth gan raglenni eraill, yn fwyaf nodedig Ailgychwyn, a lansiwyd ym mis Awst 2021⁸⁹ (trafodir hyn yn adran pump, gweler paragraffau 5.4-5.57);
- y pandemig COVID-19 (trafodir hyn hefyd yn adran pump) a wnaeth ill dau leihau nifer cyffredinol y cysylltiadau⁹⁰, a mwy o ddibyniaeth ar JCP fel ffynhonnell atgyfeiriadau.

- 7.10. Yn ogystal â chyfanswm nifer y cyfranogwyr posibl mewn ardal, roedd rhai o'r staff rheng flaen a rheolwyr yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes hefyd yn ystyried bod gwahaniaethau yng nghymhellion a galluoedd cyfranogwyr, a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt (a drafodir yn adran chwech), y teimlwyd y gallent amrywio o ardal i ardal. Er enghraifft, disgrifiodd un o'r rhai a gyfwelwyd sut roedd amddifadedd yn rhwystyr; fel y dywedodd: roedd yn gweithio yn yr hyn a ddisgrifiwyd fel 'ardaloedd anodd iawn' a oedd yn 'anodd eu cyrraedd' ble roedd lefelau uchel o ddiweithdra, anweithgarwch economaidd ac afiechyd ymysg y boblogaeth, gyda rhai cyfranogwyr posibl a oedd yn 'fodlon ar eu hamgylchiadau' ac felly'n 'anodd ymgysylltu' â nhw.
- 7.11. Teimlwyd hefyd bod yr hyn a ddisgrifiwyd fel 'cystadleuaeth' gan raglenni cymorth cyflogaeth eraill (a drafodir yn adran pump, gweler paragraffau 5.4-5.57) a meini prawf cymhwystra yn cyfyngu ar faint y 'gronfa' y gallai CaW a CaW+ recriwtio ohoni. Roedd cyfanswm yr oedolion (neu bobl ifanc) ddi-waith neu economaidd anweithgar yn sylweddol uwch na thargedau ymgysylltu'r rhaglenni. Fodd bynnag, yn ymarferol, dim ond cyfran ohonynt yr oedd y rhaglen yn gallu ymgysylltu â nhw, oherwydd roedd rhai o'r oedolion hyn, er enghraifft, yn anghymwys, yn cael eu cefnogi gan raglen arall, neu nid oeddent yn barod i ymgysylltu â rhaglen fel CaW neu CaW+. O ganlyniad, nododd un ardal fod y 'gronfa o bobl o fewn ardaloedd CaW' wedi 'cael ei disbyddu dros amser'.
- 7.12. O ganlyniad, nododd sawl ardal a oedd wedi cael trafferth bod y targedau a osodwyd ar gyfer cysylltiadau B1 yn 'hollol afrealistig ... yn rhy uchel' fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd. Ar y llaw arall, disgrifiodd un arall:

⁸⁹ Yn ogystal â hynny, yn wahanol i ardaloedd eraill, nododd un ardal yn benodol effaith Kickstart ar ymrwymadau B3 ar ddiwedd 2021 a dechrau 2022.

⁹⁰ Er bod nifer y cysylltiadau wedi lleihau, yn gyffredinol nodwyd, er enghraifft, mewn un ardal bod cau'r sector lletygarwch wedi helpu i gynnal niferoedd y cysylltiadau gyda phobl ifanc i raddau.

'Y rhaglenni cyflogaeth eraill sy'n cael yr effaith fwyaf, mae'r llu o raglenni a ariennir gan ESF yn cymryd ein holl gysylltiadau... maen nhw'n cymryd pobl sy'n gymwys ar gyfer CaW ac yn dweud wrthym eu bod yn gweithio gyda'r bobl hyn eisoes.... fe wnes i edrych ar y ffigurau ac mae gennym 260 o bobl rydyn ni wedi rhoi 'caniatâd' iddyn nhw fynd i weithio gyda rhaglenni cyflogaeth eraill ac mae'n debyg bod hwnnw'n dangyfrif felly rydym wedi colli 260 ac mae hynny'n cael effaith fawr.'

- 7.13. Fel yr amlinellir yn adran pedwar, nododd staff rheng flaen CaW hefyd fod meini prawf cymhwystra ar gyfer y rhai 25 oed a hŷn yn golygu eu bod yn debygol o wynebu mwy o rwystrau, gan eu gwneud yn anos ymgysylltu â nhw. Ar y llaw arall, roedd y meini prawf cymhwystra ehangach ar gyfer pobl ifanc yn golygu eu bod yn haws ymgysylltu â nhw ac mewn un ardal, dywedodd staff eu bod yn teimlo efallai nad oedd y targedau ymgysylltu ar gyfer pobl ifanc NEET wedi bod yn ddigon ymestynnol ac fel y nodwyd uchod, pan gafodd proffil y prosiect ei addasu, codwyd y targedau ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc NEET. Yn yr un modd, oherwydd bod gan CaW+ feini prawf cymhwystra ehangach na CaW, dywedodd staff ei bod yn haws ymgysylltu â chyfranogwyr.
- 7.14. Fel yr amlinellir yn adran pedwar, nododd yr ymchwil ansoddol hefyd fwy o ddibyniaeth ar atgyfeiriadau gan JCP ym mhob ardal nag a ragwelwyd, ynghyd â siom nad oedd partneriaid posibl eraill yn ffynonellau mwy ffrwythlon. Cyfrannodd y cyfyngiad hwn ar y ffrwd atgyfeirio at danberfformiad CaW mewn perthynas ag oedolion 25 oed a throsodd. Serch hynny, fel y nodwyd yn adran pedwar, bu'r bartneriaeth gyda JCP hefyd o gymorth i sicrhau nad oedd y sianel i CaW a CaW+ yn cael ei hatal yn ystod y pandemig (gan gynnal y rhaglen yn ystod cyfnod heriol iawn). Dywedodd y rhai a gyfwelwyd hefyd y gallai'r ddibyniaeth ar JCP fod wedi cyfyngu ar nifer y chyfranogwyr economaidd anweithgar a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglenni, wrth i anogwyr gwaith ganolbwyntio ar weithio gyda phobl ddi-waith yn ystod y pandemig COVID-19.

Ymgysylltu â chyfranogwyr a chanddynt rwystrau cymhleth

- 7.15. Mae achos busnes CaW yn nodi y bydd y rhaglen:

yn ymgysylltu â'r bobl sydd bellaf o'r farchnad lafur (y rhai nad ydynt yn draddodiadol yn ymgysylltu â gwasanaethau prif ffrwd; h.y. y rhai sy'n ddi-waith yn yr hirdymor, pobl economaidd anweithgar, a allai fod ag un rhwystr cymhleth

neu fwy, megis prinder sgiliau neu ddim sgiliau o gwbl, a chyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar weithio, cyfrifoldebau gofalu neu ofal plant, y rhai dros 54, neu o aelwyd ddi-waith) gyda'r nod o'u cefnogi i gael gwaith (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a, tud. 5).

7.16. Mae Tabl 7.2. yn amlinellu canrannau'r cyfranogwyr CaW a chanddynt rwystrau cymhleth a hefyd y rhai sy'n anabl ac mae Tabl 7.3. yn amlinellu'r canrannau o gyfranogwyr CaW sydd â mwy nag un o'r rhwystrau canlynol: dod o aelwyd ddi-waith (sef y rhwystr mwyaf cyffredin o bell ffordd), cyfrifoldebau gofal, cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, dim cymwysterau a/neu fod yn anabl. Mae'n nodedig mai dim ond lleiafrif o gyfranogwyr sydd ag un rhwystr (a bod y rhan fwyaf o'r rhai y mae'r rhaglen yn gweithio â nhw yn wynebu rhwystrau lluosog posibl). Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn cadarnhau canfyddiadau ymchwil ansoddol, a drafodwyd yn adrannau pedwar a chwech, fod oedolion dros 25 oed (B1) fel arfer yn wynebu mwy o rwystrau na phobl ifanc NEET (B3). Mae hefyd yn cadarnhau bod bron i 90 y cant o'r holl gyfranogwyr wedi wynebu o leiaf un rhwystr sylweddol posibl i gael gwaith.

Tabl 7.2. Canran y cyfranogwyr CaW â rhwystrau dethol, Chwefror 2022

Math o rwystr / Ardal	Pob un	DCB1	GCCB1	DCB3	GCCB3
Cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith	30	32	40	20	17
Cyfrifoldebau gofal a gofal plant	45	51	43	28	19
Dim cymwysterau	22	16	27	10	21
O aelwyd heb waith	68	79	79	49	51
Digartref neu wedi'i effeithio gan eithriad tai	3	3	2	5	3
Anabl	11	14	13	10	7

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Tabl 7.3. Canran y cyfranogwyr CaW â mwy nag un rhwystr*, Chwefror 2022

	Pob un	DCB1	GCCB1	DCB3	GCCB3
O leiaf un rhwystr	86	94	96	66	71
O leiaf ddau rwystr	85	94	96	64	70
O leiaf dri rhwystr	80	93	92	62	61
O leiaf bedwar rhwystr	74	89	86	53	55
O leiaf bum rhwystr	68	79	79	49	51

*Y rhwystrau a ystyriwyd oedd y rhai a restrir yn Nhabl 7.1

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

7.17. Mae Tabl 7.4. yn amlinellu'r canrannau o gyfranogwyr CaW+ sydd â nodweddion gwahanol. Mae'n cefnogi'r ymchwil ansoddol a drafodwyd yn adrannau pedwar a chwech, lle yr adroddwyd bod gan gyfranogwyr CaW+ yn gyffredinol lai o rwystrau a/neu rwystrau llai cymhleth na chyfranogwyr CaW. Er bod hyn yn awgrymu bod y rhaglen yn gallu ymestyn allan i grŵp ehangach na CaW, mae hyn hefyd yn golygu ei bod wedi'i thargedu'n llai at y rhai â rhwystrau cymhleth. Mae hefyd yn nodedig bod canran y cyfranogwyr CaW+ anabl yn is na'r gyfran amcangyfrifedig o oedolion anabl o oedran gweithio.⁹¹ Fodd bynnag, mae hefyd yn nodedig bod canran cyfranogwyr CaW a CaW+ sy'n adrodd am Gyflwr Iechyd sy'n Cyfyngu ar Waith yn sylweddol uwch, ac o ystyried y tebygrwydd rhwng y diffiniad o anabledd a Chyflwr Iechyd sy'n Cyfyngu ar Waith, gallai hyn ddangos rhywfaint o dangofnodi o gyfraddau anabledd.

⁹¹ Mae'n anodd mesur yn union nifer yr achosion o anabledd, ac mae'n bosibl nad yw'r diffiniad a ddefnyddir yn y Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth (APS) yr un fath â'r un a ddefnyddir pan fydd pobl yn hunan-adrodd bod ganddynt anabledd i CaW neu CaW (sy'n golygu y dylid bod yn ofalus wrth wneud cymhariaeth uniongyrchol). Serch hynny, mae amcangyfrif bod tua 20% o'r boblogaeth oedran gweithio yn anabl yn ymddangos yn rhesymol (gweler e.e. [Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, 2022b](#)).

Tabl 7.4. Canran y cyfranogwyr CaW a CaW+ a chanddynt rwystrau dethol, mae data CaW ar gyfer y cyfnod Mai 2015 i Chwefror 2022; mae data CaW+ ar gyfer y cyfnod Ebrill 2020-Mawrth 2022, o gymharu â phoblogaeth Cymru

Nodweddion*	% cyfranogwyr CaW+	% cyfranogwyr CaW	Poblogaeth Cymru
Dim cymwysterau	14	22	7
Cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar waith	13	30	23**
Anabl	5	11	22**
Cyfrifoldebau gofal a gofal plant	20	45	Ddim ar gael
O aelwyd heb waith	42	68	Ddim ar gael***
Digartref neu wedi'i effeithio gan eithriad tai	4	3	Ddim ar gael

* Gan fod cyfranogwyr yn gallu nodi mwy nag un rhwystr, gallant, er enghraifft, adrodd am gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio ac anabled

**Yn seiliedig ar y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed y nodwyd eu bod yn anabl yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS). ([Llywodraeth Cymru, 2022b](#))

*** Cesglir data ar nifer aelwydydd heb waith – ond nid cyfran yr oedolion sy'n byw ar aelwydydd heb waith

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru; [Ystadegau Cymru, 2021b](#).

Perfformiad CaW: deilliannau swyddi

- 7.18. Mae nifer y deilliannau swyddi o reidrwydd yn cael eu cyfyngu gan nifer y cysylltiadau, ac mewn ardaloedd cyffredinol â lefelau uwch o gysylltiadau roedd ganddynt hefyd lefelau uwch o ddeilliannau. Felly, mae'r perfformiad yn adlewyrchu'n fras y patrymau o ran cysylltiadau, a drafodir uchod.
- 7.19. Fodd bynnag, er bod yr achos busnes cychwynnol wedi nodi cymhareb o chwe chysylltiad am bob cleient sy'n cael swydd⁹² (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a. tud. 54.), yn ymarferol, mae'r gymhareb o gysylltiadau i ddeilliannau swyddi wedi bod

⁹² Gyda thargedau wedi'u lleihau 50% yn y flwyddyn gyntaf o weithredu er mwyn caniatáu ar gyfer sefydlu. Gan ddefnyddio gwybodaeth hanesyddol o'r rhaglen Yn Awyddus i Weithio, bydd gan Gynghorwyr Ymgysylltu â Chymunedau CaW darged Deilliant Swyddi o 2 swydd y mis a bydd gan Fentoriaid CaW darged o 1 swydd y mis.'

yn uwch, sef 2.4. Felly nid yw'r perfformiad gwannach na'r disgwyl mewn perthynas â chysylltiadau (a drafodir uchod) wedi cyfyngu cymaint ag y gallai ar y cyflawniadau o ran deilliannau swyddi. Yn wir, fel y dengys Tabl 7.5., o ystyried y perfformiad cryf yng ngham cyntaf y rhaglen, cafodd y targedau ar gyfer nifer yr oedolion di-waith hirdymor a phobl ifanc NEET sy'n cael swyddi eu haddasu a'u cynyddu yn 2019, ond cafodd y targedau ar gyfer nifer y bobl economaidd anweithgar sy'n cael swyddi eu cwtdogi.


Tabl 7.5. Targedau CaW wedi'u haddasu ar gyfer nifer y cleientiaid sy'n cael swydd

Grŵp	Targed Gwreiddiol	Targed wedi'i adolygu (addasu) (2019)	% y newid
Economaidd Anweithgar DC	1,697	1,444	-15
Economaidd Anweithgar GCC	4,973	4,655	-6
Di-waith Hirdymor DC Di-waith Hirdymor GCC	834	939	13
B3 DC	1,220	1,359	11
B3 GCC	4,204	5,292	26
Cyfanswm	15,377	16,456	7

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 7.20. Fel y dengys Siart 7.5., gwelir gostyngiad yn nifer y cleientiaid B1 a gafodd swyddi pan fydd y cyfnodau cyn y pandemig rhwng Ebrill 2018-Mawrth 2019 ac Ebrill 2019 - Chwefror 2020 yn cael eu cymharu â nifer y cleientiaid a gafodd swyddi rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022. Fodd bynnag, mewn gwrthgyferbyniad â hynny, arhosodd nifer y swyddi B3 a gafwyd yn weddol sefydlog dros y cyfnod hwn.


Siart 7.5. Nifer y cleientiaid a gafodd swyddi drwy CaW rhwng Ebrill 2018-Mawrth 2019, Ebrill 2019-Chwefror 2020 ac Ebrill 2021-Mawrth 2022



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

7.21. Erbyn diwedd mis Gorffennaf 2022 roedd CaW wedi cefnogi 13,458 o bobl i gael gwaith ac fel y dengys Siart 7.6, er gwaethaf y targedau mwy heriol, a'r heriau yn sgil y pandemig COVID-19, mae perfformiad yn erbyn y targedau ar gyfer nifer y cleientiaid sy'n cael swydd ar gyfer Blaenoriaeth 3 wedi bod yn gryf iawn, ac roedd yn 128 y cant o'r targed ym mis Tachwedd 2021, gyda 15 mis yn weddill tan i'r gweithrediadau ddod i ben ym mis Mawrth 2023. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, roedd perfformiad y rhaglenni yn erbyn y targedau swyddi ar gyfer Blaenoriaeth 1, er yn weddol dda, yn wannach, ar 84 y cant o'r proffil cyffredinol ym mis Tachwedd 2021, gyda pherfformiad cryf mewn perthynas â chyfranogwyr sy'n ddi-waith yn yr hirdymor yn helpu i wrthbwysu rhywfaint o'r deilliannau siomedig ar gyfer y cyfranogwyr sy'n economaidd anweithgar.


Siart 7.6. Perfformiad cronol rhaglen CaW yn erbyn y targedau ar gyfer nifer y Cyfranogwyr Economaidd Anweithgar a'r rhai sy'n Ddi-waith yn yr Hirdymor (Blaenoriaeth 1) a Phobl Ifanc sy'n NEET (Blaenoriaeth 3) a gafodd swyddi, Mawrth 2019, Mawrth 2020, a Thachwedd 2021



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

7.22. Fel y dengys Siart 7.7, mewn termau cymharol, mae perfformiad CaW yn Nwyrain a Gorllewin Cymru wedi bod yn gymharol debyg, gyda'r perfformiad ychydig yn gryfach o ran ymgysylltu â chyfranogwyr B3 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cael ei adlewyrchu yn y nifer uwch o gleientiaid a gafodd swyddi. Bu'r gyfradd drosi ychydig yn uwch yn Nwyrain Cymru (40 y cant o B1, o gymharu â 38 y cant o B1 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd) yn fodd o wrthbwysio lefelau ychydig yn is o gysylltiadau yn Nwyrain Cymru.

Siart 7.7. Perfformiad CaW yn erbyn y targedau ar gyfer nifer y Cyfranogwyr Economaidd Anweithgar a'r rhai sy'n Ddi-waith yn yr Hirdymor (Blaenoriaeth 1) a Phobl Ifanc sy'n NEET (Blaenoriaeth 3) a gafodd swyddi yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Mawrth 2020 a Thachwedd 2021




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Perfformiad CaW+: deilliannau swyddi

- 7.23. Fel yr amlinellir yn Siart 7.8, parhaodd CaW+ i berfformio'n gryf hyd yn oed yn wyneb yr heriau a achoswyd gan y pandemig COVID-19, ac fel y dywedodd un rheolwr rhaglen, er i nifer y cleientiaid a gafodd swyddi drwy CaW+ 'gael eu heffeithio ar unwaith' pan gyhoeddwyd y cyfnod clo cyntaf, cynyddodd y niferoedd tua diwedd 2020 a dechrau 2021, ac mae'r rhaglen yn parhau i ragori ar y disgwyliadau. Yn yr un modd â CaW, mae'r gymhareb o gysylltiadau i gleientiaid a gafodd swyddi (2.3:1 dros bedair blynedd y rhaglen (2018/19-2021/22)⁹³) wedi bod yn is na'r disgwyl (disgwyliwyd iddo fod yn 3 - 4:1) ac yn debyg iawn i CaW (2.4:1).
- 7.24. Wrth asesu perfformiad, yn yr un modd â'r dadansoddiad o gysylltiadau CaW+, mae'r disgwyliadau ar gyfer nifer y cleientiaid sy'n cael swyddi wedi'u codi yn unol â'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer CaW+ yn 2020/21 a 2021/22.

⁹³ Os caiff blwyddyn gyntaf y rhaglen, pan oedd nifer y cleientiaid a gafodd swyddi yn isel ei heithrio (ar y sail ei bod yn debygol y bydd oedi rhwng ymgysylltu a dechrau swydd), mae'r gymhareb yn gostwng i 2:1, ac mae angen llai o gysylltiadau ar gyfer pob cleient sy'n cael swydd (mae hyn yn cwmpasu'r cyfnod 2019/20, 2020/21 a 2021/22).

Siart 7.8. Disgwyliadau Llywodraeth Cymru a pherfformiad gwirioneddol y rhaglen: nifer cleientiaid CaW+ a gafodd swyddi




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Y ffactorau allweddol a effeithiodd ar nifer y cleientiaid a gafodd swyddi

7.25. Fe wnaeth y gyfradd drosi gref o gysylltiadau i ddeilliannau swyddi helpu'r rhaglenni i wneud iawn am y gwendid mewn cysylltiadau (a amlinellir uchod). Amlinellir y ffactorau y dywedodd y rhai a gyfwelwyd eu bod yn cyfrannu at hyn (mewn gwyrdd) yn Ffigur 7.2. ac amlinellir y ffactorau y dywedodd y rhai a gyfwelwyd eu bod yn llesteirio hyn (mewn coch) yn Ffigur 7.3. Yn ogystal â hynny, fel yr amlinellir yn adran pedwar (paragraff 4.31), gallai gwendidau yn nhimau CaW neu CaW+ achosi problemau penodol o ystyried maint bach y timau a'r ddibyniaeth ar staff i greu cysylltiadau a chael swyddi i gleientiaid. Er enghraifft, disgrifiodd y rheolwyr a gyfwelwyd yn ystod y gwaith maes yr effaith pan fydd staff yn sâl, pan nad oedd modd ailbenodi staff, neu pan deimlwyd bod staff yn tanberfformio. Nodwyd hefyd bod llwythi achosion trwm gan gynghorwyr neu fentoriaid yn gwanhau'r cymorth y gallent ei gynnig i bob cyfranogwr unigol (a oedd yn effeithio ar gymhelliant y cyfranogwyr a'u mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth).

Ffigur 7.1. Ffactorau ategol a oedd yn cynorthwyo cleientiaid i symud ymlaen i gyflogaeth



* Fel y dywedodd rheolwr mewn un ardal: 'mae'n ymddangos bod gwaith ar gael, yn enwedig mewn lletygarwch a chartrefi gofal. Fodd bynnag, mae'r cyflogau'n gymharol isel ac mae hynny'n broblem.' Yn yr un modd, fel yr amlinellir yn adran chwech, fel y dywedodd rheolwr arall 'Mae llawer o swyddi ar gael ar hyn o bryd. Efallai nad dyna'r gwaith mae rhywun ei eisiau, ond mae swyddi ar gael.'

**Cysylltiadau â chyflogwyr, yn enwedig mewn un ardal, lle yr adroddwyd bod manteisio'n llawn ar Dîm Cymorth Busnes Lleol sy'n gysylltiedig â'r CCA, yn golygu bod 'cyflogwyr yn aml yn dod yn syth atom oherwydd eu bod yn ymddiried ynom'.

*** I bobl ifanc, disgrifiwyd Kickstart fel rhoi 'blas ar waith ac arian ac annibyniaeth' iddynt yn ogystal â sgil a phrofiad ar gyfer eu CV, fel y dywedodd un aelod o staff, gan ddarparu cyfleoedd profiad gwaith gwerthfawr a allai wedyn eu helpu i ddod o hyd i werth drwy CaW neu CaW+.

Ffigur 7.2. Cyfyngiadau allweddol ar symud ymlaen i gyflogaeth



*Roedd y rhain yn cynnwys canfyddiadau, er enghraifft, na fyddai pobl hŷn â oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir yn gwneud gweithwyr da

** Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn adran pump, hyd yn oed pan oedd y pandemig yn ei anterth, roedd rhai cyfranogwyr wedi derbyn swyddi adeiladu a gofal oherwydd fel y dywedodd mentor pobl ifanc, 'dyna'r swyddi oedd ar gael', ac fe wnaeth eraill ddod o hyd i waith yn ddiweddarach fel gweithwyr tracio ac olrhain er enghraifft.

*** Er enghraifft, roedd y rhai mewn ardaloedd gwledig neu rai ardaloedd trefol ymylol sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd y gwaith, yn aml yn profi rhwystrau yn gysylltiedig â chost trafndiaeth

Deilliannau swyddi CaW a CaW+ ar gyfer gwahanol grwpiau

7.26. Fel y dengys Tablau 7.6 a 7.7, mae deilliannau cyflogaeth yn amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau yn CaW . Ni ddylid gwneud cymariaethau uniongyrchol rhwng CaW a CaW+ oherwydd (a) bod y cyfnodau amser yn wahanol⁹⁴; (b) bod y dulliau ar

⁹⁴ Er enghraifft, nid yw data CaW+ yn cynnwys data o'r cyfnod cychwynol, pan oedd cyfranogwyr yn cael eu cysylltu, ond roedd yn rhy gynnar i lawer symud ymlaen i gyflogaeth. Mae hefyd yn cwmpasu cyfnod pan oedd yr economi yn tyfu'n gryf ar ôl y pandemig.

gyfer cyfrifo canrannau yn wahanol ar gyfer CaW a CaW+⁹⁵; ac (c) fel yr amlinellir ym mharagraff 7.17, mae'r dystiolaeth yn awgrymu, yn gyffredinol, fod gan gyfranogwyr CaW+ rwystrau llai cymhleth i gyflogaeth na chyfranogwyr CaW.

- 7.27. Mae dadansoddiad pellach o ddata CaW+ dros oes y rhaglen hefyd yn awgrymu bod y cyfnod a gwmpesir gan y dadansoddiad o ddata CaW+ (h.y. Ebrill 2021-Medi 2022) yn gyfnod pan oedd cyfran y cyfranogwyr a aeth i gyflogaeth yn uchel, o gymharu â chyfnodau eraill. Felly, nid yw data sy'n seiliedig ar y cyfnod hwn yn debygol o fod yn gynrychioliadol o gyfran y cyfranogwyr â nodweddion gwahanol sy'n mynd i gyflogaeth dros oes y rhaglen hyd yma (h.y. Ebrill 2018-Chwefror 2023) ac mae cyfran y cyfranogwyr CaW+ â nodweddion gwahanol sy'n mynd i gyflogaeth dros oes y rhaglen yn debygol o fod ychydig yn is na'r canrannau caiff eu nodi yn Nhabl 7.7.⁹⁶

Tabl 7.6. Canran cyfranogwyr CaW a chanddynt nodweddion gwahanol a gafodd swyddi, Mai 2015 – Chwe 2022

Nodweddion	Ie	Na
Cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith	31	47
Anabl	29	44
Di-waith hirdymor	36	49
O aelwyd heb waith	39	50
O grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig	48	42

Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli rhaglen CaW Llywodraeth Cymru

⁹⁵ Mae data CaW yn seiliedig ar y gronfa ddata o gyfranogwyr, ac yn seiliedig ar ganran yr unigolion oedd â nodwedd benodol wrth ddechrau mewn cyflogaeth. O gymharu, mae dadansoddiad CaW+ yn cymharu canran yr holl gyfranogwyr a ymgysylltwyd gan y rhaglen oedd â nodwedd benodol gyda chanran yr holl gyfranogwyr â'r nodwedd benodol honno sy'n mynd i mewn i waith. O ystyried y cyfnod rhwng ymgysylltu a chanlyniadau, gallai newidiadau yng nghyfansoddiad y cyfranogwyr sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ystumio'r ffigurau. Er enghraifft, pe bai ymgysylltiad cyfranogwyr o grwpiau Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig yn cynyddu, byddai canran y cyfranogwyr o grwpiau Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig sy'n mynd i gyflogaeth yn gostwng, nes i'r cyfranogwyr newydd hynny ddechrau cael cyflogaeth.

⁹⁶ Mae hyn yn seiliedig ar gymhariaeth o ganran yr holl gyfranogwyr a aeth i gyflogaeth dros oes y rhaglen (Ebrill 2018-Chwefror 2022) a chanran yr holl gyfranogwyr a aeth i gyflogaeth yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y dadansoddiad hwn (Ebrill 2021-Medi 2022). Yn anffodus, nid yw'n bosibl cymharu canran y cyfranogwyr â nodweddion gwahanol sy'n mynd i gyflogaeth dros oes y rhaglen a chanran y cyfranogwyr â nodweddion gwahanol yn mynd i gyflogaeth yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y dadansoddiad hwn, i gadarnhau hyn.

Tabl 7.7. Canran cyfranogwyr CaW+ a chanddynt nodweddion gwahanol a gafodd swyddi⁹⁷ Ebrill 2021- Medi 2022

Nodweddion	Ie	Na
Cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith	44	59
Anabl	39	56
O grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig	50	56

Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli rhaglen CaW Llywodraeth Cymru

- 7.28. Yn amodol ar y cafeatau a amlinellir uchod, fel y gellid disgwyl, roedd y grwpiau hynny yr ystyriwyd eu bod yn fwy tebygol o fod â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth, megis pobl anabl, y rhai sy'n ddi-waith yn yr hirdymor, a'r rhai â chyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, yn llai tebygol o gael swydd. Mae hyn yn bwysig o ystyried dyhead y rhaglen i helpu'r rhai sydd â rhwystrau cymhleth i'w goresgyn a chael swyddi.
- 7.29. Mae cyfraddau cyflogaeth ymhlith pobl anabl (49 y cant) yn llawer is na chyfraddau cyflogaeth pobl nad ydynt yn anabl (82 y cant) (StatsCymru, 2022b) ac mae'r rhaglenni wedi gwneud ymdrech sylweddol i rannu arfer gorau wrth gefnogi'r unigolion hyn, gan gynnwys sefydlu rhwydwaith o arweinwyr anabledd ym mhob tîm cyflwyno, a gweithio gydag Anabledd Cymru, i ddarparu hyfforddiant ar y Model Cymdeithasol o Anabledd i fentoriaid a chynghorwyr. Serch hynny, fel y mae Tabl 7.5 yn ei ddangos, mae bwlbch o hyd rhwng canlyniadau cyflogaeth pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl, sydd dal i fod yn bryder o ystyried dyheadau'r rhaglen mewn perthynas ag amcanion cydraddoldeb ac fe'u trafodir ymhellach isod.
- 7.30. I'r gwrthwyneb, mae cyfraddau cyflogaeth cyffredinol ymhlith pobl o gymunedau Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig (65 y cant) yn is na'r boblogaeth wyn Prydeinig neu Gymreig (74 y cant), er bod y gyfradd gyffredinol hon yn cuddio gwahaniaethau amlwg ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig (StatsCymru, 2022c). Felly, mae'r gyfradd uwch o gyfranogwyr CaW o grwpiau Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig sy'n dechrau cyflogaeth yn gryfder a gallai fod yn haeddu ymchwiliad pellach.

⁹⁷ Nid oes data ar gyfranogwyr a oedd yn ddi-waith am gyfnod hir neu o aelwyd ddi-waith ar gael oherwydd yn wahanol i CaW, nid oes cronfa ddata CaW+ o gyfranogwyr sy'n cofnodi'r ystod lawn o nodweddion a chanlyniadau cyfranogwyr.

Deilliannau eraill

- 7.31. Fel y dengys Tabl 7.8, nid yw'r targedau ar gyfer deilliannau sylfaenol amgen (h.y. chwilio am swydd neu ennill ardystiad neu gymwysterau cysylltiedig â gwaith ar gyfer cyfranogwyr B1 neu gael lle mewn addysg neu hyfforddiant ar gyfer cyfranogwyr B3) wedi'u cyflawni eto. Mae'n rhesymol dod i'r casgliad mai'r rheswm am hyn yw oherwydd bod nifer y cysylltiadau wedi bod yn wannach na'r disgwyl (sydd i'w briodoli i raddau helaeth i'r pandemig COVID-19) ac oherwydd bod deilliannau swyddi cryf wedi golygu nad oedd modd cyflawni deilliannau eraill. I'r graddau y cafodd y deilliannau eraill hyn eu disodli gan ddeilliannau swyddi, gellir ystyried hwn yn ganlyniad dymunol (gan fod deilliannau swyddi yn well na deilliannau sylfaenol amgen, o ystyried nodau CaW i leihau tloedi drwy helpu pobl i gael gwaith).

Tabl 7.8. Deilliannau i gyfranogwyr CaW ar ôl gadael y rhaglen (Mai 2015 - Chwefror 2022).

Deiliant pan fyddant yn gadael	DC B1 Proffil	DC B1 Gwirioneddol	GCC B1 Proffil	GCC B1 gwirioneddol	DC B3 Proffil	DC B3 Gwirioneddol	GCC B3 Proffil	GCC B3 Gwirioneddol
Chwilio am Swyddi*	533	218	1,588	1,066	-	82	-	419
Lle mewn addysg/hyfforddiant	-	90	-	104	169	193	246	416
Ennill cymhwyster	-	332	-	1,083	-	244	-	747
Ardystiad sy'n berthnasol i waith	-	874	-	3,158	-	471	-	2,181
<i>Cymhwyster + ardystiad</i>	<i>1,926</i>	<i>1,206</i>	<i>5,713</i>	<i>4,241</i>	<i>-</i>	<i>715</i>	<i>-</i>	<i>2,928</i>

*Cyfranogwyr economaidd anweithgar yn unig

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Amrywiad lleol

7.32. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar berfformiad cyffredinol y ddwy raglen, ond mae'n bwysig nodi bod amrywiaeth mawr mewn perfformiad rhwng ardaloedd ac mewn rhai ardaloedd, rhwng gwahanol dimau yn yr un ardal ALI. Mae ymchwil ansoddol yn awgrymu bod ffactorau lleol, megis gwahaniaethau o ran cydgysylltu rhwng gwahanol wasanaethau cymorth cyflogaeth (a allai fod yn haws lle mae'r galw'n cyfateb yn agosach i gapasiti) a drafodir yn adran pump (gweler paragraffau 5.4-5.57), a gwahaniaethau ym maint a phroffil y boblogaeth a gwmpesir gan y timau, a drafodir uchod, yn helpu i egluro gwahaniaethau mewn perfformiad cymharol (yn erbyn targedau) gwahanol dimau. Bydd hyn yn cael ei archwilio ymhellach drwy Ddadansoddiad Cymharol Ansoddol⁹⁸ yng ngham nesaf y gwerthusiad.

Gweithgaredd i fynd i'r afael â themâu trawsbynciol CaW

7.33. Disgrifiwyd llawer o'r gweithgaredd yn ymwneud â themâu trawsbynciol CaW gan staff rheng flaen yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes fel rhywbeth sydd

⁹⁸ Pwrpas Dadansoddiad Cymharol Ansoddol (QCA) yw nodi cyfraniad gwahanol amodau (neu ffactorau) at ddeiliant o ddi-ddordeb, yn yr achos hwn perfformiad timau CaW a CaW+ (gweler e.e. [Gwyn a Phillips, 2012](#) a [Ragin, 1987](#)). Ei nod yw nodi pa amodau sy'n gysylltiedig â deilliannau penodol ac mae'n galluogi i ddamcaniaethau gael eu profi, er enghraifft: ei bod yn anos cael cysylltiadau mewn awdurdodau lleol mawr â phoblogaeth wasgaredig; ei bod yn anos cael cysylltiadau mewn ardaloedd â lefelau isel o ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd; ac y gallai fod yn anos troi cysylltiadau yn ddeilliannau swyddi mewn ardaloedd lle ceir lefelau uchel o ddiweithdra.

'wedi'i ymgorffori yn ffordd y rhaglen o weithio' fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd, ac roedd yn adlewyrchu'r cleientiaid yr oedd yn gweithio â nhw (a oedd, er enghraifft, yn aml yn byw mewn tlodi). Yn yr un modd, fel y dywedodd un rheolwr, 'rydym yn gwneud hynny heb feddwl' (er iddynt egluro bod y gweithgaredd hwn hefyd wedi'i gofnodi a'i adrodd). Yn ogystal â hynny, fel yr amlinellir isod, nodwyd camau gweithredu penodol mewn perthynas ag ymgysylltu a chefnogi pobl anabl; prif ffrydio rhywedd ac i raddau llai, ymgysylltu â chyfranogwyr Du, Asiaidd neu lleiafrifoedd ethnig. Amlygodd un ardal hefyd weithgarwch i gefnogi'r rhai â phroblemau'n ymwneud â hunaniaeth rhywedd. Ar draws yr holl ardaloedd, yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod mwy o bwyslais ar sut yr oeddent yn cefnogi'r grwpiau hyn, yn hytrach na sut yr oeddent yn mynd ati i ymgysylltu â phobl o'r grwpiau hyn.

Cyfle cyfartal

7.34. Nododd achos busnes CaW bwysigrwydd prif ffrydio rhywedd a hyrwyddo cyfle cyfartal, er enghraifft y rhai sy'n wynebu amddifadedd, anabledd a lleiafrifoedd ethnig (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a, tud. 14). Mae'r strategaeth (a amlinellir yn yr achos busnes) yn cynnwys:

- cymorth wedi'i dargedu at y rhai sydd dan anfantais fel pobl anabl a phobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig;
- herio rolau traddodiadol a gwahaniad galwedigaethol drwy gynyddu nifer y menywod a'r dynion sy'n hyfforddi neu'n ailhyfforddi mewn meysydd anhraddodiadol;
- cymorth gyda gofal plant.

Camau i gefnogi pobl anabl

7.35. Roedd cyfanswm o 11 y cant o gyfranogwyr CaW a saith y cant o gyfranogwyr CaW+ yn unigolion anabl. Fel y nododd mentor pobl ifanc mewn un ardal, mae llawer o anableddau - neu namau⁹⁹ yn rhai 'cudd', megis niwroamrywiaeth ac anawsterau iechyd meddwl¹⁰⁰, gan olygu bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff o namau gwahanol yn elfen bwysig o ddarparu cymorth effeithiol. Soniodd sawl ardal am

⁹⁹ Nam yw 'y peth am berson sy'n wahanol' ond mae anabledd yn disgrifio 'y pethau y mae cymdeithas/yr amgylchedd/polisi/ymarfer yn eu gwneud i berson â nam sy'n ei roi dan anfantais'. Mae'r term 'namau cudd' felly yn well nag 'anabledd cudd' gan ei fod yn adlewyrchu'r model anabledd cymdeithasol yn hytrach na meddygol ([Llywodraeth Cymru, 2020d](#), tud. 26)

¹⁰⁰ Mae anawsterau iechyd meddwl yn anabledd o dan y ddeddf cydraddoldeb pan fyddant yn cael effaith hirdymor ar weithgaredd arferol unigolyn o ddydd i ddydd.

weithgareddau penodol i gefnogi pobl anabl, yn fwyaf nodedig drwy weithio gyda phartneriaid ag arbenigedd yn y maes hwn. At hynny:

- mewn un ardal, dywedodd staff fod gan y Bwrdd Datblygu Lleol Weithgor Anabledd a disgrifiodd mentor sut yr oedd 'dod yn Arweinydd Anabledd yn agoriad llygad'. Esboniwyd hefyd bod y sefydliad wedi cael nod barcud Hyderus o ran Anabledd lefel 2 a bod hynny'n ei alluogi i fabwysiadu dull mwy amrywiol';
- mewn un ardal dywedodd y staff eu bod wedi teilwra eu deunydd marchnata, er enghraifft, drwy gynnwys delweddau o bobl anabl, i helpu i gyrraedd pobl anabl ac ymgysylltu â nhw; a
- Dywedodd staff mewn un ardal eu bod wedi gweithio gyda rheolwr cyflogaeth anabledd Busnes Cymru i nodi cyflogwyr sydd â'r gallu/awydd i gyflogi pobl ag anableddau, gan gynnwys y rhai ag anawsterau dysgu.

7.36. Roedd staff â phrofiad bywyd o namau hefyd yn cael eu hystyried yn werthfawr. Er enghraifft:

- dywedodd un ardal fod ganddi fentor CaW byddar a bod y staff i gyd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o laith Arwyddion Prydain (BSL); a
- dywedodd ardal arall fod un o'i swyddogion yn rhannol fyddar a bod gan un arall wybodaeth a sgiliau yn y meysydd dyslecsia ac anghenion ychwanegol, a oedd yn helpu i adnabod beth oedd yn gweithio'n dda a beth nad oedd yn gweithio cystal.

Camau i gefnogi pobl o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig

7.37. Fel yr amlinellir uchod, mae CaW, ac i raddau llai CaW+, wedi perfformio'n dda o ran deilliannau cyflogaeth i bobl o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Dywedodd un ardal yn benodol y cynhaliwyd digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer pobl o'r cymunedau hyn gyda'r nod o symud cleientiaid i swyddi anhraddodiadol, megis swyddi yn y gwasanaeth sifil a swyddi gweinyddol yn y GIG. Fe wnaethant hefyd adrodd ar weithgareddau i helpu meddygon sy'n ffoaduriaid i gael swyddi meddygon yn y GIG. Er bod nifer o dimau CaW a CaW+ yn cwmpasu ardaloedd â chymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mawr, yn enwedig mewn dinasoedd fel Casnewydd, Abertawe a Wrecsam, roedd y timau a gafodd eu dethol ar gyfer y gwaith maes yn golygu mai ychydig o ardaloedd â chymunedau mawr o bobl Ddu, Asiaidd a

lleiafrifoedd ethnig a gafodd eu cynnwys yn y gwaith maes, a gallai hyn helpu i egluro pam nad oedd gweithgaredd i gefnogi hyn yn fwy amlwg.

Camau i hybu prif ffrydio rhywedd

- 7.38. Cyfeiriodd sawl ardal at strategaethau i herio gwahanu ar sail rhywedd, drwy drin pobl yn gyfartal, fel y disgrifiwyd amlaf ganddynt. Er enghraifft, esboniodd un o'r rhai a gyfwelwyd mewn un ardal, 'rydym yn trin pawb yr un fath - beth bynnag yw'r freuddwyd, byddwn yn eu helpu i'w gwireddu. Roedd gennym fenyw a oedd yn yrrwr HGV, dyn trin gwallt, menyw yn y diwydiant adeiladu'. Er bod trin pobl yn gyfartal yn bwysig, mae'n debygol y bydd angen cymryd camau mwy rhagweithiol i herio gwahanu ar sail rhywedd, ac fel yr amlinellir isod, mae prif ffrydio rhywedd yn ddyfnach na thriniaeth gyfartal. Rhoddwyd nifer fach o enghreifftiau gan staff o hyrwyddo rolau anhraddodiadol yn weithredol. Er enghraifft, dywedodd staff mewn un ardal eu bod yn cynnal digwyddiadau a gweithgareddau yn yr hyb, gan roi sylw i fenywod sy'n gweithio mewn sectorau anhraddodiadol. Roedd gofal plant hefyd yn cael ei ystyried yn rhwystr, ac yn cael sylw, ond fel y nodir yn adrannau dau a phedwar, ar gyfer y rhai yr oedd gofal plant yn brif rwystr iddynt, yn aml byddai PaCE wedi bod yn rhaglen fwy priodol i'w cefnogi.
- 7.39. Mae gwerthusiad PaCE ([Llywodraeth Cymru, 2023b](#)), a'r data ansoddol a gasglwyd drwy gyfweiliadau â staff a rheolwyr rheng flaen CaW a CaW+ yn awgrymu, er y gall cost gofal plant fod yn rhwystr pwysig, ac yn un y gall fod yn anodd i raglenni cyflogaeth fynd i'r afael ag ef, o ystyried costau gofal plant, mae natur y rhwystrau gofal plant yn fwy cynnil na'r disgwyl. Er enghraifft, fel y noda gwerthusiad PaCE:
- 'er bod y cyfranogwyr yn ystyried bod gofal plant yn broblem fawr pan fyddant yn ymuno â PaCE am y tro cyntaf, mae hyn yn aml yn adlewyrchu diffyg gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael. Mae unigolion yn cael eu gorlethu gan y syniad o geisio cadw swydd, ymdopi'n ariannol a gofalu am eu plant ar yr un pryd. Ar ben hynny, mae'n anodd gwybod yn union pa fath o ofal plant y sydd ei angen, heb fod yn glir yn gyntaf am yr oriau gwaith a chostau gofal plant. Yn ei hanfod, mae'r ffordd y mae gofal plant yn rhwystr i gyflogaeth yn fwy cymhleth na dim ond argaeledd neu fforddiadwyedd gofal plant ffurfiol. Er mwyn i unigolion deimlo eu bod yn gallu defnyddio gofal plant ffurfiol (yn unrhyw un o'r lluo o ffyrdd y caiff ei ddefnyddio), yn gyntaf mae angen iddynt ddeall beth sydd ar gael, sut y mae'n gweithio, faint mae'n ei gostio, pa gymorth sydd ar gael i dalu'r costau

hynny, sut y gellir cael gafael ar y cymorth hwnnw a sut i fynd ati i drefnu pethau gyda darparwyr gofal plant. (Llywodraeth Cymru, i ddod).

Trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol

- 7.40. Mae achos busnes CaW yn nodi bod trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol yn ganolog i CaW, drwy ymgysylltu â'r rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur ac sydd yn draddodiadol wedi osgoi ymgysylltu â gwasanaethau prif ffrwd oherwydd diffyg gwasanaethau, diffyg mynediad neu ddiffyg awydd (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a, tud. 7). Yn yr un modd, nod allweddol CaW+ yw lleihau tlodi drwy dargedu unigolion sydd mewn tlodi, neu sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi. At hynny, mae gan CaW+ gylch gwaith ehangach na CaW, a gall, er enghraifft, gefnogi'r rhai sy'n profi tlodi mewn gwaith. Cyfeiriodd y rhai a gyfwelwyd at yr ethos hwn yn gyson; er enghraifft, fel y dywedodd staff mewn un ardal, mae'r ddwy raglen yn eu cyfanrwydd yn ymwneud â threchu tlodi ac allgáu - 'mae'n ymwneud â symud pobl ymlaen i waith'.

Datblygu cynaliadwy

- 7.41. Mae achos busnes CaW yn nodi y dylid sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n llawn ar gynaliadwyedd a'u bod yn deall y rôl y maent yn ei chwarae er mwyn lleihau ôl troed carbon y gweithrediad drwy, er enghraifft, deithio'n fwy cynaliadwy a lleihau gwastraff ac ailgylchu mwy (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a, tud. 16). Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth o ymwybyddiaeth neu weithgareddau i hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes. Er enghraifft, mewn un ardal, nid oedd y term 'datblygu cynaliadwy' yn canu cloch gyda staff mewn perthynas â'u swyddi ac mewn ardal arall, disgrifiodd y staff sut yr oeddent yn hyrwyddo cyfleoedd gwaith mewn diwydiannau gwyrdd, yn hytrach na chyfeirio at leihau ôl troed carbon y gweithrediad ei hun.

Cyfraniad at amcanion cydraddoldeb a nodau llesiant Llywodraeth Cymru

- 7.42. Fel y mae achos busnes CaW yn ei nodi, drwy ymgysylltu â chyfranogwyr o'r cymunedau mwyaf difreintiedig gyda'r nod o'u helpu i gael gwaith, bydd CaW yn cyfrannu'n sylweddol at nodau hirdymor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ddarparu gwasanaethau ffyniannus, cydnerth, iachach a chymunedau mwy cydlynus (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a, tud. 16). Gellir disgwyl i CaW+ wneud cyfraniadau tebyg.

- 7.43. Fel yr amlinellir uchod, drwy gyfrannu at ostyngiadau mewn diweithdra a/neu gynyddu cyfranogiad mewn addysg neu hyfforddiant, yn enwedig ymhlith grwpiau a chymunedau sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, mae'r rhaglenni'n gwneud cyfraniadau uniongyrchol pwysig at nifer o nodau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, megis 'dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dlodi'; a'i nodau llesiant, yn fwyaf nodedig, 'Cymru lewyrchus' a 'Cymru sy'n fwy cyfartal' ([Llywodraeth Cymru, 2020a](#)). Mae cynyddu cyflogaeth a chyfranogiad mewn addysg neu hyfforddiant hefyd yn debygol o gyfrannu at nodau megis 'Cymru iachach' a 'Cymru o gymunedau cydlynus sy'n gydnerth, yn deg ac yn gyfartal' (cf. [Schuller, 2017](#); [What Works Wellbeing, 2017](#)). Yn ogystal â hynny, fel rhan o gynllun gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru ([Llywodraeth Cymru, 2023a](#)), mae holl raglenni cyflogaeth Llywodraeth Cymru (fel CaW a CaW+) wedi ymrwymo i gynyddu cyfranogiad unigolion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
- 7.44. Bydd maint cyfraniad y rhaglenni at wireddu'r nodau hyn yn dibynnu ar ddau ffactor allweddol:
- effeithiolrwydd y rhaglenni o ran ymgysylltu â phobl sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar, a'u cefnogi i gael gwaith neu le mewn addysg neu hyfforddiant (ac fel yr amlinellir uchod mae'r rhaglen wedi perfformio'n weddol gryf o ran deilliannau swyddi);
 - bydd ansawdd y gyflogaeth, yr addysg neu'r hyfforddiant y mae cyfranogwyr yn symud ymlaen iddynt, er enghraifft, yr enillion o ran lleihau tlodi ariannol ac allgáu cymdeithasol, yn dibynnu ar ffactorau fel cyfraddau cyflog, sicrwydd swydd a chyfleoedd i gamu ymlaen (gyda mwy o enillion yn gysylltiedig â gwaith o ansawdd uwch), lle mae adborth ansoddol o gyfweiliadau yn awgrymu bod y dystiolaeth o effeithiolrwydd rhaglenni yn fwy cymysg.
- 7.45. Yn ogystal â hynny, drwy'r themâu trawsbynciol (fel y ffocws ar brif ffrydio rhywedd) ar gyfer CaW a thargedau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru ar gyfer CaW a CaW+ (fel cynyddu nifer y cyfranogwyr anabl), mae'r rhaglenni'n gwneud cyfraniadau pwysig at nifer o faterion cydraddoldeb eraill Llywodraeth Cymru fel 'bydd Cymru yn arwain y byd o ran cydraddoldeb rhywiol' a sicrhau bod 'anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus datganoledig yng Nghymru' ([Llywodraeth Cymru, 2020a](#)).

7.46. Mae cynllunio a chyflawni rhaglenni hefyd yn ffactor pwysig a fydd wedi dylanwadu ar effaith y rhaglenni ac, er enghraifft, mae cyfyngiadau'r gweithgaredd yn yr ardaloedd hyn, a amlinellir uchod, yn debygol o fod wedi cyfyngu ar yr effaith. Yn yr un modd, mae'r gwahaniaethau mewn pwyslais a awgrymwyd gan y gwaith maes (a amlinellir uchod), o ran sut y mae'r rhaglenni wedi ceisio mynd ati'n weithredol i ymgysylltu â gwahanol grwpiau o bobl â nodweddion gwarchoddedig, megis pobl anabl (lle y nodwyd camau mwy rhagweithiol) a phobl o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (lle y nodwyd camau gweithredu llai rhagweithiol i estyn allan ac ymgysylltu), yn awgrymu y bydd cyfraniad y rhaglenni at gyflawni nodau cydraddoldeb mewn perthynas â grwpiau gwahanol, wedi bod yn anghyson.

Cynnig Cymraeg y rhaglenni

7.47. Dywedodd staff CaW a CaW+ ym mhob un o'r ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes eu bod yn cynnig dewis i gyfranogwyr ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg. Yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes, dywedwyd y gofynnwyd i ddarpar gyfranogwyr beth oedd eu dewis iaith, yn nodweddiadol drwy ffurflenni cofrestru, a byddai staff sy'n medru'r Gymraeg yn cael eu dyrannu i'r cleientiaid hyn, yn ôl yr angen. Fodd bynnag, yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes, roedd yn ymddangos mai Saesneg oedd yr iaith ddiodyn¹⁰¹ a gall hyn fod wedi atal pobl rhag mynegi eu bod yn ffafrio gwasanaeth Cymraeg.

7.48. Mae cyfran y cyfranogwyr CaW a nododd mai Cymraeg oedd eu dewis iaith yn un y cant, ac ar gyfer CaW+ roedd yn ddau y cant, cyfraddau sy'n llawer is na'r boblogaeth gyffredinol.¹⁰² Er bod data o'r 1990au yn awgrymu bod cyfraddau diweithdra cyffredinol ymhlith siaradwyr Cymraeg yn is nag ymhlith siaradwyr Saesneg ([Llywodraeth Cymru, 2020b](#)) (gan awgrymu y byddem yn disgwyl i lai o siaradwyr Cymraeg geisio cymorth gan CaW neu CaW+), mae hyn yn annhebygol o esbonio'r holl wahaniaeth a welwyd yn newis iaith cyfranogwyr CaW a CaW+.¹⁰³ Mae'n bosibl (ond dim ond dyfalu yw hyn) y gallai hyn adlewyrchu diffyg hyder ar ran cyfranogwyr y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt i fynegi hynny, neu ofn y bydd

¹⁰¹ Nid oedd yn bosibl archwilio hyn yng Ngheredigion a dylid nodi nad oedd y gwaith maes yn cwmpasu ardaloedd fel Gwynedd, lle mae'n fwy tebygol mai'r Gymraeg fyddai'r iaith ddiodyn.

¹⁰² Nid oes data ar ddewis iaith ar gael, ond os defnyddir y gallu i siarad Cymraeg fel procsi, er bod hynny'n debygol o oramcangyfrif dewis iaith, gan na fyddai pawb sy'n gallu siarad Cymraeg o reidrwydd yn dewis y Gymraeg fel eu dewis iaith, mae hyn yn awgrymu bod tuag 19% o'r boblogaeth 16 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg ([Llywodraeth Cymru, 2019b](#)).

¹⁰³ Nid yw'r rhaglen yn casglu data cymaradwy ar nifer y cyfranogwyr CaW+ sy'n nodi'r Gymraeg fel eu dewis iaith.

yn anoddach cael gafael ar wasanaethau Cymraeg, os mai iaith ddiodyn y gwasanaethau yw Saesneg (gweler e.e. [CAB, 2015](#)).

Cyllid, gwariant ac effeithlonrwydd y rhaglenni

Gwariant y rhaglenni

- 7.49. Ar gyfer CaW, adroddir bod gwariant y rhaglen o fewn un y cant o broffil y rhaglen, ond noddwyd (gan y rhai a gyfwelwyd) bod amrywiadau ar draws gwahanol benawdau'r gyllideb. Er enghraifft, er bod gwariant ar eitemau fel hyfforddiant, y Gronfa Rwystrau a theithio a chynhaliaeth wedi gostwng yn ystod y pandemig, lliniarwyd hyn gan y gyfran uchel o gostau a ddyrannwyd i gyflogau, y cytunodd yr UE y gellid parhau i'w talu drwy gydol y pandemig. Mewn ymateb i hynny, addaswyd agweddau ariannol ar y rhaglen i gynyddu'r gyllideb ar gyfer cyflogau.
- 7.50. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, roedd CaW+ yn tanwario yn erbyn ei dyraniad ar gyfer 2020/21, a bydd yr oedi wrth recriwtio staff newydd (a achosodd y tanwariant) yn anochel wedi cyfyngu ar effaith ehangu'r CaW+ gan ragweld yr hyn a fyddai'n gynydd mawr mewn diweithdra o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 (a drafodir yn adran pump). Dywedodd rheolwyr strategol fod hyn yn adlewyrchu'r oedi wrth anfon llythyrau cymeradwyo grant at ALLau oherwydd prosesau pennu cyllideb Llywodraeth Cymru a'r amser sydd ei angen i recriwtio staff (a sefydlu gwasanaethau mwy) mewn ymateb i'r dyraniad cyllid ychwanegol yn 2020/21 a 2021/22. Yn ogystal â hynny, yn wahanol i CaW, sy'n seiliedig ar ddyfarniadau 'grant' amlflwyddyn, ni ellir symud tanwariant neu orwariant yn rhaglen CaW+ rhwng blynyddoedd ariannol, gan greu rhywfaint o anhyblygrwydd yng ngallu'r rhaglen i ymateb i heriau a chyfleoedd.

Effeithlonrwydd a chost effeithiolrwydd y rhaglen

- 7.51. Rhagwelwyd mai cost uned CaW fesul deilliant swydd fyddai £6,475.71 (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a), ac fel y nodir yn yr achos busnes, mae hyn yn cymharu'n ffafriol â rhaglenni eraill sy'n ceisio darparu cymorth cyflogaeth i'r rhai sydd wedi bod yn ddi-waith yn yr hirdymor a'r rhai sy'n economaidd anweithgar. Roedd y rhain yn amrywio o isafswm o £4,650 fesul deilliant swydd ar gyfer y Rhaglen Waith, i £6,000 ar gyfer Twf Swyddi Cymru, a £6,500 ar gyfer Cronfa Swyddi'r Dyfodol. Mae cost CaW+, sy'n rhaglen fwy darbodus, wedi bod yn sylweddol is a'r gost fesul deilliant swydd ar gyfer CaW+ yn 2020/21 oedd £3,368, sef bron hanner y gost fesul swydd o £6,478 ar gyfer CaW. Credir (gan staff CaW+) bod hyn i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith

bod gan CaW+ brosesau rheoli a strwythur llywodraethu symlach a amlinellir yn adran pedwar (gweler paragraffau 4.62-4.66).

- 7.52. O ystyried y buddion economaidd, cymdeithasol a phersonol sy'n gysylltiedig â chyfranogi mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (gweler e.e. [Llywodraeth Cymru, 2017a](#); [Schuller, 2017](#)) mae effaith symud ymlaen i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar gyfranogwyr yn debygol o fod yn llawer mwy nag effaith cymryd rhan yn y rhaglen, nad yw'n arwain at un o'r deilliannau hyn. Felly, y prif fesur o effeithlonrwydd y rhaglenni yw nifer y bobl sy'n cael swyddi neu le mewn addysg neu hyfforddiant a bydd effeithlonrwydd rhaglenni, o ran cost cynhyrchu pob deiliant, wedi cael hwb gan y gyfradd drosi uchel o gysylltiadau i ddeilliannau.
- 7.53. Roedd yn rhaid i'r rhai a oedd yn dylunio ac yn cyflawni'r rhaglenni ddewis faint o adnoddau i'w neilltuo i greu cysylltiadau a faint i'w neilltuo i drosi cysylltiadau'n ddeilliannau. Ar yr amod bod y rhaglenni'n gallu creu digon o gysylltiadau i gyflawni eu targedau o ran deilliannau, yn gyffredinol, byddai dyrannu mwy o adnoddau i droi cysylltiadau'n ddeilliannau, yn hytrach na mwy o gysylltiadau, wedi bod yn fwy effeithlon. Fodd bynnag, lle roedd hyn yn golygu (fel yr awgryma'r gwaith maes) na chyrhaeddwyd y targedau ar gyfer ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, megis pobl anabl, ni fyddai hyn yn ddull effeithlon. Nid yw union ddosbarthiad costau ymgysylltu â chyfranogwyr a throi'r cysylltiadau hynny yn ddeilliannau yn hysbys. Fodd bynnag, gan fod y rhan fwyaf o gostau'r rhaglen yn cael eu dyrannu i gyflogau staff, a bod y gwaith maes yn awgrymu bod y rhan fwyaf o amser staff rheng flaen yn cael ei ddyrannu i gefnogi cyfranogwyr, yn hytrach nag ymgysylltu â nhw, mae'n rhesymol dod i'r casgliad bod mwyafrif y costau'n ymwneud â chymorth yn hytrach na chysylltiadau.
- 7.54. Mewn perthynas ag effeithlonrwydd y model cymorth, awgryma'r gwaith maes:
- fel yr amlinellir yn adran pump, bod effeithlonrwydd y cymorth wedi cynyddu yn sgil camau i ddarparu mwy o gymorth ar-lein neu dros y ffôn (er, fel y nodwyd, mae model cymorth cyfunol yn briodol);
 - fel yr amlinellir yn adran pedwar, mae'n debyg bod y fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â gwneud cais i Gronfa Rwystrau CaW wedi lleihau'r nifer sy'n manteisio arni, ac er y bydd hynny wedi lleihau gwariant (a chostau), bydd hefyd wedi creu costau ychwanegol o ran amser staff. I'r gwrthwyneb, mae hygyrchedd Cronfa Rwystrau CaW+ yn debygol o fod wedi cael yr effaith i'r

gwrthwyneb. Os mai effaith y diffyg hygyrchedd hwn yw atal deiliant rhag cael ei gyflawni, byddai hyn yn gam gwag. Mae'r gwaith maes yn awgrymu bod rhwystredigaeth gyda biwrocratiaeth a diffyg hygyrchedd cronfa rwystrau CaW, ond ychydig o enghreifftiau a welwyd lle roedd yn atal deiliant rhag cael ei gyflawni;

- yn yr un modd, mae'n debyg bod yr anawsterau o ran cael afael ar hyfforddiant drwy ACT (ar gyfer CaW) a amlinellir yn adran pedwar, wedi lleihau'r nifer sy'n manteisio ar yr hyfforddiant. Bydd hyn wedi lleihau gwariant (a chostau). Fodd bynnag, fel yr awgrymwyd weithiau gan y rhai a gyfwelwyd, os yw'r ffaith bod cyfranogwr yn methu â manteisio ar hyfforddiant yn ei atal rhag cael swydd, byddai hyn yn gam gwag (a chymryd bod manteision cael swydd yn fwy na chost yr hyfforddiant). Fel y nodir yn adran pedwar, roedd staff rheng flaen hefyd yn gweld y gallai cost yr hyfforddiant a ddarperir drwy fodel hyfforddiant a brynir CaW fod yn ddrutach na model marchnad CaW+, a'i fod hefyd yn llai ymatebol ac y gallai olygu bod yn rhaid i gyfranogwyr deithio ymhellach i gael hyfforddiant. Bwriedir cynnal adolygiad trylwyr o gostau a manteision y ddwy system i lywio rhaglenni cyflogadwyedd yn y dyfodol. Gallai hyn hefyd ystyried cost-ffeithiolrwydd cymharol darparu hyfforddiant ar-lein, drwy ddull cyfunol ac wyneb yn wyneb.

7.55. Yn olaf, mae'n werth nodi bod model rheoli 'mwy darbodus' CaW+, a briodolir yn rhannol i'r ffaith nad oes angen cydymffurfio â rheolau a rheoliadau ESF, yn debygol o fod wedi cynyddu effeithlonrwydd ymhellach (o gymharu â CaW) ac adlewyrchir hyn yn y gost lawer is fesul swydd a gyflawnwyd gan CaW+ (gweler paragraff 7.53). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod CaW+ wedi gallu elwa ar ddulliau a strwythurau a ddatblygwyd ac y talwyd amdanynt gan CaW. Yn yr un modd, mae gwariant CaW+ yn sail i elfennau o ddarpariaeth CaW. Felly, mae cymhariaeth uniongyrchol o gostau rhwng y ddwy raglen braidd yn gamarweiniol.

8. Casgliadau

Cyflwyniad

8.1. Yn yr adran hon rydym yn ystyried:

- y theori newid a sut y cyflawnwyd CaW a CaW+;
- effaith ffactorau allanol, yn fwyaf nodedig y pandemig COVID-19;
- pwysigrwydd ystyried cymhellion y cyfranogwyr, y cyfleoedd sydd ar gael iddynt, eu galluoedd a'u hymddygiad;
- effeithiolrwydd y rhaglenni o ran cyfrannu at amcanion Llywodraeth Cymru a'r UE; a
- myfyrdodau ar fodelau CaW a CaW+ a goblygiadau ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd yn y dyfodol.

Y theori newid a sut y cyflawnwyd CaW a CaW+

8.2. Fel y dengys adran pedwar, roedd y theori newid ar gyfer CaW a CaW+ yn debyg, ond roedd gan CaW+ fwy o hyblygrwydd o ran pwy y gallai ei gefnogi, sut yr oedd yn eu cefnogi a sut yr oedd yn adrodd ar hyn. Mae hyn yn golygu bod un theori newid i gwmpasu'r ddwy raglen yn briodol.

8.3. Fel yr amlinellir yn adrannau pedwar, pump a saith, cafodd y rhaglenni eu gweithredu i raddau helaeth yn unol â'r cynllun, ac roedd y broses – y llwybrau a ddilynwyd gan gyfranogwyr (brysbennu, cymorth, mynediad at hyfforddiant, lleoliadau gwaith a/neu gyfleoedd gwirfoddoli) – yn adlewyrchu'n fras yr hyn a ragwelwyd yn theori newid wreiddiol y rhaglenni.

8.4. Er eu bod yn gweithio mewn ffyrdd tebyg, ar sail yr un theori newid yn ei hanfod, rhagorodd CaW+ ar y disgwyliadau ac, mewn gwrthgyferbyniad â hynny, ni lwyddodd CaW i gyrraedd y disgwyliadau, yn enwedig mewn perthynas â chysylltiadau. Felly, i egluro'n llawn pam na lwyddodd CaW i gyrraedd ei thargedau weithio, tra bod CaW+ wedi rhagori arnynt, mae angen ystyried yr hyn na chafodd ei ystyried (neu a ragwelwyd) yn theori newid wreiddiol y rhaglenni. Yn benodol, mae'r ymchwil ansoddol yn nodi:

- bod dirwyn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben wedi tanseilio rhywfaint ar fodel cyflawni cymunedol CaW, ac yn ddiweddarach ac yn fwy arwyddocaol, bu i effaith y pandemig COVID-19 gyfyngu'n ddifrifol ar fodel cyflawni

cymunedol CaW. Bu sylfaen gymunedol y rhaglenni'n werthfawr o ran helpu i greu awyrgylch mwy anffurfiol a chroesawgar na safleoedd JCP (a gynorthwyodd i ennyn ymgysylltiad cychwynol a pharhaus â'r rhaglen), ond ni fu mor effeithiol â'r disgwyl o ran cefnogi'r broses o recriwtio'n uniongyrchol i'r rhaglen; a

- yn fwyaf sylfaenol, roedd y sianel atgyfeirio gan bartneriaid yn llai amrywiol (gyda mwy o ddibyniaeth ar JCP nag a ragwelwyd) ac yn llai cynhyrchiol na'r disgwyl (gyda niferoedd llai yn cael eu hatgyfeirio, neu eu recriwtio'n uniongyrchol, nag a ragwelwyd). I raddau helaeth, fel yr amlinellir isod, roedd hyn oherwydd effaith y pandemig COVID-19. Fodd bynnag, nid dyma'r unig reswm, ac fel rhaglenni cymunedol, roedd recriwtio uniongyrchol, a meithrin perthnasoedd â phartneriaid lleol (ac eithrio JCP) a allai helpu i atgyfeirio pobl at y rhaglenni, yn wannach na'r disgwyl.

8.5. Fodd bynnag, oherwydd bod y ffactorau hyn wedi effeithio ar CaW+ hefyd, er eu bod yn helpu i egluro perfformiad gwannach na'r disgwyl o ran cysylltiadau CaW, nid ydynt yn esbonio'r gwahaniaeth cymharol mewn perfformiad rhwng CaW a CaW+.

8.6. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod dau ffactor arall yn helpu i egluro'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng y ddwy raglen:

- roedd gan CaW+ feini prawf cymhwystra mwy hyblyg, a oedd yn golygu bod y rhaglen ar gael i niferoedd mwy o ddarpar gyfranogwyr¹⁰⁴, ar draws ardaloedd daearyddol mwy. Er bod hyn wedi creu heriau, yn fwyaf nodedig mewn ardaloedd gwledig mawr, yn gyffredinol, roedd yn ei gwneud yn haws ymgysylltu â chyfranogwyr, hyd yn oed gan ganiatáu ar gyfer y 'flaenoriaeth' a roddwyd i CaW ar gyfer y darpar gyfranogwyr hynny a oedd yn gymwys ar gyfer CaW¹⁰⁵
- fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y ddau ffactor hyn yn esbonio'r holl wahaniaeth. Wrth gymharu'r ddwy raglen, mae hefyd yn bwysig nodi bod y

¹⁰⁴ Mae data hanesyddol (o 2012) ar ardaloedd CG yn awgrymu bod tua 195,000 o bobl economaidd anweithgar o oedran gweithio a 54,800 o bobl ddi-waith mewn ardaloedd CG, o gymharu â 470,600 o bobl o oedran gweithio a oedd yn economaidd anweithgar a 29,000 o bobl ddi-waith mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd CG (ffynhonnell: [StatsCymru](#)). Oherwydd ei bod wedi bod yn anos yn gyffredinol recriwtio pobl economaidd anweithgar, gall y nifer lai o bobl ddi-waith mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd CG fod yn bwysig, ond fel ymhlith oedolion 25 oed a hŷn, roedd tua hanner y cyfranogwyr yn economaidd anweithgar a'u hanner yn ddi-waith yn yr hirdymor a dylai effaith hyn fod wedi'i gwrthbwysio gan y nifer llawer mwy o bobl economaidd anweithgar o oedran gweithio mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

¹⁰⁵ Os yw rhywun yn gymwys ar gyfer CaW byddant fel arfer yn cael eu cyfeirio at CaW yn hytrach na CaW+.

disgwyliadau ar gyfer CaW+, o ran ymrwymadau, yn is na'r rhai ar gyfer CaW, ac mae hyn yn helpu i egluro llawer o'r gwahaniaeth ym mherfformiad y naill raglen a'r llall yn erbyn disgwyliadau Llywodraeth Cymru.¹⁰⁶

- 8.7. Mewn gwrthgyferbyniad â chysylltiadau, roedd y deilliannau swyddi ar gyfer y ddwy raglen yn gryfach na'r hyn a ragwelwyd (neu a ddisgwyliwyd), er gwaethaf effaith y pandemig COVID-19, sy'n dangos effeithiolrwydd model cymorth y rhaglenni.¹⁰⁷ Yn benodol, roedd ethos hyblyg y dull a ddefnyddiwyd a'r ffaith ei fod yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn un o brif gryfderau'r rhaglenni. Roedd yn galluogi cynghorwyr a/neu fentoriaid CaW a CaW+ i ddarparu:
- cymorth ymarferol i gryfhau galluedd pobl, megis cymorth i chwilio am waith a gwneud ceisiadau am swyddi, mynediad at hyfforddiant, lleoliadau gwaith a/neu wirfoddoli, cyfeirio at bartneriaid, cymorth ariannol, a chynghor ar sut i oresgyn rhwystrau posibl yn ymwneud ag amgylchiadau pobl megis cyfrifoldebau gofalu neu'r angen i deithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus;
 - cymorth emosiynol, i ysgogi a grymuso cyfranogwyr i wneud cais am swyddi, ac mewn nifer fach o achosion, i gynnal cyflogaeth.
- 8.8. Serch hynny, mae'r ymchwil ansoddol hefyd yn nodi nad oedd elfennau o fodel rhaglen CaW megis y Gronfa Rwystrau, ac i raddau llai y model hyfforddiant a brynir, mor hyblyg â'r modelau cyfatebol yn CaW+ ac felly nid oeddent mor ymatebol nac mor effeithiol â'r disgwyl.
- 8.9. Roedd natur wirfoddol y rhaglenni hefyd yn bwysig. Helpodd i gryfhau perthnasoedd cynghorwyr CaW a CaW+ a/neu fentoriaid gyda chyfranogwyr ac mae'n debyg ei fod yn golygu bod gan gyfranogwyr yn gyffredinol fwy o gymhelliant i ddod o hyd i waith na'r rhai ar raglenni gorfodol. Fodd bynnag, mae'r gwaith maes yn awgrymu bod rhywfaint o amodoldeb meddal gan JCP wedi helpu i gynyddu'r cysylltiadau â charfan a oedd efallai â llai o gymhelliant i ddod o hyd i waith i ddechrau.

¹⁰⁶ Fel yr amlinellir ym mharagraff 1.16, y disgwyliad oedd y byddai pob tîm cyflawni CaW+ yn cynhyrchu tua 90-120 o gysylltiadau y flwyddyn. Roedd hyn yn seiliedig ar gyfradd drosi uwch o 3-4 o gysylltiadau ar gyfer pob swydd a gafwyd, o'i gymharu â CaW, a ragdybiodd 6 chysylltiad ar gyfer pob swydd a gafwyd. Gan fod cymhareb y cysylltiadau a'r swyddi a gafwyd yn is, roedd hyn yn golygu bod disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer CaW+, o ran ymrwymadau, yn is, o'i gymharu â CaW, gan fod disgwyl y byddai angen llai o gysylltiadau ar gyfer pob swydd a gafwyd mewn perthynas â CaW+.

¹⁰⁷ Roedd y gymhareb o gysylltiadau i swyddi a gafwyd ar gyfer y ddwy raglen yn debyg iawn (2.4:1 ar gyfer CaW a 2.3:1 ar gyfer CaW+) ac fel yr amlinellir uchod, roedd y gymhareb hon yn llai na'r disgwyl, gan y bu angen llai na'r disgwyl o gysylltiadau ar gyfer pob swydd a gafwyd.

- 8.10. Mae'r bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, DWP a CCA (awdurdodau lleol neu CGS) yn un o ddatblygiadau arloesol allweddol CaW ac roedd hyn yn hollbwysig i'r rhaglen, yn enwedig yn ystod y pandemig, gan ei bod wedi helpu i gynnal atgyfeiriadau. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau diwylliannol a threfniadol rhwng DWP a'r CCA, a/neu gystadleuaeth rhwng timau DWP a CCA, yn enwedig lle roedd ardaloedd yn ei chael hi'n anodd cyrraedd targedau, weithiau wedi llesteirio gwaith tîm ar lefel weithredol.
- 8.11. Mae partneriaethau rhwng y rhaglenni a phartneriaid eraill wedi bod yn bwysig, fel ffynonellau atgyfeirio a/neu gymorth (gan gynnwys y rhaglenni hynny y mae CaW a CaW+ yn cyfeirio cyfranogwyr atynt). Serch hynny, nid yw'r cysylltiadau a ragwelwyd â rhai partneriaid, megis meddygon teulu, wedi cael eu gwireddu i'r graddau a ragwelwyd ac mae cystadleuaeth â rhaglenni cymorth cyflogaeth eraill, yn fwyaf nodedig Ailgychwyn, wedi creu tensiynau a theimlir bod hynny wedi atal cysylltiadau.
- 8.12. Yn bwysig ddigon, mae'r gwaith maes yn awgrymu bod y problemau a achosir gan y gwahaniaethau diwylliannol a sefydliadol rhwng timau DWP a CCA a'r ffaith bod meini prawf cymhwysra rhaglenni cyflogadwyedd yn gorgyffwrdd, wedi gwaethgu'n sylweddol mewn ardaloedd lle mae'n ymddangos bod y galw am gymorth cyflogaeth yn llai na chapasiti gwasanaethau cymorth cyflogaeth. Roedd hyn yn golygu bod staff DWP a CCA a rhaglenni gwahanol yn cael trafferth recriwtio digon o gyfranogwyr i gyrraedd eu targedau ac yn teimlo eu bod yn cystadlu am gyfranogwyr.
- 8.13. Yn olaf, wrth ystyried y rhaglenni, mae'n bwysig nodi y rhagorwyd ar y disgwyliaidau cychwynnol i CaW+ fod yn rhaglen gymharol fach wedi'i bwriadu i gefnogi CaW drwy helpu i lenwi'r bylchau a adawyd yn y seilwaith pan ddaeth CG i ben ac ymestyn cymorth cyflogaeth i'r rhai nad oeddent yn gymwys ar gyfer CaW. O ran maint, mae CaW+ yn debyg i CaW, mae timau CaW+ wedi rhagori ar ddisgwyliaidau Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas â nifer y cleientiaid a gafodd swyddi, ac fel yr amlinellir isod, mae'r dull a arloeswyd ganddi yn fwy hyblyg, ymatebol ac effeithlon mewn sawl ffordd na CaW.

Effaith y pandemig

- 8.14. Y pandemig COVID-19 oedd y sioc fwyaf a brofwyd gan y rhaglenni. Effeithiodd ar y gallu i gyflawni'r rhaglenni ac ar gymhelliant a galluoedd cyfranogwyr a'r cyfleoedd a oedd ar gael iddynt.

- 8.15. Cafodd y newid i weithio ar-lein, neu dros y ffôn, o'r cartref yn hytrach nag wyneb yn wyneb o leoliadau cymunedol effaith ar gysylltiadau ac ar y cymorth y gallai cynghorwyr neu fentoriaid ei darparu, ac fe'i hystyriwyd yn her benodol, yn enwedig mewn perthynas â'r rhai â rhwystrau mwy cymhleth; fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd 'dull un-i-un yn y gymuned sy'n gwneud i'r rhaglenni weithio'n dda'. I ddechrau, gwelwyd gostyngiad mewn cysylltiadau CaW a CaW+ yn ystod y ddau gyfnod clo, ond adferodd y lefelau wedyn.
- 8.16. Effeithiodd y pandemig COVID-19 ac ymatebion polisi fel cyfnodau clo ac atal ymrwymadau hawlwr, ar gymhelliant a galluoedd y cyfranogwyr, y cyfleoedd a oedd ar gael iddynt a'u hymddygiad. Er enghraifft:
- roedd wedi lladd cymhelliant llawer o gyfranogwyr, a oedd yn ofnus ac wedi digalonni yn sgil y cwmp mewn swyddi gwag a/neu nad oeddent bellach yn teimlo'r pwysau i ddod o hyd i waith, ond fe wnaeth hefyd ro hwb i niferoedd bach a gollodd eu swyddi yn ystod y pandemig;
 - fe wnaeth wella pwysigrwydd galluoedd fel llythrennedd digidol a'r gallu i fanteisio ar gymorth a gweithgarwch chwilio am swyddi ar-lein, ac roedd y rhai nad oeddent yn gwneud hyn yn cael trafferth;
 - roedd yn cyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael i bobl, megis hyfforddiant, gwirfoddoli neu leoliadau gwaith a allai gynyddu eu cyflogadwyedd, wrth i gyfleoedd gael eu hatal i ddechrau, ac wrth i gyfrifoldebau gofalu rhai pobl gynyddu, a hefyd eu gallu i fanteisio ar gyfleoedd gwaith (o ystyried y cwmp mewn swyddi gwag); a
 - newidiodd ymddygiad llawer o gyfranogwyr (roeddent yn llai gweithgar wrth chwilio am waith neu gymryd rhan mewn gweithgareddau fel hyfforddiant, a allai gynyddu eu cyflogadwyedd).
- 8.17. Gellir dadlau bod effaith y pandemig ar gyfranogwyr yn fwy na'r effaith ar gyflawni'r rhaglenni, o ystyried yr adroddwyd i'r rhaglenni gael eu rheoli a'u darparu'n effeithiol yn ystod cyfnod heriol iawn. Llwyddodd y rhaglen i addasu i ddarparu cymorth o bell, ond lleihaodd y cysylltiadau a'r deilliannau swyddi, oherwydd yr effaith ar gyfranogwyr.
- 8.18. Darparwyd rhywfaint o gymorth dros y ffôn neu drwy neges destun cyn y pandemig, a chyflymodd y pandemig y broses o ddarparu gwasanaethau brysbenno, cymorth a hyfforddiant o bell. I rai cyfranogwyr, mae hwn yn fodel mwy effeithlon, ac yn llai

cyffredin, yn fodel mwy effeithiol (yn yr achosion hynny lle roedd cleientiaid yn ymateb yn well i gymorth o bell) a daeth y rhai a gyfwelwyd i'r casgliad mai model cymorth hyblyg, cyfunol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yw'r ffordd ymlaen.

Cymhellion y cyfranogwyr, y cyfleoedd a oedd ar gael iddynt, eu galluoedd a'u hymddygiad

- 8.19. Dengys y gwaith maes bwysigrwydd ystyried cymhellion y cyfranogwyr, y cyfleoedd sydd ar gael iddynt, eu galluoedd a'u hymddygiad; Er enghraifft:
- gall diwygiadau lles sydd wedi cynyddu manteision ariannol symud ymlaen i waith, ond sydd hefyd mewn rhai achosion, wedi cwtogi incwm pobl, ysgogi cyfranogwyr, ond os nad oes ganddynt y gallu i chwilio am waith, gwneud cais am swyddi a/neu gynnal swyddi, gallant waethygu tlodi i bobl;
 - mae gwerth darparu cyfleoedd, megis hyfforddiant neu leoliadau gwaith, yn gwella pan gaiff ei ategu gan gamau gweithredu i gryfhau cymhelliant pobl a'u gallu i chwilio am waith a gwneud cais amdano (fel y mae CaW a CaW+ yn ei wneud); a
 - wrth i gymhlethdod rhwystrau darpar gyfranogwyr gynyddu (e.e. o ganlyniad i gyfyngiadau ar eu gallu i chwilio am waith, neu i ymgymryd â gwaith, a/neu i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth) roedd eu cymhelliant i ymgysylltu â rhaglenni gwirfoddol (nad ydynt yn orfodol) fel CaW a CaW+ yn tueddu i leihau. Gallai hyn gael ei waethygu gan rwystrau sy'n gysylltiedig â natur pobl, megis y gred na fyddent yn well eu byd yn ariannol mewn gwaith, a bu hyn o gymorth i egluro pam yr ystyriwyd yn gyffredinol ei bod yn haws ymgysylltu â phobl ifanc NEET (a oedd yn wynebu llai o rwystrau yn gyffredinol) o gymharu ag oedolion 25 oed a hŷn. Gallai hyn hefyd fod wedi cyfrannu at y ddibyniaeth fwy na'r disgwyl ar JCP fel ffynhonnell atgyfeiriadau. Roedd y cyfranogwyr a atgyfeiriwyd gan JCP bron yn sicr yn ymwneud â JCP ac mewn llawer o achosion, roedd yn debygol ei bod yn ofynnol iddynt fod wrthi'n chwilio am waith, ac felly'n fwy tebygol o geisio cymorth i ddod o hyd i waith gan brosiectau fel CaW a CaW+ neu o fod â diddordeb yn hynny, na'r rhai nad ydynt yn ymwneud â JCP.
- 8.20. Bydd gwaith allgymorth ac ymgysylltu effeithiol â'r rhai sy'n economaidd anweithgar, er enghraifft, yn hanfodol ar gyfer rhaglenni cymorth cyflogaeth y dyfodol (IES, 2021). Mae profiad CaW a CaW+ yn amlygu'r ffyrdd y gall sylfaen gymunedol a

chysylltiadau cymunedol, ynghyd ag ‘amodoldeb meddal’ gan JCP, helpu i ymgysylltu â'r rhai sy'n llawn cymhelliant – neu'n agored i berswâd – gan alluogi'r rhaglen i gryfhau eu cymhelliant, a hefyd eu galluoedd a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Serch hynny, mae'r ddibyniaeth drom ar JCP fel ffynhonnell atgyfeiriadau, yn awgrymu y gallai fod angen i raglenni cyflogadwyedd yn y dyfodol wneud mwy o ymdrech i estyn allan i ymgysylltu â grwpiau megis y rhai sy'n economaidd anweithgar, a hefyd grwpiau eraill fel pobl anabl, sy'n cael eu tangynrychioli yn y rhaglenni. O ran y bobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor, y rhai sy'n economaidd anweithgar, neu'r rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, mae'r rôl y gall y rhai y maent yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt ei chwarae o ran eu cyflwyno i raglenni cymorth cyflogaeth, fel CaW a CaW+, yn debygol o fod yn bwysig yma.

Effeithiolrwydd y rhaglenni o ran cyfrannu at amcanion allweddol Llywodraeth Cymru a'r UE

- 8.21. Mae perfformiad cryfach na'r disgwyl y rhaglenni o ran troi cysylltiadau yn ddeilliannau swyddi wedi helpu i wrthbwyo effaith perfformiad siomedig CaW mewn perthynas â chysylltiadau, a'r gostyngiad yng nghysylltiadau CaW+ yn ystod y pandemig, ac yn golygu bod y rhaglenni'n debygol o fod wedi gwneud cyfraniadau pwysig at leihau tlodi. Fodd bynnag, mae pryderon am ansawdd y gwaith, a thlodi mewn gwaith, yn golygu nad yw'r effaith mor fawr ag y gallai fod yn ôl pob tebyg. Ymchwilir ymhellach i effaith y rhaglenni yn yr adroddiad terfynol.
- 8.22. Mae'r rhaglenni hefyd yn gwneud cyfraniadau pwysig at amcanion cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, megis lleihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â rhywedd, ethnigrwydd neu anabledau pobl. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau o ran y graddau y mae'r rhaglenni wedi targedu gwaith gyda gwahanol grwpiau yn debygol o olygu bod effaith y rhaglenni ar wahanol grwpiau wedi bod yn anghyson.

Myfyrdodau ar fodelau CaW a CaW+ a rhaglenni cyflogadwyedd y dyfodol

- 8.23. Mae gan CaW a CaW+ fodelau a dulliau gweithredu tebyg. Y prif wahaniaeth yw'r ffaith bod gan CaW+ fwy o hyblygrwydd o ran gyda phwy mae'n gweithio (gan fod y meini prawf cymhwysra yn fwy hyblyg), sut mae'n eu cefnogi (yn fwyaf nodedig, gwell hygyrchedd ac ymatebolrwydd mewn perthynas â hyfforddiant a'r Gronfa Rwystrau) a sut y mae'n cofnodi hyn (gan nad yw'n ofynnol iddi gydymffurfio â

rheolau'r UE). Adroddwyd yn eang bod y cyfuniad o fwy o hyblygrwydd a llai o fiwrocratiaeth yn golygu bod rhaglen CaW+:

- yn fwy hygyrch ac yn fwy agored; yn benodol, nid oedd llawer o gefnogaeth ymhlith staff rheng flaen i gyfyngu ar gymhwysra i'r fath raddau ag y gwna CaW, ac er enghraifft dywedwyd bod oedi o ran caniatáu mynediad at y rhaglen, drwy ei gwneud yn ofynnol i oedolion 25 oed a hŷn fod yn ddi-waith am 12 mis neu fwy (neu fod yn economaidd anweithgar), yn gwrthgyferbynnu'n negyddol â meini prawf mwy hyblyg ar gyfer y rhai 16-25 oed neu ar gyfer CaW+;¹⁰⁸
- yn fwy ymatebol, ac felly'n fwy effeithiol a/neu'n gyflymach o ran diwallu anghenion a dyheadau cyfranogwyr; er enghraifft, fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd: 'os ydych am i rywbeth ddigwydd gyda CaW+, gallwch wneud iddo ddigwydd', ond dywedodd rheolwr cyflawni, gyda CaW, bod y rhaglen 'mor gymhleth. Hyd yn oed nawr mae'n rhaid i'r staff feddwl o hyd [alla i wneud hyn? Sut alla i wneud hyn?];'
- yn fwy effeithlon, gan fod llai o waith papur/biwrocratiaeth a mwy o hyblygrwydd o ran hyfforddiant (yr oedd rheolwyr cyflawni, cynghorwyr a mentoriaid yn teimlo ei fod yn cynnig gwell gwerth am arian na model hyfforddiant a brynir CaW¹⁰⁹); a
- yn fwy gwydn ac yn gallu ymateb yn well i siociau ar draws y rhaglen fel y pandemig COVID-19, a ddangosir gan y ffordd y gellid ehangu'r rhaglen, mewn ymateb i ragolygon o gynnydd mawr mewn diweithdra, a datblygiadau arloesol fel y rhaglen Chromebook a gyflwynwyd, o ystyried y ffordd y gwnaeth y pandemig COVID-19 ddwysáu effaith allgau digidol.

8.24. Felly, mae'r ymchwil ansoddol yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd yn ffafrio model CaW+. Er enghraifft, fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd, mae CaW+ yn 'fodel cyllido llwyddiannus. Mae hyblygrwydd CaW+ yn wych ac mae'r ffordd y mae'n ymateb i bobl yn anhygoel. Dyna'r sylfaen sydd ei hangen arnom. Mae'r hyblygrwydd yn help mawr'. Yn ogystal, mae'n bwysig nodi bod y gost fesul

¹⁰⁸ Teimlwyd bod y meini prawf cymhwysra hyn ar gyfer y rhai 25+ oed yn llesteirio cysylltiadau a gallent olygu bod effeithiau negyddol diweithdra hirdymor ar gymhelliant a galluoedd pobl a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt, yn dod yn fwy sefydledig, ac felly ei bod fwy costus ac yn arafach mynd i'r afael â nhw. Teimlwyd hefyd y gallai meini prawf cymhwysra CaW ar gyfer oedolion 25+ oed fod yn anfantais i'r rhai a oedd yn cael swydd, ond heb allu ei chadw neu'r rhai sy'n dioddef o dlodi mewn gwaith.

¹⁰⁹ Mae'r data hwn yn anecdotaid, ac mae angen dadansoddiad pellach o gostau cymharol model a brynir yn ganolog o'i gymharu â model a brynir yn lleol.

deilliant swydd ar gyfer CaW+ (£3,368) yn 2020/21 bron i hanner y gost fesul deilliant swydd ar gyfer CaW (£6,476).

8.25. Fodd bynnag, mae elfennau o fodel CaW+ sy'n codi cwestiynau am raglenni cyflogadwyedd yn y dyfodol, a oedd yn cael eu hategu gan CaW, neu a ystyriwyd yn llai effeithiol na'r rhaglenni cyfatebol yn CaW. Er enghraifft:

- mae natur agored CaW+ yn codi cwestiynau ynghylch targedu – gan fod y data ansoddol a meintiol yn awgrymu bod CaW yn gweithio gyda mwy o oedolion 25 oed a throsodd a chanddynt rwystrau mwy cymhleth (sy'n golygu bod ganddynt felly fwy o anghenion) nag y gwna CaW+ – a'r defnydd gorau o adnoddau prin;
- roedd CaW+ hefyd yn gallu 'neidio ar gwt' y rhaglen CaW, ac elwa ar, er enghraifft, y cysylltiadau agos rhwng CaW a JCP a'r canllawiau a'r dulliau gweithredu a arloeswyd gan CaW. Roedd CaW hefyd yn gallu elwa ar rolau CaW+ fel Swyddogion Ymgysylltu â Chyfranogwyr a Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr;
- ystyriwyd bod y cyllid blynyddol ar gyfer CaW+ yn her, a allai gynyddu trosiant staff a/neu lesteirio recriwtio – ac fel y nodwyd mae staff yn ased allweddol ar gyfer y ddwy raglen ac yn golygu na ellir trosglwyddo tanwariant neu orwariant dros fwy nag un flwyddyn ariannol; a
- mae'r set ddata lai a gesglir gan CaW+, yn cyfyngu ar y gallu i asesu perfformiad y rhaglen, er enghraifft, o ran estyn allan a chefnogi grwpiau gwahanol i gael gwaith.

Dull system gyfan o gynyddu cyflogaeth

8.26. Mae'r ymchwil ansoddol hefyd yn awgrymu gwerth dull system gyfan o roi cymorth cyflogaeth, sy'n canolbwyntio ar ystod o wasanaethau ac sy'n seiliedig ar bartneriaeth gref a pherthynas gydweithredol rhyngddynt, ar lefel ALI (ac yn cwmpasu'r ALI cyfan, yn hytrach nag ardaloedd/codau post penodol yn unig). Dywedir bod modelau sy'n seiliedig ar un pwynt cyswllt a mynediad at ystod o raglenni cyflogaeth gwahanol yn haws i bartneriaid, gan nad oes angen iddynt ddewis pa raglen i atgyfeirio rhywun ati, na phoeni am y gwahanol feini prawf cymhwysra ar gyfer gwahanol raglenni. Fodd bynnag, ystyriwyd bod rhaglenni DWP fel Ailgychwyn, sydd y tu allan i strwythurau ALLau, ond a allai orgyffwrdd â rhaglenni ALLau neu Lywodraeth Cymru, yn her allweddol. Roedd yn ymddangos hefyd nad

oedd y berthynas rhwng strwythurau ALlau sy'n darparu mynediad i ystod o raglenni cyflogadwyedd, a Cymru'n Gweithio, sy'n gallu chwarae rhan debyg, bob amser yn cael ei deall yn llawn.

8.27. Dylai un pwynt mynediad at gymorth cyflogadwyedd, ynghyd â phrosesau brysbennu effeithiol, helpu i sicrhau bod cyfranogwyr yn ymuno â'r rhaglen sy'n diwallu eu hanghenion orau. Gallai hyn hefyd helpu i leihau tensiwn neu gystadleuaeth rhwng gwahanol raglenni cymorth cyflogaeth, er efallai y bydd hyn ond yn bosibl pan nad yw capasiti'r ystod o raglenni cymorth cyflogaeth mewn ardal yn fwy na'r galw. Lle roedd y capasiti yn fwy na'r galw, awgrymodd y rhai a gyfwelwyd y dylid lleihau'r targedau ar gyfer rhaglenni unigol, neu leihau nifer y rhaglenni, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar wella'r cydgysylltu drwy fodel un pwynt mynediad a brysbennu.

8.28. Fodd bynnag, wrth ystyried y galw, mae'n bwysig ystyried y diffyg cyfatebiaeth rhwng nifer y bobl sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar mewn ardal benodol, a'r niferoedd sydd mewn gwirionedd yn ceisio cymorth i ddod o hyd i swyddi neu sydd wedi cael eu perswadio i wneud hynny. Fel y nodir uchod, bydd allgymorth ac ymgysylltu effeithiol, er enghraifft, â'r rhai sy'n economaidd anweithgar (ac felly nad ydynt yn chwilio am waith ar hyn o bryd), yn hanfodol ar gyfer cynyddu effaith rhaglenni cymorth cyflogaeth y dyfodol ar dlodi (IES, 2021). Mae hyn yn debygol o ofyn am ddealltwriaeth gadarn o pam nad yw'n ymddangos bod mwy o bobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor neu'n economaidd anweithgar yn mynd ati i geisio cymorth gan raglenni fel CaW a CaW+ i'w helpu i ddod o hyd i waith. Er enghraifft, gallai hyn adlewyrchu:

- eu hamgylchiadau personol, a rhwystrau fel cyfrifoldebau gofalu neu lefel isel o sgiliau sy'n cyfyngu ar eu galluedd;
- eu canfyddiadau o ansawdd ac ystod y cyfleoedd yn y farchnad lafur y maent yn teimlo y gallant deithio iddynt, o ystyried cost, ymarferoldeb ac anhawster teithio; a/neu
- eu disgwyliadau o gostau a manteision personol ac ariannol tebygol dechrau gweithio, a fydd yn dylanwadu ar eu cymhelliant i ymgysylltu â chymorth cyflogaeth a goresgyn rhwystrau posibl, er enghraifft.

8.29. Mae'r ymchwil ansoddol hefyd yn awgrymu:

- bod cysylltiadau effeithiol â gwasanaethau cymorth eraill, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan y sector gwirfoddol, megis CAB a MIND, yn bwysig, a gall

gwendidau mewn gwasanaethau, megis gwasanaethau iechyd meddwl, lle ceir rhestrau aros hir, er enghraifft, danseilio effeithiolrwydd rhaglenni fel CaW a CaW+; a

- y gall cyfleoedd rhaglenni fel CaW a CaW+ i helpu cyfranogwyr i oresgyn rhwystrau strwythurol, megis cost uchel gofal plant, prinder darpariaeth gofal plant mewn rhai ardaloedd, darpariaeth wan o ran trafndiaeth gyhoeddus, megis annibynadwyedd neu gysylltiadau trafndiaeth cyfyngedig mewn rhai ardaloedd, a gwaith â thâl isel neu waith sy'n gofyn am lefel isel o sgiliau, heb lawer o gyfleoedd i gamu ymlaen, fod yn gyfyngedig, ac mae angen gweithredu mewn mannau eraill yn y system (gan na all rhaglenni cyflogadwyedd fel CaW neu CaW+ fynd i'r afael â hyn).

8.30. O ystyried y rhagolygon ar gyfer chwyddiant uchel ac argyfwng costau byw, gall trechu tlodi mewn gwaith ddod yn fwyfwy pwysig dros weddill cyfnod y rhaglenni. Dywedwyd bod y nifer a oedd yn manteisio ar gymorth yn y gwaith, gan gynnwys cymorth ffurfiol, yn fwyaf nodedig cymorth ariannol a chyingor ac arweiniad mwy anffurfiol yn aml, yn gymharol isel o ran y ddwy raglen, ond yn werthfawr lle mae hynny'n digwydd. Gallai cryfhau'r cysylltiadau rhwng rhaglenni sy'n cynnig cymorth cyflogadwyedd i'r rhai sy'n dymuno uwchsgilio, ar ôl i bobl ddechrau gweithio, fod yn bwysig yma hefyd.

9. **Argymhellion a gwersi ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd yn y dyfodol**

- 9.1. Er nad yw'r gwerthusiad wedi'i gwblhau eto a bod angen gwerthusiad pellach o agweddau ar fodel CaW+, megis rôl y Swyddog Ymgysylltu â Chyfranogwyr a'r Swyddog Cyswllt Cyflogwyr, mae'r gwerthusiad yn awgrymu nifer o wersi allweddol ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd yn y dyfodol. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn awyddus i'r hyn a ddysgwyd gan CaW a CaW+ gael ei ddefnyddio ac i'w profiadau helpu i lunio rhaglenni newydd er mwyn osgoi gorfod 'ailldwyfeisio'r olwyn yn barhaus' fel y dywedodd rhywun.

Argymhellion ar gyfer CaW a/neu CaW+

- 9.2. Er mwyn sicrhau bod y rhaglenni'n cyfrannu cymaint â phosibl at nodau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, mae angen cymryd camau mwy rhagweithiol i gyrraedd grwpiau allweddol ac ymgysylltu â nhw, megis pobl anabl a phobl o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae cronfa ddata fanwl CaW yn cynnig cyfle i ymchwilio ymhellach i wahaniaethau mewn perfformiad ar draws gwahanol ardaloedd a gallai ymholiad gwerthfawrogol fod yn briodol i nodi arferion da mewn ardaloedd â pherfformiad cryfach.
- 9.3. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch pa mor ddibynadwy yw'r broses a ddefnyddir gan y rhaglenni i adnabod cyfranogwyr anabl byddai'n briodol ystyried cyflwyno cwestiwn newydd i'w ofyn i gyfranogwyr fel rhan o'r broses gofrestru. Mae achos cryf dros ddefnyddio'r un cwestiynau ar draws gwahanol raglenni cyflogadwyedd (i hwyluso meincnodi), a gallai hyn, er enghraifft, ddefnyddio cwestiwn Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth: (a) A oes gennych unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch sy'n para neu y disgwylir iddo bara am 12 mis neu fwy? ac os oes (b) A yw eich cyflwr neu salwch/a oes unrhyw un o'ch cyflyrau neu salwch yn lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd? Byddai'r cyfranogwyr sy'n ateb 'oes/ydw' i'r ddau gwestiwn hyn yn cael eu cofnodi fel rhai ag anabledd.
- 9.4. Er nad oes 'bwled arian' a all gynyddu cysylltiadau neu arallgyfeirio'r sianel atgyfeirio, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall camau ymarferol, megis codi a chynnal ymwybyddiaeth o'r rhaglenni gyda phartneriaid; cysylltu'n gyflym â'r rhai sy'n cael eu hatgyfeirio; a'u helpu a rhoi adborth i bartneriaid atgyfeirio ar sut y cawsant eu helpu ac unrhyw ddeilliannau, feithrin ymddiriedaeth ac annog atgyfeiriadau yn y dyfodol. Bydd rhannu arferion da yn y maes hwn ar draws y rhaglenni yn bwysig.

- 9.5. Mae'r pandemig wedi helpu i gyflymu'r broses o ddarparu cymorth a hyfforddiant ar-lein, neu dros y ffôn, ac wrth symud ymlaen, mae dull hyblyg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n cyfuno cyswllt wyneb yn wyneb ac ar-lein neu dros y ffôn, yn briodol.
- 9.6. O ystyried y diffyg cyfatebiaeth ymddangosiadol rhwng galw a chapasiti mewn rhai ardaloedd, byddai archwilio'r posibilrwydd o roi mwy o hyblygrwydd i reolwyr cyflawni CaW o ran, er enghraifft, dyrannu cynghorwyr a mentoriaid i wahanol ardaloedd (o fewn ALI) a/neu grwpiau (fel y rhai y bernir bod angen cymorth arnynt am fwy na 12 mis cyn eu bod yn barod i gael gwaith neu'r rhai y bernir bod angen llai o gymorth arnynt na hynny) yn briodol.
- 9.7. Bydd rheoli effaith bosibl colli staff ar y rhaglenni, o ystyried y ffaith bod cyllid ESF ar gyfer CaW wedi dod i ben, yn bwysig. Nid yw'r gwerthusiad wedi canfod ateb syml ac mae'n debygol y bydd yn briodol archwilio'r hyn y gellir ei wneud i gadw staff ochr yn ochr â chynlluniau wrth gefn ar sut i reoli effaith rolau staff heb eu llenwi.

Gwersi allweddol ac argymhellion ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd yn y dyfodol

- 9.8. Mae angen a galw clir am gymorth cyflogadwyedd gan raglenni fel CaW a CaW+. Fodd bynnag, er mwyn cynyddu eu heffaith ar leihau tlodi, efallai y bydd angen gwneud rhagor o waith i gefnogi pobl i gamu ymlaen mewn gwaith, ac efallai y bydd angen gwneud newidiadau i'r dulliau mesur deilliannau (sy'n canolbwyntio ar hyn o bryd ar sicrhau bod cleientiaid yn cael swyddi, yn hytrach nag ar ansawdd y gwaith) i leihau'r risgiau y bydd pobl yn gaeth mewn 'gwaith gwael' (ac mewn perygl o ddiodef tlodi mewn gwaith).
- 9.9. Gall model cymunedol gynyddu amlygrwydd a hygyrchedd rhaglenni cymorth cyflogaeth a helpu i feithrin hunaniaeth unigryw i'w gwahaniaethu oddi wrth JCP, ond nid yw hyn ynddo'i hun yn ddigon i ennyn cysylltiadau gan gymunedau. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o ymchwil a threialu dulliau arloesol newydd o gynyddu cysylltiadau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, canolbwyntio ar:
- fodelau broceriaeth, ble y bydd gan y rhai y mae pobl ddi-waith yn yr hirdymor, y rhai sy'n economaidd anweithgar, neu'r rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt ran allweddol i'w chwarae o ran eu cyflwyno i raglenni cymorth cyflogaeth;
 - mwy o 'brif ffrydio' cymorth cyflogaeth yng ngwasanaethau eraill y sector cyhoeddus a gwirfoddol sy'n gweithio gyda'r rhai sydd wedi bod yn ddi-waith

am gyfnod hir, y rhai sy'n economaidd anweithgar, neu'r rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Gallai modelau megis y bartneriaeth rhwng GAVO a Mind (ym Mlaenau Gwent), rhwng CaW a meddygfeydd (yn Sir y Fflint) a'r ystod o bartneriaethau y mae Môn CF wedi'u ffurfio (yn Ynys Môn) a amlinellir yn adran pedwar, gynnig enghreifftiau y gellir eu datblygu a /neu eu hehangu; a

- ymchwilio i fodelau eraill, megis y Model Jobs-Plus¹¹⁰ yn UDA (IES, 2021).

- 9.10. Mae CaW a CaW+ yn awgrymu y gall model ymgysylltu gwirfoddol helpu i gynyddu cymhelliant ac ymgysylltiad pobl â rhaglenni cymorth cyflogaeth, ond mae angen mwy o waith i wella ffyrdd o ymgysylltu â'r rhai sydd â diffyg cymhelliant. Gall 'amodoldeb meddal', er enghraifft, lle mae ymgysylltu â rhaglen fel CaW neu CaW+ yn rhan o ymrwymiad hawliwr, helpu i gyflwyno pobl i raglenni o'r fath a allai eu helpu, ond ni fydd ynddo'i hun yn sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n effeithiol.
- 9.11. Mae un pwynt mynediad i gymorth cyflogadwyedd, wedi'i ddilyn gan broses frysbenno i baru pobl â'r rhaglen sydd fwyaf addas i'w helpu i wireddu eu dyheadau a diwallu eu hanghenion, yn briodol.
- 9.12. Ni all effeithiolrwydd rhaglenni cymorth cyflogaeth fel CaW a CaW+ fod yn fwy nag effeithiolrwydd ei staff rheng flaen ac felly mae recriwtio, hyfforddi a chadw staff sydd â'r sgiliau a'r ethos cywir yn hanfodol.
- 9.13. Dylid mabwysiadu dull o gynllunio cymorth cyflogadwyedd sy'n seiliedig ar system gyfan, sy'n ystyried (i) cydweddiad strategol gwahanol raglenni cyflogadwyedd i sicrhau eu bod yn ategu ei gilydd yn hytrach na dyblygu eu cynnig; a (ii) y galw presennol a'r galw a ragwelir yn y dyfodol am gymorth cyflogadwyedd - ac felly'r capasiti sy'n briodol i ddiwallu hyn. Yn wir, gosodir hyn allan fel nod yn Strategaeth Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru, Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau ([Llywodraeth Cymru, 2022c](#)). Er enghraifft yr amcan i 'Blaenoriaethu a chydgrynhoi cymorth cyflogadwyedd cenedlaethol a arweinir gan Lywodraeth Cymru targedu pobl ifanc, y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y

¹¹⁰ Mae'r model Jobs Plus yn canolbwyntio ar dair elfen gefnogol: 'Intensive, co-ordinated and neighbourhood-based support to prepare for and find work – delivered through an integrated local hub that brings together housing, employment and other local partners, and which is open to all in the targeted community – a saturation approach – rather than specific groups of residents (so removing barriers and stigma in taking part)'; 'Community support for work – with residents providing peer support, outreach, and championing the service – as well as engaging in local design and oversight' and 'Rent incentives to make work pay – so ensuring that it always pays to work, and that transitional costs including transport, childcare or suits and boots can be covered'. ([Wilson a McCallum, 2018](#), tud. 3).

farchnad lafur a'r rhai sydd i mewn ac allan o waith sydd â chyflyrau iechyd hirdymor i ddod o hyd i waith a chamu ymlaen mewn cyflogaeth'. Fodd bynnag, fel y mae profiad Ailgychwyn yn ei ddangos, mae penderfyniadau gan Lywodraeth y DU (a DWP) a disodli'r ESF gyda Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU, yn cymhlethu hyn (gan mai awdurdodau lleol yn hytrach na Llywodraeth Cymru fydd yn dod yn fwyfwy cyfrifol am wneud penderfyniadau). Mae'n bosibl felly y bydd angen i Lywodraeth Cymru gyflawni mwy drwy ddylanwadu ar y system gyflogaeth ehangach na thrwy ariannu a chomisiynu rhaglenni newydd yn uniongyrchol (IES, 2021). Yn ogystal â hynny, mae cysylltu cymorth cyflogadwyedd â champau gweithredu ehangach i fynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau pobl, er enghraifft, cyfrifoldebau gofal plant neu ddiffygion mewn trafndiaeth gyhoeddus, yn debygol o fod yn briodol (Ibid.).

- 9.14. Roedd y bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, JCP, ALIau a CGS, yn gryfder allweddol yn rhaglen CaW (a dylid ei hystyried mewn rhaglenni yn y dyfodol), ac mae ei chyfraniad at y sianel atgyfeirio wedi bod yn hanfodol i lwyddiant CaW a CaW+. Fodd bynnag, creodd hefyd densiynau ar lefel weithredol, a chymerodd amser i oresgyn rhwystrau a oedd yn gysylltiedig â gwahaniaethau diwylliannol a sefydliadol a chyfrannodd at orddibyniaeth ar JCP ar gyfer atgyfeiriadau (sydd angen eu hystyried hefyd os caiff y model hwn ei efelychu yn y dyfodol).
- 9.15. Mae CaW a CaW+ yn awgrymu y gall modelau fel cydleoli gwahanol dimau a rhaglenni cyflogaeth helpu i gryfhau cydweithredu ar lefel weithredol, ar yr amod bod digon o alw, fel nad yw gwasanaethau neu dimau yn cystadlu am yr un cyfranogwyr.
- 9.16. Mae model CaW+, sy'n fwy agored a hygyrch ac yn fwy hyblyg na model CaW, yn fwy ymatebol ac yn cael ei ffafrio'n gyffredinol gan y rhai sy'n cyflwyno'r rhaglenni ond mae hefyd wedi'i dargedu'n llai penodol (neu effeithiol) at y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur.
- 9.17. Mae maint y data a gesglir am gyfranogwyr CaW yn creu set ddata gyfoethog, ac yn cynnig llawer mwy o gyfle i archwilio nodweddion ac effeithiolrwydd y rhaglen o ran cefnogi gwahanol grwpiau o gyfranogwyr. Fodd bynnag, mae casglu'r data hyn yn ychwanegu at y costau ac mae'r cyfle i ddadansoddi a defnyddio'r data'n effeithiol yn cael ei lesteirio gan y penderfyniad i'w fewnbynnu i daenlen yn hytrach na chronfa ddata rheoli cleientiaid mwy soffistigedig. Mae angen asesu gofynion data'r presennol a'r dyfodol (ar gyfer rheoli'r rhaglenni, ymchwil a gwerthuso), ac ystyried

pa ddata sy'n cael eu casglu, sut y maent yn cael eu storio, a chostau gwneud hynny.

- 9.18. Mae'r gwerthusiad yn dangos yr effaith y mae disgwyliadau cychwynnol rhaglen o ran cysylltiadau a nifer y cleientiaid a gafodd swyddi (ac felly'r targedau a osodwyd) yn ei chael ar y farn am berfformiad y rhaglenni. Mae meincnodi perfformiad yn erbyn rhaglenni cymaradwy yn rheolaidd yn debygol o fod yn bwysig wrth raddnodi'r disgwyliadau a ddefnyddir i osod targedau ar gyfer rhaglenni, er mwyn sicrhau eu bod yn heriol ond yn gyraeddadwy, a'i bod yn haws ystyried perfformiad cymharol gwahanol raglenni
- 9.19. Mae angen ymchwilio ymhellach i'r gwerth am arian a gynigir gan fodel hyfforddiant CaW a brynir yn ganolog o'i gymharu â dewisiadau eraill megis model yn seiliedig ar y farchnad CaW+.
- 9.20. Nid yw'n glir i ba raddau y gellir prif ffrydio dulliau effeithiol o ymgysylltu a chefnogi grwpiau a all fod â rhwystrau cymhleth, megis rhai pobl anabl. Weithiau gall eu hanghenion gael eu diwallu'n well gan raglenni wedi'u targedu, fel Engage to Change¹¹¹. Mae'n bosibl ei bod yn briodol prif ffrydio cymorth i wahanol grwpiau mewn rhaglenni fel CaW a CaW+ yn ogystal â datblygu neu ariannu rhaglenni wedi'u targedu'n well, fel Engage to Change. Fel yr amlinellir uchod, dylid hefyd ystyried cynllunio a rheoli gwahanol raglenni cyflogadwyedd, fel rhan o ddull gweithredu systemau cyfan, er mwyn sicrhau cydlynid (a lleihau dyblygu neu gystadleuaeth ddiangen); hygyrchedd (er enghraifft, drwy yn pwynt mynediad i raglenni cyflogadwyedd); ac asesu ac aseinio, i baru pobl â'r rhaglen fwyaf priodol (er enghraifft, drwy rolau fel gweithwyr brysbennu).

¹¹¹ Rhaglen gyflogadwyedd sy'n cefnogi pobl ifanc 16-25 oed sydd ag anawsterau dysgu, anabledd dysgu a/neu awtistiaeth yw Engage to Change.

10. Cyfeiriadau

Banc Lloegr (2022). [Monetary Policy Report – August 2022](#).

Brewer, M. a Tasseva, I. V. (2021) Did the UK policy response to Covid-19 protect household incomes? *Journal of Economic Inequality*, 19, 433–458.

Swyddfa'r Cabinet (2010), [State of the Nation Report: Poverty, Worklessness and Welfare Dependency in the UK](#).

Canolfan Cyngor ar Bopeth (2015). [Hefyd ar gael yn Gymraeg : Deall y defnydd a'r diffyg defnydd o wasanaethau Cymraeg - Adroddiad cryno](#).

Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (2021), [UK Shared Prosperity Fund: prospectus](#), Economics Observatory (2021), [What are the big economic challenges facing the new Welsh Government](#).

Grŵp Cynghorol BAME y Prif Weinidog ar Covid-19, [Adroddiad yr is-grŵp economaidd-gymdeithasol](#), Mehefin 2019.

Hasluck, C. (2011), [Low Skills and Social Disadvantage in a Changing Economy](#), UKCES Briefing Paper Series,

Trysorlys EM (2020). [The Magenta Book: Central Government guidance on evaluation](#).

Holtom, D, Bottrill, I and Watkins, J. (2013). [Tlodi ac Ethnigrwydd yng Nghymru](#).

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, (2022a): [Coronavirus: Impact on the Labour Market](#).

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, (2022b). [UK disability statistics: Prevalence and life experiences](#).

Institute of Employment Studies (2021) *Rapid review of employment policy and context*. Papur heb ei gyhoeddi.

McCurdy C. (2020) [From locking down to levelling up](#).

Michie S., van Stralen, M. M. a West, R. (2011) The behaviour change wheel: a new method for characterising and designing behaviour change interventions, *Journal of Implementation Science* 6, Article number 42 (2011) *Journal of Implementation Science* 6, Article number 42 (2011).

Mullainathan, S., a Shafir, E. (2013). *Scarcity: Why having too little means so much*. Efrog Newydd: Times Books.

Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2021). [Brexit analysis](#).

Y Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau Iechyd (2022). [Research and Analysis: Important Findings](#).

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020) [Coronavirus and the Impact on UK households and businesses: 2020](#).

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) [ONS Claimant count and vacancies time: November 2021](#).

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022) [A guide to labour market statistics](#).

Ragin, C. (1987). *The Comparative Method: Moving Beyond Qualitative and Quantitative Strategies*. Gwasg Prifysgol California.

Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd (2021). [Aros yn iach? Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru](#), [Gwefan y Senedd](#).

Ymchwil y Senedd (2021a), [Coronafeirws: diweithdra ymysg pobl ifanc](#).

Ymchwil y Senedd (2021b), [Y Cyflog Byw 'gwirioneddol' a gwaith teg: Beth yw'r datblygiadau diweddaraf?](#)

Ymchwil y Senedd (2021c), [Coronafeirws: diweddariad mis Mawrth ar y farchnad lafur](#).

StatsCymru (2022a) [Cyfradd gyflogaeth yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn](#).

StatsCymru (2022b) [Crynodeb o weithgarwch economaidd yng Nghymru yn ôl blwyddyn ar ethnigrwydd](#).

StatsCymru (2022c) [Salwch neu anabledd hirdymor cyfyngol yn ôl awdurdod lleol](#).

Ystadegau ar gyfer Cymru (2018a). [Key economic statistics - May 2018](#).

Ystadegau ar gyfer Cymru (2020a). [Ystadegau economaidd allweddol: Mawrth 2020](#).

Ystadegau ar gyfer Cymru (2020b). *Bwletin Ystadegol Hydref 2020*, [Gwefan Ystadegau ar gyfer Cymru](#).

Ystadegau ar gyfer Cymru (2021a). [Trosolwg o'r farchnad lafur: Tachwedd 2021](#).

Ystadegau ar gyfer Cymru (2021b). [Lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio: 2020](#), [Gwefan Ystadegau Cymru](#).

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2021). [Gwerthusiad Cronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC, Adroddiad Interim Cam 3: Crynodeb Gweithredol Crynodeb Gweithredol](#).

Llywodraeth Cymru (2012) *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi*. Caerdydd; Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014a) [Rhaflen Weithredol Cronfa Gymdeithasol Ewrop yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd](#).

Llywodraeth Cymru (2014b) [Rhaglen Weithredol Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn Nwyrain Cymru.](#)

Llywodraeth Cymru (2014c) [Datganiad Polisi ar Sgiliau.](#)

Llywodraeth Cymru (2015a) [Strategaeth Tlodi Plant Cymru.](#)

Llywodraeth Cymru (2015b) [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015: Yr Hanfodion.](#)

Llywodraeth Cymru (2017a) [Gwerthusiad Cymunedau am Waith: Cam 1: Theori Newid a Model Rhesymeg.](#)

Llywodraeth Cymru (2017b) [Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.](#)

Llywodraeth Cymru (2017c) [Gwerthusiad Cymunedau am Waith: Cam 2: Adroddiad Gwerthuso Prosesau ac Allbwn.](#)

Llywodraeth Cymru (2019). [Dadansoddiad o effaith diwygiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r system les ar aelwydydd yng Nghymru.](#)

Llywodraeth Cymru (2018a). [Gwerthusiad Cymunedau am Waith.](#)

Llywodraeth Cymru (2018b) [Cynllun Cyflogadwyedd.](#)

Llywodraeth Cymru (2019a). [Dadansoddiad o effaith diwygiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r system les ar aelwydydd yng Nghymru.](#)

Llywodraeth Cymru (2019b). [Diweddariad gan y Prif Ystadegydd: trafodaeth am ddata ar y Gymraeg sy'n deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.](#)

Llywodraeth Cymru (2020a) [Nodau, Amcanion a Chamau Gweithredu Cydraddoldeb y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024.](#)

Llywodraeth Cymru (2020b) [Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau.](#)

Llywodraeth Cymru (2020c) [Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru.](#)

Llywodraeth Cymru (2020d) [Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Canllaw ymarferol i gyflogwyr ynglŷn â chyflogi pobl anabl.](#)

Llywodraeth Cymru (2020e) [Astudiaeth o Gymorth Cyflogaeth a Sgiliau i Ffoaduriaid, Gwefan Llywodraeth Cymru.](#)

Llywodraeth Cymru (2020f) [Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Canllaw ymarferol i gyflogwyr ynglŷn â chyflogi pobl anabl.](#)

Llywodraeth Cymru (2022a) [Datganiad Ysgrifenedig: Colli cyllid i Gymru o ganlyniad i drefniadau Llywodraeth y DU ar gyfer cyllid i ddisodli cyllid UE.](#)

- Llywodraeth Cymru (2022b) [Ystadegau cydraddoldeb ac amrywiaeth: 2018 i 2020.](#)
- Llywodraeth Cymru (2022c) [Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sqiliau: crynodeb.](#)
- Llywodraeth Cymru (2023a) [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.](#)
- Llywodraeth Cymru (2023b) [Gwerthusiad o'r prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth \(PaCE\): gwerthuso crynodol terfynol.](#)
- Llywodraeth Cymru (dim dyddiad, a) Business Plan 2014-2020: Communities for Work, East Wales Priority 1.
- Llywodraeth Cymru (dim dyddiad, b) Business Plan 2014-2020: Communities for Work, East Wales Priority 3.
- Llywodraeth Cymru (dim dyddiad, c) *CfW - Extension 2022 - Re-evaluation Business Plan Addendum - WWVP1.*
- Llywodraeth Cymru (dim dyddiad, d) *CfW - Extension 2022 - Re-evaluation Business Plan Addendum - EWP1.*
- Llywodraeth Cymru (dim dyddiad, c) *CfW - Extension 2022 - Re-evaluation Business Plan Addendum - WWVP3.*
- Llywodraeth Cymru (dim dyddiad, f) *CfW - Extension 2022 - Re-evaluation Business Plan Addendum - EWP3.*
- Llywodraeth Cymru (dim dyddiad, g) *CfW+ application guidance.*
- Westhorp, G. (2014). [Realist impact evaluation: an introduction,](#)
- White, H. a Phillips, H. (2012) '[Addressing attribution of cause and effect in small impact evaluations: towards an integrated framework](#)'.
- Wilson, T a McCallum, (2018). [Developing a Jobs-Plus model for the UK.](#)

Atodiad A. Offerynnau ymchwil enghreifftiol

Canllaw cyfweiliadau CaW

Staff Rheoli CaW/CaW+ yn DWP ac ALlau

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu OB3, Dateb, People and Work, Prifysgol Caerdydd ac IFF Research i werthuso gweithrediad ac effaith rhaglenni CaW a CaW+. Mae sawl rhan i'r gwerthusiad, gan gynnwys cyfweiliadau â rhanddeiliaid fel chi, sy'n ymwneud â rheoli a darparu CaW neu CaW+.

Bydd deunydd o'r cyfweiliadau, ynghyd â data arall o'r gwerthusiad yn cael eu defnyddio i lywio adroddiadau i Lywodraeth Cymru, y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi. Ni fydd yr adroddiadau yn cyfeirio atoch wrth eich enw. Os oes unrhyw beth arbennig o sensitif yr ydych am i ni ei drin fel rhywbeth 'answyddogol' sy'n cynorthwyo ein dealltwriaeth, ond na fydd yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau, rhowch wybod i mi.

[Rhowch daflen wybodaeth mewn iaith glir a hysbysiad preifatrwydd i'r sawl sy'n cael ei gyfweld os na wnaed hynny eisoes]

A ydych yn fodlon cymryd rhan yn y gwerthusiad? A oes gennych unrhyw gwestiynau?

[Sicrhewch eu bod yn deall bod cymryd rhan yn wirfoddol, y gallant ofyn cwestiynau a'u bod yn cydsynio i gymryd rhan]

Er gwybodaeth **nodau'r** gwerthusiad yw:

- Adolygu newidiadau i'r ffordd y cyflawnir gweithrediadau CaW a rhaglen CaW+ ers i gamau blaenorol CaW o 2015-2018 gael eu werthuso;
- Asesu i ba raddau y mae nodau'r rhaglen a'r gweithrediad wedi'u cyflawni a'r targedau wedi'u cyrraedd ar gyfer oes y rhaglenni ers 2015;
- Darparu tystiolaeth o ddeilliannau'r rhaglenni i unigolion a'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio;
- Cynnal gwerthusiad o effaith gwrthffeithiol y rhaglenni, gan ddarparu tystiolaeth o'r effaith ar gyfranogwyr o gymharu â grŵp gwrthffeithiol.

Amlygir cwestiynau allweddol ar gyfer y gwerthusiad mewn print **trwm** yn y canllaw.

Enw'r cyfwelydd:	
Enw'r sawl a gyfwelir:	
Lleoliad / ardal	
Dyddiad	

Cyflwyniad

- 1. I ddechrau, a allwch ddweud wrthyf yn gryno am eich rôl a'ch cyfrifoldebau presennol mewn perthynas â CaW a/neu CaW+?**

Cyd-destun CaW a/neu CaW+

- 2. A allwch ddweud wrthyf sut y mae CaW a CaW+ yn 'cyd-fynd' â rhaglenni eraill fel Cymru'n Gweithio, Ailgychwyn, a'r cymorth y mae JCP yn ei gynnig?**

- A yw pobl yn cael eu hatgyfeirio i neu o CaW/CfW+ i'r rhaglenni hyn?
- Pa effaith y maent yn ei chael ar gysylltiadau?
- A oes gorgyffwrdd rhwng yr hyn yr ydych chi'n ei wneud ac yn ei gynnig a'r hyn y maen nhw'n ei wneud ac yn ei gynnig? Os felly, beth yw'r rhain?
- Sut y mae'r berthynas rhwng gwahanol raglenni'n cael ei rheoli?

- 3. A allwch ddisgrifio'r berthynas rhwng CaW a CaW+ [lle y bo'n berthnasol – nid yw CaW ar gael ym mhob ardal]? Sut ydych chi'n cydweithio?**

- A yw Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr a Swyddogion Ymgysylltu â Chyfranogwyr CaW+ yn cefnogi CaW? Sut?
- A yw adnoddau CaW+ yn cael eu defnyddio i gefnogi CaW?¹¹²

¹¹² Dywedwyd y gellir defnyddio cyllid CaW+ i dalu costau anghymwys drwy CaW megis llogi ystafelloedd er mwyn i gynghorwyr neu fentoriaid gwrdd â chleientiaid; a

- A yw adnoddau CaW neu DWP yn cael eu defnyddio i gefnogi CaW+?¹¹³

4. Gyda phwy arall ydych chi'n gweithio neu pwy ydych chi'n eu hystyried yn bartneriaid? Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gwasanaethau iechyd meddwl, cymdeithasau tai neu wasanaethau awdurdodau lleol.

- A allwch ddisgrifio rolau'r partneriaid?
- Beth maen nhw'n ei gynnig? Sut maen nhw'n helpu'r cyfranogwyr?
- Pa wasanaethau arbenigol sydd ar gael i helpu i gefnogi cleientiaid?

Modelau CaW a CaW+ a'r ffordd y cânt eu cyflawni

5. [CfW+ yn unig] A allwch ddisgrifio'r hyn y mae CaW yn ei gynnig yn yr ardal hon?

- Gyda phwy ydych chi'n gweithio? A oes gennych dargedau ar gyfer grwpiau gwahanol?
- **O ble y daw'r prif 'ffrydiau' o atgyfeiriadau?**
- Sut y mae'r Swyddogion Ymgysylltu â Chyfranogwyr a Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr yn gweithio?
- Sut ydych chi'n penderfynu beth sydd ei angen?

6. [CfW yn unig] Pa mor effeithiol y mae staff CaW DWP a'r ALI (neu CGS) yn gweithio gyda'i gilydd?

- **O ble y daw'r prif 'ffrydiau' o atgyfeiriadau?**
- A yw'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau'n cael eu hasesu gan y swyddog brysbennu?
- Beth yw manteision y bartneriaeth rhwng DWP, Llywodraeth Cymru ac ALLau/CGS?
- A yw'r dull partneriaeth yn creu unrhyw heriau? Er enghraifft, a yw cystadleuaeth rhwng y staff yn her?

¹¹³ Dywedwyd er nad yw DWP yn derbyn unrhyw arian CaW+, mae'n cefnogi'r rhaglen, er enghraifft, yn ystod cyfarfodydd brysbennu cleientiaid, bydd aelod o staff DWP yn cyfarfod i drafod achosion, er nad yw'n cael ei dalu am yr elfen honno o waith.

- Rwy'n deall mai dim ond staff DWP sy'n gallu cael mynediad at gofnodion DWP (e.e. ar hawliadau lles). A yw hyn yn wir ac a yw'n achosi unrhyw broblemau?
- Beth yw effaith diffyg cyfranogiad DWP a'i staff yn CaW+?

7. Sut y mae CaW a/neu CaW+ wedi newid ers 2018?

- **Beth ddigwyddodd yn ystod y pandemig COVID 19?** (e.e. a gawsoch eich adleoli? Sut y gwnaethoch chi newid o weithio yn y gymuned i weithio ar-lein / dros y ffôn?)
- Pa effaith a gafodd hyn ar eich llwyth achosion?
- **Pa mor gyflym ac effeithiol yr ymatebodd y rhaglen i'r cyfnod clo?**
- Pa effaith a gafodd y newid i ymgysylltu a darparu cymorth ar-lein neu dros y ffôn?¹¹⁴ Beth a gollwyd a beth a enillwyd?
- Pa effaith a gafodd y newid i gadw mwy o gofnodion electronig yn hytrach na dibynnu ar ffurflenni papur a 'llofnodion gwlyb'?
- Pa mor effeithiol weithiodd y broses frysbenneu ar-lein?
- **Pa effaith a gafodd y cyfnod clo ar yr hyfforddiant a gynigiwyd gan CaW neu CaW+?**
- Pa effaith a gafodd hyn ar gysylltiadau a chynnydd cyfranogwyr?
- Pa effaith y mae gweithredu'r system archebu electronig (EBS) ar gyfer hyfforddiant wedi'i chael?
- [os yn briodol] **A allwch ddweud wrthyf am y nifer sydd wedi manteisio ar y cynllun Chromebook?** Beth sy'n cyfrif am unrhyw niferoedd uchel neu isel sy'n manteisio ar y cynllun? Pa wahaniaeth y mae wedi ei wneud?
- [os yn briodol] sut y defnyddiwyd y cyllid ychwanegol ar gyfer CaW+ yn 2020 a 2021, i gefnogi'r ymateb i'r pandemig COVID-19? Pa wahaniaeth a wnaeth? A gyrhaeddodd y cyllid mewn pryd?¹¹⁵

¹¹⁴ Dywedir bod mentoriaid ALI/CGS yn gallu cyfarfod yn rhithwir drwy MS Teams ond na chaniatawyd i gynghorwyr DWP gefnogi cyfranogwyr yn rhithwir (boed dros Teams neu Zoom, ac mae hynny'n parhau i fod yn wir) ac mai dim ond dros y ffôn neu drwy e-bost y gallent gysylltu â chleientiaid.

¹¹⁵ Mae'n debygol y bu oedi rhwng dyrannu cyllid ychwanegol ac ehangu gweithrediadau CaW+.

- 8. Gan edrych y tu hwnt i'r pandemig, pa newidiadau pwysig eraill a wnaed i'r cyd-destun, y rhaglen a/neu'r ffordd y caiff ei chyflawni ers 2018?**
- **Faint o effaith y mae'r cynnig cymorth yn y gwaith wedi'i gael?** Faint o bobl sydd ei angen? Pam mae ei angen arnyn nhw?
 - Pa wahaniaeth y mae'r newidiadau wedi'i wneud? Pa mor effeithiol oedden nhw?
 - Pa effaith, os o gwbl, y mae cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (ers 2017) wedi'i chael?
 - Pa effaith, os o gwbl, y mae Brexit wedi'i chael?
- 9. Pa mor effeithiol y mae'r rhaglen wedi cael ei harwain a'i rheoli?**
- A yw'r canllawiau rhaglen a gyhoeddwyd gan dîm canolog CaW/CaW+ yn ddefnyddiol ac yn glir?
 - [Os nad yw wedi'i drafod uchod] Pa mor gyflym ac effeithiol y mae tîm canolog CaW / CaW+ wedi ymateb i heriau a chyfleoedd, fel y pandemig COVID 19 a sefydlu rhaglenni DWP newydd fel Ailgychwyn a Kickstart?
 - A oes unrhyw beth wedi cyfyngu ar eich gallu i ddarparu arweinyddiaeth, targedau clir a chyfeiriad i'ch tîm?
 - A oes unrhyw beth wedi cyfyngu ar eich gallu i gefnogi a herio eich tîm?
 - Pa mor gyflym ac effeithiol ydych chi'n teimlo eich bod wedi ymateb i heriau a chyfleoedd, fel y pandemig COVID 19 a sefydlu rhaglenni DWP newydd fel Ailgychwyn a Kickstart?

Perfformiad y Rhaglen

- 10. Pam ydych chi'n meddwl bod cysylltiadau pobl ifanc wedi bod yn llawer cryfach na chysylltiadau pobl 25 oed a hŷn?**
- Beth sy'n ysgogi hyn? [ystyriwch achosion e.e. diffyg cymhelliant; diffyg galluoedd; prinder cyfleoedd]
 - **Pa mor llwyddiannus fu'r rhaglen o ran ymgysylltu â chyfranogwyr â rhwystrau cymhleth?**
 - Sut ydych chi'n meddwl y gellid cynyddu cysylltiadau'r rhai 25 oed a hŷn?

- [os nad yw wedi'i ateb yn barod] Pa effaith a gafodd y pandemig ar gysylltiadau?¹¹⁶
- Sut y mae'r niferoedd a'r mathau o gysylltiadau nawr yn cymharu â'r rhai cyn y pandemig?

11. Pam yr ydych yn meddwl bod y deilliannau swyddi wedi bod yn gymharol gryf?

- Beth sy'n ysgogi hyn? [ystyriwch yr achosion e.e. effaith y rhaglen ar gymhelliant; galluoedd; y cyfleoedd sydd ar gael; newidiadau yn ymddygiad cyfranogwyr]
- [os nad yw wedi'i ateb yn barod] Pa effaith a gafodd y pandemig ar ddeilliannau swyddi?

12. Sut y mae cysylltiadau a deilliannau swyddi yn eich ardal chi yn cymharu ag ardaloedd eraill?

- Beth sy'n ysgogi hyn? [ystyriwch e.e. y gwahaniaeth mewn marchnadoedd llafur lleol; gwahaniaethau mewn dulliau cyflawni]
- A oedd effaith y pandemig COVID-19 yn wahanol yn yr ardal hon? Pam?

Cyllid ar gyfer CaW a CaW+

13. Mae CaW yn cael ei hariannu ar y cyd gan ESF, Llywodraeth Cymru a DWP, tra bod CaW+ yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Plant a Chymunedau. A yw'r modelau ariannu gwahanol yn cael effaith ar gyflawni?

- A yw cyllid CaW+ drwy'r Grant Plant a Chymunedau yn cynnig mwy o hyblygrwydd? [os ydy] sut y mae'r hyblygrwydd hwn wedi cael ei ddefnyddio?
- A yw'r cyllid blynyddol ar gyfer CaW+ yn creu unrhyw heriau? Er enghraifft, a yw'n ei gwneud yn anoddach recriwtio a chadw staff? A yw'n llesteirio cynllunio hirdymor?
- Pa effaith y mae'r fiwrocratiaeth ychwanegol a'r gwaith papur sy'n gysylltiedig â chyllid ESF yn ei chael ar CaW?
- [Trafodwch os yn briodol] Sut ac i ba raddau y mae cyllid y Grant Plant a Chymunedau yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgaredd CaW+ mewn ardaloedd

¹¹⁶ Noder: dywedir bod cysylltiadau CaW+ a deilliannau swyddi wedi codi yn ystod y pandemig. Nid yw'n hysbys i ba raddau yr oedd hyn i'w briodol i gynnydd mewn capasiti CaW+ ac i ba raddau yr oedd i'w briodoli i'r cynnydd yn yr angen/galw am gymorth cyflogaeth o ganlyniad i'r pandemig.

Awdurdodau Lleol? [Noder: Efallai ei bod yn haws gwneud hyn drwy adolygiad desg o gynlluniau cyflawni lleol].

Y Themâu Trawsbynciol ¹¹⁷ [CfW yn unig]

14. Pa gamau a gymerwyd i hyrwyddo Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd?

- Yn eich barn chi, pa mor effeithiol fu'r rhain?
- A oeddent yn briodol ar gyfer rhaglen fel CaW?
- **Sut y mae dewis iaith y cyfranogwyr yn cael ei nodi? A sut y mae eu hanghenion ieithyddol yn cael eu diwallu?**

15. Pa gamau a gymerwyd i hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy?

- Yn eich barn chi, pa mor effeithiol fu'r rhain?
- A oeddent yn briodol ar gyfer rhaglen fel CaW?

16. Pa gamau y mae'r prosiect wedi'u cymryd i fynd i'r afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol?

- Yn eich barn chi, pa mor effeithiol fu'r rhain?
- A oeddent yn briodol ar gyfer rhaglen fel CaW?

Myfyrdodau ar fodelau CaW a CaW+

17. Gan feddwl am y rhaglen yn ei chyfanrwydd, beth yw ei phrif gryfderau? Beth sydd wedi gweithio'n dda? Pam?

- A oes enghreifftiau penodol o arferion da yr hoffech dynnu sylw atynt?
- **Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw model cymunedol CaW a CaW+?**
- [os nad yw wedi'i ateb yn barod] Pa effaith a gafodd y pandemig ar hyn?

¹¹⁷ Noder: dylid ymdrin â chwestiynau ar y Gymraeg yn gynharach yn y cyfweiliad.

- Yn eich profiad chi beth yw cryfderau a gwendidau darpariaeth ar-lein o gymharu â darpariaeth wyneb yn wyneb?
- A fyddai CaW a CaW+ wedi gweithio, pe baent wedi dechrau ar-lein, yn hytrach na bod wedi'u lleoli mewn cymunedau? (ac fel y gwnaed yn dilyn y pandemig COVID, symud ar-lein yn ddiweddarach)

18. Beth sydd heb weithio cystal? Pam?

- O edrych yn ôl, beth fyddech chi wedi'i wneud yn wahanol?
- Beth sydd wedi dal y rhaglen yn ôl?

19. Pe baech chi'n cynllunio rhaglen cymorth cyflogaeth newydd, beth ydych chi'n meddwl yw'r gwersi allweddol i'w dysgu o CaW a CaW+?

- Ydych chi'n meddwl bod grwpiau targed CaW a CaW+ yn briodol?
- A fyddech chi'n canolbwyntio'r rhaglen ar ardaloedd daearyddol penodol, fel y gwnaeth CaW?
- Roedd CaW wedi cael ei chyfyngu gan ganllawiau ESF, ond roedd gan CaW+ fwy o hyblygrwydd. Faint o hyblygrwydd ydych chi'n meddwl y dylid ei gynnwys mewn rhaglenni yn y dyfodol? Ac a yw hyn yn creu risgiau?


20. A oes unrhyw beth arall nad ydym wedi ei drafod sy'n bwysig yn eich barn chi?

A oes gennych unrhyw gwestiynau i mi?

Diolch yn fawr iawn am eich amser.

Atodiad B. Theori Newid Fanwl ar gyfer CaW a CaW+

Figure 1: Communities for Work Overarching Theory of Change Model



Atodiad C. Ffynonellau data y sampl ar gyfer ymchwil ansoddol

Mae Tabl C.1. yn rhestru'r 22 o dimau CaW+ yn nhrefn deilliannau swyddi a gyflawnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf fel canran o'u targed. Er mwyn cymharu, cyflwynir 19 o dimau CaW ochr yn ochr â hyn (ond nid ydynt yn cael eu rhestru yn eu trefn, gan fod safle timau CaW a CaW+ yn wahanol). Mae ALLau yn y sampl wedi'u hamlygu mewn print trwm.

Er mwyn dangos perfformiad cymharol ALLau mewn perthynas â CaW a CaW+:

- mae'r chwe thîm gorau o ran deilliannau a'r chwe thîm gorau o ran cysylltiadau wedi'u lliwio'n **wyrdd**;
- mae'r saith tîm sydd yn y canol o ran deilliannau a chysylltiadau wedi'u lliwio'n **oren**;
- mae'r chwe thîm isaf o ran deilliannau a chysylltiadau wedi'u lliwio'n **goch**;

Dylid cymryd gofal wrth wneud cymariaethau uniongyrchol rhwng perfformiad CaW+ a CaW gan fod y cyfnodau pan aseswyd y perfformiad yn wahanol (mae CaW+ yn cwmpasu perfformiad yn 2021/22 yn unig, tra bod perfformiad CaW yn cael ei asesu o ddechrau'r rhaglen hyd fis Tachwedd 2021).

Tabl C.1 Perfformiad CaW+ yn 2021/22 yn unig, cysylltiadau a deilliannau swyddi a gyflawnwyd erbyn Rhagfyr 2021 fel canran o darged Ebrill 2022 a Dechrau Perfformiad Tîm CaW - Tachwedd 2021, cysylltiadau a deilliannau swyddi a gyflawnwyd fel canran o'r proffil

Rhanbarth	ALI	Cysylltiadau CaW+ (%)	Deilliannau swyddi CaW+ (%)	Cysylltiadau CaW (%)	Deilliannau swyddi CaW (%)
Y gogledd	Gwynedd	68	169	87	93
Y gorllewin	Pen-y-bont ar Ogwr	50	157	65	88
Y de-ddwyrain	RhCT	130	155	79	100
Y gogledd	Ynys Môn	94	117	105	132
Y de-ddwyrain	Caerdydd	66	117	72	115
Y Gorllewin a'r Canolbarth	Ceredigion	71	115	Ddim ar gael	Ddim ar gael
Y gogledd	Wrecsam	50	109	55	69
Y Gorllewin a'r Canolbarth	Powys	52	105	Ddim ar gael	Ddim ar gael
Y de-ddwyrain	Torfaen	42	77	83	114
Y gogledd	Conwy	62	76	65	95
Y gogledd	Sir Ddinbych	46	74	74	83
Y de-ddwyrain	Merthyr Tudful	24	72	71	85
Y de-ddwyrain	Casnewydd	41	68	63	83
Y gorllewin	Castell-nedd Port Talbot	53	66	67	101
Y de-ddwyrain	Bro Morgannwg	65	65	65	90

Y gorllewin	Sir Gaerfyrddin	64	62	88	154
Y de-ddwyrain	Sir Fynwy	57	55	Ddim ar gael	Ddim ar gael
Y gorllewin	Abertawe	50	55	70	114
Y gogledd	Sir y Fflint	33	51	51	53
Y de-ddwyrain	Caerffili	38	43	53	81
Y gorllewin	Sir Benfro	41	42	63	86
Y de-ddwyrain	Blaenau Gwent - GAVO	19	39	55	98

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru Ardaloedd sampl wedi'u nodi mewn print trwm.

Mae Tabl C.2. yn rhestru'r 22 o ardaloedd ALI yn nhermau'r newid mewn pwyntiau canran mewn diweithdra rhwng 2019 (y flwyddyn cyn y pandemig) a 2020 (y flwyddyn pan darodd y pandemig). Mae ALLau wedi'u rhestru, gyda'r pedair ardal yn cofnodi'r gostyngiad mwyaf mewn diweithdra wedi'u lliwio'n wyrdd, yr 14 yn y canol wedi'u lliwio'n felyn a'r pedair ardal lle y gwelwyd cynnydd, neu ddim newid, mewn cyfraddau diweithdra, wedi'u lliwio'n goch. Mae ALLau yn y sampl wedi'u hamlygu mewn print trwm.

Tabl C.2. Ardaloedd ALI wedi'u rhestru yn ôl effaith COVID 19 (cynnydd mewn diweithdra rhwng 2019 (Ionawr-Rhagfyr) a 2020 (Ionawr-Rhagfyr))

		2019 (%)	2020 (%)	Newid (pwyntiau canran)
Y de-ddwyrain	Merthyr Tudful	4.7	5.5	-0.8
Y Gorllewin a'r Canolbarth	Powys	2.7	2.9	-0.2
Y gogledd	Ynys Môn	4	4	0
Y gogledd	Sir y Fflint	3.2	3.2	0
Y gogledd	Gwynedd	3.5	3.4	0.1
Y gogledd	Conwy	3.7	3.6	0.1
Y Gorllewin a'r Canolbarth	Ceredigion	3.4	3.3	0.1
Y de-ddwyrain	Bro Morgannwg	3.6	3.5	0.1
Y gorllewin	Abertawe	4.5	4.3	0.2
Y de-ddwyrain	Rhondda Cynon Taf	4.8	4.6	0.2
Y gorllewin	Sir Gaerfyrddin	3.8	3.5	0.3
Y de-ddwyrain	Caerdydd	4.1	3.8	0.3
Y de-ddwyrain	Sir Fynwy	2.9	2.6	0.3
Y gorllewin	Castell-nedd Port Talbot	4.2	3.8	0.4
Y gogledd	Sir Ddinbych	4	3.5	0.5
Y gorllewin	Pen-y-bont ar Ogwr	4	3.5	0.5
Y de-ddwyrain	Caerffili	4.6	4.1	0.5
Y de-ddwyrain	Blaenau Gwent	4.7	4.2	0.5

Y de-ddwyrain	Torfaen	4.4	3.8	0.6
Y de-ddwyrain	Casnewydd	4.6	3.9	0.7
Y gogledd	Wrecsam	4.5	3.6	0.9
Y gorllewin	Sir Benfro	4.2	3.3	0.9

Nodiadau: roedd y cynnydd mwyaf mewn diweithdra rhwng Mawrth-Ebrill 2020, ond sefydlogodd ar ôl hynny ac yna dechreuodd ostwng yn ystod 2020 ([Ymchwil y Senedd, 2021c](#)). Mae'r data'n canolbwyntio ar flwyddyn, gan fod set ddata amgen ONS ar gyfer 2019/2020 yn cwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020 (gan gynnwys y cynnydd ym mis Mawrth 2020). Gellid defnyddio'r cyfrif hawlwy'r hefyd fel mesur amgen, yn hytrach na'r gyfradd ddiweithdra, er nad yw'r naill fesur na'r llall yn berffaith (ibid.). Gallai newid y cyfnod amser hefyd newid y safleoedd, gydag ardaloedd fel Conwy, Casnewydd a RhCT yn gweld cynnydd mawr yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra yn ystod y cyfnod Mawrth – Medi 2020 ([McCurdy, 2020](#)), ond cynnydd llai yn y gyfradd ddiweithdra dros y flwyddyn gyfan. Gellid hefyd ystyried cynnwys newidiadau mewn anweithgarwch economaidd, oherwydd, er enghraifft, efallai y bydd rhai pobl yn penderfynu nad yw'n werth chwilio am waith yn ystod y pandemig. O ystyried hyn, mae'n anodd dewis mesur diffiniol o effaith COVID-19 ar grwpiau targed rhaglenni CaW a CaW+, at ddibenion samplu.